# Cofnod y Trafodion
# The Record of Proceedings
# 13/10/2015

Cynnwys Contents


1. Cwestiynau i'r Prif Weinidog
1. Questions to the First Minister

2. Datganiad a Chyhoeddiad Busnes
2. Business Statement and Announcement

3. Datganiad: Modelau Cyflenwi Amgen ynghylch Cyflenwi Gwasanaethau Cyhoeddus: Cynllun Gweithredu ar gyfer Ymgynghoriad
3. Statement: Alternative Delivery Models in Public Service Delivery: An Action Plan for Consultation

4. Datganiad: Hynt Rhaglenni Ariannu yr UE
4. Statement: Progress of the EU Funding Programmes

5. Datganiad: Trechu Tlodi trwy Gymorth Cyflogadwyedd
5. Statement: Tackling Poverty through Employability Support

6. Datganiad: Gweithredu'r Strategaeth Gwaith Ieuenctid Cenedlaethol
6. Statement: Implementing the National Youth Work Strategy

7. Datganiad: Achub Bywydau Rhag Sepsis—Y Wybodaeth Ddiweddaraf am Gynnydd
7. Statement: Saving Lives from Sepsis—An Update on Progress

8. Gorchymyn Cynllunio Gwlad a Thref (Pŵer i Drechu Hawddfreintiau a Cheisiadau gan Ymgymerwyr Statudol) (Cymru) 2015
8. The Town and Country Planning (Power to Override Easements and Applications by Statutory Undertakers) (Wales) Order 2015


*Cyfarfu'r Cynulliad am 13:30 gyda'r Llywydd (y Fonesig Rosemary Butler) yn y Gadair.*

*The Assembly met at 13:30 with the Presiding Officer (Dame Rosemary Butler) in the Chair.*

13:30

### Y Llywydd / The Presiding Officer Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Good afternoon. The National Assembly for Wales is now in session.

Prynhawn da. Dyma ddechrau trafodion Cynulliad Cenedlaethol Cymru.

## 1. Cwestiynau i'r Prif Weinidog

## 1. Questions to the First Minister

*Mae [R] yn dynodi bod yr Aelod wedi datgan buddiant. Mae [W] yn dynodi bod y cwestiwn wedi'i gyflwyno yn Gymraeg.*

*[R] signifies the Member has declared an interest. [W] signifies that the question was tabled in Welsh.*

13:30

### Y Llywydd / The Presiding Officer Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

The first item this afternoon is questions to the First Minister, and question 1 is Eluned Parrott.

Yr eitem gyntaf y prynhawn yma yw cwestiynau i'r Prif Weinidog, a daw cwestiwn 1 gan Eluned Parrott.

**Ffordd Liniaru'r M4**

**The M4 Relief Road**

13:30

### Eluned Parrott Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

*1. A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am gynlluniau ar gyfer ffordd liniaru'r M4 o amgylch Casnewydd? OAQ(4)2507(FM)*

*1. Will the First Minister make a statement on plans for the M4 relief road around Newport? OAQ(4)2507(FM)*

13:30

### Carwyn Jones Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Our proposal for the M4 corridor around Newport is the sustainable, long-term solution to the current problems associated with that route, and it forms an essential part of our vision for an efficient integrated transport system for south Wales.

Ein cynnig ar gyfer coridor yr M4 o amgylch Casnewydd yw'r ateb cynaliadwy, hirdymor i'r problemau presennol sy'n gysylltiedig â'r llwybr hwnnw, ac mae'n rhan hanfodol o'n gweledigaeth ar gyfer system drafnidiaeth integredig effeithiol ar gyfer y de.

13:31 **Eluned Parrott** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Thank you for that answer, First Minister. I wonder if you could confirm for me how many millions of pounds the former leader of Plaid Cymru spent on buying up land to enable this road to be built, back when Plaid still thought that building a new M4 was a good idea, and could you confirm for me, again, for the hard of understanding, that the budget agreement between the Welsh Government and the Welsh Liberal Democrats was that while environmental assessments would take place, no building contract would be awarded during this Assembly term?

Diolch i chi am yr ateb yna, Brif Weinidog. Tybed a allech chi gadarnhau i mi faint o filiynau o bunnoedd a wariwyd gan gyn-arweinydd Plaid Cymru ar brynu tir i alluogi'r ffordd hon i gael ei hadeiladu, yn ôl pan oedd Plaid yn dal i feddwl bod adeiladu M4 newydd yn syniad da, ac a allech chi gadarnhau i mi, unwaith eto, ar gyfer y rhai sy'n ei chael hi'n anodd deall, mai'r cytundeb cyllideb rhwng Llywodraeth Cymru a Democratiaid Rhyddfrydol Cymru oedd er y byddai asesiadau amgylcheddol yn cael eu cynnal, na fyddai unrhyw gontract adeiladu yn cael ei ddyfarnu yn ystod tymor y Cynulliad hwn?

13:31 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

I can confirm that that remains the case, of course, as per the agreement. I can't answer for the previous leader of Plaid Cymru, but nevertheless, as a Government, we have outlined our plan for how to take this issue forward.

Gallaf gadarnhau bod hynny'n dal yn wir, wrth gwrs, yn unol â'r cytundeb. Ni allaf ateb ar ran cyn-arweinydd Plaid Cymru, ond serch hynny, fel Llywodraeth, rydym ni wedi amlinellu ein cynllun ar gyfer sut i fwrw ymlaen â'r mater hwn.

13:31 **William Graham** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

First Minister, may I confirm, as you well know, that we are firmly in favour of a relief road for the M4 around Newport? Could I ask you particularly: on the present consultation, it says that every pound spent on the motorway will equal £2 in benefits? Would you care to enlarge on that?

Brif Weinidog, a gaf i gadarnhau, fel y gwyddoch yn iawn, ein bod yn gadarn o blaid ffordd liniaru ar gyfer yr M4 o amgylch Casnewydd? A gaf i ofyn i chi'n benodol: ar yr ymgynghoriad presennol, mae'n dweud y bydd pob punt sy'n cael ei gwario ar y draffordd yn cyfateb i £2 mewn buddiannau? A hoffech chi ymhelaethu ar hynny?

13:32 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Firstly, I am grateful to the Member for confirming that the Welsh Conservatives are indeed all in favour of the relief road. He will know, from the assessments that we have made, that removing what is an extremely difficult area for traffic congestion around Newport will make it easier to access businesses and, indeed, properties further west. We know that the situation is not going to get better. We know that there is an adverse effect on air quality as a result of cars idling on a regular basis around the tunnels. We know from what the Confederation of British Industry have said, for example, that the benefits for south Wales are enormous if we can make sure that this traffic bottleneck is dealt with.

Yn gyntaf, rwy'n ddiolchgar i'r Aelod am gadarnhau bod Ceidwadwyr Cymru i gyd mewn gwirionedd o blaid y ffordd liniaru. Bydd yn gwybod, o'r asesiadau yr ydym ni wedi eu gwneud, y bydd cael gwared ar yr hyn sy'n ardal anodd iawn o ran tagfeydd traffig o amgylch Casnewydd yn ei gwneud yn haws i gyrraedd busnesau ac, yn wir, safleoedd ymhellach i'r gorllewin. Rydym ni'n gwybod nad yw'r sefyllfa'n mynd i wella. Rydym ni'n gwybod bod effaith andwyol ar ansawdd yr aer o ganlyniad i geir yn segura'n rheolaidd o amgylch y twneli. Rydym ni'n gwybod o'r hyn y mae Cydffederasiwn Diwydiant Prydain wedi ei ddweud, er enghraifft, bod y manteision i'r de yn enfawr os gallwn sicrhau yr ymdrinnir â'r dagfa draffig hon.

## Cynllunio ar gyfer Ffordd Liniaru'r M4

## Planning for the M4 Relief Road

13:33 **Lindsay Whittle** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

*2. Beth yw cyfanswm y gost hyd yma o gynllunio ar gyfer ffordd liniaru'r M4 o amgylch Casnewydd? OAQ(4)2495(FM)*

*2. What is the total cost so far of planning for the M4 relief road around Newport? OAQ(4)2495(FM)*

13:33 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Since July 2014, or since the 2014 decision was taken, costs were £4.2 million in 2014-15 and are forecast to be £19.8 million in 2015-16. That expenditure is what is necessary to correctly inform the statutory decision-making process.

Ers mis Gorffennaf 2014, neu ers gwneud y penderfyniad yn 2014, £4.2 miliwn oedd y costau yn 2014-15 a rhagwelir y byddant yn £19.8 miliwn yn 2015-16. Y gwariant hwnnw yw'r hyn sy'n angenrheidiol i lywio'r broses o wneud penderfyniadau statudol yn gywir.

13:33 **Lindsay Whittle** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Thank you, First Minister, for that reply, but the question I asked was what the total cost is. Now, in addition to the nearly £20 million spent this year, a total of £12 million has been spent on buying properties, and a further £20 million on consultant fees, giving a total of at least £52 million, and not a single inch of tarmac has been laid yet. We know that you have purchased 15 properties for £20 million and you've already resold seven of those. What steps will the Welsh Government be taking to make it clear to landowners and homeowners on the Gwent levels as to whether their property is likely to be blighted by this proposed black route? First Minister, it's the wrong route—ridiculously expensive; reject it now.

Diolch yn fawr, Brif Weinidog, am yr ateb yna, ond y cwestiwn a ofynnais oedd beth yw cyfanswm y gost. Nawr, yn ogystal â'r £20 miliwn a wariwyd eleni, gwariwyd cyfanswm o £12 miliwn ar brynu adeiladau, ac £20 miliwn arall ar ffioedd ymgynghorwyr, gan roi cyfanswm o £52 miliwn o leiaf, ac nid oes yr un fodfedd o darmac wedi ei gosod hyd yn hyn. Rydym ni'n gwybod eich bod wedi prynu 15 adeilad am £20 miliwn ac rydych chi eisoes wedi ailwerthu saith o'r rheini. Pa gamau fydd Llywodraeth Cymru yn eu cymryd i'w gwneud yn eglur i dirfeddianwyr a pherchnogion tai ar wastatir Gwent o ran a yw eu heiddo'n debygol o gael ei niweidio gan y llwybr du arfaethedig hwn? Brif Weinidog, nid hwn yw'r llwybr cywir—gwirion o ddrud; gwrthodwch ef nawr.

13:34 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Let me remind the Member of what the blue route would mean—30 residential properties would need to be demolished, more than double that of the black route. We know, from the strategic appraisal of alternatives, which Members can access, that, for example, just at one roundabout, the junction between the A48 southern distributor road and the A4810 steelworks road, 20 commercial premises would need to be demolished just at that roundabout. So, a number of commercial premises would need to be demolished in order for the road to be built. It's also a situation where it would be a dual carriageway, not a six-lane highway, which creates the same problem with the funnelling effect that already exists at the Brynglas Tunnels. It also creates the same problem that existed between Coryton and Cardiff Gate, where the road had to be widened in order to deal with the traffic.

Gadewch i mi atgoffa'r Aelod o'r hyn y byddai'r llwybr glas yn ei olygu—byddai angen dymchwel 30 o adeiladau preswyl, mwy na dwbl y nifer ar gyfer y llwybr du. Rydym ni'n gwybod, o'r gwerthusiad strategol o'r gwahanol ddewisiadau, sydd ar gael i'r Aelodau, er enghraifft, dim ond ger un gylchfan, y gyffordd rhwng ffordd ddosbarthu ddeheuol yr A48 a ffordd gwaith dur yr A4810, y byddai angen dymchwel 20 o adeiladau masnachol dim ond ger y gylchfan honno. Felly, byddai angen dymchwel nifer o adeiladau masnachol er mwyn i'r ffordd gael ei hadeiladu. Mae hefyd yn sefyllfa lle byddai'n ffordd ddeuol, nid priffordd chwe lôn, sy'n creu'r un broblem o ran y sianelu sydd eisoes yn bodoli yn Nhwneli Bryn-glas. Mae hefyd yn creu'r un broblem a oedd yn bodoli rhwng Coryton a Phorth Caerdydd, lle bu'n rhaid lledu'r ffordd er mwyn ymdrin â'r traffig.

There are also adverse effects on junctions, particularly for the Glan Llyn development, and there are negative effects in terms of access to Tata Steel. So, we can't pretend the blue route was somehow problem free—it clearly isn't. Now, that said, the Member surely must accept that we can't actually build a road of this magnitude without going through a proper statutory consultation process. There will be a full public inquiry, in the autumn of next year we expect. That process can examine all the evidence, with the final decision being taken in 2017. I don't think the Member would really want us to, in some way, shorten the consultation process with a view to getting the road built more quickly. It's important that there is a proper process that's followed.

Ceir effeithiau andwyol ar gyffyrdd hefyd, yn enwedig ar ddatblygiad Glan Llyn, a cheir effeithiau negyddol o ran mynediad at Tata Steel. Felly, ni allwn gymryd arnom fod y llwybr glas rywsut yn rhydd o broblemau—mae'n amlwg nad ydyw. Nawr, wedi dweud hynny, does bosib bod yr Aelod yn derbyn na allwn ni adeiladu ffordd o faint hon heb fynd trwy broses ymgynghori statudol briodol. Bydd ymchwiliad cyhoeddus llawn, yn ystod hydref y flwyddyn nesaf yr ydym ni'n disgwyl. Gall y broses honno archwilio'r holl dystiolaeth, cyn gwneud y penderfyniad terfynol yn 2017. Nid wyf yn credu y byddai'r Aelod wir eisiau i ni, mewn rhyw ffordd, gwtogi'r broses ymgynghori gyda golwg ar adeiladu'r ffordd ynghynt. Mae'n bwysig bod proses briodol yn cael ei dilyn.

13:35 **Nick Ramsay** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Can I remind the First Minister what the black route will actually mean for the area around the south of Newport? It will cut across at least five sites of special scientific interest, it will sever the north dock from the south dock of the port of Newport, and, of course, it will increase average journey times for some commuters along the existing motorway, which you are planning to de-motorway. Will you now accept what is blatantly obvious, First Minister: it's time to review all of this, look at all the route options—not just the black route—including the blue route, and get on with providing a solution that will actually work and is acceptable?

A gaf i atgoffa'r Prif Weinidog o'r hyn y bydd y llwybr du'n ei olygu i'r ardal o gwmpas de Casnewydd mewn gwirionedd? Bydd yn torri ar draws o leiaf pum safle o ddiddordeb gwyddonol arbennig, bydd yn gwahanu doc gogleddol porthladd Casnewydd o'r doc deheuol, ac, wrth gwrs, bydd yn cynyddu amseroedd teithio cyfartalog i rai cymudwyr ar hyd y draffordd bresennol, yr ydych chi'n bwriadu iddi beidio â bod yn draffordd. A wnewch chi dderbyn yr hyn sy'n gwbl amlwg nawr, Brif Weinidog: mae'n amser i adolygu hyn i gyd, edrych ar yr holl ddewisiadau o lwybrau—nid y llwybr du yn unig—gan gynnwys y llwybr glas, a mynd ati i gynnig ateb a fydd wir yn gweithio ac sy'n dderbyniol?

13:36 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Senedd.tv
Fideo Video

I seem to be living in a parallel universe here, as is he. I mean, not five minutes ago, I heard one of his own frontbenchers say that they're in favour of the relief road. Now, we know that there are well-known and documented public differences between members on that side of the Chamber—we saw them on Twitter, didn't we? And we know that there is a great deal of disunity on this issue. Well, again, I come back to the point that I made earlier on, and that is that we have already conducted an assessment of the blue route. Members can find it at gov.wales/M4Newport. That strategic appraisal of alternatives report is there, and that informed our decision to adopt a plan in July 2014.

Mae'n ymddangos fy mod i'n byw mewn bydysawd paralel yma, fel y mae yntau. Hynny yw, cwta bum munud yn ôl, clywais un o'r rheini ar ei feinciau blaen ei hun yn dweud ei fod o blaid y ffordd liniaru. Nawr, rydym ni'n gwybod bod gwahaniaethau cyhoeddus sydd wedi cael llawer o sylw rhwng aelodau ar yr ochr yna i'r Siambr—rydym ni wedi eu gweld ar Twitter, onid ydym? Ac rydym ni'n gwybod bod llawer iawn o ddiffyg undod ar y mater hwn. Wel, unwaith eto, rwy'n dychwelyd at y pwynt a wneuthum yn gynharach, sef ein bod eisoes wedi cynnal asesiad o'r llwybr glas. Gall aelodau ddod o hyd iddo yn gov.wales/M4Newport. Mae'r adroddiad gwerthusiad strategol o'r gwahanol ddewisiadau yno, a llywiodd hwnnw ein penderfyniad i fabwysiadu cynllun ym mis Gorffennaf 2014.

As I say, the blue route, I know, finds favour with some Members. It would cost between £600 million and £800 million. It could not be delivered more quickly, and it would deliver a dual carriageway, which wouldn't resolve the problem at all. We'd end up in a situation where we'd have to widen the road at some point in the future to deal with the problems. There are more residential properties that are potentially affected, far more commercial and industrial properties that are potentially affected. There are 4,000 homes at Glan Llyn, which I've seen, and which, again, would be right slap-bang against the motorway, so they would be adversely affected. And, indeed, we know that many junctions would need to be closed along the existing route if the blue route were to be adopted. So, there are huge problems with the blue route.

Fel y dywedais, gwn fod rhai Aelodau'n ffafrio'r llwybr glas. Byddai'n costio rhwng £600 miliwn ac £800 miliwn. Ni ellid ei gyflwyno'n gynt, a byddai'n cyflwyno ffordd ddeuol, na fyddai'n datrys y broblem o gwbl. Byddem ni mewn sefyllfa yn y pen draw lle byddai'n rhaid i ni ledu'r ffordd ar ryw adeg yn y dyfodol i ymdrin â'r problemau. Mae mwy o adeiladau preswyl a allai gael eu heffeithio, llawer mwy o adeiladau masnachol a diwydiannol a allai gael eu heffeithio. Mae 4,000 o gartrefi yng Nglan Llyn, yr wyf i wedi eu gweld, ac a fyddai, unwaith eto, drws nesaf i'r draffordd, felly byddent yn cael eu heffeithio'n andwyol. Ac, yn wir, rydym ni'n gwybod y byddai'n rhaid cau llawer o gyffyrdd ar hyd y llwybr presennol pe byddai'r llwybr glas yn cael ei fabwysiadu. Felly, mae problemau anferth gyda'r llwybr glas.

We understand, of course, that the situation is controversial—and we've heard views within the Chamber. But we've made the assessment, and we've taken the decision that the black route is the way forward. But, of course, there will be a proper statutory process that we have to follow.

Rydym ni'n deall, wrth gwrs, bod y sefyllfa'n ddadleuol—ac rydym ni wedi clywed safbwyntiau o fewn y Siambr. Ond rydym ni wedi cynnal yr asesiad, ac rydym ni wedi gwneud y penderfyniad mai'r llwybr du yw'r ffordd ymlaen. Ond, wrth gwrs, bydd proses statudol briodol y mae'n rhaid i ni ei dilyn.

## Cwestiynau Heb Rybudd gan Arweinwyr y Pleidiau

## Questions Without Notice from the Party Leaders

13:37 **Y Llywydd / The Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

We now move to questions from the party leaders and, first this afternoon, the Welsh Liberal Democrat leader, Kirsty Williams.

Symudwn at gwestiynau gan arweinwyr y pleidiau nawr, ac arweinydd Democratiaid Rhyddfrydol Cymru, Kirsty Williams, sydd gyntaf y prynhawn yma.

13:37 **Kirsty Williams** Bywgraffiad Biography

*Arweinydd Democratiaid Rhyddfrydol Cymru / The Leader of the Welsh Liberal Democrats*

Senedd.tv
Fideo Video

Thank you, Presiding Officer. First Minister, can you explain to the people of north Wales why it is that only 60 per cent of them receive urgent radiotherapy within 14 days, whereas, in south Wales, the figure is almost 100 per cent?

Diolch i chi, Lywydd. Brif Weinidog, a allwch chi esbonio i bobl y gogledd pam mai dim ond 60 y cant ohonyn nhw sy'n derbyn radiotherapi brys o fewn 14 diwrnod, tra bod y ffigur bron i 100 y cant yn y de?

13:38 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Senedd.tv Fideo Video

Yes, it's because, of course, of the need to replace a machine in Glan Clwyd. That is something I know that the health board is looking at, and I believe it forms the subject of their meeting today.

Gallaf, mae oherwydd, wrth gwrs, yr angen i newid peiriant yng Nglan Clwyd. Mae hynny'n rhywbeth yr wyf yn gwybod bod y bwrdd iechyd yn ei ystyried, ac rwy'n credu mai dyma destun ei gyfarfod heddiw.

13:38 **Kirsty Williams** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Indeed, First Minister, perhaps one of the reasons why those figures are so starkly different for patients in north Wales to those in the south is because we need an additional new linear accelerator at Ysbyty Glan Clwyd. Now, the charitable sector has pledged to fund the capital costs of buying that machine for north Wales patients, and the health board is, indeed, debating today whether they can afford to staff that new machine. Of course, this is the same health board that had to reject new prostate cancer equipment, which was agreed between your party and mine as part of a budget deal, because they couldn't afford to run the machine. What are you going to do to ensure that people in north Wales get access to that linear accelerator?

Yn wir, Brif Weinidog, efallai mai un o'r rhesymau pam mae'r ffigurau hynny mor drawiadol o wahanol i gleifion yn y gogledd i'r rhai yn y de yw oherwydd bod angen cyflymydd llinellol newydd ychwanegol arnom yn Ysbyty Glan Clwyd. Nawr, mae'r sector elusennol wedi addo ariannu costau cyfalaf prynu'r peiriant hwnnw ar gyfer cleifion y gogledd, ac, yn wir, mae'r bwrdd iechyd yn trafod heddiw pa un a yw'n gallu fforddio i staffio'r peiriant newydd hwnnw. Wrth gwrs, dyma yr un bwrdd iechyd y bu'n rhaid iddo wrthod offer canser y prostad newydd, y cytunwyd arno rhwng eich plaid chi a fy un innau yn rhan o gytundeb cyllideb, gan na allai fforddio i weithredu'r peiriant. Beth ydych chi'n mynd i'w wneud i sicrhau bod pobl yn y gogledd yn cael mynediad at y cyflymydd llinellol hwnnw?

13:39 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Senedd.tv Fideo Video

Well, we'd encourage, of course, the health board to look carefully at the proposal. We stand ready to help them. It's right to say that the level of access is different between north and south, and that cannot be allowed to continue.

Wel, byddem yn annog, wrth gwrs, y bwrdd iechyd i edrych yn ofalus ar y cynnig. Rydym ni'n barod i helpu. Mae'n iawn dweud bod lefel y mynediad yn wahanol rhwng y gogledd a'r de, ac na ellir caniatáu i hynny barhau.

13:39 **Kirsty Williams** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Thank you, First Minister. Sometimes, all of us here in this Chamber can be guilty of focusing relentlessly on targets, but a recent Institute of Welsh Affairs event that looked into patients' experience of cancer services in Wales highlighted some of the real concerns that those patients and their families had. They included worries over how they would physically get to their hospital appointments, how long they would have to wait in the hospital once they got there, and there was real confusion over your Government's promise that everyone would have a key worker. What steps are you taking to ensure that these very real concerns—but sometimes the concerns that aren't debated fully here in the Assembly—are addressed when developing cancer services in Wales?

Diolch yn fawr, Brif Weinidog. Weithiau, gall pob un ohonom ni yma yn y Siambr hon fod yn euog o ganolbwyntio'n ddi-baid ar dargedau, ond amlygodd digwyddiad diweddar y Sefydliad Materion Cymreig a ystyriodd brofiad cleifion o wasanaethau canser yng Nghymru rai o'r pryderon gwirioneddol oedd gan y cleifion hynny a'u teuluoedd. Roeddent yn cynnwys pryderon ynghylch sut y byddent yn gallu mynd i'w hapwyntiadau ysbyty yn gorfforol, pa mor hir y byddai'n rhaid iddyn nhw aros yn yr ysbyty ar ôl iddynt gyrraedd yno, ac roedd dryswch gwirioneddol am addewid eich Llywodraeth y byddai gan bawb weithiwr allweddol. Pa gamau ydych chi'n eu cymryd i sicrhau bod y pryderon gwirioneddol iawn hyn —ond y pryderon nad ydynt yn cael eu trafod yn llawn yma yn y Cynulliad weithiau—yn cael sylw wrth ddatblygu gwasanaethau canser yng Nghymru?

13:40 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Senedd.tv
Fideo Video

Well, this all forms part of the cancer delivery plan. We do know that the Wales cancer patient experience survey, which took place in 2013, showed that 89 per cent of respondents rated their care as very good or excellent. We know that the 31-day and 62-day targets are there and we know that we have a good story to tell in terms of those targets. And we know, of course, that, for the first time, over 70 per cent of people diagnosed with cancer are now surviving for at least one year. Five-year survival is also increasing. And that is something to celebrate. It is also true that the number of urgent suspected cancer referrals has increased by 12 per cent over the last year, but the service has been able to manage the continuing improvement in terms of the service that it delivers even with that substantial increase in the number of referrals.

Wel, mae hyn i gyd yn rhan o'r cynllun cyflawni ar ganser. Rydym ni'n gwybod bod arolwg profiad cleifion canser Cymru, a gynhaliwyd yn 2013, yn dangos bod 89 y cant o ymatebwyr o'r farn bod eu gofal yn dda iawn neu'n ardderchog. Gwyddom fod y targedau 31 diwrnod a 62 diwrnod yno a gwyddom fod gennym stori dda i'w hadrodd o ran y targedau hynny. Ac rydym ni'n gwybod, wrth gwrs, am y tro cyntaf, bod dros 70 y cant o bobl sy'n cael diagnosis o ganser yn goroesi am o leiaf blwyddyn erbyn hyn. Mae goroesiad pum mlynedd yn cynyddu hefyd. Ac mae hynny'n rhywbeth i'w ddathlu. Mae hefyd yn wir fod nifer yr atgyfeiriadau brys lle ceir amheuaeth o ganser wedi cynyddu 12 y cant dros y flwyddyn ddiwethaf, ond mae'r gwasanaeth wedi gallu rheoli'r gwelliant parhaus o ran y gwasanaeth y mae'n ei ddarparu hyd yn oed gyda'r cynnydd sylweddol hwnnw yn nifer yr atgyfeiriadau.

13:41 **Y Llywydd / The Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

We now move to the leader of the opposition, Andrew R.T. Davies.

Symudwn nawr at arweinydd yr wrthblaid, Andrew R.T. Davies.

13:41 **Andrew R.T. Davies** Bywgraffiad Biography

*Arweinydd yr Wrthblaid / The Leader of the Opposition*

Senedd.tv
Fideo Video

Thank you, Presiding Officer. First Minister, under your Government, the adult part-time education budget has been cut by 50 per cent. There are now 90,000 fewer adults in part-time learning than there were 10 years ago. Your own skills Minister has said that the decisions that have been made have been awful decisions. Do you agree that the decisions, which she has taken in this particular area, and your Government more generally, to cut 90,000 places and 50 per cent of the funding for part-time adult learning are awful decisions?

Diolch i chi, Lywydd. Brif Weinidog, o dan eich Llywodraeth, mae'r gyllideb addysg ran-amser i oedolion wedi cael ei thorri 50 y cant. Erbyn hyn, mae 90,000 yn llai o oedolion mewn addysg ran-amser nag a oedd 10 mlynedd yn ôl. Mae eich Gweinidog sgiliau eich hun wedi dweud bod y penderfyniadau a wnaed wedi bod yn benderfyniadau ofnadwy. A ydych chi'n cytuno bod y penderfyniadau, y mae hi wedi eu gwneud yn y maes penodol hwn, a'ch Llywodraeth yn fwy cyffredinol, i dorri 90,000 o leoedd a 50 y cant o'r cyllid ar gyfer dysgu rhan-amser i oedolion yn benderfyniadau ofnadwy?

13:41 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Senedd.tv
Fideo Video

He is spinning like a whirling dervish when he says that because, as he knows full well, what the Minister said was that they've been awful decisions to make. And they have been awful decisions to make, because of the cuts we've received from the UK Government—from his own Government. We have nevertheless, of course, introduced Jobs Growth Wales, which has enabled many young people to get a job—over 17,000 job opportunities created. And he does have some nerve in complaining about this when his own party, his own policy, is to cut education spending by at least 12 per cent. So, if he came here and suggested we should cut education more, that would be in line with his own policy, but for him to turn round and say that more money should be spent on education runs counter to his own policy and the cuts his own party has made.

Mae'n ymestyn y gwir i'r eithaf wrth ddweud hynny oherwydd, fel y mae'n gwybod yn iawn, yr hyn a ddywedodd y Gweinidog oedd eu bod wedi bod yn benderfyniadau ofnadwy i'w gwneud. Ac maen nhw wedi bod yn benderfyniadau ofnadwy i'w gwneud, oherwydd y toriadau yr ydym ni wedi eu cael gan Lywodraeth y DU—gan ei Lywodraeth ef ei hun. Rydym ni, serch hynny, wrth gwrs, wedi cyflwyno Twf Swyddi Cymru, sydd wedi galluogi llawer o bobl ifanc i gael swydd—crëwyd dros 17,000 o gyfleoedd am swyddi. Ac mae ganddo fe dipyn o wyneb yn achwyn am hyn pan fo ei blaid ei hun, ei bolisi ei hun, yw torri gwariant ar addysg gan 12 y cant o leiaf. Felly, pe byddai'n dod yma ac yn awgrymu y dylem ni dorri addysg ymhellach, byddai hynny'n cyd-fynd â'i bolisi ei hun, ond mae'r ffaith iddo droi rownd a dweud y dylid gwario mwy o arian ar addysg yn mynd yn groes i'w bolisi ei hun a'r toriadau y mae ei blaid ei hun wedi eu gwneud.

13:42 **Andrew R.T. Davies** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

First Minister, we would empower people to actually learn and develop as they go through their lives. Ultimately, it's about balance and it's about decision. Your policy seems to be ageist, First Minister, in that the older you get in Wales, the less chance you have to educate yourself and retrain yourself. Do you not think, therefore, that the policy decisions that you have taken do need revisiting and that you do need to re-address the imbalance that exists in the training provision that is available to older people in Wales, especially when they seek that retraining in later life?

Brif Weinidog, byddem yn grymuso pobl i ddysgu a datblygu wrth iddyn nhw fynd trwy eu bywydau. Yn y pen draw, mae'n ymwneud â chydbwysedd ac mae'n ymwneud â phenderfyniad. Mae'n ymddangos bod eich polisi chi'n gwahaniaethu ar sail oedran, Brif Weinidog, oherwydd yr hynaf yr ydych chi yng Nghymru, y lleiaf yw'r cyfle sydd gennych i addysgu eich hun ac ailhyfforddi eich hun. Onid ydych chi'n meddwl, felly, bod angen ailystyried y penderfyniadau polisi yr ydych chi wedi eu gwneud a bod angen i chi edrych eto ar yr anghydbwysedd sy'n bodoli yn y ddarpariaeth o hyfforddiant sydd ar gael i bobl hŷn yng Nghymru, yn enwedig pan eu bod yn chwilio am yr ailhyfforddi hwnnw yn ddiweddarach mewn bywyd?

13:42 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Senedd.tv Fideo Video

Yes, of course we want older people to have access to training, but we know, in particular, that people need to acquire skills young as well, which is why we have Jobs Growth Wales. We're not in the business of attacking young people, as his party is. We've seen that, of course, in the benefit system. We see that in all the benefits that have been taken away from young people and now, of course, we know he wants to increase tuition fees, just the same as England—I mean, it's not even a different policy in Wales but, 'Whatever England does, we want to do in Wales'—so our students pay £18,000 more per year. Well, he has to explain how it is that he wants to improve access to education yet make it more expensive.

Ydym, wrth gwrs ein bod ni eisiau i bobl hŷn gael mynediad at hyfforddiant, ond gwyddom, yn arbennig, bod angen i bobl gaffael sgiliau yn ifanc hefyd, a dyna pam mae gennym ni Twf Swyddi Cymru. Nid ydym ni yn y busnes o ymosod ar bobl ifanc, fel y mae ei blaid ef. Rydym ni wedi gweld hynny, wrth gwrs, yn y system fudd-daliadau. Rydym ni'n gweld hynny yn yr holl fudd-daliadau sydd wedi cael eu cymryd oddi ar bobl ifanc a nawr, wrth gwrs, rydym ni'n gwybod ei fod eisiau cynyddu ffioedd dysgu, yn union yr un fath â Lloegr—hynny yw, nid yw hyd yn oed yn bolisi gwahanol yng Nghymru ond, 'Beth bynnag y mae Lloegr yn ei wneud, rydym ninnau eisiau ei wneud yng Nghymru'—felly mae ein myfyrwyr yn talu £18,000 yn fwy y flwyddyn. Wel, mae'n rhaid iddo egluro sut y mae eisiau gwella mynediad at addysg ac eto ei wneud yn ddrutach.

13:43 **Andrew R.T. Davies** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

First Minister, I believe that, if someone is approaching a vocational course in further education, they deserve the same level of support as someone going to higher education. I appreciate I never went to higher education. I didn't have a free education like some people sitting around here. I actually went out and earned a vocational trade, I did—

Brif Weinidog, rwy'n credu, os bydd rhywun yn astudio cwrs galwedigaethol mewn addysg bellach, ei fod yn haeddu'r un lefel o gymorth â rhywun sy'n mynd i addysg uwch. Rwy'n gwerthfawrogi na dderbyniais i addysg uwch. Ni chefais addysg am ddim fel rhai pobl sy'n eistedd o gwmpas yma. Fe es i allan yn ymarferol a dysgu crefft alwedigaethol, fe wnes i—

13:43 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Senedd.tv Fideo Video

I didn't go to boarding school.

Ni es i i ysgol breswyl.

13:43 **Andrew R.T. Davies** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

What I'm saying to you, First Minister, is that, as the older person's commissioner pointed out on the weekend, your position seems to be ageist in that the older you are, the less chance you get to have support from the Welsh Government, and, as I've pointed out, 50 per cent cuts and 90,000 fewer places available. You can only deduce from that that you do have an ageist policy when it comes to supporting older people retraining in the workplace. We have a clear policy of supporting people across the education estate. We believe that you shouldn't discriminate against one sector over another. Will you revisit your policy or are you going to stick to your ageist policies?

Yr hyn yr wyf yn ei ddweud wrthych chi, Brif Weinidog, fel y nododd y comisiynydd pobl hŷn ar y penwythnos, yw ei bod yn ymddangos bod eich safbwynt yn gwahaniaethu ar sail oedran o ran po hynaf yr ydych chi, y lleiaf o gyfle sydd gennych i gael cymorth gan Lywodraeth Cymru, ac, fel yr wyf wedi ei nodi, toriadau o 50 y cant a 90,000 yn llai o leoedd ar gael. Yr unig beth y gallwch chi ei gasglu o hynny yw bod gennych chi bolisi sy'n gwahaniaethu ar sail oedran pan ddaw i gefnogi pobl hŷn i ailhyfforddi yn y gweithle. Mae gennym ni bolisi eglur o gefnogi pobl ar draws yr ystâd addysg. Rydym ni'n credu na ddylech chi wahaniaethu yn erbyn un sector ar draul un arall. A wnewch chi ailystyried eich polisi neu a ydych chi'n mynd i gadw at eich polisïau sy'n gwahaniaethu ar sail oedran?

13:44 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

What we won't do is launch a war on the young, as he has done and his party has done. He says he wants people to have support in FE. Does he support the Assembly learning grant, then? [Laughter.] Is that something that he fully supports? No, no, no, he doesn't. I thought not. He didn't think of that when he was on his feet. And why is it, then, that he fails to support the tuition fee grant? Why is it that he says, 'Whatever England does, we must follow in Wales'? We don't agree with that. We have Welsh policies for Welsh issues. And I have to say to him that he mentions free education as if it were something abnormal. I didn't go to a boarding school; that's true. I went to a comprehensive, like most people in this Chamber. I don't see free education as something that we should see as a privilege; it's a right to have a free education. We want to make sure that people have good free education in schools, a good free education in FE colleges, and reasonable access to cheap education in universities—all the things that his party opposes.

Yr hyn na fyddwn yn ei wneud yw lansio rhyfel ar yr ifanc, fel y mae ef wedi ei wneud ac y mae ei blaid wedi ei wneud. Mae'n dweud ei fod eisiau i bobl gael cymorth mewn Addysg Bellach. A yw'n cefnogi grant dysgu y Cynulliad, felly? [Chwerthin.] A yw hynny'n rhywbeth y mae'n ei gefnogi'n llwyr? Nac ydy, nac ydy, nac ydy, dydy e ddim. Doeddwn i ddim yn meddwl ei fod. Ni feddyliodd am hynny pan oedd ar ei draed. A pham, felly, y mae'n methu â chefnogi'r grant ffioedd dysgu? Pam mae'n dweud, 'Beth bynnag mae Lloegr yn ei wneud, mae'n rhaid i ninnau ddilyn yng Nghymru'? Nid ydym ni'n cytuno â hynny. Mae gennym ni bolisïau Cymru ar gyfer materion Cymru. Ac mae'n rhaid i mi ddweud wrtho ei fod yn sôn am addysg am ddim fel petai'n rhywbeth anghyffredin. Ni es i i ysgol breswyl; mae hynny'n wir. Es i i ysgol gyfun, fel y rhan fwyaf o bobl yn y Siambr hon. Nid wyf yn gweld addysg am ddim fel rhywbeth y dylem ni ei ystyried yn fraint; mae cael addysg am ddim yn hawl. Rydym ni eisiau gwneud yn siŵr bod pobl yn cael addysg dda am ddim mewn ysgolion, addysg dda am ddim mewn colegau Addysg Bellach, a mynediad rhesymol at addysg rad mewn prifysgolion—yr holl bethau y mae ei blaid ef yn eu gwrthwynebu.

Senedd.tv Fideo Video

13:45 **Y Llywydd / The Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

We now move to the leader of Plaid Cymru, Leanne Wood.

Symudwn yn awr at arweinydd Plaid Cymru, Leanne Wood.

Senedd.tv Fideo Video

13:45 **Leanne Wood** Bywgraffiad Biography

*Arweinydd Plaid Cymru / The Leader of Plaid Cymru*

Diolch, Lywydd. First Minister, there are reports today of you having held constructive discussions with the Secretary of State for Wales on the draft Wales Bill. Are you in a position to share with us the contents of those discussions, please, today?

Diolch, Lywydd. Brif Weinidog, ceir adroddiadau heddiw eich bod wedi cynnal trafodaethau adeiladol gydag Ysgrifennydd Gwladol Cymru ar y Bil Cymru drafft. A ydych chi mewn sefyllfa i rannu cynnwys y trafodaethau hynny â ni, os gwelwch yn dda, heddiw?

Senedd.tv Fideo Video

13:45 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Yes. I made the point to the Secretary of State—and it's a point that he has accepted publicly, so I'm not saying anything beyond the meeting—that trying to construct a reserved-powers model within one jurisdiction of England and Wales is exceptionally difficult. There will need to be a great deal of work to ensure that any new Act is something that does not restrict the powers of this Assembly and, of course, doesn't make it more difficult for the Assembly to operate.

Ydw. Gwneuthum y pwynt wrth yr Ysgrifennydd Gwladol—ac mae'n bwynt y mae wedi ei dderbyn yn gyhoeddus, felly nid wyf yn dweud unrhyw beth y tu hwnt i'r cyfarfod—bod ceisio llunio model pwerau a gadwyd o fewn un awdurdodaeth Cymru a Lloegr yn eithriadol o anodd. Bydd angen gwneud llawer iawn o waith i sicrhau bod unrhyw Ddeddf newydd yn rhywbeth nad yw'n cyfyngu ar bwerau'r Cynulliad hwn ac, wrth gwrs, nad yw'n ei gwneud yn fwy anodd i'r Cynulliad weithredu.

Senedd.tv Fideo Video

13:46 **Leanne Wood** Bywgraffiad Biography

Thank you for your answer, First Minister. It's welcome that the Secretary of State for Wales appears to be rowing back on withdrawing some of those powers that the Assembly currently has. It seems that the main stumbling block remains the issue of the Welsh legal jurisdiction. Were there any indications from the Secretary of State to revisit that question, please?

Diolch i chi am eich ateb, Brif Weinidog. Croesewir y ffaith ei bod yn ymddangos bod Ysgrifennydd Gwladol Cymru wedi ailystyried rhag tynnu rhai o'r pwerau hynny sydd gan y Cynulliad ar hyn o bryd yn ôl. Mae'n ymddangos mai'r prif faen tramgwydd o hyd yw'r mater o awdurdodaeth gyfreithiol Cymru. A oedd unrhyw arwyddion gan yr Ysgrifennydd Gwladol y byddai'n ailystyried y cwestiwn hwnnw, os gwelwch yn dda?

Senedd.tv Fideo Video

13:46 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Senedd.tv Fideo Video

He won't revisit it. Now, the easiest way to resolve the reserved-powers model issue is via a single jurisdiction. It can be done without one, but it's immensely more complicated and more vigilance needs to be exercised to make sure that powers are not inadvertently removed from this Chamber. That is something that officials will continue to discuss with Wales Office officials over the coming weeks and months.

Ni wnaiff ei ailystyried. Nawr, y ffordd hawddaf o ddatrys y mater model pwerau a gadwyd yw drwy un awdurdodaeth. Gellir ei wneud heb un, ond mae'n llawer iawn mwy cymhleth ac mae angen bod yn fwy gwyliadwrus i wneud yn siŵr nad yw pwerau'n cael eu diddymu'n anfwriadol o'r Siambr hon. Mae hynny'n rhywbeth y bydd swyddogion yn parhau i'w drafod gyda swyddogion Swyddfa Cymru dros yr wythnosau a'r misoedd nesaf.

13:46 **Leanne Wood** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

First Minister, I know that you would agree with me that the issue of a distinct legal jurisdiction is crucial for a working devolution system that delivers for people here, and you and I have both repeatedly made the point that Wales is the odd one out on these islands on this matter. For whatever historical reasons, the democratic maturity of this country now means that a jurisdiction is vital. The entire St David's Day process has been a race to the bottom. It's been called by some the 'lowest common denominator' approach; it started with Whitehall departments being asked what they would be prepared to devolve rather than consideration of what's in the best interests of people here in Wales. So, we can now expect a weak Bill that will, undoubtedly, lead to the need for another Bill almost immediately.

Brif Weinidog, rwy'n gwybod y byddwch chi'n cytuno â mi bod y mater o awdurdodaeth gyfreithiol ar wahân yn hanfodol ar gyfer system ddatganoli ymarferol sy'n darparu ar gyfer pobl yma, ac rydych chi a minnau wedi gwneud y pwynt mai Cymru yw'r eithriad ar yr ynysoedd hyn o ran y mater hwn. Am ba bynnag resymau hanesyddol, mae aeddfedrwydd democrataidd y wlad hon yn golygu erbyn hyn bod awdurdodaeth yn hanfodol. Mae holl broses Dydd Gŵyl Dewi wedi bod yn ras i'r gwaelod. Fe'i galwyd yn ddull 'cyfenwadur lleiaf' gan rai; dechreuodd drwy ofyn i adrannau Whitehall beth y byddent yn barod ei ddatganoli yn hytrach nag ystyriaeth o'r hyn sydd er lles gorau pobl yma yng Nghymru. Felly, gallwn ddisgwyl Bil gwan bellach a fydd, yn ddiau, yn arwain at yr angen am Fil arall bron ar unwaith.

So, if current talks prove futile again, would your party be prepared to join with mine to defeat the Bill and seek a new one after next year's Welsh general election, when a new Welsh Government is elected on a new mandate for the next stage of devolution?

Felly, os bydd y trafodaethau presennol yn ofer unwaith eto, a fyddai eich plaid yn barod i ymuno â fy un i er mwyn trechu'r Bil a cheisio un newydd ar ôl etholiad cyffredinol Cymru y flwyddyn nesaf, pan fydd Llywodraeth Cymru newydd yn cael ei hethol ar fandad newydd ar gyfer y cam nesaf o ddatganoli?

13:48 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Senedd.tv Fideo Video

That depends, of course, on what's in the Bill. At the moment, it's right to say that the Bill needs a great deal of work before it can be regarded as acceptable. I think that's generally understood. To be charitable to the Secretary of State, I don't believe that it's his intention to restrict the powers of this Assembly, but I think that the consequences of the current Bill—I know Members haven't seen it—there's a great danger that that would happen. It's right to say that Whitehall departments were asked what they thought was devolved, and, of course, they will naturally tend towards a minimalist model of devolution.

Mae hynny'n dibynnu, wrth gwrs, ar yr hyn sydd yn y Bil. Ar hyn o bryd, mae'n iawn i ddweud bod angen gwneud llawer iawn o waith ar y Bil cyn y gellir ei ystyried fel bod yn dderbyniol. Rwy'n credu y deallir hynny yn gyffredinol. I fod yn deg â'r Ysgrifennydd Gwladol, nid wyf yn credu mai ei fwriad yw cyfyngu ar bwerau'r Cynulliad hwn, ond credaf o ran canlyniadau'r Bil presennol—rwy'n gwybod nad yw'r Aelodau wedi ei weld—ceir perygl mawr y byddai hynny'n digwydd. Mae'n iawn i ddweud y gofynnwyd i adrannau Whitehall beth yr oeddent yn ei feddwl oedd wedi ei ddatganoli, ac, wrth gwrs, byddant yn naturiol yn ffafrio model sydd â chyn lleied o ddatganoli â phosib.

One of the things that does concern me is the implication that somehow, because there will be a single jurisdiction, there is some kind of limit on how much separate Welsh legislation there can be, as if there was almost some kind of quota. Now, the Secretary of State assures me that that isn't the case, but the difficulty with a single jurisdiction is that there are some in Whitehall departments who will take the view that that is exactly what should happen. Now, we can't—. We're not going to roll back to the days before 2011. The people of Wales have spoken; they want us to be able to legislate in those areas that are devolved. They don't want artificial restrictions placed on that. They don't care what the jurisdiction does, bluntly, whether it's a single jurisdiction or a Welsh jurisdiction. I honestly cannot understand what the hang-up is about the jurisdiction. Yes, it's right to say there are issues about the penal system, the prison system, probation and the costs associated with that that would need to be resolved. But Northern Ireland is a jurisdiction, so is Scotland and so is the Isle of Man, as I said last week. There are at least 51 in the US and the US hasn't fallen apart. I don't quite understand what the adherence is to the single jurisdiction, given the fact that Northern Ireland, with 1.8 million people, has been a single jurisdiction since, I think, 1921.

Un o'r pethau sydd yn peri pryder i mi yw'r awgrym, rywsut, gan y bydd un awdurdodaeth, bod rhyw fath o gyfyngiad ar faint o ddeddfwriaeth i Gymru ar wahân y gellir ei chael, fel pe byddai rhyw fath o gwota bron. Nawr, mae'r Ysgrifennydd Gwladol yn fy sicrhau nad yw hynny'n wir, ond yr anhawster gydag un awdurdodaeth yw bod rhai yn adrannau Whitehall a fydd o'r farn mai dyna'n union ddylai ddigwydd. Nawr, ni allwn—. Nid ydym ni'n mynd i ddychwelyd i'r dyddiau cyn 2011. Mae pobl Cymru wedi penderfynu; maen nhw eisiau i ni allu deddfu yn y meysydd hynny sydd wedi'u datganoli. Nid ydyn nhw eisiau i gyfyngiadau artiffisial gael eu gosod ar hynny. Nid oes ots ganddynt beth mae'r awdurdodaeth yn ei wneud, a bod yn blaen, pa un a yw'n un awdurdodaeth neu'n awdurdodaeth i Gymru. Rwyf wir yn methu â deall beth yw'r broblem o ran yr awdurdodaeth. Ydy, mae'n iawn i ddweud bod problemau ynghylch y system gosbi, y system carchardai, y gwasanaeth prawf a'r costau sy'n gysylltiedig â hynny y byddai angen eu datrys. Ond mae Gogledd Iwerddon yn awdurdodaeth, a'r Alban ac Ynys Manaw, fel y dywedais yr wythnos diwethaf. Mae o leiaf 51 yn yr Unol Daleithiau ac nid yw'r Unol Daleithiau wedi chwalu. Nid wyf yn deall yn iawn beth yw'r ymlyniad i un awdurdodaeth, o ystyried y ffaith fod Gogledd Iwerddon, ag 1.8 miliwn o bobl, wedi bod yn awdurdodaeth sengl ers 1921, rwy'n credu.

13:49

## Y Llywydd / The Presiding Officer [Bywgraffiad] [Biography]

Senedd.tv [Fideo] [Video]

We now move back to questions on the paper and question 3 is Suzy Davies.

Symudwn yn ôl at gwestiynau ar y papur nawr a daw cwestiwn 3 gan Suzy Davies.

### Amseroedd Ymateb Ambiwlansys

### Ambulance Response Times

13:49

## Suzy Davies [Bywgraffiad] [Biography]

Senedd.tv [Fideo] [Video]

*3. A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am amseroedd ymateb ambiwlansys mewn ardaloedd gwledig yng Ngorllewin De Cymru? OAQ(4)2506(FM)*

*3. Will the First Minister make a statement on ambulance response times in rural areas of South Wales West? OAQ(4)2506(FM)*

13:50

## Carwyn Jones [Bywgraffiad] [Biography]

Senedd.tv [Fideo] [Video]

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Yes. The latest published data show the standard emergency response time across the South Wales West area—including rural areas—for August was among the best in Wales at six minutes and 48 seconds, with more than 70 per cent of the most serious calls responded to within eight minutes.

Gwnaf. Mae'r data diweddaraf a gyhoeddwyd yn dangos bod yr amser ymateb brys safonol ar draws ardal y de-orllewin—gan gynnwys ardaloedd gwledig—ar gyfer mis Awst ymhlith y gorau yng Nghymru, sef chwe munud a 48 eiliad, a chafwyd ymatebion i fwy na 70 y cant o'r galwadau mwyaf difrifol o fewn wyth munud.

13:50 **Suzy Davies** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Thank you, First Minister. Of course, that time won't apply to rural areas, where co-responders are responsible for providing an invaluable first response to emergency calls in areas where the eight-minute response time is virtually impossible to meet. Nevertheless, it can still take the actual ambulance a considerable amount of time to arrive—longer than you might expect, actually—with 13 cases in Gower waiting more than an hour over just seven weeks in the summer, and that included one case where there was a fatality. Do you agree with the policy of ring fencing whereby ambulances are retained in the centre of Swansea city and not permitted to respond to emergency calls to Gower, despite being available, and so constituents in Gower have to wait for ambulances to arrive from Cardiff or Tenby to meet emergency calls?

Diolch yn fawr, Brif Weinidog. Wrth gwrs, ni fydd yr amser hwnnw'n berthnasol i ardaloedd gwledig, lle mae cyd-ymatebwyr yn gyfrifol am ddarparu ymateb cyntaf amhrisiadwy i alwadau brys mewn ardaloedd lle mae hi bron yn amhosibl bodloni'r amser ymateb o wyth munud. Serch hynny, gall gymryd amser sylweddol i'r ambiwlans ei hun gyrraedd o hyd—hirach nag y byddech yn ei ddisgwyl, a dweud y gwir—gyda 13 o achosion yng Ngŵyr yn aros mwy nag awr dros ddim ond saith wythnos yn yr haf, ac roedd hynny'n cynnwys un achos lle bu marwolaeth. A ydych chi'n cytuno â'r polisi o neilltuo sy'n golygu y cedwir ambiwlansys yng nghanol dinas Abertawe ac na chaniateir iddyn nhw ymateb i alwadau brys i Gŵyr, er eu bod ar gael, ac felly mae'n rhaid i etholwyr yng Ngŵyr aros am ambiwlansys i gyrraedd o Gaerdydd neu Ddinbych-y-pysgod i ateb galwadau brys?

13:51 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

I'm not aware of that being the case, but I will write to the Member and investigate it for her to see whether that is the case and, if it is, why it is.

Nid wyf yn ymwybodol bod hynny'n wir, ond byddaf yn ysgrifennu at yr Aelod ac yn ymchwilio i'r mater ar ei rhan i weld a yw hyn yn wir, ac os ydyw, pam mae'n wir.

13:51 **Elin Jones** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Yn gysylltiedig â'r cwestiwn sydd newydd gael ei ofyn, un o'r problemau ar gyfer gwasanaeth ambiwlansys ac argaeledd ambiwlansys mewn ardal fel Ceredigion yw bod ambiwlansys yn teithio gyda chleifion i ardaloedd yn y de-orllewin, yn ardal Abertawe neu Gaerfyrddin, ac yna yn ateb galwadau yn yr ardaloedd hynny, yn hytrach na dychwelyd yn syth yn ôl i Geredigion. Mae hynny'n effeithio ar argaeledd ambiwlansys ac ar atebion mewn pryd yng Ngheredigion. A ydych chi'n credu ei bod hi'n bryd i edrych ar fodel sydd wedi cael ei dreialu yng Nghwm Taf i gadw ambiwlansys i ddychwelyd i'r ardal lle mae eu sifftiau nhw yn deillio ohoni, fel bod yr argaeledd ambiwlansys yna wedyn ar gyfer y cymunedau hynny? Y realiti yw bod yna ormod o amserau pan nad oes yna ddim ambiwlansys ar gael mewn gwahanol ardaloedd yng Ngheredigion.

Related to the question just asked, one of the problems in terms of the availability of ambulances in areas such as Ceredigion is that ambulances travel with patients to areas in the south-west, in Swansea or Carmarthen, and then respond to calls in those areas, rather than returning immediately to Ceredigion. That has an impact on the availability of ambulances and response times in Ceredigion. Do you believe it is now time to look at the model that has been trialled in Cwm Taf to retain ambulances, and for them to return to the areas where their shifts are so that the availability of ambulances is in place for those communities? Because the reality is that there are too many occasions when ambulances aren't available in various areas of Ceredigion.

13:52 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Mae'r peilot yng Nghwm Taf yn rhan o'n meddwl ni fel Llywodraeth. Rydym ni'n moyn gweld beth yw effaith y model hwnnw a gweld a oes yna ffordd i rolio'r model yna allan dros Gymru'n gyfan gwbl i sicrhau bod y gwasanaeth yn gwella. Mae hynny'n rhywbeth sydd yn cael ei ystyried ar hyn o bryd.

The pilot in Cwm Taf is part of something that we're looking at as a Government. We want to see what the effect of that model is, and to see whether there is a way of rolling that model out across the whole of Wales to ensure that the service improves. That's something that is being considered at the moment.

## Tai Fforddiadwy

## Affordable Homes

13:52 **Jenny Rathbone** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

*4. Beth yw strategaeth Llywodraeth Cymru ar gyfer creu mwy o dai fforddiadwy yn ne Cymru? OAQ(4)2505(FM)*

*4. What is the Welsh Government's strategy for creating more affordable homes in south Wales? OAQ(4)2505(FM)*

13:52 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Senedd.tv Fideo Video

We support the delivery of affordable housing in a number of ways, including maintaining investment in our social housing grant programme and expanding the housing finance grant scheme. For example, this year, £21.3 million is being invested through the social housing grant to support the delivery of affordable housing across the south of Wales.

Rydym ni'n cefnogi'r ddarpariaeth o dai fforddiadwy mewn nifer o ffyrdd, gan gynnwys cynnal buddsoddiad yn ein rhaglen grant tai cymdeithasol ac ehangu'r cynllun grant cyllid tai. Er enghraifft, eleni, mae £21.3 miliwn yn cael ei fuddsoddi drwy'r grant tai cymdeithasol i gefnogi'r ddarpariaeth o dai fforddiadwy ledled y de.

13:52 **Jenny Rathbone** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

That's excellent news, but, obviously, there's a great deal more we need to do. The environment committee visited the SOLCER house in your constituency, I believe, near Bridgend, which is a house designed as a power station. It offers really exciting opportunities for delivering affordable housing fit for the twenty-first century, because not only does it produce more energy than it uses, but it only costs £1,000 per square metre, which is well within the envelope that social and council housing providers generally allow for. So, I just wondered how we can take forward this fantastic Welsh invention, led by Cardiff University's school of architecture, and ensure that we have Welsh housebuilders using Welsh materials and Welsh installers to build the homes that we need so much for our communities.

Mae hynny'n newyddion gwych, ond, yn amlwg, mae llawer iawn mwy y mae angen i ni ei wneud. Ymwelodd pwyllgor yr amgylchedd â'r tŷ SOLCER yn eich etholaeth chi, rwy'n credu, ger Pen-y-bont ar Ogwr, sydd yn dŷ wedi'i gynllunio fel gorsaf bŵer. Mae'n cynnig cyfleoedd cyffrous iawn ar gyfer darparu tai fforddiadwy sy'n addas ar gyfer yr unfed ganrif ar hugain, oherwydd mae'n cynhyrchu mwy o ynni nag y mae'n ei ddefnyddio, yn ogystal â chostio dim ond £1,000 y metr sgwâr, sydd ymhell y tu mewn i'r ffiniau y mae darparwyr tai cyngor a chymdeithasol yn ei neilltuo fel rheol. Felly, roeddwn i'n meddwl tybed sut allwn ni fwrw ymlaen â'r ddyfais wych hon o Gymru, a arweinir gan ysgol bensaernïaeth Prifysgol Caerdydd, a sicrhau bod gennym adeiladwyr tai yng Nghymru sy'n defnyddio deunyddiau o Gymru a gosodwyr o Gymru i adeiladu'r cartrefi y mae cymaint eu hangen arnom ar gyfer ein cymunedau.

13:53 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Senedd.tv Fideo Video

I'm aware of the SOLCER house and it is an exciting and innovative prototype. It has the potential to offer substantial benefits in terms of tackling fuel poverty, for example, and creating Welsh jobs. I know the completed house is going to be the subject of detailed monitoring over a 12-month period, so it's still early to say whether it's capable of being replicated, but I look forward to seeing the results of that monitoring.

Rwy'n ymwybodol o'r tŷ SOLCER ac mae'n brototeip cyffrous ac arloesol. Mae ganddo'r potensial i gynnig manteision sylweddol o ran mynd i'r afael â thlodi tanwydd, er enghraifft, a chreu swyddi yng Nghymru. Gwn fod y tŷ a gwblhawyd yn mynd i fod yn destun monitro manwl dros gyfnod o 12 mis, felly mae'n dal yn rhy gynnar i ddweud pa un a yw'n bosibl ei ail-adrodd, ond edrychaf ymlaen at weld canlyniadau'r gwaith monitro hwnnw.

13:54 **Mark Isherwood** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Although increasing housing supply is the best way to make housing more affordable, successive reports, most recently from the Bevan Foundation, have said that Wales is only meeting the requirement for half the new homes needed, with the biggest shortfall in social housing. Given the UK announcement of 200,000 starter homes for England, as part of an ambition for a million new homes by 2020, what discussions has your Government had with registered social landlords, with builders and with local authorities to explore the possibility of a starter homes initiative appropriate to the needs of Wales?

Er mai cynyddu'r cyflenwad tai yw'r ffordd orau o wneud tai'n fwy fforddiadwy, mae adroddiadau olynol, y diweddaraf gan Sefydliad Bevan, wedi dweud mai dim ar gyfer hanner y cartrefi newydd sydd eu hangen y mae Cymru'n bodloni'r gofyniad, a thai cymdeithasol yw'r diffyg mwyaf. O gofio cyhoeddiad y DU o 200,000 o gartrefi cychwynnol i Loegr, yn rhan o uchelgais i gael miliwn o gartrefi newydd erbyn 2020, pa drafodaethau y mae eich Llywodraeth chi wedi eu cael gyda landlordiaid cymdeithasol cofrestredig, gydag adeiladwyr a chydag awdurdodau lleol i archwilio'r posibilrwydd o fenter tai cychwynnol sy'n briodol i anghenion Cymru?

13:54 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

I don't think it'll work, because, of course, it's designed to ensure that people can buy houses, not rent them. We know that, for many people, being able to raise the deposit to buy a house, even with the schemes that we have in place, and servicing the mortgage is a problem. So, to suggest, as the Prime Minister does, that you can somehow replace social housing for rent with starter homes, we think, is not going to be effective, nor do we think it's effective to actually seek to resolve the issue of the supply of social housing by selling it off, which is what the UK Government is trying to do.

Nid wyf yn credu y bydd yn gweithio, oherwydd, wrth gwrs, mae wedi ei gynllunio i sicrhau y gall pobl brynu tai, nid eu rhentu. Gwyddom, i lawer o bobl, bod gallu cael gafael ar y blaendal i brynu tŷ, hyd yn oed gyda'r cynlluniau sydd gennym ar waith, a thalu'r morgais, yn broblem. Felly, mae awgrymu, fel y mae Prif Weinidog y DU yn ei wneud, y gallwch chi rywsut gyfnewid tai cymdeithasol i'w rhentu am gartrefi cychwynnol, yn ein tyb ni, yn mynd i fod yn aneffeithiol, ac nid ydym yn credu ei bod yn effeithiol ceisio datrys y broblem o'r cyflenwad o dai cymdeithasol trwy eu gwerthu, sef yr hyn y mae Llywodraeth y DU yn ceisio ei wneud.

Senedd.tv Fideo Video

13:55 **Jocelyn Davies** Bywgraffiad Biography

First Minister, your Government's projections for the 20 years up to 2031 shows the number of Cardiff households increasing by 47,000, and that's about a third of the figure for the whole of Wales. Do you consider this desirable?

Brif Weinidog, mae amcanestyniadau eich Llywodraeth ar gyfer yr 20 mlynedd hyd at 2031 yn dangos y bydd nifer y cartrefi yng Nghaerdydd yn cynyddu gan 47,000, ac mae hynny oddeutu traean o'r ffigur ar gyfer Cymru gyfan. A ydych chi'n meddwl bod hyn yn ddymunol?

Senedd.tv Fideo Video

13:55 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Well, there are two questions here. First, what can you do in order to control the growth of a city that's successful? We know that people will go to where they think the jobs are and will try to live as close as possible to where they think those jobs are available, and Cardiff is growing at a rate of knots. You can't say to people, 'You can't live in Cardiff; sorry, you've got to live somewhere else'. That said, it is important that local authorities work together to provide solutions across the whole of what you'd call the capital region, I suppose, to make sure that there are alternatives available in other local authority areas that are well connected and provide the opportunity for people to live outside of the boundaries of Cardiff, and yet still be able to access work effectively.

Wel, ceir dau gwestiwn yma. Yn gyntaf, beth allwch chi ei wneud er mwyn rheoli twf dinas sy'n llwyddiannus? Rydym ni'n gwybod y bydd pobl yn mynd i lle maen nhw'n meddwl y mae'r swyddi ac y byddant yn ceisio byw mor agos â phosibl i'r man lle maen nhw'n meddwl bod y swyddi hynny ar gael, ac mae Caerdydd yn tyfu'n gyflym iawn. Ni allwch chi ddweud wrth bobl, 'Chewch chi ddim byw yng Nghaerdydd; mae'n ddrwg gennym ni, mae'n rhaid i chi i fyw yn rhywle arall'. Wedi dweud hynny, mae'n bwysig bod awdurdodau lleol yn cydweithio i gynnig atebion ar draws holl ardal yr hyn y byddech chi'n ei alw'n brifddinas-ranbarth, mae'n debyg, i wneud yn siŵr bod dewisiadau eraill ar gael mewn ardaloedd awdurdodau lleol eraill sydd wedi'u cysylltu'n dda ac yn cynnig y cyfle i bobl fyw y tu allan i ffiniau Caerdydd, ac eto'n dal i allu cyrraedd gwaith yn effeithiol.

Senedd.tv Fideo Video

## Trafnidiaeth Cyhoeddus

## Public Transport

13:56 **John Griffiths** Bywgraffiad Biography

*5. A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am bolisi Llywodraeth Cymru i gefnogi trafnidiaeth gyhoeddus yn Nwyrain Casnewydd? OAQ(4)2502(FM)*

*5. Will the First Minister make a statement on Welsh Government policy to support public transport in Newport East? OAQ(4)2502(FM)*

Senedd.tv Fideo Video

13:56 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Well, our policy is to support public transport across all parts of Wales, including, of course, regional priorities that are outlined in the new national transport finance plan. I trust that Members were provided with an update on the plan on 22 September.

Wel, ein polisi ni yw cefnogi cludiant cyhoeddus ar draws pob rhan o Gymru, gan gynnwys, wrth gwrs, blaenoriaethau rhanbarthol sy'n cael eu hamlinellu yn y cynllun cyllid trafnidiaeth cenedlaethol newydd. Hyderaf y rhoddwyd y wybodaeth ddiweddaraf am y cynllun i'r Aelodau ar 22 Medi.

Senedd.tv Fideo Video

13:56

## John Griffiths Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

First Minister, I receive a lot of concerns from constituents regarding local bus services and a lack of a comprehensive planned strategic approach to the provision of adequate services. Would you agree with me that the Welsh Government should have further powers so that they can properly regulate bus services in Wales, which I believe would also help deliver the step change of the proposed metro system?

Brif Weinidog, rwy'n derbyn llawer o bryderon gan etholwyr ynglŷn â gwasanaethau bysiau lleol a diffyg dull strategol cynhwysfawr wedi'i gynllunio o ddarparu gwasanaethau digonol. A fyddech chi'n cytuno â mi y dylai Llywodraeth Cymru gael rhagor o bwerau fel y gall reoleiddio gwasanaethau bysiau yng Nghymru yn iawn, yr wyf yn credu y byddai hefyd yn helpu i gyflawni newid sylweddol y system metro arfaethedig?

13:57

## Carwyn Jones Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Senedd.tv Fideo Video

Yes, I do, and it's something that the UK Government has agreed on, of course: that this needs to be devolved. I was surprised to see the comments regarding the establishment of a Welsh traffic commissioner last week. There are many of us in this Chamber who will have experience of dealing with the traffic commissioner in Birmingham, and I think it's fair to say that it is not a worthwhile experience. I've had several experiences of it, and they have done nothing to resolve problems locally. We do need a traffic commissioner based in Wales, not one that sees Wales as a kind of annexe to the west midlands of England. It's true to say that, in many parts of Wales, what we effectively see now is a private monopoly of bus services. On some routes, of course, there's competition, but mainly not. Now, we know, if we look at the railways, that where there is a private monopoly along a certain route, regulation is involved. The same principle applies to buses.

Ydw, mi ydwyf, ac mae'n rhywbeth y mae Llywodraeth y DU wedi cytuno arno, wrth gwrs: bod angen datganoli hyn. Cefais syndod o weld y sylwadau ar gyflwyno comisiynydd traffig Cymru yr wythnos diwethaf. Ceir llawer ohonom ni yn y Siambr hon a fydd â phrofiad o ymdrin â'r comisiynydd traffig yn Birmingham, ac rwy'n meddwl ei bod yn deg dweud nad yw'n brofiad gwerth chweil. Rwyf wedi cael sawl profiad ohono, ac nid yw wedi gwneud dim i ddatrys problemau'n lleol. Mae angen comisiynydd traffig sydd wedi'i leoli yng Nghymru arnom, nid un sy'n ystyried Cymru fel rhyw fath o estyniad o orllewin canolbarth Lloegr. Mae'n wir dweud, mewn sawl rhan o Gymru, mai'r hyn a welwn nawr i bob pwrpas yw monopoli preifat o wasanaethau bysiau. Ar rai llwybrau, wrth gwrs, ceir cystadleuaeth, ond ar y cyfan, nid yw hynny'n digwydd. Nawr, rydym ni'n gwybod, os edrychwn ni ar y rheilffyrdd, lle ceir monopoli preifat ar hyd llwybr penodol, mae rheoleiddio'n rhan o'r darlun. Mae'r un egwyddor yn berthnasol i fysiau.

13:58

## Mohammad Asghar Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

First Minister, Newport City Council has cut funding by 12 per cent since 2010. In addition, cuts by your Government to the bus operators grant have resulted in bus services in Newport East and elsewhere in South Wales East being reduced gradually and, in some instances, totally cancelled. Given that bus services are vital for the most vulnerable in our society, will the First Minister confirm that his Government will take no further action that will result in cuts to bus services in Wales?

Brif Weinidog, mae Cyngor Dinas Casnewydd wedi torri cyllid gan 12 y cant ers 2010. Hefyd, mae toriadau gan eich Llywodraeth chi i'r grant gweithredwyr bysiau wedi arwain i wasanaethau bysiau yn Nwyrain Casnewydd ac mewn rhannau eraill o Ddwyrain De Cymru, gael eu lleihau'n raddol ac, mewn rhai achosion, cael eu canslo'n llwyr. O gofio bod gwasanaethau bysiau yn hanfodol i'r rhai mwyaf agored i niwed yn ein cymdeithas, a wnaiff y Prif Weinidog gadarnhau na fydd ei Lywodraeth yn cymryd unrhyw gamau pellach a fydd yn arwain at doriadau i wasanaethau bysiau yng Nghymru?

13:58

## Carwyn Jones Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Senedd.tv Fideo Video

Well, that rather depends on your friends in Westminster, doesn't it, and what happens in the comprehensive spending review? Again, the Member stands up conveniently forgetting that his own party wants to cut spending on transport by 30 per cent. That's what they've said. I commend their honesty, I have to say, but that's what they've said. So, he cannot stand up with any real presence in this Chamber and complain about cuts to bus transport imposed by the UK Government when his own party thinks those cuts don't go far enough.

Wel, mae hynny'n dibynnu braidd ar eich cyfeillion yn San Steffan, onid yw, a'r hyn sy'n digwydd yn yr adolygiad cynhwysfawr o wariant? Unwaith eto, mae'r Aelod yn sefyll ar ei draed gan anghofio'n gyfleus bod ei blaid ei hun eisiau torri gwariant ar drafnidiaeth gan 30 y cant. Dyna maen nhw wedi ei ddweud. Rwy'n cymeradwyo eu gonestrwydd, mae'n rhaid i mi ddweud, ond dyna maen nhw wedi ei ddweud. Felly, ni all sefyll ar ei draed gydag unrhyw bresenoldeb gwirioneddol yn y Siambr hon ac achwyn am doriadau i drafnidiaeth bysiau a orfodwyd gan Lywodraeth y DU pan fo ei blaid ei hun yn meddwl nad yw'r toriadau hynny'n mynd yn ddigon pell.

## Gwasanaethau Meddyg Teulu

## GP Services

13:59 **Janet Finch-Saunders** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

*6. A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am wasanaethau meddyg teulu yn Aberconwy? OAQ(4)2496(FM)*

*6. Will the First Minister make a statement on GP services in Aberconwy? OAQ(4)2496(FM)*

13:59 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Yes. The provision of GP services in Aberconwy is the responsibility of Betsi Cadwaladr University Local Health Board. The board is working to ensure that people continue to have access to primary care, including where some contractor GP services have given termination notices.

Gwnaf. Cyfrifoldeb Bwrdd Iechyd Lleol Prifysgol Betsi Cadwaladr yw darparu gwasanaethau meddygon teulu yn Aberconwy. Mae'r bwrdd yn gweithio i sicrhau bod pobl yn parhau i gael mynediad at ofal sylfaenol, gan gynnwys lle mae rhai gwasanaethau meddygon teulu contractwyr wedi rhoi rhybuddion terfynu.

13:59 **Janet Finch-Saunders** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Thank you, First Minister. The Royal College of General Practitioners has already highlighted that prolonged underinvestment has had a significant impact across Wales. In Aberconwy, we are now down to locum provision only in what was once a very busy GP-led practice, and a partner in another local surgery advises me now of an imminent meltdown facing us as some of our local GPs look to retire in fewer than 12 months. What are you actually doing, as First Minister, with overall responsibility for any service provision in Wales? Or is this just another example of your poor governance and a case of Nero fiddling whilst Rome burns?

Diolch yn fawr, Brif Weinidog. Mae Coleg Brenhinol yr Ymarferwyr Cyffredinol eisoes wedi amlygu bod tanfuddsoddiad hirfaith wedi cael effaith sylweddol ledled Cymru. Yn Aberconwy, rydym ni i lawr i ddarpariaeth locwm yn unig mewn practis a oedd yn un prysur iawn dan arweiniad meddygon teulu ar un adeg, ac mae partner mewn meddygfa leol arall yn dweud wrthyf nawr ein bod yn wynebu argyfwng sydd ar fin digwydd wrth i rai o'n meddygon teulu lleol baratoi i ymddeol mewn llai na 12 mis. Beth ydych chi'n ei wneud mewn gwirionedd, fel Prif Weinidog, sydd â chyfrifoldeb cyffredinol am unrhyw ddarpariaeth o wasanaethau yng Nghymru? Neu a yw hon yn enghraifft arall o'ch llywodraethu gwael ac yn achos o Nero'n chwarae'r ffidl tra bod Rhufain yn llosgi?

14:00 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Well, first of all, there are more GPs now. Their numbers have risen in the past few years. We know that in some parts of Wales, for example, where the contractor model no longer applies, the health boards have run services perfectly adequately. If we look, for example, at Meddygfa Gyffin, which you will be aware of, a GP practice in Conwy, it has been run by the board since 1 April 2015, and now a provider has been identified to take that practice over, with a start date of 1 February next year, without any effect on the service made available to local people. The difficulty is, of course, that most GP practices are self-employed. They are, effectively, private practices that operate within the NHS, I suppose, if you look at it from that perspective. Quite often, little notice is given by surgeries as to what their intentions are. However, when that notice is given—for example, in Denbighshire, surgeries have worked with the local health board—then services can of course be preserved.

Wel, yn gyntaf oll, mae mwy o feddygon teulu nawr. Mae eu niferoedd wedi cynyddu yn ystod y blynyddoedd diwethaf. Rydym ni'n gwybod, er enghraifft, mewn rhai rhannau o Gymru, lle nad yw'r model contractwr yn berthnasol mwyach, bod y byrddau iechyd wedi rhedeg gwasanaethau'n gwbl briodol. Os edrychwn ni, er enghraifft, ar Feddygfa Gyffin, y byddwch yn ymwybodol ohoni, meddygfa deulu yng Nghonwy, fe'i rhedwyd gan y bwrdd ers 1 Ebrill 2015, ac erbyn hyn mae darparwr wedi ei nodi i gymryd y feddygfa honno drosodd, gyda dyddiad cychwyn o 1 Chwefror y flwyddyn nesaf, heb unrhyw effaith ar y gwasanaeth sydd ar gael i bobl leol. Yr anhawster, wrth gwrs, yw bod y rhan fwyaf o feddygfeydd teulu yn hunangyflogedig. Maen nhw, i bob pwrpas, yn feddygfeydd preifat sy'n gweithredu o fewn y GIG, mae'n debyg, os edrychwch chi ar bethau o'r safbwynt hwnnw. Yn aml iawn, prin iawn yw'r rhybudd a roddir gan feddygfeydd o beth yw eu bwriadau. Fodd bynnag, pan roddir y rhybudd hwnnw—er enghraifft, yn Sir Ddinbych, mae meddygfeydd wedi gweithio gyda'r bwrdd iechyd lleol—yna gellir cadw gwasanaethau, wrth gwrs.

14:01 **Llyr Gruffydd** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Rydych yn dweud bod fwy o ddoctoriaid yn awr nag o'r blaen, ond, wrth gwrs, rydym hefyd yn gwybod drwy waith ymchwil gan y BMA bod 30 y cant o ddoctoriaid naill ai wedi, neu yn, dioddef o 'burn-out' a bod 41 y cant, ymhellach i hynny, yn gofidio y byddan nhw yn wynebu 'burn-out' yn y dyfodol agos. A allwch chi ddweud wrthym, felly, faint o ddoctoriaid yr ydych yn tybio sydd eu hangen yng Nghymru er mwyn sicrhau gwasanaeth dyledus i bobl?

You say that there are more doctors now than there have been in the past, but, of course, we also know through research by the BMA that 30 per cent of doctors are either suffering from burn-out, or will suffer from burn-out, and that 41 per cent, further to that, fear that they will face burn-out in the near future. Can you tell us, therefore, how many doctors you think are required in Wales in order to ensure that people have a proper service?

14:01 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Senedd.tv
Fideo Video

Wel, rydym am sicrhau bod mwy o feddygon teulu, wrth gwrs. Mae'n anodd iawn dweud faint o 'surgeons' ynglŷn â'r ymennydd sydd eu hangen arnom ni, neu nifer y rhai mewn meysydd arbennig. Ond rydym am sicrhau bod y twf yn nifer y meddygon teulu yn parhau yn y pen draw. Dyna pam, wrth gwrs, fod Betsi Cadwaladr wedi bod yn gweithio gyda Phendyffryn, er enghraifft, a'r feddygfa arall ym Mhrestatyn, er mwyn sicrhau bod y gwasanaeth yn parhau, er bod newidiadau wedi bod yn amgylchiadau'r doctoriaid eu hunain.

Well, we want to ensure that there are more GPs, of course. It's very difficult to say how many brain surgeons we need, or the number of those in specialist areas. But we want to ensure that the growth in the number of GPs continues in the long term. That's why, of course, Betsi Cadwaladr has been working with Pendyffryn, for example, and the other surgery in Prestatyn, to ensure that the service does continue, despite there being changes in the circumstances of the doctors themselves.

14:02 **Aled Roberts** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

Brif Weinidog, wrth ystyried bod yna gymaint o feddygfeydd yn y gogledd yn wynebu'r sefyllfa hon, mae cynllun integredig canol tymor gan Betsi Cadwaladr sydd wedi bod yn cael ei baratoi ers mis Mawrth eleni. A ydych yn fodlon, wrth ystyried bod y bwrdd o dan fesurau arbennig, eu bod nhw'n delio â hwn efo digon o frys? Mae cofnodion mis Gorffennaf yn dweud nad ydynt yn awyddus i ddelio â'r cynllun terfynol tan fis Ebrill 2016. Felly, bydd yna ryw 18 mis o oedi cyn i'r cynllun o ran y gweithlu gael ei drafod o flaen y bwrdd.

First Minister, given that so many surgeries in north Wales are facing this situation, there is an integrated mid-term plan by Betsi Cadwaladr that has been in preparation since March of this year. Are you content, given that the board is under special measures, that they are dealing with this with sufficient urgency? The minutes of July state that they won't be in a position to deal with the final plan until April 2016. So, there will be a delay of some 18 months before that workforce plan is discussed by the board.

14:02 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Senedd.tv
Fideo Video

Wel, mae'n rhaid i'r bwrdd drafod hynny ac i weithredu'n fanwl ac yn gyflym. A gaf i ddweud hefyd fod gennym fframwaith cynaliadwyedd fel Llywodraeth, ac mae meddygfeydd yn gallu gofyn am gefnogaeth i'w helpu nhw, lle maent yn credu bod yna risg i'w practis nhw? Wrth gwrs, yn gynharach y flwyddyn hon—ac mae hwn yn ateb yn rhannol yr hyn a ddywedodd yr Aelod dros Aberconwy—rhoddwyd manylion ynghylch cronfa sydd werth £40 miliwn ynglŷn â gofal blaenllaw, a oedd wedi cael ei sefydlu er mwyn sicrhau bod arian ar gael I helpu meddygon teulu I ddatblygu eu practisys'.

Well, the board has to discuss that and take action in detail and quickly. May I say that we do have a sustainability framework as a Government, and surgeries can ask for support to help them, where they think there is a risk to their particular practice? Of course, earlier this year—and this partly responds to what the Member for Aberconwy said—details were passed on about a fund that is worth £40 million for primary care, which was established to ensure that funding was available to assist GPs to develop their practices.

### Band Eang

### Broadband

14:03 **Angela Burns** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

Good afternoon, First Minister.

Prynhawn da, Brif Weinidog.

*7. A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am band eang cyflym iawn yng ngorllewin Cymru? OAQ(4)2498(FM)*

*7. Will the First Minister make a statement on superfast broadband in west Wales? OAQ(4)2498(FM)*

14:03 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Senedd.tv
Fideo Video

Yes. Good afternoon. To date, the Superfast Cymru project has overseen almost £23 million worth of investment into fast broadband provision in the west, with over 80,000 premises receiving access to superfast broadband as a result of the project.

Gwnaf. Prynhawn da. Hyd yn hyn, mae prosiect Cyflymu Cymru wedi goruchwylio gwerth bron i £23 miliwn o fuddsoddiad mewn darpariaeth band eang cyflym yn y gorllewin, wrth i fwy na 80,000 o adeiladau gael mynediad at fand eang cyflym iawn o ganlyniad i'r prosiect.

14:04 **Angela Burns** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Minister, as you will know only too well, more and more businesses, in particular from a commercial point of view, rely on having good broadband availability, whether it's from doing VAT and Inland Revenue and Companies House returns, to sales and marketing drives, to paying staff, paying suppliers and, indeed, receiving payments. And yet, throughout my constituency, I have significant areas—not all of them particularly rural places—like Pembroke and Saundersfoot, where we are struggling to get a superfast broadband project to come on-stream quickly enough. BT are pushing back the timescales again and again and again, and the e-mails I have on this issue are legion. I wonder, First Minister, if you could direct your delivery unit, or look at some method for your Government, to see what account you can be holding BT to, to ensure that this project is spread equitably throughout Wales, because cities such as Cardiff are constantly being upgraded and having all the latest stuff, and rural areas are being left out and it's hurting our economy.

Weinidog, fel y gwyddoch yn iawn, mae mwy a mwy o fusnesau, yn enwedig o safbwynt masnachol, yn dibynnu ar fod â band eang da ar gael, boed hynny ar gyfer llenwi ffurflenni TAW a Chyllid y Wlad a Thŷ'r Cwmnïau, neu ymgyrchoedd gwerthu a marchnata, neu dalu staff, talu cyflenwyr ac, yn wir, derbyn taliadau. Ac eto, ar draws fy etholaeth i, mae gen i ardaloedd sylweddol—ac nid yw pob un ohonynt yn fannau arbennig o wledig—fel Penfro a Saundersfoot, lle'r ydym ni'n cael trafferth i gael cyflwyno prosiect band eang cyflym iawn yn ddigon cyflym. Mae BT yn gwthio'r terfynau amser yn ôl dro ar ôl tro, ac rwyf wedi derbyn negeseuon e-bost lu ar y mater hwn. Tybed, Brif Weinidog, a allech chi gyfeirio eich uned gyflawni, neu ystyried rhyw ddull i'ch Llywodraeth, i weld sut y gallwch chi ddwyn BT i gyfrif, er mwyn sicrhau bod y prosiect hwn yn cael ei wasgaru'n deg ledled Cymru, gan fod dinasoedd fel Caerdydd yn cael eu huwchraddio'n gyson ac yn cael yr holl bethau diweddaraf, ac mae ardaloedd gwledig yn cael eu hanwybyddu ac mae'n niweidio ein heconomi.

14:05 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Senedd.tv Fideo Video

Well, first of all, we expect the delivery of Superfast Cymru to be on target. Secondly, the Member is right: we do need to make sure that businesses have access to superfast broadband—some 60 per cent in Pembrokeshire do, only 40 per cent so far in Carmarthenshire, and she may have heard me say in the past that I take the view that broadband in the twenty-first century—or superfast broadband in the twenty-first century—is the equivalent of the railway lines of the nineteenth. You have to be connected in order to be successful as a business. In Cardiff, of course, and much of the southern coast and the north-east, it's a commercial roll-out. There are sufficient people there for the companies to be able to justify their investment. We know that's not true of a lot of Wales, which is why Superfast Cymru exists in the first place. We know that those 80,000 premises would never have superfast broadband if it wasn't for the investment that's been put in. What I can say to you and your constituents is we expect this to be taken forward as quickly as possible, but we do understand, of course, the importance of superfast broadband to businesses.

Wel, yn gyntaf oll, rydym ni'n disgwyl i'r ddarpariaeth o Gyflymu Cymru gyrraedd y targed. Yn ail, mae'r Aelod yn iawn: mae angen i ni wneud yn siŵr bod gan fusnesau fynediad at fand eang cyflym iawn—mae gan tua 60 y cant fynediad yn Sir Benfro, dim ond 40 y cant hyd yn hyn yn Sir Gaerfyrddin, ac efallai ei bod wedi fy nghlywed i'n dweud yn y gorffennol fy mod i o'r farn bod band eang yn yr unfed ganrif ar hugain—neu fand eang cyflym iawn yn y unfed ganrif ar hugain—yn cyfateb i reilffyrdd y bedwaredd ganrif ar bymtheg. Mae'n rhaid i chi fod wedi cysylltu er mwyn bod yn llwyddiannus fel busnes. Yng Nghaerdydd, wrth gwrs, a llawer o arfordir y de a'r gogledd-ddwyrain, mae'n gyflwyniad masnachol. Mae digon o bobl yno i'r cwmnïau allu cyfiawnhau eu buddsoddiad. Rydym ni'n gwybod nad yw hynny'n wir am lawer o Gymru, a dyna pam mae Cyflymu Cymru yn bodoli yn y lle cyntaf. Rydym ni'n gwybod na fyddai'r 80,000 o safleoedd hynny erioed wedi cael band eang cyflym iawn heblaw am y buddsoddiad a wnaed. Yr hyn y gallaf ei ddweud wrthych chi a'ch etholwyr yw ein bod yn disgwyl i hyn gael ei gyflawni cyn gynted â phosibl, ond rydym ni yn deall, wrth gwrs, pwysigrwydd band eang cyflym iawn i fusnesau.

14:06 **Elin Jones** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Brif Weinidog, mae profiad Ceredigion yn debyg iawn i'r hyn y mae Angela Burns newydd ei amlinellu, gyda rhai cymunedau, pentrefi cyfan, yn cael gwybod erbyn hyn na fyddan nhw'n rhan o 'roll-out' band llydan cyflym, fel roedden nhw wedi ei rhagweld. Sut, felly, ŷch chi fel Llywodraeth yn gallu rhoi eglurder i gymunedau ac i bentrefi, a threfi o ran hynny, a fyddan nhw'n rhan o Superfast Cymru ar gyfer Mai 2016, neu hyd yn oed 2017, ac os na fyddan nhw, pa gynlluniau pendant iawn y mae Llywodraeth Cymru'n gallu eu cynnig i wneud yn siŵr nad yw'r cymunedau yma'n cael eu gadael ar ôl?

First Minister, the experience of Ceredigion is very similar to the experience outlined by Angela Burns, with some communities, whole villages, being informed now that they won't be part of the superfast broadband roll-out as they had anticipated. How, then, do you as a Government provide clarity for communities and for villages, and towns for that matter, as to whether or not they will be part of the Superfast Cymru project for May 2016, or even 2017, and if they are not, what specific plans can the Welsh Government offer in order to ensure that these communities are not left behind?

14:06 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Nid ydynt yn cael eu gadael ar ôl. Rwy'n deall bod y rhan fwyaf o bobl sy'n rhan o gyfnewidfa Aberystwyth nawr yn cael 'broadband' yr un peth â Borth, a jest dros hanner yn Rhydypennau. Ond, wrth gwrs, mae yna waith i'w wneud. Rŷm ni'n erfyn y byddai BT yn bwrw'r targed o 655,000 o lefydd erbyn yr haf nesaf, ac mae'n rhaid iddyn nhw sicrhau eu bod nhw'n delifro yn ôl y cytundeb ei hunan erbyn mis Mehefin 2017.

They are not being left behind. I understand that the majority of people who are part of the Aberystwyth exchange now do receive broadband the same as Borth, and just over half in Rhydypennau. But, of course, there is work to do. We expect that BT will hit the target of 655,000 of locations by next summer, and they must ensure that they do deliver according to the contract itself by June 2017.

Senedd.tv Fideo Video

14:07 **William Powell** Bywgraffiad Biography

Following the concerns expressed around this Chamber, First Minister, would you agree with me that it would be useful, as has been suggested by the Countryside Alliance, to have a notspot summit, so that areas such as Ceredigion, Carmarthen East and other parts of west Wales that are so badly affected in this way, could share good practice, consider options and also bring to the fore quite how serious the economic impact is of the plight of not having the broadband that you've quite rightly described as being essential for doing business in the twenty-first century?

Yn dilyn pryderon a fynegwyd o amgylch y Siambr hon, Brif Weinidog, a fyddech chi'n cytuno â mi y byddai'n ddefnyddiol, fel yr awgrymwyd gan y Gynghrair Cefn Gwlad, i gael uwchgynhadledd mannau gwan, fel y gallai ardaloedd fel Ceredigion, Dwyrain Caerfyrddin a rhannau eraill o'r gorllewin sy'n cael eu heffeithio mor wael fel hyn, rannu arferion da, ystyried dewisiadau yn ogystal ag amlygu yn union pa mor ddifrifol yw effaith economaidd bod yn y sefyllfa o fod heb y band eang yr ydych chi wedi ei ddweud yn gwbl briodol sy'n hanfodol ar gyfer cyflawni busnes yn yr unfed ganrif ar hugain?

Senedd.tv Fideo Video

14:07 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Well, the answer to the question is 'Superfast Cymru', in my view. The target will be hit by the summer of next year. I can say, of course, that the contract with BT has been extended to cover over 42,000 premises identified as not scheduled to be addressed under the Superfast Cymru project, or commercial roll-out. So, it is been extended in that way. It's not a question of if it is a question of 'when', and I know that BT are working hard to make sure that the target is hit. I expect the target to be hit in the summer of next year and, of course, for the contract to be completed satisfactorily by the following year.

Wel, 'Cyflymu Cymru' yw'r ateb i'r cwestiwn, yn fy marn i. Bydd y targed yn cael ei gyrraedd erbyn haf y flwyddyn nesaf. Gallaf ddweud, wrth gwrs, bod y contract gyda BT wedi ei ymestyn i gynnwys mwy na 42,000 o safleoedd y nodwyd na fyddant yn cael sylw o dan brosiect Cyflymu Cymru, na chyflwyniad masnachol. Felly, mae wedi ei ymestyn yn y ffordd honno. Nid yw'n fater o 'os', mae'n fater o 'pa bryd', a gwn fod BT yn gweithio'n galed i wneud yn siŵr bod y targed yn cael ei gyrraedd. Rwy'n disgwyl i'r targed gael ei gyrraedd yn ystod haf y flwyddyn nesaf ac, wrth gwrs, i'r contract gael ei gwblhau'n foddhaol erbyn y flwyddyn ganlynol.

Senedd.tv Fideo Video

## Morlyn Ynni'r Llanw Bae Abertawe

## Swansea Bay Tidal Lagoon

14:08 **Peter Black** Bywgraffiad Biography

*8. Pa drafodaethau y mae Llywodraeth Cymru wedi'u cael gyda Llywodraeth y DU am forlyn ynni'r llanw bae Abertawe? OAQ(4)2492(FM)*

*8. What discussions has the Welsh Government had with the UK Government regarding the Swansea Bay Tidal Lagoon? OAQ(4)2492(FM)*

Senedd.tv Fideo Video

14:08 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

We have regular discussions over what is an ambitious project that we fully support—a project that we believe will bring significant, projected economic benefits, not just to Swansea bay, but beyond. There is a huge amount of foot dragging from Whitehall on this, and we are no further forward in terms of understanding what the strike price will be and what the commercial atmosphere will be for the investors.

Rydym ni'n cynnal trafodaethau rheolaidd am yr hyn sy'n brosiect uchelgeisiol yr ydym yn ei gefnogi'n llawn—prosiect yr ydym yn credu y bydd yn dod â manteision economaidd rhagamcanol sylweddol, nid yn unig i fae Abertawe, ond y tu hwnt. Mae llawer iawn o lusgo traed gan Whitehall yn hyn o beth, a dydym ni ddim pellach ymlaen o ran deall beth fydd y pris streic a beth fydd yr awyrgylch fasnachol i'r buddsoddwyr.

Senedd.tv Fideo Video

14:08 **Peter Black** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

Thank you for that answer, First Minister. I raised with the natural resources Minister last week my concerns about the one-year delay in constructing this lagoon, simply because of the foot dragging that's taking place over the feed-in tariff. Can I ask whether you've had any indication from the UK Government of whether the timescale they've set down in terms of the feed-in tariff by the end of this year will be met, and are you concerned that, if that continues past the new year, it will put this project in jeopardy?

Diolch i chi am yr ateb yna, Brif Weinidog. Codais gyda'r Gweinidog cyfoeth naturiol yr wythnos diwethaf fy mhryderon ynghylch yr oedi o flwyddyn wrth adeiladu'r morlyn hwn, dim ond oherwydd y llusgo traed sy'n digwydd o ran y tariff cyflenwi trydan. A gaf i ofyn a ydych chi wedi cael unrhyw arwydd gan Lywodraeth y DU o ba un a fydd y terfyn amser y mae wedi ei bennu o ran y tariff cyflenwi trydan erbyn diwedd y flwyddyn hon yn cael ei fodloni, ac a ydych chi'n pryderu, os bydd hynny'n parhau y tu hwnt i'r flwyddyn newydd, y bydd yn rhoi'r prosiect hwn yn y fantol?

14:09 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Senedd.tv
Fideo Video

We've had no indication of the time frame, I have to say to the Member. We have asked for it, but there's no indication of it. I think it's there for all to see that UK Government is not supportive of renewables. Of course, we've seen the subsidies removed from photovoltaic cells, we've seen the subsidies removed from onshore wind, we've seen a gigantic lone being made with regard to the Hinkley nuclear power station, but nothing on this tidal lagoon. Whilst all the consents are in place, or close to being in place, until we know what the strike price will be, it's not going to go ahead. It's about time we got some certainty from Whitehall on this.

Nid ydym wedi cael unrhyw syniad o'r terfyn amser, mae'n rhaid i mi ddweud wrth yr Aelod. Rydym ni wedi gofyn amdano, ond nid oes unrhyw arwydd ohono. Rwy'n credu ei fod yno i bawb ei weld nad yw Llywodraeth y DU yn cefnogi ynni adnewyddadwy. Wrth gwrs, rydym ni wedi gweld cymorthdaliadau'n cael eu tynnu yn ôl o ran celloedd ffotofoltäig, rydym ni wedi gweld y cymorthdaliadau'n cael eu tynnu yn ôl o ran gwynt ar y tir, rydym ni wedi gweld benthyciad enfawr yn cael ei wneud ar gyfer gorsaf ynni niwclear Hinkley, ond dim byd ar gyfer y morlyn llanw hwn. Er bod pob caniatâd wedi'u sefydlu, neu'n agos at fod wedi'u sefydlu, ni fydd hyn yn mynd yn ei flaen tan y byddwn ni'n gwybod beth yw'r pris streic. Mae'n hen bryd i ni gael rhywfaint o sicrwydd gan Whitehall ar hyn.

14:10 **David Rees** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

First Minister, it is hugely disappointing that this project is being delayed because of the foot dragging in Whitehall. However, what's important in this innovative project are the actual skills that we can develop in the creation of the tidal bay lagoon, and the fact that we can take those skills into other projects beyond the coastal areas around Wales. What discussions have you had about the apprenticeships and skills needs of the tidal bay lagoon so that we can develop those skills now, here in Wales?

Brif Weinidog, mae'n hynod siomedig bod y prosiect hwn yn cael ei oedi oherwydd y llusgo traed yn Whitehall. Fodd bynnag, yr hyn sy'n bwysig yn y prosiect arloesol hwn yw'r sgiliau y gallwn ni eu datblygu wrth greu morlyn bae llanw, a'r ffaith ein bod ni'n gallu trosglwyddo'r sgiliau hynny i brosiectau eraill y tu hwnt i'r ardaloedd arfordirol ledled Cymru. Pa drafodaethau ydych chi wedi eu cael ar anghenion prentisiaeth a sgiliau y morlyn bae llanw fel y gallwn ni ddatblygu'r sgiliau hynny nawr, yma yng Nghymru?

14:10 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Senedd.tv
Fideo Video

Well, I notice from the Conservative benches there was some chuckling. They'd be far better off if they pulled their fingers out and actually did some representation of Wales in Whitehall and got this project, which is a great driver of jobs in Wales, off the ground. Instead, they sit there and pontificate. But there we are. We expect nothing less from them, so I'm trying to be charitable as well in that regard.

Wel, rwy'n sylwi bod rhywfaint o chwerthin o feinciau'r Ceidwadwyr. Byddai'n llawer gwell pe byddent yn tynnu eu bysedd allan ac yn cynrychioli Cymru rhywfaint yn Whitehall a rhoi'r prosiect hwn, sy'n sbardun mawr ar gyfer swyddi yng Nghymru, ar waith. Yn hytrach, maen nhw'n eistedd yn y fan yna ac yn pregethu. Ond dyna ni. Dydym ni ddim yn disgwyl dim llai ganddyn nhw, felly rwy'n ceisio bod yn garedig hefyd yn hynny o beth.

But he's right. There are huge opportunities for Port Talbot, and there are huge opportunities for the Haven Waterway, in terms of manufacturing the kit, and in terms of maintaining the kit as well, and yet we've had zero support from the UK Government or the Welsh Conservative party.

Ond mae e'n iawn. Mae cyfleoedd enfawr i Bort Talbot, ac mae cyfleoedd enfawr i Ddyfrffordd Aberdaugleddau, o ran gweithgynhyrchu'r cit, ac o ran cynnal a chadw'r cit hefyd, ac eto nid ydym ni wedi cael unrhyw gefnogaeth gan Lywodraeth y DU na phlaid Geidwadol Cymru.

14:11 **Altaf Hussain** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

First Minister, do you agree that the strike price will be in reality a subsidy to the tidal lagoon, and that it is therefore right that the Government ensures that any strike price gets the right balance between the cost to the taxpayer and support for the industry? Given the challenging economic climate, do you also agree that the Government should not rush into a strike price that disadvantages the taxpayers and energy bills?

Brif Weinidog, a ydych chi'n cytuno mai cymhorthdal i'r morlyn llanw fydd y pris streic mewn gwirionedd, a'i bod yn iawn felly bod y Llywodraeth yn sicrhau bod unrhyw bris streic yn cael y cydbwysedd iawn rhwng y gost i'r trethdalwr a chymorth i'r diwydiant? O ystyried yr hinsawdd economaidd heriol, a ydych chi hefyd yn cytuno na ddylai'r Llywodraeth ruthro i gytuno pris streic sy'n rhoi'r trethdalwyr a biliau ynni dan anfantais?

14:11 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Well, that doesn't seem to apply to nuclear power, I must say. I do think that the UK Government's energy policy is an omnishambles. No-one—and this is industry saying this—has any idea what the UK Government wants, and no idea what the energy policy of the UK is. The Swansea bay tidal lagoon is an immensely useful project, but there's been absolutely no support so far from the Conservatives because it doesn't fit into their view of the world. They'd much rather see us import more and more energy, with all the costs of energy security—but that doesn't matter at the moment. This is a project that delivers renewable energy at a high rate, at a cheap rate, and will employ lots of people in Wales, and the Conservatives over there don't care.

Wel, nid yw'n ymddangos bod hynny'n berthnasol i ynni niwclear, mae'n rhaid i mi ddweud. Rwyf yn credu bod polisi ynni Llywodraeth y DU yn llanast llwyr. Nid oes gan unrhyw un—a'r diwydiant sy'n dweud hyn—unrhyw syniad beth mae Llywodraeth y DU ei eisiau, a dim syniad beth yw polisi ynni'r DU. Mae morlyn llanw bae Abertawe yn brosiect hynod o ddefnyddiol, ond ni fu unrhyw gefnogaeth o gwbl hyd yn hyn gan y Ceidwadwyr gan nad yw'n cyd-fynd â'u safbwynt ar y byd. Byddai'n llawer gwell ganddynt ein gweld ni'n mewnforio mwy a mwy o ynni, gyda holl gostau diogelwch ynni—ond nid oes ots am hynny ar hyn o bryd. Mae hwn yn brosiect sy'n darparu ynni adnewyddadwy ar raddfa uchel, yn rhad, a bydd yn cyflogi llawer o bobl yng Nghymru, a does dim ots gan y Ceidwadwyr draw yn y fan yna.

14:12 **Llyr Gruffydd** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Mi ddywedoch chi gynnau, Brif Weinidog, bod y caniatadau i gyd bron â bod mewn lle. Mae hynny yn bwysig oherwydd mae gan Gyfoeth Naturiol Cymru, wrth gwrs, rôl bwysig i'w chwarae o safbwynt caniatadau amgylcheddol ym morlyn bae Abertawe, fel, gobeithio, y bydd ganddyn nhw mewn nifer o brosiectau eraill tebyg yn y dyfodol. Ond mae yna gonsérn, wrth gwrs, ynglŷn â chapasiti Cyfoeth Naturiol Cymru i fedru delifro caniatadau, yn enwedig os ydy hynny'n cynyddu yn y blynyddoedd i ddod. A allwch chi, felly—drwy gydnabod bod eich Llywodraeth chi yn rhoi mwy o ddyletswyddau ar Gyfoeth Naturiol Cymru ar yr un llaw, ac yn lleihau eu cyllidebau nhw ar y llaw arall—roi sicrwydd i ni y byddwch chi'n gwarchod y capasiti a'r adnoddau hynny er mwyn gwneud yn siŵr eu bod nhw mewn sefyllfa i fedru cyflawni'r rôl yna yn effeithiol?

You said earlier, First Minister, that all of the consents were almost in place. That's important because Natural Resources Wales, of course, has an important role to play in terms of environmental consents in the Swansea bay lagoon, as I hope they will have in a number of similar projects in the future. But there is concern, of course, about the capacity of NRW to be able to deliver consents, particularly if that increases in years to come. Can you therefore—while recognising that your Government is placing more responsibilities on NRW on the one hand, and reducing their budget on the other—give an assurance that you will protect the capacity and those resources in order to ensure that they are in a position to achieve that role effectively?

14:12 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Rydym yn moyn sicrhau, wrth gwrs, bod yr adnoddau ar gael iddyn nhw fel y gallant cyflawni eu dyletswyddau. Ond nid oes arwydd o gwbl bod yna broblem ynglŷn â Chyfoeth Naturiol Cymru ynglŷn â delio â'r cais hwn.

We want to ensure, of course, that the resources are available to them so that they can fulfil their duties. But there is no sign at all that there is a problem in relation to Natural Resources Wales in dealing with this application.

## Adfywio

## Regeneration

14:13 **Kirsty Williams** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

*9. A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am adfywio trefi marchnad? OAQ(4)2493(FM)*

*9. Will the First Minister make a statement on the regeneration of market towns? OAQ(4)2493(FM)*

14:13 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Senedd.tv
Fideo Video

I will, again. Across Wales there are many market towns that play a crucial role in the Welsh economy. We are supporting those towns to grow and prosper through initiatives such as town-centre partnerships, business improvement districts and town-centre loan schemes. And, of course, we supported the high-street campaign again this year.

Gwnaf, unwaith eto. Mae llawer o drefi marchnad ledled Cymru sy'n cyflawni swyddogaeth hollbwysig yn economi Cymru. Rydym ni'n cynorthwyo'r trefi hynny i dyfu a ffynnu trwy fentrau fel partneriaethau canol tref, ardaloedd gwella busnes a chynlluniau benthyciadau canol tref. Ac, wrth gwrs, rydym ni wedi cefnogi ymgyrch y stryd fawr eto eleni.

14:13 **Kirsty Williams** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

One of the ways in which your Government has indeed been supporting one market town in Brecon and Radnorshire was by the appointment of a town development officer for Llandrindod Wells, which came out of the work that had been chaired by Justin Baird-Murray. Now, that post is due to come to an end. It has begun to make a real impact in the town. I recently opened Wales's first-ever youth market. Would the Government look favourably on extending funding for that post so that we can really get value for money out of it, and we can continue to develop the important work that has started in the town?

Yn wir, un o'r ffyrdd y mae eich Llywodraeth wedi bod yn cefnogi un dref marchnad ym Mrycheiniog a Sir Faesyfed oedd trwy benodi swyddog datblygu'r dref ar gyfer Llandrindod, a ddeilliodd o'r gwaith a gadeiriwyd gan Justin Baird-Murray. Nawr, mae'r swydd honno ar fin dod i ben. Mae wedi dechrau cael effaith gwirioneddol yn y dref. Agorais farchnad ieuenctid gyntaf erioed Cymru yn ddiweddar. A fyddai'r Llywodraeth yn edrych yn ffafriol ar ymestyn cyllid ar gyfer y swydd honno er mwyn i ni gael gwerth am arian gwirioneddol allan ohoni, ac y gallwn barhau i ddatblygu'r gwaith pwysig sydd wedi dechrau yn y dref?

14:14 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Senedd.tv
Fideo Video

Well, let me write to the Member on that. Although I do take account of what she said about the beneficial effect there's been on Llandrindod, we know that so many towns have been affected over the years by online trading. We know that that's a major challenge. We know, for example, that the addition of a supermarket even slightly out of the town centre, which is the case, of course, in Llandrindod, has an effect on trade in the town centre. But I will write to the Member on that.

Wel, gadewch i mi ysgrifennu at yr Aelod am hynny. Er fy mod i'n cymryd i ystyriaeth yr hyn y mae wedi ei ddweud am yr effaith lesol a gafwyd ar Landrindod, rydym ni'n gwybod bod cymaint o drefi wedi cael eu heffeithio gan fasnachu ar-lein dros y blynyddoedd. Rydym ni'n gwybod bod honno'n her fawr. Gwyddom, er enghraifft, bod ychwanegu archfarchnad hyd yn oed ychydig allan o ganol y dref, ac mae hynny'n wir yn Llandrindod, wrth gwrs, yn cael effaith ar fasnach yng nghanol y dref. Ond byddaf yn ysgrifennu at yr Aelod am hynny.

14:14 **Russell George** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

First Minister, I'm sure you will agree with me that we want to see bustling high streets and busy high streets, and to achieve this, of course, we need to think of ways in which our market towns can compete with, as you said, the internet, and also out-of-town shopping centres, which pose the obvious threat. Can I ask what the Government is doing to encourage more flexible parking arrangements, such as free parking for the first two hours? Clearly, this would be a way in which businesses could compete with out-of-town centres.

Brif Weinidog, rwy'n siŵr y byddwch chi'n cytuno â mi ein bod ni eisiau gweld strydoedd mawr llawn a strydoedd mawr prysur, ac i sicrhau hyn, wrth gwrs, mae angen i ni feddwl am ffyrdd y gall ein trefi marchnad gystadlu gyda, fel y dywedasoch, y rhyngrwyd yn ogystal â chanolfannau siopa y tu allan i'r dref, sef y bygythiad amlwg. A gaf i ofyn beth mae'r Llywodraeth yn ei wneud i annog trefniadau parcio mwy hyblyg, fel parcio am ddim am y ddwy awr gyntaf? Yn amlwg, byddai hyn yn ffordd y gallai busnesau gystadlu gyda busnesau y tu allan i ganol y dref.

14:15 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Senedd.tv
Fideo Video

[Inaudible.]—he could urge his own council to follow such flexible parking policies, I'm sure that he would. I don't think free parking is necessarily the answer. It's true to say, for example, that Cowbridge is successful. Cowbrige is a town with a high per capita income. It does have free parking, that's true, but it's not an easy place to park in, as people will know. Narberth, for example, which has prospered and done very well doesn't have a free car park, if I remember, at the top of the town. Ultimately, what a town needs is to give a reason for people to come into the town to shop, to have the range of shops that are unusual that will draw people in and create an atmosphere where people will want to come and shop in that town. That's what Narberth has done successfully; it's what Cowbridge has done successfully over the years; and it's what Carmarthen has done successfully over the years.

[Anghlywadwy.]—gallai annog ei gyngor ei hun i ddilyn polisïau parcio hyblyg o'r fath, rwy'n siŵr y byddai. Nid wyf yn credu mai parcio am ddim yw'r ateb o reidrwydd. Mae'n wir i ddweud, er enghraifft, bod y Bont-faen yn llwyddiannus. Mae'r Bont-faen yn dref ag incwm uchel fesul pen. Ceir parcio am ddim yno, mae hynny'n wir, ond nid yw'n lle hawdd i barcio ynddo, fel y bydd pobl yn gwybod. Nid oes gan Arberth, er enghraifft, sydd wedi ffynnu a gwneud yn dda iawn faes parcio am ddim, os wyf yn cofio, ym mhen uchaf y dref. Yn y pen draw, yr hyn sydd ei angen ar dref yw rhoi rheswm i bobl ddod i mewn i'r dref i siopa, i fod â'r amrywiaeth o siopau sy'n anarferol a fydd yn denu pobl i mewn a chreu awyrgylch lle bydd pobl eisiau dod i siopa yn y dref honno. Dyna mae Arberth wedi ei wneud yn llwyddiannus; dyna mae'r Bont-faen wedi ei wneud yn llwyddiannus dros y blynyddoedd; a dyna mae Caerfyrddin wedi ei wneud yn llwyddiannus dros y blynyddoedd.

So, yes, there are opportunities there for town centres. There are opportunities for traders to work together to achieve a common vision for a town and we see there are towns in Wales that have managed to achieve just that. But, ultimately, shops need customers. It doesn't matter what you offer in terms of business support, if they don't have any customers, they're going to close. Ultimately, shops need to make sure they're not competing directly with the online retailers and with the supermarkets. We see, in towns like Narberth, that it's possible to do that.

Felly, oes, mae cyfleoedd ar gael i ganol trefi. Mae cyfleoedd i fasnachwyr weithio gyda'i gilydd i gyflawni gweledigaeth gyffredin ar gyfer tref ac rydym ni'n gweld bod trefi yng Nghymru sydd wedi llwyddo i gyflawni'n union hynny. Ond, yn y pen draw, mae angen cwsmeriaid ar siopau. Nid oes ots beth rydych chi'n ei gynnig o ran cymorth busnes, os nad oes ganddyn nhw gwsmeriaid, maen nhw'n mynd i gau. Yn y pen draw, mae angen i siopau wneud yn siŵr nad ydynt yn cystadlu'n uniongyrchol â'r manwerthwyr ar-lein a chyda'r archfarchnadoedd. Rydym ni'n gweld, mewn trefi fel Arberth, ei bod yn bosibl gwneud hynny.

14:16 **Rhun ap Iorwerth** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

A ydy'r Prif Weinidog yn cytuno efo'r budd a allai ddod o greu strategaethau datblygu economi yn rhanbarthol, ac y gallai hynny gynnwys creu 'hubs' rhanbarthol fel modd o greu bwrlwm economaidd, sydd wrth gwrs yn gwbl hanfodol er mwyn datblygu ardaloedd ledled Cymru, gan gynnwys ein trefi marchnad?

Does the First Minister agree with the benefits that could emerge from the creation of economic development strategies on a regional level, and that that could include the creation of regional hubs as a means of creating economic activity, which is so important in order to develop areas across Wales, including our market towns?

14:16 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Senedd.tv
Fideo Video

Dyna'n gwmws beth rŷm ni'n ei wneud nawr gyda phartneriaethau ar gyfer canol trefi. Mae Llangefni yn un ohonyn nhw, yn ei etholaeth e, ac y mae Caerfyrddin, Porthmadog, y Fenni ac Abergwaun hefyd. Mae gennym gronfa benthyciadau i drefi hefyd, ac mae arian wedi cael ei roi i Geredigion, Powys, sir Benfro a sir Fynwy er mwyn gwneud hynny. So, byddwn i'n dadlau bod hynny'n digwydd yn barod.

That's exactly what we're doing now with these partnerships with regard to town centres. Llangefni is one of them, of course, in the Member's constituency, as are Carmarthen, Porthmadog, Abergavenny and Fishguard. We also have a loans fund for towns and funding has been given to Ceredigion, Powys, Pembrokeshire and Monmouthshire to do that. So, I would argue that that's happening already.

14:17 **Y Llywydd / The Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

Thank you, First Minister.

Diolch yn fawr, Brif Weinidog.

14:17

## 2. Datganiad a Chyhoeddiad Busnes

## 2. Business Statement and Announcement

Senedd.tv
Fideo Video

**Y Llywydd / The Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

We now move to item 2, which is the business statement. I call on the Minister, Jane Hutt.

Symudwn yn awr at eitem 2, sef y datganiad busnes. Galwaf ar y Gweinidog, Jane Hutt.

14:17 **Jane Hutt** Bywgraffiad Biography

*Y Gweinidog Cyllid a Busnes y Llywodraeth / The Minister for Finance and Government Business*

Senedd.tv
Fideo Video

Llywydd, there are two changes to report to the business statement for this week's business. The title of the Minister for Public Services' statement has changed to 'Alternative Delivery Models in Public Service Delivery: An Action Plan for Consultation'. The Deputy Minister for Health will make a statement on 'Saving Lives from Sepsis—An Update on Progress'. Business for the next three weeks is as shown on the business statement and announcement, which can be found among the agenda papers available to Members electronically.

Lywydd, mae dau newid i'w hadrodd i'r datganiad busnes ar gyfer busnes yr wythnos hon. Mae teitl datganiad y Gweinidog Gwasanaethau Cyhoeddus wedi newid i 'Modelau Darparu Amgen i Ddarparu Gwasanaethau Cyhoeddus: Cynllun Gweithredu ar gyfer Ymgynghori'. Bydd y Dirprwy Weinidog Iechyd yn gwneud datganiad ar 'Achub Bywydau rhag Sepsis—Y Diweddaraf ar y Cynnydd'. Mae'r busnes ar gyfer y tair wythnos nesaf fel y'i dangosir ar y datganiad a chyhoeddiad busnes, y gellir ei weld ymhlith y papurau agenda sydd ar gael i'r Aelodau yn electronig.

14:17 **Andrew R.T. Davies** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

Leader of the house, is it possible to have a statement from the public services Minister and the health Minister? We're going into the winter months now and one of the things that we all hope we won't have is a hard winter, but it's always best to be prepared. I, after being elected here in 2007, have attended various statements over the years that have looked back on events and found that we hadn't been prepared in having car parks gritted or having salt available or having plans in place to bring key staff in—in both key areas, local government and the health service. It would be welcome if a statement could come forward from the Government to indicate how its agencies across Wales are preparing for what we hope won't be a hard winter, but in the advent of it coming and hitting us hard, the preparations are there and we're not all holding our hands up in the air wondering why people can't get to their appointments, why car parks are frozen up, why salt hasn't been put on the road, and why key workers can't get into work.

Arweinydd y tŷ, a yw'n bosibl cael datganiad gan y Gweinidog gwasanaethau cyhoeddus a'r Gweinidog iechyd? Rydym yn mynd i fisoedd y gaeaf nawr ac un o'r pethau yr ydym i gyd yn ei obeithio yw na fyddwn yn ei wynebu yw gaeaf caled, ond mae hi bob amser yn well bod yn barod amdano. Rwyf i, ar ôl cael fy ethol yma yn 2007, wedi bod yn bresennol mewn amryw o ddatganiadau dros y blynyddoedd sydd wedi edrych yn ôl ar ddigwyddiadau a chanfod nad oeddem ni'n barod ar gyfer graeanu meysydd parcio neu sicrhau bod halen ar gael neu gael cynlluniau ar waith i ddod â staff allweddol i mewn—yn y ddau faes allweddol, llywodraeth leol a'r gwasanaeth iechyd. Byddwn yn croesawu cael datganiad gan y Llywodraeth i nodi sut y mae ei hasiantaethau ledled Cymru yn paratoi ar gyfer yr hyn y gobeithiwn na fydd yn aeaf caled, ond pe byddai'n dod ac yn ein taro yn galed, bod y paratoadau yno ac na fyddwn ni i gyd yn dal ein dwylo i fyny yn yr awyr gan ryfeddu pam na all pobl gyrraedd eu hapwyntiadau, pam mae meysydd parcio wedi'u rhewi'n galed, pam nad oes halen wedi ei roi ar y ffyrdd, a pham na all gweithwyr allweddol gyrraedd eu gwaith.

14:18 **Jane Hutt** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

Thank you for that question—a very important question in terms of the planning that is already under way in terms of the forthcoming winter. This is a cross-Government responsibility, as you say, Andrew R.T. Davies. I can assure the Member that work is under way and not just the fact that we're now—. I'm sure Members will recognise that the call for flu immunisation is already under way. Across the board, the Government is preparing for this.

Diolch am y cwestiwn yna—cwestiwn pwysig iawn o ran y cynllunio sydd eisoes yn mynd yn ei flaen ar gyfer y gaeaf sydd i ddod. Mae hwn yn gyfrifoldeb i bob rhan o'r Llywodraeth, fel y dywedwch, Andrew R.T. Davies. Gallaf sicrhau'r Aelod bod gwaith wedi cychwyn ac nid dim ond y ffaith ein bod bellach—. Rwy'n siŵr y bydd yr Aelodau'n cydnabod bod y galw am imiwneiddio rhag y ffliw eisoes wedi cychwyn. Mae pob rhan o'r Llywodraeth yn paratoi ar gyfer hyn.

14:19 **Julie Morgan** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

On Saturday, I hosted a meeting to mark the International Day of Older Persons. I was pleased that the huge contribution that older people make through employment, voluntary work, carers and raising money was recognised at this meeting. However, one issue that came up was the closure of local services and the disproportionate effect that that has on older people—in particular, the closure of bank branches. In Rhiwbina, in my constituency, the local NatWest branch is the only branch left in the village and that is proposed for closure. Could we have a debate on the effect such closures have, in particular on older people and the disproportionate effect that that portion of the population does bear?

Ddydd Sadwrn, cynhaliais gyfarfod i ddathlu Diwrnod Rhyngwladol Pobl Hŷn. Roeddwn yn falch bod y cyfraniad enfawr y mae pobl hŷn yn ei wneud trwy gyflogaeth, gwaith gwirfoddol, gofalwyr a chodi arian yn cael ei gydnabod yn y cyfarfod hwn. Fodd bynnag, un mater a godwyd oedd cau gwasanaethau lleol a'r effaith anghymesur a gaiff hynny ar bobl hŷn—yn enwedig, cau canghennau banc. Yn Rhiwbeina, yn fy etholaeth i, y gangen NatWest leol yw'r unig gangen sydd ar ôl yn y pentref ac mae bwriad i gau honno. A allem ni gael dadl ar yr effaith y mae achosion o gau o'r fath yn ei chael, yn enwedig ar bobl hŷn, a'r effaith anghymesur sydd ar y gyfran honno o'r boblogaeth?

14:20

## Jane Hutt Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

I thank Julie Morgan for raising that important question. Of course, the regulation of banks is a matter for the UK Government, in terms of responsibilities. What is important is that there are regular meetings that we hold with the main banks, pressing them for better access to finance for business and for the community, because it's older people who are going to be disadvantaged by these bank branch closures. Of course, this is a bank that said that they were committed to not closing the last branch in town to maintain a local banking service. The last branch in Rhiwbina is now going, as a result of NatWest Bank's decision. I think it is important that Members who are in constituencies where these banks are closing do respond to the impact assessment that has to be undertaken–I certainly have, in terms of the closure of the NatWest branch in Llantwit Major, accompanied by a very strong petition.

Diolch i Julie Morgan am godi'r cwestiwn pwysig yna. Wrth gwrs, mater i Lywodraeth y DU yw rheoleiddio banciau, o ran cyfrifoldeb. Yr hyn sy'n bwysig yw ein bod yn cynnal cyfarfodydd rheolaidd gyda'r prif fanciau, gan bwyso arnynt am well mynediad at gyllid ar gyfer busnes ac ar gyfer y gymuned, gan mai pobl hŷn sy'n mynd i fod o dan anfantais o ganlyniad i gau'r canghennau banc hyn. Wrth gwrs, mae hwn yn fanc a ddywedodd ei fod wedi ymrwymo i beidio â chau'r gangen olaf mewn tref er mwyn cynnal gwasanaeth bancio lleol. Mae'r gangen olaf yn Rhiwbeina yn mynd yn awr, o ganlyniad i benderfyniad Banc NatWest. Rwy'n credu ei bod yn bwysig bod Aelodau sydd mewn etholaethau lle y mae'r banciau hyn yn cael eu cau yn ymateb i'r asesiad o effaith y mae'n rhaid ei gynnal—rwyf i yn sicr wedi gwneud hynny, o ran cau'r gangen NatWest yn Llanilltud Fawr, drwy ddeiseb gref iawn.

14:21

## Simon Thomas Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

Weinidog, ar 1 Hydref, byddwn ni'n symud tuag at y system newydd o roi organau, ac mae hynny'n gam mawr i'r Cynulliad ac i'r Llywodraeth hefyd. A oes modd i ni gael datganiad gan y Llywodraeth ynglŷn â sut y mae'r ymgyrch hysbysebu a chodi ymwybyddiaeth o'r newid yma wedi llwyddo, ai peidio? A yw'r targedau wedi'u cyrraedd? Pa garfanau o bobl sydd wedi cael eu cynnwys yn yr hysbysebu yma? A ydych chi o'r farn bod pobl yn gwybod nawr beth yw eu safbwynt nhw o dan y Ddeddf newydd, gan gynnwys, wrth gwrs, yn enwedig, y bobl hynny sydd yn anodd eu cyrraedd achos eu bod nhw yng Nghymru am gyfnod yn unig, efallai, megis myfyrwyr? Cafwyd trafodaeth wrth basio'r Ddeddf ynglŷn â'r materion hyn, a byddwn yn licio clywed gan y Llywodraeth i ba raddau maen nhw wedi bod yn llwyddiannus, ai peidio, wrth wneud hyn.

Minister, on 1 October, we will move to the new organ donation system, and that is a major step for the Assembly and the Government. Could we have a statement from Government as to how the advertising and awareness-raising campaign have succeeded or otherwise? Have targets been met? What groups of people have been included within these advertising campaigns? Are you of the opinion that people know what their position is under the new legislation, including of course those people who are harder to reach because they may only be in Wales for a brief period of time, such as students? There was some discussion when the legislation was passed on these issues, and I would like to hear from Government whether they have been successful or otherwise in achieving this.

Jest i roi enghraifft i chi: mae etholwraig wedi cysylltu â mi yn ddiweddar sydd yn dymuno i'w theulu benderfynu a fydd hi'n rhoi organau ai peidio. Nid yw'n syml iawn i ddweud, felly, ei bod hi wedi optio i mewn, neu optio mas, achos mae hi am i'w theulu benderfynu. Mae modd dynodi rhywun i benderfynu ar eich rhan, ond pan edrychais i, er mwyn helpu'r etholwraig ynglŷn â'r materion hyn, roedd y ddolen gyswllt ar 'Organ Donation Wales', y wefan, yn wag. Felly, mae diffyg gwybodaeth yna a methiant i ddarparu. Er mwyn inni osgoi unrhyw broblemau yn hysbysu pawb am hyn, a allwn ni gael y datganiad yna a chymaint o waith ag sy'n bosib gan y Llywodraeth i wneud yn siŵr bod pawb yn gwybod y ffeithiau?

Just to give you an example: a constituent has been in touch with me recently who wishes for her family to decide whether she donates her organs or not. It's not simple to say whether she has opted in or opted out because she wants her family to make that decision. One person can be designated to make a decision on your behalf, but when I looked into this, in trying to assist the constituent, the link on Organ Donation Wales, the website, didn't work. So, there is an absence of information there and a failure to provide sufficient information. So that we avoid any problems in this area, can we have that statement and as much work as possible by Government to ensure that everyone is aware of the facts?

14:23

## Jane Hutt Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

Well, I thank Simon Thomas for that question. We were very pleased that the Assembly passed the regulations and the code of practice and, of course, the passing of those represented the last pieces of the jigsaw in the implementation of deemed consent. It is vital that the publicity campaign continues, led by the Minister for Health and Social Services and his officials, to give everyone in Wales the chance and the opportunity to find out about the change, both before it comes into force on 1 December 2015, and afterwards.

Wel, diolch i Simon Thomas am y cwestiwn yna. Roeddem yn falch iawn bod y Cynulliad wedi pasio'r rheoliadau a'r cod ymarfer ac, wrth gwrs, roedd pasio'r rheini yn cynrychioli'r darnau olaf o'r jig-so wrth weithredu cydsyniad tybiedig. Mae'n hanfodol bod yr ymgyrch cyhoeddusrwydd yn parhau, o dan arweiniad y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol a'i swyddogion, er mwyn rhoi'r cyfle i bawb yng Nghymru ddod i wybod am y newid, cyn iddo ddod i rym ar 1 Rhagfyr 2015, ac ar ôl hynny.

14:23 **Kirsty Williams** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Minister, would it be possible to receive a statement from the Deputy Minister for Farming and Food regarding the news yesterday that a second legal challenge has been brought forward regarding the Welsh Government's implementation of the basic payment scheme? I declare an interest, Presiding Officer, as my husband is a partner in a farming firm that is in receipt of BPS. I would be particularly interested to hear from the Minister whether she believes that this poses a risk to the Government's ability to begin part payments when the window for payments opens in December and, if there is a delay in December, what this legal challenge means for the ability to pay within the complete window and the consequences for Welsh Government if they're not in a position to pay BPS within the window.

Weinidog, a fyddai'n bosibl cael datganiad gan y Dirprwy Weinidog Ffermio a Bwyd ynglŷn â'r newyddion ddoe bod ail her gyfreithiol wedi ei chyflwyno ynglŷn â dull Llywodraeth Cymru o weithredu cynllun y taliad sylfaenol? Rwyf yn datgan buddiant, Lywydd, gan fod fy ngŵr yn bartner mewn cwmni ffermio sydd yn derbyn taliad sylfaenol. Byddai gennyf ddiddordeb arbennig mewn clywed gan y Gweinidog a yw hi'n credu bod hyn yn peri risg i allu'r Llywodraeth i ddechrau talu taliadau rhannol pan fydd y cyfnod talu yn agor ym mis Rhagfyr ac, os bydd oedi ym mis Rhagfyr, yr hyn y mae'r her gyfreithiol hon yn ei olygu i'r gallu i dalu o fewn y cyfnod cyfan a'r canlyniadau i Lywodraeth Cymru os na fydd hi mewn sefyllfa i dalu'r taliad sylfaenol yn ystod y cyfnod.

14:24 **Jane Hutt** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Thank you to Kirsty Williams for that question. I'm glad to, and hope I can clarify the position. On 15 September, the Welsh Government received a pre-action protocol letter of claim from solicitors representing a group of farmers regarding the decision on implementing the basic payment scheme. The Minister responded on 28 September, and further correspondence from the solicitors, dated 9 October, is now being considered. So, it's inappropriate in terms of commenting at this stage in terms of any possibility of legal action, but in the meantime, the most important message is that Rural Payments Wales are making every effort to begin making CAP payments to farmers across Wales this December, and that important work is at an advanced stage.

Diolch i Kirsty Williams am y cwestiwn yna. Rwy'n barod iawn i ateb, a gobeithio y gallaf egluro'r sefyllfa. Ar 15 Medi, derbyniodd Llywodraeth Cymru lythyr hawliad protocol cyn-gweithredu oddi wrth gyfreithwyr yn cynrychioli grŵp o ffermwyr ynghylch y penderfyniad ar weithredu cynllun y taliad sylfaenol. Ymatebodd y Gweinidog ar 28 Medi, ac mae gohebiaeth ychwanegol oddi wrth y cyfreithwyr, dyddiedig 9 Hydref, yn cael ei hystyried ar hyn o bryd. Felly, nid yw'n briodol i wneud unrhyw sylw ar hyn o bryd am unrhyw bosibilrwydd o gamau cyfreithiol, ond yn y cyfamser, y neges bwysicaf yw bod Taliadau Gwledig Cymru yn gwneud pob ymdrech i ddechrau gwneud taliadau PAC i ffermwyr ledled Cymru ym mis Rhagfyr eleni, a bod y gwaith pwysig hwnnw ar gam datblygedig.

14:25 **Mike Hedges** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Can I ask for a Government statement on the proposed tidal lagoon at Swansea, covering the two issues currently unresolved—that is, Natural Resources Wales providing a marine licence, and any discussions the Welsh Government has had with Westminster regarding the strike price?

A gaf i ofyn am ddatganiad gan y Llywodraeth ar y morlyn llanw arfaethedig yn Abertawe, yn cwmpasu'r ddau fater sydd heb eu datrys ar hyn o bryd—sef, Cyfoeth Naturiol Cymru yn darparu trwydded forol, ac unrhyw drafodaethau y mae Llywodraeth Cymru wedi'u cael gyda San Steffan ynghylch y pris streic?

14:25 **Jane Hutt** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Thank you, Mike Hedges. Of course, the First Minister responded to a question on this earlier on. Just to add to the responses made earlier on today, we support, as a Welsh Government, the Swansea bay tidal lagoon. It will exploit Wales's excellent potential for marine energy—another point that's worth making this afternoon. It will create thousands of job opportunities and the skills that David Rees talked about. I want to say, just in terms of support again, that as finance Minister I allocated funding of £1.25 million in 2014-15 to support this important project. In terms of the natural process for Natural Resources Wales to continue the licence, that is progressing. But, we do now face this prospect of a delay to this major project because of dithering over funding from the UK Government. I think what is important also to say this afternoon is that there's huge interest in this in Europe. Certainly, on my recent visit to Brussels I was talking to the European Investment Bank who are hugely interested in this in terms of the European fund for strategic investment.

Diolch i chi, Mike Hedges. Wrth gwrs, ymatebodd y Prif Weinidog i gwestiwn am hyn yn gynharach. I ychwanegu at yr ymatebion a nodwyd yn gynharach heddiw, rydym ni, fel Llywodraeth Cymru, yn cefnogi'r morlyn llanw ym Mae Abertawe. Bydd yn manteisio ar botensial gwych Cymru ar gyfer ynni morol—pwynt arall y mae'n werth ei wneud y prynhawn yma. Bydd yn creu miloedd o gyfleoedd gwaith a'r sgiliau y soniodd David Rees amdanynt. Rwyf eisiau dweud, dim ond o ran cefnogaeth unwaith eto, fy mod i fel y Gweinidog cyllid, wedi neilltuo cyllid o £1.25 miliwn yn 2014-15 i gefnogi'r prosiect pwysig hwn. O ran y broses naturiol ar gyfer Cyfoeth Naturiol Cymru i barhau â'r drwydded, mae hynny'n mynd yn ei flaen. Ond, rydym ni bellach yn wynebu'r posibilrwydd hwn o oedi i'r prosiect sylweddol hwn oherwydd y petruso hwn ynglŷn â chyllid oddi wrth Lywodraeth y DU. Rwy'n credu ei bod yn bwysig hefyd i ddweud y prynhawn yma bod diddordeb anferth yn hyn yn Ewrop. Yn sicr, yn ystod fy ymweliad diweddar â Brwsel roeddwn yn siarad â Banc Buddsoddi Ewrop sydd â diddordeb aruthrol yn hyn o ran y gronfa Ewropeaidd ar gyfer buddsoddi strategol.

14:26 **Eluned Parrott** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Minister, it's been wonderful to see the crowds enjoying the Rugby World Cup matches in Cardiff, and clearly these major events provide a welcome boost for tourism and leisure businesses in and around the city. However, they do put extra pressure on local services, and I've had many complaints recently from both residents and business owners, in and around the city centre, saying that streets are not being cleaned and bins are not being emptied in a timely manner afterwards, meaning that for the Cardiff half marathon, which was on a Sunday morning, our city streets were in an absolutely shameful condition for visitors. I wonder if I could request please a statement from the Minister for culture on what discussions the major events team have with host authorities to ensure that when we are welcoming the world to our capital city, they see the very best of us.

Weinidog, mae wedi bod yn wych gweld y torfeydd yn mwynhau gemau Cwpan Rygbi'r Byd yng Nghaerdydd, ac mae'n amlwg bod y digwyddiadau mawr hyn yn rhoi hwb a groesewir i fusnesau twristiaeth a hamdden yn y ddinas a'i chyffiniau. Fodd bynnag, maen nhw yn rhoi pwysau ychwanegol ar wasanaethau lleol, ac rwyf wedi cael llawer o gwynion yn ddiweddar gan drigolion a pherchnogion busnes, yng nghanol y ddinas ac o amgylch, yn dweud nad yw'r strydoedd yn cael eu glanhau ac nad yw biniau yn cael eu gwagio'n brydlon wedyn, ac roedd hyn yn golygu, ar gyfer hanner marathon Caerdydd, a oedd ar fore Sul, bod strydoedd ein dinas mewn cyflwr hollol gywilyddus i ymwelwyr. Tybed a gaf i ofyn os gwelwch yn dda am ddatganiad gan y Gweinidog diwylliant ynglŷn â pha drafodaethau y mae'r tîm digwyddiadau mawr yn eu cael gyda'r awdurdodau cynnal i sicrhau, pan fyddwn yn croesawu'r byd i'n prifddinas, eu bod yn ein gweld ar ein gorau.

Secondly, I wonder if I may request another statement from the same Minister regarding an update on the expert review of public libraries in Wales, and how local authorities have responded to it since its publication. You will, of course, be aware that today the Save Rhoose Library campaign are taking their fight to overturn a closure decision to the High Court and, of course, we wish them every success with that.

Yn ail, tybed a gaf i ofyn am ddatganiad arall gan yr un Gweinidog ynghylch y wybodaeth ddiweddaraf am yr adolygiad arbenigol o lyfrgelloedd cyhoeddus yng Nghymru, a sut y mae awdurdodau lleol wedi ymateb iddo ers ei gyhoeddi. Byddwch, wrth gwrs, yn ymwybodol bod ymgyrch Achub Llyfrgell y Rhŵs yn mynd â'r frwydr i wrthdroi'r penderfyniad i gau'r llyfrgell i'r Uchel Lys heddiw ac, wrth gwrs, rydym yn dymuno pob llwyddiant iddynt gyda hynny.

14:27 **Jane Hutt** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Thank you to Eluned Parrott for those questions. As far as the first point and question are concerned, the feedback that we've had in terms of the welcome to Wales has been absolutely tremendous over the past few weeks with the Rugby World Cup. Clearly, there are huge new pressures in terms of delivering those all-important services, and after any major event, of course, the Deputy Minister with those partner agencies will always look at lessons learnt. But, I think the delivery of public services has been exemplary in terms of what has been and is still a very important major event for Cardiff and Wales.

Diolch i Eluned Parrott am y cwestiynau yna. O ran y pwynt a'r cwestiwn cyntaf, mae'r adborth yr ydym wedi ei gael ynglŷn â'r croeso i Gymru wedi bod yn wych dros yr ychydig wythnosau diwethaf gyda Chwpan Rygbi'r Byd. Yn amlwg, mae pwysau newydd anferth o ran darparu'r gwasanaethau hollbwysig hynny, ac ar ôl unrhyw ddigwyddiad mawr, wrth gwrs, bydd y Dirprwy Weinidog, gyda'r asiantaethau partner hynny, bob amser yn edrych ar y gwersi a ddysgwyd. Ond, rwy'n credu bod y ddarpariaeth o wasanaethau cyhoeddus wedi bod yn rhagorol mewn digwyddiad sydd wedi bod ac sy'n dal i fod yn ddigwyddiad mawr pwysig iawn i Gaerdydd ac i Gymru.

On the second point, I will also ask the Deputy Minister for Culture, Sport and Tourism to look at the issue in terms of the library review.

O ran yr ail bwynt, byddaf hefyd yn gofyn i'r Dirprwy Weinidog Diwylliant, Chwaraeon a Thwristiaeth i ystyried y mater o ran yr adolygiad o lyfrgelloedd.

14:28 **Jenny Rathbone** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Two issues. One is I wonder if it's possible to have a statement about the regulation of learning opportunities for children outside school. You may have observed David Cameron making some somewhat intemperate remarks at the conference in Manchester about so-called 'madrassas', although it's not a word I've ever heard used amongst the communities who use our seven or eight mosques in my constituency. I went to Sunday school myself; I can't say I enjoyed it and whether it made me a better person or not is for other people to judge. It's an important issue, nevertheless, to ensure that we have a tolerant society where families are able to practice their religion of choice, and to enable their children to get appropriate instruction. However, it's also important that we safeguard and protect the wellbeing of children to ensure that instruction is taking place in a safe and warm environment with the appropriate numbers of adults present for the numbers of children. Could we have a statement on where responsibility lies? So, I'm unclear as to whether it would be the Minister for education, the Minister for Public Services, or the Minister for communities and local government, or is it devolved to Estyn and the local authorities? So, that would be a useful thing, as I'm sure Mr Cameron will come back on that one, and therefore we need to be sure that, in our communities, our children are being safely looked after.

Mae dau fater. Un yw, tybed a yw'n bosibl cael datganiad am reoleiddio cyfleoedd dysgu i blant y tu allan i'r ysgol. Efallai eich bod wedi clywed David Cameron yn gwneud rhai sylwadau braidd yn anghymedrol yn y gynhadledd ym Manceinion am yr hyn a elwir yn 'madrassas', er nad yw'n air yr ydw i erioed wedi ei glywed yn cael ei ddefnyddio yn y cymunedau sy'n defnyddio'r saith neu wyth o fosgiau yn fy etholaeth i. Es i i'r Ysgol Sul fy hun; ni allaf ddweud fy mod wedi mwynhau hynny a mater i bobl eraill yw barnu pa un a'm gwnaeth yn berson gwell ai peidio. Mae'n fater pwysig, er hynny, i sicrhau bod gennym gymdeithas oddefgar lle mae teuluoedd yn gallu arfer eu crefydd o ddewis, ac i alluogi eu plant i gael cyfarwyddyd priodol. Fodd bynnag, mae hefyd yn bwysig ein bod yn diogelu ac yn amddiffyn lles plant er mwyn sicrhau bod cyfarwyddyd yn cael ei gynnal mewn amgylchedd diogel a chynnes gyda'r nifer priodol o oedolion yn bresennol ar gyfer nifer y plant. A gawn ni ddatganiad ynglŷn â phwy sy'n gyfrifol am hyn? Felly, rwy'n ansicr ai'r Gweinidog Addysg, y Gweinidog Gwasanaethau Cyhoeddus, neu'r Gweinidog Cymunedau a Llywodraeth Leol sy'n gyfrifol, neu a yw wedi ei ddatganoli i Estyn a'r awdurdodau lleol? Felly, byddai hynny'n rhywbeth defnyddiol, oherwydd rwy'n siŵr y bydd Mr Cameron yn dod yn ôl at hyn, ac felly mae angen i ni fod yn sicr, yn ein cymunedau, y gofelir am ein plant yn ddiogel.

The second issue is that the sugar tax has risen back up the agenda as an idea today, particularly with concerns about the suppression of a report by Public Health England and its denial to the select committee on health in the House of Commons. I wonder if it's possible to have a statement as to whether the National Assembly has competency to introduce a sugar tax, just as we've introduced a plastic bag tax, or whether this is entirely down to the UK Government and therefore we are not in a position to even contemplate such a measure.

Yr ail fater yw bod y dreth siwgr wedi codi yn ôl i fyny'r agenda fel syniad heddiw, yn enwedig yn sgil pryderon am atal adroddiad gan Iechyd Cyhoeddus Lloegr a pheidio â'i ddangos i'r pwyllgor dethol ar iechyd yn Nhŷ'r Cyffredin. Tybed a yw'n bosibl cael datganiad ynghylch a oes gan y Cynulliad Cenedlaethol gymhwysedd i gyflwyno treth siwgr, yn union fel yr ydym wedi cyflwyno treth ar fagiau plastig, neu a yw hyn yn gyfan gwbl yn fater i Lywodraeth y DU ac felly nad ydym mewn sefyllfa i hyd yn oed ystyried mesur o'r fath.

14:31 **Jane Hutt** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Two questions from Jenny Rathbone, which I will raise with the Ministers concerned.

Dau gwestiwn gan Jenny Rathbone, a byddaf yn eu codi gyda'r Gweinidogion dan sylw.

14:31 **David Rees** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Minister, the recent events in Redcar have indicated how challenging the steel industry is here in the UK, particularly in producing steel. We're seeing the demise of Redcar; we've seen, as a consequence of that, the liquidation of the owners of Redcar, and that has raised deep concerns and worries in many of my constituents, obviously, with the Port Talbot plant. I understand that there is a steel summit taking place at the end of this week; I would hope the Welsh Government has actually been invited by the UK Government to attend that summit. Can the Welsh Government issue a statement following that summit as to where we are going with the steel industry? It's a huge critical industry, this sector, in south Wales and it's a major industrial heritage here in south Wales. My colleague, John Griffiths, has also called for a debate on this, and I'd welcome an opportunity to have this debate, as a chance to see where we're going with manufacturing and the steel industry here in Wales.

Weinidog, mae'r digwyddiadau diweddar yn Redcar wedi dangos pa mor heriol yw'r diwydiant dur yma yn y DU, yn enwedig o ran cynhyrchu dur. Rydym yn gweld tranc Redcar; rydym wedi gweld, o ganlyniad i hynny, diddymiad perchnogion Redcar, ac mae hynny wedi codi pryderon a gofidiau dwfn i lawer o fy etholwyr, yn amlwg, o ran y gwaith dur ym Mhort Talbot. Deallaf fod uwchgynhadledd dur yn cael ei gynnal ddiwedd yr wythnos hon; rwyf yn gobeithio bod Llywodraeth Cymru, mewn gwirionedd, wedi cael ei gwahodd gan Lywodraeth y DU i fod yn bresennol yn yr uwchgynhadledd honno. A wnaiff Llywodraeth Cymru gyhoeddi datganiad ar ôl yr uwchgynhadledd honno ynghylch ein sefyllfa o ran y diwydiant dur? Mae'n ddiwydiant hanfodol a phwysig, y sector hwn, yn ne Cymru ac mae'n dreftadaeth ddiwydiannol bwysig yma yn ne Cymru. Mae fy nghyd-Aelod, John Griffiths, hefyd wedi galw am ddadl ar hyn, a byddwn yn croesawu'r cyfle i gael y ddadl hon, fel cyfle i weld ble yr ydym ni'n mynd o ran gweithgynhyrchu a'r diwydiant dur yma yng Nghymru.

14:32 **Jane Hutt** Bywgraffiad Biography

Thank you, David Rees. You will be pleased to hear that the Minister for Economy, Science and Transport is attending the UK Government steel summit on 16 October and will be updating Members after the event on the outcomes of that summit.

Diolch i chi, David Rees. Byddwch yn falch o glywed bod Gweinidog yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth yn mynd i uwchgynhadledd dur Llywodraeth y DU ar 16 Hydref a bydd yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Aelodau ar ôl y digwyddiad ar ganlyniadau'r uwchgynhadledd honno.

Senedd.tv Fideo Video

14:32 **Lynne Neagle** Bywgraffiad Biography

I'd like to ask for a statement from the Deputy Minister for culture on the ongoing dispute between the Public and Commercial Services Union and the national museum's management in Wales. I was really concerned to hear that not only is the dispute ongoing, but the museum's management have declined a recent request to hold talks with the Advisory, Conciliation and Arbitration Service, which was put forward by PCS, and I'm sure I'm not alone in this Chamber in being very worried about the impact, not only on staff, but on the running of our museums in Wales.

Hoffwn ofyn am ddatganiad gan y Dirprwy Weinidog Diwylliant ar yr anghydfod parhaus rhwng Undeb y Gwasanaethau Cyhoeddus a Masnachol a rheolwyr yr amgueddfa genedlaethol yng Nghymru. Roeddwn yn bryderus iawn o glywed bod yr anghydfod yn parhau a bod rheolwyr yr amgueddfa wedi gwrthod cais yn ddiweddar i gynnal trafodaethau gyda'r Gwasanaeth Cynghori, Cymodi a Chyflafareddu, a gynigiwyd gan yr Undeb, ac rwy'n siŵr nad fi yw'r unig un yn y Siambr hon sy'n pryderu'n fawr am yr effaith, nid yn unig ar y staff, ond ar y ffordd y gweithredir ein hamgueddfeydd yng Nghymru.

Senedd.tv Fideo Video

14:32 **Jane Hutt** Bywgraffiad Biography

I thank Lynne Neagle for that question. It is, of course, a matter for the national museum, and we do hope that they can progress and ensure that this matter is settled as soon as possible.

Diolch i Lynne Neagle am y cwestiwn yna. Mater i'r amgueddfa genedlaethol yw hwn, wrth gwrs, ac rydym yn gobeithio y byddant yn gallu symud ymlaen a sicrhau bod y mater hwn yn cael ei ddatrys cyn gynted ag y bo modd.

Senedd.tv Fideo Video

14:33 **Aled Roberts** Bywgraffiad Biography

Weinidog, a gaf i ofyn am ddatganiad gan y Gweinidog addysg ynghylch y ffordd mae Cyngor y Gweithlu Addysg yn cael ei ariannu? Roedd y Gweinidog yn cyfaddef cyn toriad yr haf bod yr arian ar hyn o bryd yn annigonol, ac eto, yn y datganiad ar gychwyn mis Medi, tra oedd yn dweud ei fod yn awyddus i roi mwy o gyfrifoldebau i'r cyngor gweithlu, nad oedd yn dweud sut yn union bydd y cyngor gweithlu yn cael ei ariannu. Felly, a gaf ofyn am ddatganiad os gwelwch yn dda ar y pwnc yna?

Minister, may I ask for a statement from the Minister for education in relation to the way that the Education Workforce Council is funded? The Minister admitted before the summer recess that funding at the moment is insufficient, and yet the statement at the beginning of September, while saying that he was eager to give greater responsibility to the Education Workforce Council, didn't say exactly how it will be funded. So, may I ask for a statement on that issue, please?

Senedd.tv Fideo Video

14:33 **Jane Hutt** Bywgraffiad Biography

I will certainly raise this with the Minister to clarify the position.

Byddaf yn sicr yn codi hyn gyda'r Gweinidog er mwyn cael eglurhad ar y sefyllfa.

Senedd.tv Fideo Video

14:33 **Y Llywydd / The Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Thank you, Minister.

Diolch yn fawr, Weinidog.

Senedd.tv Fideo Video

14:33

## 3. Datganiad: Modelau Cyflenwi Amgen ynghylch Cyflenwi Gwasanaethau Cyhoeddus: Cynllun Gweithredu ar gyfer Ymgynghoriad

## 3. Statement: Alternative Delivery Models in Public Service Delivery: An Action Plan for Consultation

**Y Llywydd / The Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

We now move to item 3, which is a statement by the Minister for Public Services, alternative delivery models in public delivery: an action plan for consultation.

Symudwn yn awr at eitem 3, sef datganiad gan y Gweinidog Gwasanaethau Cyhoeddus: Modelau cyflenwi amgen ynghylch cyflenwi gwasanaethau cyhoeddus: Cynllun gweithredu ar gyfer ymgynghoriad

Senedd.tv Fideo Video

14:33 **Leighton Andrews** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

*Y Gweinidog Gwasanaethau Cyhoeddus / The Minister for Public Services*

Llywydd, earlier this year, with the Minister for Economy, Science and Transport, I published a report, 'Is the Feeling Mutual?', which examined the potential role of co-operatives and mutuals in public service delivery. The written statement, which accompanied the publication of the report, explained that an action plan would be developed to take forward the findings of the report. This oral statement provides an update on progress and signals the start of the consultation on the action plan. Public services in Wales are transforming, and the challenging financial situation will continue to mean that there are hard choices to make about the future of public services. It is important that we develop long-term sustainable approaches to delivering our public services to ensure that vital services are protected and maintained. New models of delivery are being developed and rolled out across Wales, but we need to ensure that these models are appropriate, sustainable, and have the interests of citizens and the workforce at their heart. We are clear that public services delivered by public servants are best, and we advocate co-operative, mutual and related alternative delivery models only as an alternative to ceasing or to privatising services.

Lywydd, yn gynharach eleni, gyda Gweinidog yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth, cyhoeddais adroddiad, 'Ai Cydfuddiannaeth yw'r ffordd ymlaen?', a oedd yn archwilio swyddogaeth bosibl cwmnïau cydweithredol a chydfuddiannol sy'n cyflenwi gwasanaethau cyhoeddus. Roedd y datganiad ysgrifenedig, a oedd yn cyd-fynd â chyhoeddiad yr adroddiad, yn egluro y byddai cynllun gweithredu yn cael ei ddatblygu er mwyn bwrw ymlaen â chanfyddiadau'r adroddiad. Mae'r datganiad llafar hwn yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf am gynnydd ac yn nodi dechrau'r ymgynghoriad ynglŷn â'r cynllun gweithredu. Mae gwasanaethau cyhoeddus yng Nghymru yn gweddnewid, a bydd y sefyllfa ariannol heriol yn parhau i olygu y bydd yn rhaid gwneud dewisiadau anodd am ddyfodol gwasanaethau cyhoeddus. Mae'n bwysig ein bod ni'n datblygu dulliau cynaliadwy hirdymor ar gyfer cyflenwi ein gwasanaethau cyhoeddus er mwyn sicrhau bod gwasanaethau hanfodol yn cael eu diogelu a'u cynnal. Mae modelau newydd o gyflenwi yn cael eu datblygu a'u cyflwyno ledled Cymru, ond mae angen i ni sicrhau bod y modelau hyn yn addas, yn gynaliadwy, a bod dinasyddion a'r gweithlu wrth eu gwraidd. Rydym yn glir mai'r gwasanaethau cyhoeddus a ddarperir gan weision cyhoeddus yw'r rhai gorau, ac rydym ni'n argymell modelau cydweithredol, cydfuddiannol, a modelau cyflwyno amgen sy'n gysylltiedig, dim ond fel dewis arall i ddileu neu breifateiddio gwasanaethau.

In considering alternative delivery models in local government, there are three important preconditions: accountability to local government, protection of employee terms and conditions, and continuation of trade union recognition.

Wrth ystyried modelau cyflwyno amgen mewn llywodraeth leol, mae tri rhag-amod pwysig: atebolrwydd i lywodraeth leol, diogelu telerau ac amodau cyflogeion, a pharhau i gydnabod undebau llafur.

In that context, the purpose of the action plan is to provide a clear national framework within which decisions can be made locally on the appropriateness of alternative delivery models in specific service areas, as well as to set out the practical support available to public service organisations, their workforce, citizens and communities, in making decisions about how services should be designed and delivered.

Yn y cyd-destun hwnnw, diben y cynllun gweithredu yw darparu fframwaith cenedlaethol clir ar gyfer gallu gwneud penderfyniadau yn lleol ynglŷn â phriodoldeb modelau cyflwyno amgen mewn meysydd gwasanaeth penodol, yn ogystal â nodi'r gefnogaeth ymarferol sydd ar gael i sefydliadau gwasanaethau cyhoeddus , eu gweithlu, eu dinasyddion a'u cymunedau, wrth iddynt wneud penderfyniadau am sut y dylai gwasanaethau gael eu cynllunio a'u cyflenwi.

I'm grateful to Cabinet colleagues for the work they already have under way in this area and for the contribution they've made to the action plan. It reflects a shared commitment to supporting sustainable, relevant models of delivery that will protect our services, our workforces, and our communities. There is also a real appetite to engage in this agenda across Wales. There was good engagement around the first phase of the work, which led to the 'Is the Feeling Mutual?' report. Since then, our consideration of the way forward has been hugely informed by colleagues in local government sharing their experiences of establishing alternative delivery models, and by important contributions from a range of other interests, including the trade unions.

Rwy'n ddiolchgar i gydweithwyr yn y Cabinet am y gwaith y maent eisoes wedi'i ddechrau yn y maes hwn ac am y cyfraniad y maent wedi'i wneud i'r cynllun gweithredu. Mae'n adlewyrchu ymrwymiad i gefnogi modelau cyflenwi sy'n gynaliadwy ac yn berthnasol, ac a fydd yn diogelu ein gwasanaethau, ein gweithlu, a'n cymunedau. Mae gwir awydd i gymryd rhan yn yr agenda hon ym mhob rhan o Gymru. Cafwyd ymgysylltu da yn ystod cam cyntaf y gwaith, a arweiniodd at yr adroddiad 'Ai Cydfuddiannaeth yw'r ffordd ymlaen? Ers hynny, mae ein hystyriaeth o'r ffordd ymlaen wedi ei llywio i raddau helaeth drwy gydweithwyr llywodraeth leol yn rhannu eu profiadau o sefydlu modelau cyflwyno amgen, a thrwy gyfraniadau pwysig oddi wrth amrywiaeth o rai eraill â budd, gan gynnwys yr undebau llafur.

A series of sector-focused workshops are already under way as part of the follow-up to 'Is the Feeling Mutual?' I was pleased to participate in two of these events last week. The purpose of these workshops is to gather further views on establishing a framework for collaborative working in the development of alternative delivery models for public services. The outcomes of these events will inform the final action plan. The action plan contains a number of new actions, as well as bringing together the significant activity already under way. The proposed actions pick up the findings and areas for action identified in the 'Is the Feeling Mutual?' report, and the suggestions we have received from local authorities and others.

Mae cyfres o weithdai sy'n canolbwyntio ar y sector eisoes ar waith yn rhan o'r dilyniant i 'Ai Cydfuddiannaeth yw'r ffordd ymlaen?' Roeddwn yn falch o gymryd rhan mewn dau o'r digwyddiadau hyn yr wythnos diwethaf. Diben y gweithdai hyn yw casglu barn arall ynglŷn â sefydlu fframwaith ar gyfer gweithio ar y cyd wrth ddatblygu modelau cyflwyno amgen ar gyfer gwasanaethau cyhoeddus. Bydd canlyniadau'r digwyddiadau hyn yn llywio'r cynllun gweithredu terfynol. Mae'r cynllun gweithredu yn cynnwys nifer o gamau gweithredu newydd, yn ogystal â dwyn ynghyd y gwaith sylweddol sydd eisoes ar y gweill. Mae'r camau arfaethedig yn adeiladu ar y canfyddiadau a'r meysydd a nodwyd yn adroddiad 'Ai Cydfuddiannaeth yw'r ffordd ymlaen?', a'r awgrymiadau yr ydym wedi eu cael gan awdurdodau lleol ac eraill.

New actions proposed include the establishment of a simple, flexible funding mechanism to support local authorities in drawing on expert support to inform decisions on alternative delivery models; the development of a national framework for advice and specialist support on alternative delivery models, which public bodies can draw from; and supporting the development of mechanisms to build capacity and capability in this area, including peer-led mentoring networks, and support via Academi Wales's continuous improvement team.

Mae'r camau gweithredu newydd arfaethedig yn cynnwys sefydlu dull cyllido syml a hyblyg i gefnogi Awdurdodau Lleol i dynnu ar gymorth arbenigol i lywio penderfyniadau ar fodelau cyflenwi amgen; y gwaith o ddatblygu fframwaith cenedlaethol ar gyfer cyngor a chymorth arbenigol ynglŷn â modelau cyflwyno amgen, y bydd cyrff cyhoeddus yn gallu tynnu ohono; a chefnogi datblygu mecanweithiau i feithrin capasiti a gallu yn y maes hwn, gan gynnwys rhwydweithiau mentora a arweinir gan gymheiriaid, a chefnogaeth gan dîm gwelliant parhaus Academi Cymru.

The precise shape and scope of these new offers will be developed, with partners, during the consultation process, so we can move quickly to put them in place. Other actions focus on testing the legal and financial framework within which alternative delivery models are established, and to see if there is scope to remove unnecessary barriers. Shaping and developing our proposals so that they are as effective as possible will be a key focus of the consultation. I am committed to working in partnership with the third sector, public services, trade unions, and other partners, in developing this agenda.

Bydd union ffurf a chwmpas y cynigion newydd hyn yn cael eu datblygu, gyda phartneriaid, yn ystod y broses ymgynghori, fel y gallwn ni symud yn gyflym i'w sefydlu. Mae camau gweithredu eraill yn canolbwyntio ar roi prawf ar y fframwaith cyfreithiol ac ariannol y mae'r modelau cyflwyno amgen yn cael eu sefydlu oddi mewn iddo, yn ogystal â gweld os oes modd cael gwared ar rwystrau diangen. Bydd llunio a datblygu ein cynigion i sicrhau y byddan nhw mor effeithiol ag y bo modd yn bwyslais allweddol yn yr ymgynghoriad. Rwyf wedi ymrwymo i weithio mewn partneriaeth â'r trydydd sector, y gwasanaethau cyhoeddus, undebau llafur, a phartneriaid eraill, wrth ddatblygu'r agenda hon.

14:37

## Y Llywydd / The Presiding Officer Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Can I just remind Members we have five statements this afternoon, so I would like to encourage you to ask questions, and not have long statements before you get to your questions? Right, Janet Finch-Saunders.

A gaf i atgoffa'r Aelodau bod gennym bum datganiad y prynhawn yma, felly hoffwn eich annog i ofyn cwestiynau, ac i osgoi datganiadau hir cyn i chi ddod at eich cwestiynau? Iawn, Janet Finch-Saunders.

14:38

## Janet Finch-Saunders Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Thank you, Presiding Officer, and thank you, Minister, for your statement. I think everybody in the Chamber here realises the importance of effective local service delivery, especially given the financial challenges facing our public services.

Diolch, Lywydd, a diolch i chithau, Weinidog, am eich datganiad. Rwyf yn meddwl bod pawb yn y Siambr yn sylweddoli pa mor bwysig yw cyflenwi gwasanaethau lleol mewn modd effeithiol, yn enwedig o ystyried yr heriau ariannol sy'n wynebu ein gwasanaethau cyhoeddus.

Obviously, we’re very keen to see you facilitate stronger working relationships between local government, civil society, and the independent sector, so that we can ensure there are more efficient, innovative public services, but, of course, with the citizen and the community at the centre in any public service delivery reform. Minister, your report, ‘Is the Feeling Mutual?’, found that there is a desire in Wales to ensure that future service delivery is both citizen-centred and democratically accountable, though, to local communities, and we haven’t seen a lot of that in recent years. It stated that not-for-profit models are increasingly welcome, but, again, as long as they are accountable to the public. Your ‘Reforming Local Government’ White Paper responses also showed high support for the statement:

Yn amlwg, rydym yn awyddus iawn i'ch gweld yn meithrin perthynas waith hyd yn oed yn gryfach rhwng llywodraeth leol, y gymdeithas sifil, a'r sector annibynnol, fel y gallwn ni sicrhau bod gennym wasanaethau cyhoeddus sy’n fwy effeithlon ac yn fwy arloesol, ond, wrth gwrs, gan roi’r dinesydd a'r gymuned wrth wraidd unrhyw ddiwygio o ran cyflenwi gwasanaethau cyhoeddus. Weinidog, canfu eich adroddiad, 'Ai Cydfuddiannaeth yw’r ffordd ymlaen?', bod awydd yng Nghymru i sicrhau bod darpariaeth gwasanaethau yn y dyfodol yn canolbwyntio ar y dinesydd yn ogystal â bod yn ddemocrataidd atebol, er hynny, i gymunedau lleol, ac nid ydym wedi gweld llawer o hynny yn y blynyddoedd diweddar. Roedd yn datgan bod modelau dielw i’w croesawu fwyfwy, ond, unwaith eto, ar yr amod eu bod yn atebol i'r cyhoedd. Roedd yr ymatebion i’ch Papur Gwyn 'Diwygio Llywodraeth Leol' yn dangos hefyd y gefnogaeth sylweddol i'r datganiad:

‘As part of a future performance regime the setting of minimum performance outcomes or standards should be considered.’

‘Fel rhan o gyfundrefn perfformiad yn y dyfodol, dylid ystyried pennu canlyniadau neu safonau gofynnol o ran perfformiad.’

Now, in carrying this recommendation forward, how will you ensure that changes to service delivery models are accountable against these standards, and how will you ensure, going forward, that appropriate monitoring and performance data collection are undertaken really, really well and adequately so that the public can hold local authorities accountable for their performance? You mentioned a strong desire to protect employee terms and conditions and ensure trade union recognition. But this leaves us a little surprised, given your opposition to our committee-recommended amendment to the Local Government (Wales) Bill, which would have ensured that local authorities did comply with the code of practice on workforce matters. What is your position on this in relation to staff working with co-operatives and mutuals?

Nawr, wrth symud yr argymhelliad hwn yn ei flaen, sut y byddwch chi’n sicrhau bod newidiadau i fodelau cyflwyno gwasanaeth yn atebol yn erbyn y safonau hyn, a sut y byddwch chi’n sicrhau, wrth symud ymlaen, bod monitro priodol a chasglu data am berfformiad yn cael eu cynnal mewn modd sy’n hynod, hynod effeithiol, ac yn ddigonol fel y gall y cyhoedd ddwyn awdurdodau lleol i gyfrif am eu perfformiad? Soniasoch am awydd cryf i amddiffyn telerau ac amodau gweithwyr a sicrhau eich bod yn cydnabod undebau llafur. Ond mae hyn yn ein gadael ni wedi ein synnu braidd, o gofio eich gwrthwynebiad i’n gwelliant a gafodd ei argymell gan y pwyllgor i Fil Llywodraeth Leol (Cymru), a fyddai wedi sicrhau bod awdurdodau lleol yn cydymffurfio â'r cod ymarfer ar faterion yn ymwneud â'r gweithlu. Beth yw eich safbwynt chi am hyn o ran y staff sy'n gweithio â chwmnïau cydweithredol a chydfuddiannol?

Finally, Minister, the report stated that there is an overwhelming desire to ensure that reform is truly sustainable at this time. As with reorganisation, let me emphasise that we must take the time to get this right, and I actually do look forward to far more open consultation and engagement with our communities as you move the local government agenda forward. Thank you.

Yn olaf, Weinidog, roedd yr adroddiad yn datgan bod awydd cwbl bendant i sicrhau diwygio sy’n wirioneddol gynaliadwy ar hyn o bryd. Fel yn achos ad-drefnu, gadewch i mi bwysleisio bod yn rhaid i ni neilltuo’r amser i gael hyn yn iawn, ac rwyf i wir yn edrych ymlaen at ymgynghori ac ymgysylltu yn llawer mwy agored â'n cymunedau wrth i chi symud yr agenda llywodraeth leol yn ei blaen. Diolch.

14:40 **Leighton Andrews** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Llywydd, I'm grateful for the overall welcome for the proposals in 'Is the Feeling Mutual?' Clearly, the action plan that we have just put out for consultation develops the thinking in that report more significantly. There are a number of different kinds of not-for-profit models. They are already being developed within local government and by local community organisations across Wales, and I don't think it's a question of having the time to get this right; I think it is a recognition that the financial conditions facing local government, imposed by the cuts in the Welsh budget from Westminster, mean that there is an increased urgency in looking at some of these solutions. We know that communities themselves are being very creative in the way they are coming forward with alternative models, but we also know there is, in some cases, a lack of expertise or capacity to support the development of these initiatives. In respect of the need to hold these initiatives accountable to local government, well, of course, these are matters for local authorities to undertake themselves. We can provide guidance and we can provide assistance but, at the end of the day, it is for local authorities to observe the principles that we have set down.

Lywydd, rwy'n ddiolchgar am y croeso cyffredinol i'r cynigion yn 'Ai Cydfuddiannaeth yw'r ffordd ymlaen?' Yn amlwg, mae'r cynllun gweithredu yr ydym ni newydd ei gyflwyno ar gyfer ymgynghoriad yn datblygu'r meddylfryd yn yr adroddiad hwnnw yn fwy helaeth. Ceir nifer o wahanol fathau o fodelau dielw. Maen nhw eisoes yn cael eu datblygu o fewn llywodraeth leol a chan sefydliadau cymunedol lleol ledled Cymru, ac nid cwestiwn o fod â'r amser i gael hyn yn iawn yw hyn yn fy marn i; rwy'n credu mai cydnabyddiaeth ydyw bod yr amodau ariannol sy'n wynebu llywodraeth leol, a orfodwyd gan y toriadau yng nghyllideb Cymru gan San Steffan, gan olygu bod brys cynyddol o ran edrych ar rai o'r atebion hyn. Rydym yn gwybod bod y cymunedau eu hunain yn bod yn greadigol iawn yn y ffordd y maent yn cyflwyno modelau amgen, ond rydym ni hefyd yn gwybod, mewn rhai achosion, bod diffyg arbenigedd neu allu i gefnogi datblygiad y mentrau hyn. O ran yr angen i sicrhau bod y mentrau hyn yn atebol i lywodraeth leol, wel, wrth gwrs, materion i awdurdodau lleol ymgymryd â nhw eu hunain yw'r rhain. Gallwn roi arweiniad a gallwn ddarparu cymorth, ond, yn y pen draw, mater i'r awdurdodau lleol yw dilyn yr egwyddorion yr ydym ni wedi eu gosod.

In respect of the implementation of the code of practice, of course, most local authorities in Wales have abided by the code of practice. We have discussed the amendment that she has referred to in committee. I always find it somewhat ironic, of course, that it was her conservative colleague in Westminster who got rid of the proposals in England.

O ran gweithrediad y cod ymarfer, wrth gwrs, mae'r rhan fwyaf o awdurdodau lleol yng Nghymru wedi cydymffurfio â'r cod ymarfer. Rydym ni wedi trafod y gwelliant y cyfeiriodd hi ato yn y pwyllgor. Rwyf bob amser yn ei chael yn eironig braidd, wrth gwrs, mai ei chydweithiwr ceidwadol hi yn San Steffan a gafodd wared ar y cynigion yn Lloegr.

14:42 **Y Llywydd / The Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Jenny Rathbone.

Jenny Rathbone.

14:42 **Jenny Rathbone** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Sorry, I'm not—.

Mae'n ddrwg gennym, nid wyf i—.

14:42 **Y Llywydd / The Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

No? Simon Thomas.

Na? Simon Thomas.

14:42 **Simon Thomas** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Diolch, Lywydd. Diolch, Weinidog, am y datganiad. Datganiad am ymgynghoriad yw e, felly nid oes llawer i'w ddweud fan hyn nes ein bod ni'n gweld canlyniad yr ymgynghoriad. Ond rwy'n croesawu'r ffaith bod yna fframwaith cenedlaethol yn mynd i gael ei osod yn ei le i reoli hyn. Rwy'n credu bod angen hynny. Mae'n enwedig o wir wrth weld rhai o'r problemau y mae rhai awdurdodau lleol yn eu cael wrth ryddhau asedau i ddwylo cymunedol a'r dulliau gwahanol sydd yn pryfio ar draws y wlad ar hyn o bryd yn y maes yma.

Thank you, Presiding Officer. Thank you, Minister, for your statement. It is a statement on consultation, so there isn't much to be said here until we see the outcome of the consultation. But I do welcome the fact that there is going to be a national framework put in place to manage this. I do think that that is necessary. It is particularly true in seeing some of the problems that some local authorities have in releasing assets into community hands and the different approaches that are developing across the country in this area.

A gaf i ofyn yn gyntaf, felly, ai dyma'r model—y model cydweithredol sydd yn yr adroddiad ac yn eich datganiad heddiw—sydd yn cael ei argymell gan Lywodraeth Cymru bob tro y mae awdurdod cyhoeddus o unrhyw fath yn trosglwyddo asedau neu wasanaethau i ddwylo corff arall? A fyddech chi, felly, yn disgwyl i unrhyw drosglwyddiad sydd yn digwydd o hyn ymlaen ddigwydd o fewn y fframwaith hwn? Tra fy mod i'n cytuno yn llwyr â chi fod dewis anodd iawn gan rai awdurdodau cyhoeddus ar hyn o bryd rhwng colli gwasanaethau, eu preifateiddio nhw, neu symud at fodel amgen, a fyddech chi hefyd yn derbyn, o bryd i'w gilydd, fod y model cydweithredol yn dewis amgen ar gyfer arloesedd neu ddyfeisgarwch, ac nid o reidrwydd bob tro y mae yna wasanaethau yn wynebu cael eu cau? Mae yna rai gwasanaethau cyhoeddus—amgueddfeydd yn fwyaf amlwg—sydd yn cael eu rhedeg gan gyrff cyhoeddus ac sydd yn cael eu cynnal gan gyrff preifat neu elusennol, beth bynnag, a, rhwng y ddau yna, mae'r ddau yn darparu gwasanaeth cyhoeddus o bwys ac mae angen, felly, gwneud yn siŵr bod cydbwysedd rhwng y ddau beth.

May I ask first of all, therefore, if this is the model—the co-operative model that you mention in the report and in your statement today—that's being recommended by the Welsh Government as a matter of course when a public authority transfers assets or services into the hands of another body? Would you, therefore, expect any transfer that takes place from now on to happen within this framework? Whilst I agree entirely with you that there is a very difficult choice facing some public authorities between losing services, privatising services or moving towards an alternative model, would you also accept that, occasionally, the co-operative model is an alternative choice for innovation and not necessarily every time when services are facing closure? There are certain public services—museums most obviously—that are run by public bodies that are supported by private or charitable organisations and, between them, they provide an important public service. It's important to ensure that there is balance.

Yn y cyd-destun hwnnw, rydych wedi sôn yn yr adroddiad sawl gwaith am rôl undebau llafur, a pha mor bwysig yw e i gael undebau llafur yn y broses yma. Mae rhai, yn lleol yn arbennig, wrth gwrs, yn gwrthwynebu unrhyw drosglwyddo asedau neu wasanaeth, er, efallai, taw cau'r gwasanaeth yw'r opsiwn arall. Pa drafodaethau yr ydych chi'n eu cael gydag undebau llafur yng Nghymru, a'r TUC yn benodol, ynglŷn â'r dulliau hyn i wneud yn siŵr bod hyn yn cael ei weld fel y ffordd ymlaen mewn rhai achosion?

In that context, you've mentioned in the report on a number of occasions the role of trade unions and how important it is to have the unions involved in this process. There are some, locally in particular, of course, who oppose any transfer of assets or services, although the only other alternative may be the closure of the service. So, what discussions are you having with trade unions in Wales, and the TUC specifically, on these models to ensure that this is seen as the way forward in some cases?

Mae atebolrwydd, i Blaid Cymru, yn bwysig iawn. Rŷch chi'n sôn yn y datganiad am atebolrwydd i lywodraeth leol, ac mae hynny'n bwysig, ac yn fwy na phwysig yn achos rhai dyletswyddau statudol. Ond, byddwn i hefyd yn licio gofyn i chi ynglŷn ag atebolrwydd yn fwy eang i'r gymuned leol. Yn aml iawn, mae'r gwasanaethau hyn sy'n cael eu trosglwyddo neu sy'n cael eu gwneud gan gyrff cydweithredol yn wasanaethau anstatudol. Mae'r un mor bwysig bod y cyrff sy'n rheoli'r gwasanaethau bellach yn atebol i bobl leol ac i'r awdurdodau lleol, os mai dyna beth yw'r trefniant. Felly, mae llywodraethiant yn bwysig yn y cyd-destun yma.

Accountability is very important for Plaid Cymru. You mention in your statement accountability for local government, and that is important, and particularly important in the case of some statutory duties. I would also like to ask you about accountability more broadly to the local community. Very often, these services that are transferred or carried out by co-operative organisations are non-statutory, and it's just as important that the organisations managing those services are accountable to local people, as they are to local authorities. Therefore, governance is very important in this context.

Rŷm ni wedi gweld o bryd i'w gilydd yn y gorffennol cyrff yn cymryd yr awenau dros beth oedd unwaith o dan ddwylo llywodraeth leol, ac wedyn y cyrff hynny hefyd am ymbellhau oddi wrth y gymuned leol. Felly, ym mha ffordd y byddech chi'n sicrhau bod yr atebolrwydd nid yn unig i lywodraeth leol a chyrff cyhoeddus, ond hefyd i'r gymuned yn ehangach?

We've seen from time to time in the past certain bodies taking control of what was once run by local authorities, with those bodies then growing apart from the local community. So, how would you ensure that the accountability exists not only to local government or the public authority, but to the wider community?

Yn olaf, rydych chi wedi sôn yn y datganiad am y dulliau cyllido hyblyg, syml, rydych chi'n gobeithio eu gweld. A fydd unrhyw gyllid ychwanegol yn cael ei ddefnyddio ar gyfer y broses yma i sbarduno'r newid yma? Beth, yn wir, sydd gennych chi mewn golwg pan rydych chi'n sôn am sicrhau cyllido yn y tymor hir?

Finally, you mention in your statement the flexible and simple funding mechanisms you wish to see in place. Will any additional funding be used for this process in order to encourage this change? What do you have in mind when you mention ensuring funding in the longer term?

14:46 **Leighton Andrews** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

Can I thank the Plaid Cymru spokesperson for his contribution and for his welcome for the proposals that we've put forward? I don't think there is much disagreement between us in terms of what he has said this afternoon. I welcome the fact that he supports the development of a national framework. He's right to refer to the challenges that face local authorities throughout Wales at the present time in maintaining and safeguarding community facilities.

A gaf i ddiolch i lefarydd Plaid Cymru am ei gyfraniad ac am ei groeso i'r cynigion a gyflwynwyd gennym? Nid wyf yn credu bod llawer o anghytundeb rhyngom ni o ran yr hyn y mae wedi'i ddweud y prynhawn yma. Croesawaf y ffaith ei fod yn cefnogi datblygu fframwaith cenedlaethol. Mae'n iawn i gyfeirio at yr heriau sy'n wynebu awdurdodau lleol ledled Cymru ar hyn o bryd o ran cynnal a diogelu cyfleusterau cymunedol.

I think we have already seen developments within a number of communities around Wales, where assets have been transferred to community-based organisations. Clearly, our preference would be for those to be co-operative or mutual models, but there may be other models that are brought forward; some other forms of social enterprise, for example, or community interest companies in some cases, where they may be appropriate. I heard some examples last week from some town and community councils in that regard.

Rwy'n credu ein bod ni eisoes wedi gweld datblygiadau o fewn nifer o gymunedau ledled Cymru, lle y mae asedau wedi eu trosglwyddo i sefydliadau cymunedol. Yn amlwg, byddai'n well gennym ni pe byddai'r modelau hynny yn gydweithredol neu'n gydfuddiannol, ond efallai bydd modelau eraill yn cael eu dwyn ymlaen; rhyw fathau eraill o fentrau cymdeithasol, er enghraifft, neu gwmnïau budd cymunedol, mewn rhai achosion, lle y gallent fod yn briodol. Clywais rai enghreifftiau yr wythnos diwethaf gan rai cynghorau tref a chynghorau cymuned ynglŷn â hynny.

I certainly agree with him that co-operative models have often been a source of innovation in Wales, going back decades, and we would want to maintain that creativity at the heart of these proposals.

Rwyf yn sicr yn cytuno ag ef bod modelau cydweithredol yn aml wedi hybu arloesedd yng Nghymru, yn mynd yn ôl ddegawdau, a byddem yn awyddus i gadw'r creadigrwydd hwnnw wrth wraidd y cynigion hyn.

In respect of discussions with trade unions, we've had discussions with a number of trade unions and with the Wales Trades Union Congress and it's fair to say that, I suppose, three of the preconditions that we've set down in respect of accountability to local government, protection of employee terms and conditions and continuation of trade union recognition, obviously derived from those discussions.

O ran trafodaethau ag undebau llafur, rydym ni wedi cynnal trafodaethau â nifer o undebau llafur a gyda Chyngres Undebau Llafur Cymru ac mae'n deg i ddweud, am wn i, bod tri o'r rhag-amodau yr ydym ni wedi eu sefydlu ynglŷn ag atebolrwydd i lywodraeth leol, diogelu telerau ac amodau cyflogeion a pharhau i gydnabod undebau llafur, yn amlwg yn deillio o'r trafodaethau hynny.

In terms of governance and accountability, there has to be a level of governance and accountability built in at the point at which an asset is transferred, and I would agree with him that that needs to be sustainable and there need to be mechanisms in place for local communities to ensure that effective accountability operates. I think, in our consultation, we're exploring those issues, but, at the end of the day, of course, it will be for those local authorities, properly, to exercise that level of accountability.

O ran llywodraethu ac atebolrwydd, mae'n rhaid bod lefel o lywodraethu ac atebolrwydd wedi eu cynnwys ar yr adeg pan fydd ased yn cael ei drosglwyddo, a byddwn yn cytuno ag ef bod angen i hynny fod yn gynaliadwy a bod angen cael mecanweithiau ar waith ar gyfer cymunedau lleol er mwyn sicrhau bod atebolrwydd effeithiol yn gweithredu. Rwy'n credu, yn ein hymgynghoriad, ein bod yn archwilio'r materion hynny, ond, yn y pen draw, wrth gwrs, mater i'r awdurdodau lleol hynny, mewn gwirionedd, fydd gweithredu'r lefel hwnnw o atebolrwydd.

In respect of funding, he won't be surprised today that I'm not going to make any commitments to additional funding, but I will draw his attention to funds that have been developed by the Welsh Government in the past, for example, the community facilities and activities programme, which has funded a number of community organisations in respect of capital assets, such as buildings. We had the community asset transfer fund alongside the Big Lottery fund during the period of the One Wales Government, which facilitated asset transfers. So, we've been flexible and creative, I think, in those opportunities in the past. We might also think about the post office development fund as well, as another model that has been used. So, we would certainly not rule that out in the future, but I can't make any further commitments in respect of funding today. I suspect we will all want to review our funding position after the comprehensive spending review.

O ran ariannu, ni fydd ef yn synnu heddiw nad wyf i'n mynd i wneud unrhyw ymrwymiadau ar gyfer cyllid ychwanegol, ond rwyf am dynnu ei sylw at gronfeydd a ddatblygwyd gan Lywodraeth Cymru yn y gorffennol, er enghraifft, y cyfleusterau cymunedol a'r rhaglen weithgareddau, sydd wedi ariannu nifer o sefydliadau cymunedol o ran asedau cyfalaf, megis adeiladau. Roedd gennym y gronfa trosglwyddo asedau cymunedol ochr yn ochr â'r Gronfa Loteri Fawr yn ystod cyfnod Llywodraeth Cymru'n Un, a hwylusodd y broses o drosglwyddo asedau. Felly, rydym ni wedi bod yn hyblyg a chreadigol, rwy'n credu, yn y cyfleoedd hynny yn y gorffennol. Efallai y byddwn ni hefyd yn meddwl am gronfa datblygu'r swyddfa bost, yn ogystal, fel model arall sydd wedi ei ddefnyddio. Felly, mae'n sicr na fyddem yn diystyru hynny yn y dyfodol, ond ni allaf wneud unrhyw ymrwymiadau pellach o ran ariannu heddiw. Rwyf yn amau y byddwn ni i gyd yn dymuno adolygu ein sefyllfa ariannu ar ôl yr adolygiad cynhwysfawr o wariant.

14:49

## Peter Black Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Can I also welcome this statement and welcome the direction in which the Minister is travelling on this particular issue? I think it's important that we do get as wide as possible a range of delivery models, but make sure they are accountable to local communities and give local communities an opportunity to participate in the delivery of key services.

A gaf innau hefyd groesawu'r datganiad hwn a chroesawu'r cyfeiriad y mae'r Gweinidog yn ei ddilyn o ran y mater penodol hwn? Rwy'n credu ei bod yn bwysig ein bod ni'n cael ystod mor eang â phosibl o fodelau cyflwyno, ond gan sicrhau eu bod yn atebol i gymunedau lleol ac yn rhoi cyfle iddyn nhw gymryd rhan wrth gyflenwi gwasanaethau allweddol.

I'm interested, Minister, in some of the statements in this piece of paper I've just been given, in that we're talking, largely, about local government; are we talking about restricting it entirely to local government, or are you looking at a wider public service involvement in this particular scheme? You talk about making it accountable to local government, but are there other public services that might also benefit from taking advantage of this particular scheme?

Mae gennyf ddiddordeb, Weinidog, mewn rhai o'r datganiadau ar y darn hwn o bapur yr wyf newydd ei dderbyn, o ran ein bod yn sôn, yn bennaf, am lywodraeth leol; a ydym ni'n trafod cyfyngu hyn yn gyfan gwbl i lywodraeth leol, neu a ydych chi'n edrych ar gyfranogiad gwasanaethau cyhoeddus ehangach yn y cynllun penodol hwn? Rydych chi'n sôn am ei wneud yn atebol i lywodraeth leol, ond a oes gwasanaethau cyhoeddus eraill a allai elwa hefyd drwy fanteisio ar y cynllun penodol hwn?

I understand this is a consultation. I also understand there's no more money; we are in that situation, unfortunately. However, you do talk in the statement, about the

Rwyf yn deall mai ymgynghoriad yw hwn. Rwyf hefyd yn deall nad oes mwy o arian; dyna'r sefyllfa yr ydym ni ynddi, yn anffodus. Fodd bynnag, rydych chi yn sôn yn y datganiad, am

'establishment of a simple, flexible funding mechanism to support Local Authorities in drawing on expert support to inform decisions on alternative delivery models',

sefydlu dull cyllido syml a hyblyg i gefnogi Awdurdodau Lleol i dynnu ar gymorth arbenigol i lywio penderfyniadau ar fodelau cyflenwi amgen,

which is slightly different to asking for more money to actually deliver the services, but actually in terms of advice and support. What format were you thinking that particular flexible funding mechanism might take? Would it be a direct grant, would it be through the revenue support grant, will they have to bid for it or might it be through an invest-to-save fund, for example? Those are just some examples of mechanisms you might want to go for.

sydd ychydig yn wahanol i ofyn am fwy o arian i gyflwyno'r gwasanaethau mewn gwirionedd, ond yn hytrach ar gyfer cyngor a chefnogaeth. Beth fyddai ffurf y dull cyllido hyblyg penodol hwnnw yn eich tyb chi? A fyddai'n grant uniongyrchol, a fyddai drwy'r grant cynnal refeniw, a fydd yn rhaid iddyn nhw wneud cais amdano neu a allai fod drwy gronfa buddsoddi i arbed, er enghraifft? Rhai enghreifftiau yn unig o ddulliau efallai y byddech chi'n dymuno eu defnyddio yw'r rhain.

You also talk about the

Rydych chi hefyd yn sôn am

'development of a national framework for advice and specialist support on alternative delivery models'.

ddatblygu fframwaith cenedlaethol ar gyfer cyngor a chymorth arbenigol ynglŷn â modelau cyflwyno amgen.

Again, what format would that national framework take? Would you talk about having an expert panel or some sort of quango that might provide that support, or are you going to be relying on Welsh Government officials to provide that?

Unwaith eto, pa ffurf fyddai fframwaith cenedlaethol yn ei gymryd? A fyddech chi'n sôn am gael panel arbenigol neu ryw fath o gwango a allai ddarparu'r cymorth hwnnw, neu a ydych chi'n mynd i ddibynnu ar swyddogion Llywodraeth Cymru i ddarparu hynny?

Finally, in relation to the peer-led mentoring network, under what auspices would that be set up and who would you envisage taking part in that? Would you envisage the Welsh Government co-ordinating that, or would you look to local authorities to do that themselves, possibly through the WLGA?

Yn olaf, o ran y rhwydwaith mentora a arweinir gan gymheiriaid, o dan ba nawdd fyddai hynny'n cael ei sefydlu a phwy ydych chi'n rhagweld y byddant yn cymryd rhan yn hynny? A ydych chi'n rhagweld y bydd Llywodraeth Cymru yn cydgysylltu hyn, neu a ydych chi'n disgwyl i awdurdodau lleol wneud hynny eu hunain, o bosibl drwy'r CLILC?

14:51

## Leighton Andrews Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Again, can I welcome the support from the Liberal Democrat spokesperson for what we've outlined today? He asked a number of very pertinent questions. Let me start with the question of wider public services. I think he will recall that, in the Social Services and Well-being (Wales) Act 2014, there is provision there to look at mutual models in respect of social care, for example. So I think we would, of course, be looking at a wider range of activities.

Unwaith eto, a gaf i groesawu'r gefnogaeth gan lefarydd y Democratiaid Rhyddfrydol ynglŷn â'r hyn yr ydym ni wedi ei amlinellu heddiw? Gofynnodd nifer o gwestiynau perthnasol iawn. Gadewch i mi ddechrau gyda'r cwestiwn am wasanaethau cyhoeddus ehangach. Rwy'n credu y bydd ef yn cofio, yn Neddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014, mae darpariaeth yno i edrych ar fodelau sy'n gydfuddiannol o ran gofal cymdeithasol, er enghraifft. Felly rwyf yn meddwl y byddem ni, wrth gwrs, yn edrych ar ystod ehangach o weithgareddau.

In respect of funding, I'm open to suggestions, but we will need, obviously, to set those in the context of our future budget discussions and, you know, a variety of different models might be appropriate in different situations. Sometimes, it will be about starter funding to see an organisation through the process of taking on an asset. I know already local authorities, for example, are supporting organisations with a degree of revenue funding, peppercorn rents and so on. So, there are number of models already, I think, out there in practice.

O ran cyllid, rwyf yn agored i awgrymiadau, ond bydd angen i ni, yn amlwg, eu gosod yng nghyd-destun ein trafodaethau am y gyllideb yn y dyfodol a, wyddoch chi, gallai amrywiaeth o wahanol fodelau fod yn briodol mewn gwahanol sefyllfaoedd. Weithiau, bydd yn ymwneud â chyllid cychwynnol i gefnogi sefydliad drwy'r broses o dderbyn ased. Rwy'n gwybod bod awdurdodau lleol eisoes, er enghraifft, yn cefnogi mudiadau gyda rhywfaint o arian refeniw a rhenti rhad iawn ac yn y blaen. Felly, mae nifer o fodelau eisoes, rwyf yn credu, ar gael yn ymarferol.

In respect of advice and support, again, you know, there are proposals that we are willing to look at. We had the i2i model during the Welsh housing quality standard period, of course, when there were a number of stock transfers going through, which brought together expertise from a number of sources, and, again, we're open to that.

O ran cyngor a chymorth, unwaith eto, wyddoch chi, mae yna gynigion yr ydym yn fodlon eu hystyried. Roedd gennym y model i2i yn ystod y cyfnod safon ansawdd tai Cymru, wrth gwrs, pan oedd nifer o drosglwyddiadau stoc yn digwydd, a wnaeth ddwyn ynghyd arbenigedd o nifer o ffynonellau, ac, unwaith eto, rydym ni yn agored i hynny.

In respect of the peer-led work, well, we've had the Wales Co-operative Centre obviously engage with us in the development and delivery of this work. We would be looking to bring in expertise from wherever was appropriate.

O ran y gwaith a arweinir gan gymheiriaid, wel, mae Canolfan Cydweithredol Cymru yn amlwg wedi ymgysylltu â ni wrth ddatblygu a chyflwyno'r gwaith hwn. Byddem yn bwriadu dod ag arbenigwyr i mewn o unrhyw le a fyddai'n briodol.

14:53

## Mark Isherwood Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I previously worked in the mutual sector for 21 years. The Welsh Conservatives very much recognise the need for greater emphasis on co-operatives and mutuals, recognising, I think, there's been 106 new public service mutuals in England since 2010, but we're not aware of any yet in that period in Wales.

Roeddwn i'n arfer gweithio yn y sector cydfuddiannol am 21 mlynedd. Mae'r Ceidwadwyr Cymreig yn cydnabod yn llwyr yr angen am fwy o bwyslais ar fentrau cydweithredol a chydfuddiannol, gan gydnabod, rwyf yn meddwl, y gwelwyd 106 o wasanaethau cyhoeddus cydfuddiannol newydd yn Lloegr ers 2010, ond nid ydym yn ymwybodol o unrhyw rai hyd yma yn ystod y cyfnod hwnnw yng Nghymru.

You state that:

Rydych yn datgan:

'We are clear that public services, delivered by public servants are best'.

Rydym yn glir mai'r gwasanaethau cyhoeddus a ddarperir gan weision cyhoeddus yw'r rhai gorau.

What consideration have you given to the growing national and international evidence that doing things with rather than for people actually produce better outcomes? As I know from my previous business experience in the mutual sector, how do you respond to the evidence that mutuality still requires a surplus on the bottom line and that organisations must be delivered efficiently and effectively with the internal and external customers if they're actually going to produce better outcomes—that being mutual alone isn't a magic bullet?

Pa ystyriaeth ydych chi wedi'i rhoi i'r dystiolaeth genedlaethol a rhyngwladol cynyddol bod gwneud pethau gyda phobl yn hytrach nag ar gyfer pobl mewn gwirionedd yn arwain at well canlyniadau? Fel y gwn o fy mhrofiad busnes blaenorol yn y sector cydfuddiannol, sut ydych chi'n ymateb i'r dystiolaeth bod cydfuddiannu yn dal i fynnu gwarged net a bod yn rhaid i sefydliadau gael eu cyflenwi'n effeithlon ac yn effeithiol gyda'r cwsmeriaid mewnol ac allanol os ydyn nhw mewn gwirionedd yn mynd i greu canlyniadau gwell—nid yw bod yn gydfuddiannol ynddo'i hun yn fwled hud?

How would you respond to the statement at today's lunchtime event hosted by Janet Finch-Saunders on entrepreneurial councils when Powys council told us about the savings they're making by delivering vital public services with a more commercial mindset? They said if you give recognition and responsibility to the staff, they will transform service delivery—so, turning the power thing upside down and not trying to control from the chief executive's office or top floor.

Sut y byddech chi'n ymateb i'r datganiad yn y digwyddiad amser cinio heddiw a gynhaliwyd gan Janet Finch-Saunders am gynghorau entrepreneuraidd pan ddywedodd Cyngor Powys wrthym am yr arbedion y mae'n eu cyflawni drwy gyflenwi gwasanaethau cyhoeddus hanfodol gyda meddylfryd mwy masnachol? Roedden nhw'n dweud pe byddech chi'n cydnabod a rhoi cyfrifoldeb i'r staff, byddant yn gweddnewid y ffordd y mae'r gwasanaeth yn cael ei gyflenwi—ac felly, yn troi'r mater o bŵer wyneb i waered, a pheidio â cheisio rheoli o swyddfa'r brif weithredwr neu'r llawr uchaf.

How do you respond to Co-production Wales's statement that this is not a nice add-on, but a new way of operating for Government, public professionals and communities, and to Western Australia's mental health commissioner, who said in Wales that we have to decide whether we're adding on a programme or reforming the system, designing and delivering together, learning from the good experience in countries such as Australia, which crosses parties and clearly crosses national and international boundaries.

Sut yr ydych chi'n ymateb i ddatganiad Cyd-gynhyrchu Cymru sy'n dweud nad elfen ychwanegol ddeniadol yw hon, ond ffordd newydd o weithredu ar gyfer y Llywodraeth, gweithwyr proffesiynol a chymunedau, ac i gomisiynydd iechyd meddwl Gorllewin Awstralia, a ddywedodd yng Nghymru bod yn rhaid i ni benderfynu pa un a ydym ni'n ychwanegu rhaglen neu'n diwygio'r system, gan gynllunio a chyflenwi gyda'n gilydd, a dysgu o brofiadau da mewn gwledydd megis Awstralia, sydd yn amlwg yn croesi partïon ac yn croesi ffiniau cenedlaethol a rhyngwladol.

How do you respond to the statement made recently by the Bevan Foundation in their report 'The shape of Wales to come', that the role of almost all public bodies in Wales has been statist and that the challenge is about the distribution of power and determination? Do you agree that mutuals, co-operatives and third sector bodies providing care, particularly for disabled people, should be citizen directed, and how do you propose to ensure that these mutuals and co-operatives are citizen directed?

Sut yr ydych chi'n ymateb i'r datganiad a wnaed yn ddiweddar gan Sefydliad Bevan yn ei adroddiad 'The shape of Wales to come', bod swyddogaeth bron pob corff cyhoeddus yng Nghymru wedi bod yn wladoliaethol a bod yr her yn ymwneud â dosbarthu pŵer a phenderfyniad? A ydych chi'n cytuno y dylai cwmnïau cydfuddiannol a chydweithredol a chyrff y trydydd sector sy'n darparu gofal, yn enwedig ar gyfer pobl anabl, gael eu harwain gan y dinesydd, a sut ydych chi'n bwriadu sicrhau bod y cwmnïau cydfuddiannol a chydweithredol hyn yn cael eu harwain gan y dinesydd?

Finally, referring to the report by Keith Edwards, 'Is The Feeling Mutual?—New Ways of Designing and Delivering Public Services in Wales', published in May, how would you respond to his statements that form needs to follow function, that we need to engage with citizens as parties to the problem solving, reorienting them to find new solutions and ways of saving money or making it go further, that the national framework must maximise use of third sector organisations, and that the Welsh Government's relationship with registered social landlords, housing associations and community mutuals needs to be nurtured, recognising the potential of the sector to deliver social, economic and environmental outcomes across Wales, including co-operative housing, encouraging and supporting local community control over housing and neighbourhoods? [An Assembly Member: 'Answer'.]

Yn olaf, gan gyfeirio at yr adroddiad gan Keith Edwards, 'Ai Cydfuddiannaeth yw'r ffordd ymlaen?—Ffyrdd newydd o Gynllunio a Darparu Gwasanaethau Cyhoeddus yng Nghymru', a gyhoeddwyd ym mis Mai, sut y byddech chi'n ymateb i'w ddatganiadau bod ffurf yn dilyn swyddogaeth, bod angen i ni ymgysylltu â dinasyddion fel rhai sy'n rhan o ddatrys y problemau, gan eu hailgyfeirio nhw i ddod o hyd i atebion newydd a ffyrdd o arbed arian neu wneud iddo fynd ymhellach, bod yn rhaid i'r fframwaith cenedlaethol wneud cymaint â phosib o ddefnydd o sefydliadau'r trydydd sector, a bod perthynas Llywodraeth Cymru â landlordiaid cymdeithasol cofrestredig , cymdeithasau tai a sefydliadau cymunedol cydfuddiannol angen ei meithrin, gan gydnabod potensial y sector i gyflawni canlyniadau cymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol ledled Cymru, gan gynnwys tai cydweithredol, gan annog a chefnogi rheolaeth gymunedol leol dros dai a chymdogaethau? [Aelod Cynulliad:. 'Atebwch']

14:56

## Leighton Andrews Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Llywydd, I wasn't aware that the Conservatives got two opposition responses to a Government statement, but I'm very happy to engage with the questions asked by Mark Isherwood. Let me start by saying, of course, that I commissioned, with the Minister for Economy, Science and Transport, Keith Edwards to prepare the report, 'Is The Feeling Mutual?', so, naturally, I am very much in sympathy with the conclusions that Keith has produced for us. We are now consulting on the action plan deriving from that. Keith has undertaken a very wide range of discussions around Wales with different organisations in the preparation of that report, and I attended two seminars, as I said in the statement, with Keith last week. I also appeared at the One Voice Wales conference with him, where we discussed many of these issues.

Lywydd, nid oeddwn yn ymwybodol fod gan y Ceidwadwyr ddau ymateb gwrthblaid i ddatganiad gan y Llywodraeth, ond rwyf yn hapus iawn i ymgysylltu â'r cwestiynau a ofynnwyd gan Mark Isherwood. Gadewch i mi ddechrau drwy ddweud, wrth gwrs, fy mod i wedi comisiynu, gyda Gweinidog yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth, Keith Edwards i baratoi'r adroddiad, 'Ai Cydfuddiannaeth yw'r ffordd ymlaen?', felly, yn naturiol, rwyf yn cydymdeimlo'n fawr iawn â'r casgliadau y mae Keith wedi'u cyflwyno ar ein cyfer. Rydym ni bellach yn ymgynghori ar y cynllun gweithredu sy'n deillio o hynny. Mae Keith wedi ymgymryd ag ystod eang iawn o drafodaethau o amgylch Cymru gyda gwahanol sefydliadau wrth baratoi'r adroddiad hwnnw, ac roeddwn i'n bresennol mewn dau seminar, fel y dywedais yn y datganiad, gyda Keith yr wythnos diwethaf. Roeddwn i hefyd gydag ef yng nghynhadledd Un Llais Cymru, pryd y buom yn trafod nifer o'r materion hyn.

In respect of the statement on co-operative housing, well, we have seen that, in 11 local authorities out of the 22 in Wales, tenants have voted for co-operative, mutual or other social enterprise forums to run their housing. So, I think that that is something that's been a success for Wales. I'm certainly aware of what has been said by the Bevan Foundation. At the end of the day, Aneurin Bevan himself was a pioneer of co-operative solutions through the Tredegar Working Men's Medical Aid Society, and many other initiatives. I think we have a very strong tradition here in Wales of co-operative models. I'm not perhaps as au fait with developments in Australia as Mark Isherwood, so I wasn't entirely across the statement by the Western Australia mental health commissioner, but I'm sure that we can learn lessons from many different parts of the world, including Australia, as we develop our own policies.

O ran y datganiad ar dai cydweithredol, wel, rydym ni wedi gweld, mewn 11 o awdurdodau lleol o'r 22 yng Nghymru, bod tenantiaid wedi pleidleisio dros fforymau mentrau cymdeithasol cydweithredol, cydfuddiannol neu eraill i redeg eu tai. Felly, rwyf yn meddwl bod hynny'n rhywbeth sydd wedi bod yn llwyddiant i Gymru. Rwy'n sicr yn ymwybodol o'r hyn sydd wedi ei ddweud gan Sefydliad Bevan. Yn y pen draw, roedd Aneurin Bevan ei hun yn arloeswr o ran atebion cydweithredol drwy Gymdeithas Cymorth Meddygol Gweithwyr Tredegar, a llawer o fentrau eraill. Rwyf yn credu bod gennym draddodiad cryf iawn yma yng Nghymru o fodelau cydweithredol. Efallai nad wyf i mor gyfarwydd â Mark Isherwood â'r datblygiadau yn Awstralia, felly nid oeddwn i'n gwbl ymwybodol o'r datganiad gan gomisiynydd iechyd meddwl Gorllewin Awstralia, ond rwyf yn siŵr y gallwn ni ddysgu gwersi o lawer o wahanol rannau o'r byd , gan gynnwys Awstralia, wrth i ni ddatblygu ein polisïau ein hunain.

At the heart of what we're seeking to do, of course, is the desire to engage citizens in the development and sustainability of public services. There are a number of organisations that have come together to promote that level of activity throughout Wales. He mentioned one of those. I have made it very clear in the past that I'm not particularly keen on the phrase 'co-production', which seems to me a technocratic phrase, but I have sympathy with many of the principles that underpin it, as do other ministerial colleagues.

Wrth wraidd yr hyn yr ydym yn ceisio ei wneud, wrth gwrs, mae'r awydd i gynnwys dinasyddion yn natblygiad a chynaliadwyedd gwasanaethau cyhoeddus. Mae nifer o sefydliadau sydd wedi dod at ei gilydd i hyrwyddo y lefel hwnnw o weithgarwch ledled Cymru. Soniodd am un o'r rheiny. Rwyf i wedi ei gwneud yn glir iawn yn y gorffennol nad wyf yn hoff iawn o'r gair 'cyd-gynhyrchu', sy'n ymddangos imi fel gair technocratig, ond mae gen i gydymdeimlad â llawer o'r egwyddorion sy'n sail iddo, fel sydd gan gydweithwyr gweinidogol eraill.

I have sympathy in what he says about the need very often to ensure that there is a surplus in the management of public services, even when they're held by communities in the form of community assets in order to ensure their sustainability. In respect of empowering staff within local authorities, I think that is a very important model and a principle that should be respected and will often deliver better, more citizen-focused services for local authorities.

Mae gennyf gydymdeimlad o ran yr hyn a ddywed am yr angen yn aml iawn i sicrhau y ceir gwarged wrth reoli gwasanaethau cyhoeddus, hyd yn oed pan fo cymunedau yn eu dal ar ffurf asedau cymunedol er mwyn sicrhau eu bod yn gynaliadwy. O ran grymuso staff mewn awdurdodau lleol, credaf fod hwnnw'n fodel pwysig iawn ac yn egwyddor y dylid ei pharchu, a bydd yn aml yn cyflwyno mwy o wasanaethau gwell sy'n canolbwyntio ar y dinesydd ar gyfer awdurdodau lleol,.

14:59 **Gwenda Thomas** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Minister, I very much welcome this statement. Reading it very quickly, it does seem totally compatible with the Social Services and Well-being (Wales) Act 2014. Do you foresee that an arm's-length company that is owned by a local authority, that is accountable to the local authority, protects employee terms and conditions and ensures trade union recognition, will fit into the national framework, and will be part of the consultation that you mentioned? When you referred to the protection of employee terms and conditions, is this on a permanent basis or in accordance with TUPE rules?

Weinidog, rwyf yn croesawu'r datganiad hwn yn fawr iawn. Trwy ei ddarllen yn gyflym iawn, mae'n ymddangos yn hollol gydnaws â Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014. A ydych chi'n rhagweld y bydd cwmni hyd braich sy'n eiddo i awdurdod lleol, sy'n atebol i'r awdurdod lleol, yn diogelu telerau ac amodau cyflogeion ac yn sicrhau ei fod yn cydnabod undebau llafur, yn cyd-fynd â'r fframwaith cenedlaethol, ac yn rhan o'r ymgynghoriad a grybwyllwyd gennych? Pan gyfeiriasoch at ddiogelu telerau ac amodau cyflogeion, a yw hyn ar sail barhaol neu yn unol â rheolau TUPE?

15:00 **Leighton Andrews** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Well, can I thank my colleague, the Member for Neath, who was the architect of the Social Services and Well-being (Wales) Act and, I suspect, knows it better than anyone else in this Chamber? In respect of what she said about arm's-length companies, I think there can be a role for those, particularly, I suppose, where there is the possibility of recirculating revenues. For example, one proposal that was mentioned by a town council at the meeting of town and community councils last week was in respect of recycling funding from town centre parking into the maintenance of a local market. You can see that that might lend itself to an arm's-length company model. My colleague, the Member for Neath, laid out very clearly the importance of principles in respect of trade union recognition. In respect of what she had to say about the conditions of staff, certainly we would be expecting organisations to observe TUPE.

Wel, a gaf i ddiolch i fy nghydweithiwr, yr Aelod dros Gastell-nedd, sef pensaer Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) ac, rwyf yn amau, ei bod yn gwybod mwy amdani na neb arall yn y Siambr hon? O ran yr hyn a ddywedodd am gwmnïau hyd braich, rwyf yn credu y gallai fod swyddogaeth i'r rheiny, yn enwedig, am wn i, lle y mae posibilrwydd o ailgylchredeg refeniw. Er enghraifft, roedd un cynnig a gafodd ei grybwyll gan gyngor tref yn ystod y cyfarfod cynghorau tref a chymuned yr wythnos diwethaf yn ymwneud ag ailgylchu'r arian parcio yng nghanol y dref tuag at gynnal marchnad leol. Gallwch weld y gallai hynny fod yn addas i fodel cwmni hyd braich. Mae fy nghydweithiwr, yr Aelod dros Gastell-nedd, wedi nodi yn glir iawn pa mor bwysig yw egwyddorion o ran cydnabod undebau llafur. O ran yr hyn a oedd ganddi i'w ddweud am amodau staff, byddem yn sicr yn disgwyl i sefydliadau ddilyn TUPE.

15:01 **Alun Ffred Jones** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Weinidog, mae rhai cynghorau yn Lloegr wedi allanoli eu gwasanaethau yn gyfan gwbl. A ydych chi o blaid y math yma o fodel yng Nghymru?

Minister, some councils in England have outsourced their services entirely. Are you in favour of this kind of model in Wales?

15:01 **Leighton Andrews** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

If you're talking about the Barnet 'easyCouncil' model, that is not the model we are looking to endorse in Wales.

Os ydych chi'n sôn am fodel 'easyCouncil' Barnet, nid dyna'r model yr ydym yn bwriadu ei gymeradwyo yng Nghymru.

15:01 **Y Llywydd / The Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

Thank you, Minister.

Diolch yn fawr, Weinidog.

15:01

## 4. Datganiad: Hynt Rhaglenni Ariannu yr UE

## 4. Statement: Progress of the EU Funding Programmes

Senedd.tv
Fideo Video

**Y Llywydd / The Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

We now move to the next item, which is item 4, a statement by the Minister for Finance and Government Business on the progress of EU funding programmes. I call on Jane Hutt.

Symudwn yn awr at yr eitem nesaf, sef eitem 4, datganiad gan y Gweinidog Cyllid a Busnes y Llywodraeth am gynnydd rhaglenni ariannu'r UE. Galwaf ar Jane Hutt.

15:01 **Jane Hutt** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

*Y Gweinidog Cyllid a Busnes y Llywodraeth / The Minister for Finance and Government Business*

I am pleased to update Members today on the progress of the European funding programmes in Wales 2014-2020. It has been almost one year since Wales was the first UK nation and among the first in the EU to have its regional structural funds programmes agreed by the European Commission. Worth around £1.9 billion of EU investment to Wales, I made a commitment to hit the ground running with the delivery of the new programmes, and I am delighted that we have made excellent progress. So far, we have announced EU investments totalling some £370 million. This brings investments so far to nearly one fifth of the total EU funding allocation for 2014-2020, and is driving a total investment of £840 million.

Rwy'n falch o roi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Aelodau heddiw am gynnydd y rhaglenni cyllid Ewropeaidd yng Nghymru 2014-2020. Mae bron i flwyddyn wedi mynd heibio ers i Gymru fod y wlad gyntaf yn y DU ac un o'r rhai cyntaf yn yr UE i gael y Comisiwn Ewropeaidd i gytuno ar ei rhaglenni cronfeydd strwythurol rhanbarthol. Roedd hyn yn golygu buddsoddiad gwerth tua £1.9 biliwn gan yr UE yng Nghymru, a gwnes ymrwymiad i wneud dechrau da o ran cyflwyno'r rhaglenni newydd, ac rwyf wrth fy modd ein bod wedi gwneud cynnydd rhagorol. Hyd yn hyn, rydym wedi cyhoeddi cyfanswm o ryw £370 miliwn o fuddsoddiad gan yr UE. Mae hyn yn dod â buddsoddiadau hyd yn hyn i bron i un rhan o bump o gyfanswm dyraniad cyllid yr UE ar gyfer 2014-2020, ac mae'n gyrru cyfanswm buddsoddiad o £840 miliwn.

Most recently, I visited the Sony UK technology centre in Bridgend to announce EU funds of £1.7 million for the £2 million STEM Cymru 2 project, which will encourage 5,000 young people aged 11 to 19 years to participate in industry-linked engineering and technological activities. On 21 September, the First Minister announced a £100 million package of support, including £57 million of EU funds, for Smart Cymru and Smart Enterprise, to help businesses and academic institutions to collaborate on new products and processes, and, importantly, to finance the commercialisation of this work to create new businesses and jobs across Wales.

Yn fwyaf diweddar, ymwelais â chanolfan dechnoleg Sony UK ym Mhen-y-bont ar Ogwr i gyhoeddi £1.7 miliwn o arian yr UE ar gyfer y prosiect gwerth £2 filiwn STEM Cymru 2, a fydd yn annog 5,000 o bobl ifanc rhwng 11 a 19 oed i gymryd rhan mewn peirianneg gysylltiedig â diwydiant a gweithgareddau technolegol. Ar 21 Medi, cyhoeddodd y Prif Weinidog becyn cymorth gwerth £100 miliwn, gan gynnwys £57 miliwn o arian yr Undeb Ewropeaidd, ar gyfer Smart Cymru a Smart Enterprise, i helpu busnesau a sefydliadau academaidd i gydweithio ar gynhyrchion a phrosesau newydd, ac, yn bwysig, i ariannu'r broses o fasnacheiddio'r gwaith hwn i greu busnesau a swyddi newydd ledled Cymru.

These are just a few examples of recent EU investments, and as projects progress, we see the positive economic and social impact that EU funds have on jobs, people, businesses and communities. I am also pleased that the European territorial co-operation programmes—also known as INTERREG—are up and running. Wales participates in a number of these INTERREG programmes, including the Ireland-Wales cross-border programme, and the Atlantic area, north west Europe and INTERREG Europe programmes. They are an essential component of the Welsh Government's continuing policy of working in partnership with other EU regions and promoting Wales internationally, and are very much aligned to our EU strategy and international agenda: 'Wales in the World'. The co-operation programmes enable us to look beyond our geographical boundaries in tackling common economic, social and environmental issues. It is therefore vital that we maximise Welsh engagement in these programmes. To help this, I visited Brussels on 2 October to meet key officials in the EU, including Commissioner Crețu's new chef de cabinet. I also launched a new Wales action plan for European territorial co-operation at a successful event in Wales House. The event was attended by the EU funding ambassadors and representatives and stakeholders from across Wales and the EU, including delegates from Ireland, Poland, France, Spain, Germany, Italy, Belgium, Finland, Sweden and Malta, and nations and regions within the UK.

Dim ond rhai enghreifftiau yw'r rhain o fuddsoddiadau diweddar gan yr Undeb Ewropeaidd, ac wrth i brosiectau wneud cynnydd, rydym yn gweld yr effaith economaidd a chymdeithasol gadarnhaol y mae arian yr UE yn ei chael ar swyddi, pobl, busnesau a chymunedau. Rwyf hefyd yn falch bod y rhaglenni cydweithredu tiriogaethol Ewropeaidd—a elwir hefyd yn INTERREG—wedi cychwyn. Mae Cymru'n cymryd rhan mewn nifer o'r rhaglenni INTERREG hyn, gan gynnwys rhaglen drawsffiniol Cymru-Iwerddon, a rhaglenni ardal Iwerydd, gogledd orllewin Ewrop ac INTERREG Ewrop. Maent yn elfen hanfodol o bolisi parhaus Llywodraeth Cymru o weithio mewn partneriaeth â rhanbarthau eraill yr UE a hyrwyddo Cymru yn rhyngwladol, ac yn cyd-fynd yn gryf â'n strategaeth UE a'n hagenda ryngwladol: 'Cymru yn y Byd'. Mae'r rhaglenni cydweithio yn ein galluogi ni i edrych y tu hwnt i'n ffiniau daearyddol i ymdrin â materion economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol cyffredin. Felly, mae'n hanfodol bod Cymru'n chwarae cymaint o ran â phosibl yn y rhaglenni hyn. I helpu hyn, ymwelais â Brwsel ar 2 Hydref i gwrdd â swyddogion allweddol yn yr UE, gan gynnwys chef de cabinet newydd y Comisiynydd Creţu. Hefyd, lansiais gynllun gweithredu newydd i Gymru ar gyfer cydweithredu tiriogaethol Ewropeaidd mewn digwyddiad llwyddiannus yn Nhŷ Cymru. Roedd cenhadon cyllid a chynrychiolwyr yr UE a rhanddeiliaid o bob rhan o Gymru a'r Undeb Ewropeaidd, gan gynnwys cynrychiolwyr o Iwerddon, Gwlad Pwyl, Ffrainc, Sbaen, yr Almaen, yr Eidal, Gwlad Belg, y Ffindir, Sweden a Malta, a chenhedloedd a rhanbarthau o fewn y DU, i gyd yn bresennol yn y digwyddiad.

The action plan, which has been published on WEFO's website, sets out the Welsh Government's commitment to: increase the number of organisations in Wales engaging and benefiting from the ETC programmes; achieve a stronger focus on ETC investments that address common cross-border, transnational, regional and pan-European challenges and opportunities; ensure that the ETC programmes integrate with other EU funding mechanisms, including centrally-managed funds such as Horizon 2020 and broader Welsh Government policies; and increase the value of ETC funds to Wales. I'm also committed to ensuring that Wales makes the most of the EU investment opportunities that are available, not just through the structural funds and the ETC programmes, but also those provided by the European Investment Bank and the European fund for strategic investments, which was announced by Commission President Juncker last November.

Mae'r cynllun gweithredu, sydd wedi ei gyhoeddi ar wefan WEFO, yn nodi ymrwymiad Llywodraeth Cymru i wneud y canlynol: cynyddu nifer y sefydliadau yng Nghymru sy'n ymwneud â'r rhaglenni ETC ac yn elwa arnynt; cyflawni pwyslais cryfach ar fuddsoddiadau ETC sy'n ymdrin â heriau a chyfleoedd cyffredin trawsffiniol, rhyngwladol, rhanbarthol a phan-Ewropeaidd; sicrhau bod y rhaglenni ETC yn integreiddio â mecanweithiau cyllido eraill yr UE, gan gynnwys cronfeydd a reolir yn ganolog megis Horizon 2020 a pholisïau ehangach Llywodraeth Cymru; a chynyddu gwerth cronfeydd ETC i Gymru. Rwyf hefyd wedi ymrwymo i sicrhau bod Cymru yn gwneud y mwyaf o gyfleoedd buddsoddi'r UE sydd ar gael, nid yn unig drwy'r cronfeydd strwythurol a'r rhaglenni ETC, ond hefyd y rhai a ddarperir gan Fanc Buddsoddi Ewrop a'r gronfa Ewropeaidd ar gyfer buddsoddiadau strategol, a gyhoeddodd Juncker, Arlywydd y Comisiwn, fis Tachwedd diwethaf.

Following discussion with stakeholders, we've submitted to the European Commission and the EIB for detailed consideration a credible pipeline of Welsh schemes that reflect the breadth of investment opportunities in Wales, including those led by Government, local authorities and the private sector. Over the summer, I met with Jonathan Taylor, vice-president of the EIB, to discuss Wales's proposals, and work on these is continuing. We are also continuing to explore opportunities of the centrally-managed programmes, such as Horizon 2020, Erasmus and Creative Europe. I'm particularly pleased with the positive engagement and progress the EU funding ambassadors have made. They've met key stakeholders in the EU and Wales, including the Enterprise and Business Committee, and have been engaged in a number of high-profile events, including the WCVA's conference in May and the ETC event in Brussels. Further events are planned, including an Erasmus event on 11 November in Cardiff and a Creative Europe workshop on 12 November in Caernarfon. The ambassadors will soon produce an interim report and I expect to receive their final report next spring, setting out the recommendations for improving access to the EU centrally-managed funds.

Yn dilyn trafodaeth gyda rhanddeiliaid, rydym wedi cyflwyno piblinell gredadwy o gynlluniau yng Nghymru i'r Comisiwn Ewropeaidd a Banc Buddsoddi Ewrop i'w hystyried yn fanwl sy'n adlewyrchu ehangder y cyfleoedd buddsoddi yng Nghymru, gan gynnwys y rhai a arweinir gan y Llywodraeth, awdurdodau lleol a'r sector preifat. Dros yr haf, cyfarfûm â Jonathan Taylor, is-lywydd Banc Buddsoddi Ewrop, i drafod cynigion Cymru, ac mae'r gwaith ar y rhain yn parhau. Rydym hefyd yn parhau i archwilio cyfleoedd y rhaglenni a reolir yn ganolog, megis Horizon 2020, Erasmus ac Ewrop Greadigol. Rwy'n arbennig o falch o'r ymgysylltiad cadarnhaol a'r cynnydd mae cenhadon cyllid yr UE wedi ei wneud. Maent wedi cwrdd â rhanddeiliaid allweddol yn yr UE a Chymru, gan gynnwys y Pwyllgor Menter a Busnes, ac wedi cymryd rhan mewn nifer o ddigwyddiadau uchel eu proffil, gan gynnwys cynhadledd y WCVA ym mis Mai a'r digwyddiad ETC ym Mrwsel. Mae digwyddiadau eraill ar y gweill, gan gynnwys digwyddiad Erasmus ar 11 Tachwedd yng Nghaerdydd a gweithdy Ewrop Greadigol ar 12 Tachwedd yng Nghaernarfon. Bydd y cenhadon yn cynhyrchu adroddiad dros dro cyn bo hir ac rwy'n disgwyl cael eu hadroddiad terfynol y gwanwyn nesaf, a fydd yn nodi'r argymhellion i wella mynediad i'r cronfeydd UE a reolir yn ganolog.

As expected, Horizon 2020 is more competitive than its predecessor, FP7, with many areas of the programme oversubscribed. Considering this, Wales's performance has so far been encouraging, with EU funds of around £22 million benefiting Welsh organisations. This includes the recent announcement of Horizon 2020 funds of £7 million for the Welsh Government's £17 million COFUND to help grow Wales's world-class scientific research. I'm pleased that the annual event on Horizon 2020 will be held early next year, while on 3 December, the structural funds annual event will be held in Swansea. Wales will also be hosting the next IQ-Net conference in Cardiff between 23 and 25 November, when representatives from a number of EU managing authorities will come together to discuss 'simplification', a key design principle promoted by the Commission that could produce tangible benefits for organisations accessing and delivering EU projects.

Yn ôl y disgwyl, mae Horizon 2020 yn fwy cystadleuol na'i ragflaenydd, FP7, ac mae llawer o feysydd y rhaglen wedi'u gordanysgrifio. O ystyried hyn, mae perfformiad Cymru hyd yn hyn wedi bod yn galonogol; mae tua £22 miliwn o arian yr UE wedi bod o fudd i sefydliadau yng Nghymru. Mae hyn yn cynnwys y cyhoeddiad diweddar am £7 miliwn o arian Horizon 2020 ar gyfer COFUND gwerth £17 miliwn Llywodraeth Cymru i helpu i dyfu ymchwil wyddonol o safon fyd-eang yng Nghymru. Rwy'n falch y bydd y digwyddiad blynyddol ar Horizon 2020 yn cael ei gynnal yn gynnar y flwyddyn nesaf, ac ar 3 Rhagfyr, bydd y digwyddiad blynyddol cronfeydd strwythurol yn cael ei gynnal yn Abertawe. Bydd Cymru hefyd yn cynnal y gynhadledd IQ-Net nesaf yng Nghaerdydd rhwng 23 a 25 Tachwedd, pan fydd cynrychiolwyr o nifer o awdurdodau rheoli'r UE yn dod ynghyd i drafod 'symleiddio', egwyddor dylunio allweddol a hyrwyddir gan y Comisiwn a allai greu manteision diriaethol i sefydliadau sy'n defnyddio ac yn cyflwyno prosiectau'r UE.

The next 18 months will be critical for the UK's relationship with the EU, and the decisions taken will influence all our lives. As a pro-business and pro-European Government, we firmly believe that our people, communities, and businesses will lose out from a UK exit. From the vital benefits of access to the single market and EU investments, UK membership of the EU is crucial to the economic security, environment, prosperity and wellbeing of Wales.

Bydd y 18 mis nesaf yn allweddol ar gyfer perthynas y DU â'r UE, a bydd y penderfyniadau a wneir yn dylanwadu ar ein bywydau ni i gyd. Fel Llywodraeth pro-fusnes a phro-Ewropeaidd, rydym yn credu'n gryf y bydd ein pobl, ein cymunedau a'n busnesau ar eu colled os bydd y DU yn ymadael. O fanteision hanfodol mynediad at y farchnad sengl a buddsoddiadau'r UE, mae aelodaeth y DU o'r UE yn hollbwysig i ddiogelwch economaidd, amgylchedd, ffyniant a lles Cymru.

15:08

## Nick Ramsay Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I'm grateful to the Minister for today's statement. Minister, I'm also interested to see how you're fulfilling your responses to the Enterprise and Business Committee's report from over a year ago now, in July 2014, 'EU Funding Opportunities 2014-2020', which you've just been talking about in your statement.

Rwy'n ddiolchgar i'r Gweinidog am y datganiad heddiw. Weinidog, mae gen i ddiddordeb hefyd i weld sut yr ydych yn cyflawni eich ymatebion i adroddiad y Pwyllgor Menter a Busnes dros flwyddyn yn ôl erbyn hyn, ym mis Gorffennaf 2014, 'Cyfleoedd Cyllid yr UE 2014-2020', yr ydych newydd fod yn siarad amdano yn eich datganiad.

Turning in detail to your statement, can I welcome your Government's conversion—or greater conversion, I should say; I should be charitable—to accessing more funds from the European Investment Bank? Welsh Conservatives have been calling for this for many years now. You say that there are a number of Welsh schemes in the pipeline, but you don't give any details of what those schemes are. So, could you tell us, roughly, how many schemes are there in that pipeline, and how many of the schemes that are in the pipeline are you expecting to receive financial support, and how much, on average, for each project? Even if you can't give us exact details for each project, I wonder if you could tell us what area those schemes are in.

I droi at eich datganiad yn fanwl, a gaf i groesawu tröedigaeth eich Llywodraeth—neu dröedigaeth fwy, dylwn ddweud; dylwn i fod yn drugarog—i gael gafael ar fwy o arian o Fanc Buddsoddi Ewrop? Mae Ceidwadwyr Cymru wedi bod yn galw am hyn ers blynyddoedd lawer bellach. Rydych yn dweud bod nifer o gynlluniau ar y gweill yng Nghymru, ond nid ydych yn rhoi unrhyw fanylion am y cynlluniau hynny. Felly, a allech chi ddweud wrthym, yn fras, faint o gynlluniau sydd ar y gweill, a faint o'r cynlluniau hynny sydd ar y gweill yr ydych chi'n disgwyl iddynt gael cymorth ariannol, a faint o arian, ar gyfartaledd, i bob prosiect? Hyd yn oed os na allwch chi roi union fanylion pob prosiect inni, tybed a allech chi ddweud wrthym ym mha faes y mae'r cynlluniau hynny?

You say you are continuing to explore opportunities with programmes such as Horizon 2020, Erasmus and Creative Europe. Recommendation 13 of that report from last year called for the championing of Welsh creative industries within Europe so that Welsh creative industries would not be disadvantaged. You said, back then in 2014—or the Welsh Government said, back in 2014—that officials from Creative Europe Desk Wales were already involved in discussions. What came of those discussions, and what positive impacts have the EU funding ambassadors, who you've been talking highly of in your statement today, had to date? I'm sure you'd agree with me that we need to ensure that we're not just engaged in a talking shop, but there is a practical result on the ground.

Rydych yn dweud eich bod yn parhau i archwilio cyfleoedd gyda rhaglenni fel Horizon 2020, Erasmus ac Ewrop Greadigol. Roedd argymhelliad 13 yr adroddiad hwnnw y llynedd yn galw am hyrwyddo diwydiannau creadigol Cymru yn Ewrop fel na fyddai diwydiannau creadigol Cymru dan anfantais. Dywedasoch bryd hynny, yn ôl yn 2014—neu dywedodd Llywodraeth Cymru, yn ôl yn 2014—fod swyddogion o Ddesg Cymru Ewrop Greadigol eisoes yn cymryd rhan mewn trafodaethau. Beth a ddaeth o'r trafodaethau hynny, a pha effeithiau cadarnhaol y mae cenhadon arian yr UE, yr ydych wedi bod yn eu brolio yn eich datganiad heddiw, wedi'u cael hyd yn hyn? Rwy'n siŵr y byddwch yn cytuno â mi bod angen inni sicrhau ein bod yn gwneud mwy na chymryd rhan mewn siop siarad; rhaid inni gael canlyniad ymarferol ar lawr gwlad.

Finally, Presiding Officer, back in that committee report of last year, recommendation 8 asked the Welsh Government to explore with higher education institutions the creation of a Wales-wide alumni network for international students, including Erasmus students who've studied in Wales and Welsh students who've studied abroad, to maximise the impact of the international contacts. You accepted that recommendation, albeit in principle. You mentioned Erasmus today. How are you ensuring that the Welsh Government is fulfilling the obligation that you made to Erasmus students back in your response to that report of July 2014?

Yn olaf, Lywydd, yn ôl yn adroddiad y pwyllgor hwnnw y llynedd, roedd argymhelliad 8 yn gofyn i Lywodraeth Cymru archwilio gyda sefydliadau addysg uwch y posibilrwydd o greu rhwydwaith cyn-fyfyrwyr Cymru gyfan ar gyfer myfyrwyr rhyngwladol, gan gynnwys myfyrwyr Erasmus sydd wedi astudio yng Nghymru a myfyrwyr o Gymru sydd wedi astudio dramor, er mwyn gwneud y gorau o effaith y cysylltiadau rhyngwladol. Gwnaethoch dderbyn yr argymhelliad hwnnw, er mai dim ond mewn egwyddor. Soniasoch am Erasmus heddiw. Sut yr ydych chi'n sicrhau bod Llywodraeth Cymru yn cyflawni'r addewid a wnaethoch i fyfyrwyr Erasmus yn ôl yn eich ymateb i'r adroddiad hwnnw o fis Gorffennaf 2014?

15:10 **Jane Hutt** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

Thank you very much, Nick Ramsay. In terms of our engagement with the European investment bank, it goes beyond the European fund for strategic investment. That is what I referred to most specifically in my statement, but just to give you an update on the Welsh EFSI pipeline, not only have we got an official level task and finish group managing the development of the pipeline, both within and outside of Government; in fact, we're part of a Whitehall group as well. But we've got a Welsh pipeline that includes both infrastructure schemes and opportunities to create joint investment platforms such as the housing finance grant 2, the green growth fund, the flood and coastal erosion risk management programme, and our three non-profit distributing schemes: the redevelopment of the Velindre Cancer Centre, dualling of sections 5 and 6 of the A465 and band B of the twenty-first century schools programme. Also in the pipeline going forward are projects such as tidal lagoons, Anglesey energy island and the metro. Indeed, I'm meeting Jonathan Taylor again on a visit to Wales he's undertaking. I think one of the important points about Wales's engagement with the European Investment Bank is that other institutions are taking advantage of the borrowing opportunities, such as Swansea University, in the Swansea bay second campus, which included the European regional development fund, Welsh Government and EIB as well.

Diolch yn fawr iawn, Nick Ramsay. O ran ein hymwneud â banc buddsoddi Ewrop, mae'n mynd y tu hwnt i'r gronfa Ewropeaidd ar gyfer buddsoddi strategol. Dyna'r hyn yr oeddwn yn cyfeirio ato'n fwyaf penodol yn fy natganiad, ond dim ond i roi'r wybodaeth ddiweddaraf ichi am biblinell EFSI Cymru, rydym wedi gwneud mwy na sefydlu grŵp gorchwyl a gorffen ar lefel swyddogol i reoli datblygiad y biblinell, oddi mewn a'r tu allan i'r Llywodraeth; yn wir, rydym yn rhan o grŵp yn Whitehall hefyd. Ond mae gennym biblinell Cymru sy'n cynnwys cynlluniau seilwaith a chyfleoedd i greu llwyfannau buddsoddi ar y cyd fel y grant cyllid tai 2, y gronfa twf gwyrdd, y rhaglen rheoli risg llifogydd ac erydu arfordirol, a'n tri chynllun dosbarthu dielw: ailddatblygu Canolfan Ganser Felindre, deuoli adrannau 5 a 6 yr A465 a band B rhaglen ysgolion yr unfed ganrif ar hugain. Hefyd ar y gweill yn y dyfodol mae prosiectau fel morlynnoedd llanw, ynys ynni Ynys Môn a'r metro. Yn wir, rwy'n cwrdd â Jonathan Taylor eto wrth iddo ymweld â Chymru. Rwy'n meddwl mai un o'r pwyntiau pwysig am ymgysylltiad Cymru gyda Banc Buddsoddi Ewrop yw bod sefydliadau eraill yn manteisio ar y cyfleoedd benthyca, fel Prifysgol Abertawe, yn ail gampws bae Abertawe, a oedd yn cynnwys cronfa datblygu rhanbarthol Ewrop, Llywodraeth Cymru a Banc Buddsoddi Ewrop hefyd.

We have taken advantage of the recommendations of the Enterprise and Business Committee's reports that have come forward, which I have supported, and I have also very recently appeared before the committee to account for the response, and the progress that we're making. I think, very importantly on that point, in terms of directly managed programmes, the Horizon 2020 synergies that are developing with the structural funds are very important, and the fact that we've got these capacity-building investments to support the development of effective Horizon 2020 projects.

Rydym wedi manteisio ar argymhellion adroddiadau'r Pwyllgor Menter a Busnes sydd wedi'u cyflwyno, ac yr wyf wedi'u cefnogi, ac rwyf hefyd wedi ymddangos yn ddiweddar iawn gerbron y pwyllgor i egluro'r ymateb, a'r cynnydd yr ydym yn ei wneud. Rwy'n meddwl, yn bwysig iawn ar y pwynt hwnnw, o ran rhaglenni a reolir yn uniongyrchol, bod y synergeddau Horizon 2020 sy'n datblygu gyda'r cronfeydd strwythurol yn bwysig iawn, a'r ffaith bod gennym y buddsoddiadau meithrin gallu hyn i gefnogi datblygiad effeithiol prosiectau Horizon 2020.

Again, we have a network group across Welsh Government. There have been questions about the EU funding ambassadors, and again, they appeared before the committee to give some indication of the work that they've been undertaking, but also to say that they are also identifying, monitoring and promoting opportunities under the various programmes with a network group that's been established across the Welsh Government of officials who are supporting the EU funding ambassadors. There are opportunities in terms of taking forward Erasmus+. I've mentioned the conference being held on 11 November. That's going to be chaired by one of our EU funding ambassadors, Hywel Ceri Jones. Wales's percentage of successful applications in this financial year was the highest of the home nations, at 60.6 per cent, with applications from adult learning being the highest at 10.3 per cent of all applications. But we have a number of events around Wales, and of course your important point about the alumni and the networks that are created from those experiences in terms of Erasmus is also very important.

Unwaith eto, mae gennym grŵp rhwydwaith ar draws Llywodraeth Cymru. Mae cwestiynau wedi'u gofyn am genhadon arian yr UE, ac unwaith eto, fe wnaethant ymddangos gerbron y pwyllgor i roi rhyw syniad o'r gwaith y maen nhw wedi bod yn ei wneud, ond hefyd i ddweud eu bod hefyd yn nodi, yn monitro ac yn hyrwyddo cyfleoedd o dan y gwahanol raglenni gyda grŵp rhwydwaith sydd wedi ei sefydlu ar draws Llywodraeth Cymru o swyddogion sy'n cefnogi cenhadon arian yr UE. Mae gennym gyfleoedd i fwrw ymlaen ag Erasmus+. Rwyf wedi sôn am y gynhadledd sy'n cael ei chynnal ar 11 Tachwedd. Y cadeirydd fydd un o'n cenhadon arian yr UE, Hywel Ceri Jones. Roedd canran Cymru o geisiadau llwyddiannus yn y flwyddyn ariannol hon yr uchaf o'r gwledydd cartref, sef 60.6 y cant, a cheisiadau gan ddysgu oedolion oedd yr uchaf, sef 10.3 y cant o'r holl geisiadau. Ond mae gennym nifer o ddigwyddiadau ledled Cymru, ac wrth gwrs mae eich pwynt pwysig am y cyn-fyfyrwyr a'r rhwydweithiau sy'n cael eu creu o'r profiadau hynny o ran Erasmus hefyd yn bwysig iawn.

15:14 **Jeff Cuthbert** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Diolch, Lywydd. I thank the Minister for her statement today. The effective use of European structural funds is crucial to delivering our jobs and growth agenda here in Wales as well as tackling poverty and providing better opportunities for our most hard-to-reach people in areas of deprivation. In particular, I'd like to welcome the continuation of the Jobs Growth Wales programme, an extremely popular programme generally considered to be amongst the best of its kind in Europe. That's despite the misleading comments earlier this year that it had been scrapped. I would also like to welcome the continued commitment to funding apprenticeships, of which we have a very good track record in Wales.

Diolch, Lywydd. Diolch i'r Gweinidog am ei datganiad heddiw. Mae defnyddio cronfeydd strwythurol Ewropeaidd yn effeithiol yn hollbwysig er mwyn inni gyflawni ein hagenda twf a swyddi yma yng Nghymru, yn ogystal â threchu tlodi a darparu gwell cyfleoedd i'n pobl anoddaf eu cyrraedd mewn ardaloedd o amddifadedd. Yn arbennig, hoffwn groesawu parhad rhaglen Twf Swyddi Cymru, rhaglen hynod o boblogaidd a ystyrir yn gyffredinol ymhlith y gorau o'i math yn Ewrop. Mae hynny er gwaethaf y sylwadau camarweiniol yn gynharach eleni ei bod wedi ei dileu. Hoffwn hefyd groesawu'r ymrwymiad parhaus i ariannu prentisiaethau, rhywbeth y mae gennym hanes da iawn o'i wneud yng Nghymru.

Minister, would you agree with me that these two schemes in particular highlight the importance of European funding to Wales as well as the folly of those who argue that we should leave the EU. Indeed, you could say that they are being truly reckless in terms of the employment future of our young people.

Weinidog, a fyddech chi'n cytuno â mi bod y ddau gynllun hyn yn arbennig yn tynnu sylw at bwysigrwydd cyllid Ewropeaidd i Gymru yn ogystal â ffolineb y rheini sy'n dadlau y dylem adael yr UE. Yn wir, gallech chi ddweud eu bod yn bod yn wirioneddol ddi-hid o ran dyfodol cyflogaeth ein pobl ifanc.

15:15 **Jane Hutt** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Thank you, Jeff Cuthbert. Thank you for your support, particularly for those backbone projects that we have identified with Grahame Guilford, another of our funding ambassadors, and for the importance of the economic prioritisation framework and Jobs Growth Wales and apprenticeships coming forward from the previous round and being supported by the Commission in terms of the impact that they make. I fully support your point in terms of the importance of our European structural funds for the opportunities that they are providing for our young people, addressing youth unemployment and making sure that we provide those opportunities, particularly in terms of 16 to 25-year-olds. It's crucially important for the young people themselves and for skills in the economy.

Diolch, Jeff Cuthbert. Diolch am eich cefnogaeth, yn enwedig i'r prosiectau asgwrn cefn hynny yr ydym wedi'u nodi gyda Grahame Guilford, un arall o'n cenhadon arian, ac i bwysigrwydd y fframwaith blaenoriaethu economaidd a Twf Swyddi Cymru a phrentisiaethau sy'n dod yn eu blaenau o'r rownd flaenorol ac sy'n cael eu cefnogi gan y Comisiwn o ran yr effaith y maent yn ei chael. Rwy'n llwyr gefnogi eich pwynt o ran pwysigrwydd ein cronfeydd strwythurol Ewropeaidd o ran y cyfleoedd y maent yn eu darparu i'n pobl ifanc, ymdrin â diweithdra ymhlith pobl ifanc a gwneud yn siŵr ein bod yn darparu'r cyfleoedd hynny, yn enwedig i bobl ifanc 16 i 25 oed. Mae'n hollbwysig i'r bobl ifanc eu hunain ac i sgiliau yn yr economi.

15:16 **Alun Ffred Jones** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Diolch yn fawr am y datganiad. Jest ychydig o gwestiynau: rydych yn cyfeirio at y prosiect STEM Cymru 2 er mwyn annog plant ysgol i gymryd diddordeb mewn peirianneg. Ydy'r gronfa hon wedi'u thargedu ar gyfer ardaloedd penodol neu ar gyfer ardal y cronfeydd strwythurol yn gyffredinol? Dyna fy nghwestiwn cyntaf.

Thank you very much for the statement. I just have a few questions: you refer to the STEM Cymru 2 project to encourage school-age children to take an interest in engineering. Is this fund targeted at specific areas or for the structural fund area as a whole? That's the first question.

Rydych yn cyfeirio at bwysigrwydd cronfa Horizon 2020. Byddwn i gyd yn cytuno bod y gronfa hon yn un eithriadol o bwysig, yn arbennig i brifysgolion ac i rai diwydiannau yma yng Nghymru. Rydych yn dweud bod dechrau boddhaol wedi bod a bod swm o tua £22,000 wedi'i hennill gan gyrff o Gymru. Beth yw eich nod chi mewn perthynas â'r gronfa arbennig yma? Beth fydd llwyddiant yn edrych yn debyg iddo fo—ai £100 miliwn neu £200 miliwn? Faint ydych yn meddwl ydy'r capasiti yng Nghymru i ddenu arian o'r gronfa arbennig yma?

You make reference to the importance of the Horizon 2020 fund, and we would all agree that this fund is exceptionally important, particularly to universities and certain industries here in Wales. You state that there has been a satisfactory start and that a sum of around £22,000 has been achieved by bodies in Wales. What's your aim in relation to this particular fund? What will success look like—£100 million or £200 million? What do you think the capacity is in Wales to attract funding from this particular fund?

Yn olaf, rydych yn dweud y bydd cynhadledd IQ-Net yn cael ei chynnal yng Nghaerdydd ac y bydd y cynrychiolwyr yna'n trafod symleiddio—'simplification'—am dri diwrnod, mae'n debyg. Beth ydy eich dealltwriaeth chi o'r gair 'simplification' a beth ydych yn gobeithio fydd yn deillio o'r gynhadledd honno?

Finally, you say that the IQ-Net conference will be staged in Cardiff and that delegates there will be discussing simplification, for three days, apparently. What's your understanding of the word 'simplification' and what do you hope will emanate from that particular conference?

15:18 **Jane Hutt** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Diolch yn fawr, Alun Ffred Jones.

Thank you very much, Alun Ffred Jones.

I did launch the STEM Cymru 2 project in Sony in Bridgend as part of the West Wales and the Valleys beneficiary in terms of that programme. I will clarify whether this also includes the whole of Wales in terms of STEM Cymru 2. I will clarify that for Alun Ffred Jones. It's certainly the West Wales and the Valleys young people who will be key beneficiaries in that area.

Fe wnes i lansio prosiect STEM Cymru 2 yn Sony ym Mhen-y-bont ar Ogwr yn rhan o fuddiolwyr y Gorllewin a'r Cymoedd o ran y rhaglen honno. Fe wnaf egluro a yw hyn hefyd yn cynnwys Cymru gyfan o ran STEM Cymru 2. Fe egluraf hynny i Alun Ffred Jones. Yn sicr, pobl ifanc y Gorllewin a'r Cymoedd fydd y buddiolwyr allweddol yn yr ardal honno.

In terms of the importance of Horizon 2020 and our ambitions to progress beyond FP7 and the proportion of funding that was allocated very successfully in terms of FP7 applications to successful projects, of course we want to go beyond that. I think the importance, as you say, is how closely we're working with Welsh higher education to deliver on our ambitions. I have mentioned the COFUND, the complementary investment in research capacity. But also I think the €9.4 million funding to Welsh Government, strengthening international research capacity in Wales COFUND bid, is also a demonstration of progress. I do expect to make an announcement in the autumn about the closely related ERDF proposal, Sêr Cymru II. Indeed, the opportunities that we have as a result of the structural funds will take us forward beyond, of course, the structural funds to those all-important directly managed programmes, such as Horizon 2020.

O ran pwysigrwydd Horizon 2020 a'n huchelgeisiau ni i symud ymlaen y tu hwnt i FP7 a'r gyfran o gyllid a ddyrannwyd yn llwyddiannus iawn o ran ceisiadau FP7 i brosiectau llwyddiannus, hoffem fynd y tu hwnt i hynny wrth gwrs. Rwy'n meddwl mai'r hyn sy'n bwysig, fel y dywedwch, yw pa mor agos yr ydym yn cydweithio ag addysg uwch yng Nghymru i gyflawni ein huchelgeisiau. Rwyf wedi sôn am y COFUND, y buddsoddiad cyflenwol mewn gallu ymchwil. Ond hefyd rwy'n meddwl bod y €9.4 miliwn o gyllid i Lywodraeth Cymru, i gryfhau gallu ymchwil rhyngwladol cais COFUND Cymru, hefyd yn dangos cynnydd. Rwy'n disgwyl gwneud cyhoeddiad yn yr hydref ynghylch y cynnig ERDF cysylltiedig, Sêr Cymru II. Yn wir, bydd y cyfleoedd a gawn yn sgil y cronfeydd strwythurol yn mynd â ni ymlaen y tu hwnt, wrth gwrs, i'r cronfeydd strwythurol at y rhaglenni hollbwysig hynny a reolir yn uniongyrchol, fel Horizon 2020.

15:20 **Eluned Parrott** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Thank you for your statement today, Minister, which gives an overview of many different areas of activity, I think it's fair to say. But what sometimes feels lacking in these continued updates is a sense that all of these interactions actually belong to a strategic whole—a driver that is going to make sure that our interaction with Europe and our use of the structural funds will have an obvious and a lasting change in terms of the economy of west Wales and the Valleys in particular.

Diolch am eich datganiad heddiw, Weinidog. Rwy'n meddwl ei bod yn deg dweud ei fod yn rhoi golwg gyffredinol ar lawer o wahanol feysydd gweithgaredd. Ond weithiau, ymysg y diweddariadau parhaus hyn, rwy'n teimlo ein bod yn colli ymdeimlad bod y rhyngweithiadau hyn i gyd mewn gwirionedd yn perthyn i gyfanrwydd strategol—gyrrwr sy'n mynd i wneud yn siŵr y bydd ein rhyngweithio ag Ewrop a'r ffordd yr ydym yn defnyddio'r cronfeydd strwythurol yn achosi newid amlwg a pharhaol o ran economi'r gorllewin a'r Cymoedd yn arbennig.

I'm grateful to see the inclusion of some comments, however, on our participation in INTERREG programmes, because I think that these are a particularly important opportunity for us in terms of making sure that we can draw in additional funding and potentially use that funding to good effect. One particular area that has been brought to the attention of the Enterprise and Business Committee recently is the potential value of the blue economy. We note, for example, with great interest that the Irish Government are very keen to see—and they've actually set targets for it—a percentage of the country's GDP derived from the blue economy. That's not just about fisheries and aquaculture, but also about transport and the opportunity for marine energy. It is an integrated strategy that looks at the ways in which they can derive value from their four sides of the sea. Of course, we have three sides, and it is clearly an opportunity for us as well. So, I wonder if you can tell us what discussions you've had with the Ireland-Wales and the Atlantic Area INTERREG programmes about how we can work collaboratively to derive the maximum benefit to Wales from the potential of the blue economy, what work the Welsh Government has done in terms of assessing the opportunities there for Wales, and what opportunities they have discussed with, perhaps particularly, the Irish Government about drawing down funds through the motorways of the sea programme, which I don't think you've mentioned in your statement today.

Rwy'n ddiolchgar o weld bod rhai sylwadau wedi'u cynnwys, fodd bynnag, ynglŷn â'n cyfranogiad mewn rhaglenni INTERREG, oherwydd rwy'n meddwl bod y rhain yn gyfle arbennig o bwysig inni o ran sicrhau ein bod yn gallu denu cyllid ychwanegol ac efallai defnyddio'r arian hwnnw'n effeithiol. Un maes penodol sydd wedi cael ei ddwyn i sylw'r Pwyllgor Menter a Busnes yn ddiweddar yw gwerth posibl yr economi las. Nodwn, er enghraifft, â diddordeb mawr y ffaith bod Llywodraeth Iwerddon yn awyddus iawn i weld—ac mae hi mewn gwirionedd wedi gosod targedau ar gyfer hyn—canran o CMC y wlad yn deillio o'r economi las. Mae hynny'n golygu mwy na physgodfeydd a dyframaeth: mae hefyd yn ymwneud â thrafnidiaeth a'r cyfle ar gyfer ynni morol. Mae'n strategaeth integredig sy'n edrych ar y ffyrdd y gallant gael gwerth o'u pedair ochr o'r môr. Wrth gwrs, mae gennym ni dair ochr, ac mae'n amlwg yn gyfle i ninnau hefyd. Felly, tybed a allwch chi ddweud wrthym pa drafodaethau yr ydych wedi'u cael â rhaglenni Cymru-Iwerddon a rhaglenni Ardal yr Iwerydd INTERREG ynghylch sut y gallwn gydweithio i sicrhau'r budd mwyaf i Gymru o botensial yr economi las, pa waith y mae Llywodraeth Cymru wedi'i wneud o ran asesu'r cyfleoedd sydd yno i Gymru, a pha gyfleoedd a drafodwyd gyda, o bosibl yn arbennig, Llywodraeth Iwerddon am gael gafael ar arian drwy raglen traffyrdd y môr, rhywbeth nad wyf yn meddwl eich bod wedi sôn amdano yn eich datganiad heddiw.

It's also possible, I think, to use the INTERREG programmes as an opportunity to broker the kind of international partnerships between higher education institutions and businesses in Wales and elsewhere in Europe that will be necessary for successful participation in Horizon 2020 bids. Wales, as we know, has not previously punched to its weight in some of these programmes in the past, and I think there is some concern, obviously, with increasing competition, that we must make sure that we go the extra mile to give our HEIs and our businesses the best possible opportunity to compete. So, I'm wondering if you can tell us, in terms of INTERREG opportunities, what activity has been targeted at our HEIs to try and help broker those kind of partnerships, and how is the Welsh Government monitoring and supporting the bids that are coming forward?

Mae hefyd yn bosibl, rwy'n meddwl, defnyddio'r rhaglenni INTERREG fel cyfle i frocera'r math o bartneriaethau rhyngwladol rhwng sefydliadau addysg uwch a busnesau yng Nghymru ac mewn mannau eraill yn Ewrop a fydd yn angenrheidiol ar gyfer cyfranogiad llwyddiannus mewn cynigion Horizon 2020. Mae Cymru, fel y gwyddom, wedi tangyflawni yn rhai o'r rhaglenni hyn yn y gorffennol, ac rwy'n meddwl bod rhywfaint o bryder, yn amlwg, gyda mwy o gystadleuaeth, bod yn rhaid inni sicrhau ein bod yn mynd gam ymhellach i roi'r cyfle gorau posibl i'n sefydliadau addysg uwch a'n busnesau i gystadlu. Felly, tybed a allwch chi ddweud wrthym, o ran y cyfleoedd INTERREG, pa weithgarwch sydd wedi'i dargedu at ein sefydliadau addysg uwch i geisio helpu i frocera'r mathau hynny o bartneriaethau, a sut mae Llywodraeth Cymru yn monitro ac yn cefnogi'r cynigion a wneir?

Moving on to the European Investment Bank projects, I think it's a very exciting opportunity for us to look at this, as we go towards borrowing powers, not only through the Juncker plan, I think, but also through the EIB's permanent streams of funding. It seems to me that the UK as a whole has been slow to recognise that this is an opportunity that it could make, perhaps, more use of. The metro programme is clearly one project that we might potentially anticipate the Welsh Government would go to the EIB about. I note from the finance plan published in the summer that the Welsh Government has currently identified a quarter of the funding needed for its proposed metro improvements. Clearly, the European Investment Bank will only match fund to a maximum of 50 per cent of the amount needed. So, clearly, if it's only going to double our money by a quarter, we're only halfway there. I wonder if the Minister could, perhaps, clarify whether or not the Welsh Government is planning to cut the scope of the project, or whether it has plans to double up the identified funding, perhaps with structural funds, so that we can go with 50 per cent of the funding to the EIB. If you could give us some idea of where that remaining quarter is coming from, that would be very helpful.

I droi at brosiectau Banc Buddsoddi Ewrop, rwy'n meddwl bod hwn yn gyfle cyffrous iawn inni i edrych ar hyn, wrth inni symud tuag at bwerau benthyca, nid dim ond drwy gynllun Juncker, rwy'n meddwl, ond hefyd drwy ffrydiau cyllid parhaol Banc Buddsoddi Ewrop. Mae'n ymddangos i mi bod y DU yn ei chyfanrwydd wedi bod yn araf i gydnabod bod hwn yn gyfle y gallai, efallai, ddefnyddio mwy arno. Mae'r rhaglen metro yn amlwg yn un prosiect y gallem o bosibl ragweld Llywodraeth Cymru'n mynd at Fanc Buddsoddi Ewrop ynglŷn â hi. Nodaf o'r cynllun cyllid a gyhoeddwyd yn yr haf fod Llywodraeth Cymru hyd yma wedi canfod chwarter yr arian sydd ei angen ar gyfer eu gwelliannau metro arfaethedig. Yn amlwg, ni wnaiff Banc Buddsoddi Ewrop ddarparu dim mwy o arian cyfatebol nag uchafswm o 50 y cant o'r swm sydd ei angen. Felly, yn amlwg, os mai dim ond dyblu ein chwarter o'r arian y bydd yn ei wneud, dim ond hanner ffordd yno yr ydym. Tybed a allai'r Gweinidog, efallai, egluro a yw Llywodraeth Cymru'n bwriadu torri ar faint y prosiect, neu a oes ganddi gynlluniau i ddyblu'r arian a ganfuwyd, efallai drwy ddefnyddio cronfeydd strwythurol, fel y gallwn fynd at Fanc Buddsoddi Ewrop gyda 50 y cant o'r cyllid. Pe gallech roi rhyw syniad inni o ble y daw'r chwarter arall hwnnw, byddai hynny'n ddefnyddiol iawn.

Finally, in terms of Erasmus programmes, as the Member for Monmouth has already pointed out, it's a fantastic opportunity, not only for individuals to help them have a truly life-changing experience—and we know that the evidence suggests that it improves their career potential, and it is also fantastic for their wellbeing, too—but it's a fantastic opportunity for Wales to build a network of international links. I think investment now is one of those things that could be very valuable to us in the future, and clearly it's a funding stream that's available. And the Enterprise and Business Committee were very impressed with the work of, for example, Cardiff University in trying to promote its Languages for All programme and to encourage as many students as it can to take part in Erasmus programmes. I wonder if you could comment on how the Welsh Government is encouraging other universities to follow in their footsteps and to really make the most of these European programmes, because the number of young people participating varies very drastically from university to university in Wales at the moment.

Yn olaf, o ran rhaglenni Erasmus, fel y mae Aelod Mynwy eisoes wedi'i nodi, mae'n gyfle gwych, nid dim ond i unigolion i'w helpu i gael profiad sy'n wirioneddol yn newid bywyd—a gwyddom fod y dystiolaeth yn awgrymu ei fod yn gwella eu potensial o ran gyrfa, a'i fod hefyd yn wych ar gyfer eu lles—ond mae'n gyfle gwych i Gymru adeiladu rhwydwaith o gysylltiadau rhyngwladol. Rwy'n meddwl bod buddsoddiad yn awr yn un o'r pethau hynny a allai fod yn werthfawr iawn inni yn y dyfodol, ac yn amlwg mae'n ffrwd ariannu sydd ar gael. Ac roedd y Pwyllgor Menter a Busnes yn llawn edmygedd o waith, er enghraifft, Prifysgol Caerdydd i geisio hyrwyddo ei rhaglen Ieithoedd i Bawb ac i annog cynifer o fyfyrwyr â phosibl i gymryd rhan mewn rhaglenni Erasmus. Tybed a allech chi roi sylwadau am sut y mae Llywodraeth Cymru'n annog prifysgolion eraill i ddilyn ei hesiampl, a gwneud y mwyaf posibl o'r rhaglenni Ewropeaidd hyn, gan fod nifer y bobl ifanc sy'n cymryd rhan yn amrywio yn sylweddol iawn o brifysgol i brifysgol yng Nghymru ar hyn o bryd.

15:25 **Jane Hutt** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) — Senedd.tv [Fideo](#) [Video](#)

A large number of questions; I'll answer as many as I can. I think the important overall point is that in terms of delivery of EU funds, this is not business as usual—this is an early update, in fact, in terms of the new programmes. I have to say that delivery of EU funds is more integrated this time round; it links in with spatial and regional public and private investments to maximise opportunities. All proposals need regional partnership support and prioritisation and, indeed, that goes back to the point I made earlier on about the economic prioritisation framework that Grahame Guilford prepared for us. I apologise to Alun Ffred Jones that I didn't answer his question about simplification, but simplification and the way in which we're trying to address that for the beneficiaries across the private, third and public sectors is crucial in terms of reform, if you like. I mean, this is a very important point in terms of looking at ways in which we can reform and learn lessons from the delivery of earlier programmes.

Nifer fawr o gwestiynau; atebaf gymaint ag y gallaf. Rwy'n meddwl mai'r pwynt cyffredinol pwysig yw nad yw hyn yn ymwneud â darparu arian yr UE, yn fater o fusnes fel arfer—mae hwn yn ddiweddariad cynnar, a dweud y gwir, o ran y rhaglenni newydd. Mae'n rhaid imi ddweud bod cyflwyno cronfeydd yr UE yn fwy integredig y tro hwn; mae'n cyd-fynd â buddsoddiadau gofodol a rhanbarthol cyhoeddus a phreifat i wneud y mwyaf o gyfleoedd. Mae ar bob cynnig angen cymorth a blaenoriaeth partneriaeth ranbarthol ac, yn wir, mae hynny'n mynd yn ôl at y pwynt a wnes yn gynharach am y fframwaith blaenoriaethu economaidd a baratôdd Grahame Guilford ar ein cyfer. Rwy'n ymddiheuro i Alun Ffred Jones na wnes ateb ei gwestiwn am symleiddio, ond mae symleiddio a'r ffordd yr ydym yn ceisio ymdrin â hynny i fuddiolwyr ar draws y sector preifat, y trydydd sector a'r sector cyhoeddus yn hanfodol o ran diwygio, os dymunwch. Hynny yw, mae hwn yn bwynt pwysig iawn o ran edrych ar ffyrdd y gallwn ddiwygio a dysgu gwersi o gyflwyno rhaglenni cynharach.

Just moving on to your wide range of questions around INTERREG and the importance of the European territorial co-operation programmes and looking also particularly, as you said, about the issues around the blue economy and the opportunities that that provides for the Ireland-Wales programme, for example, which I launched at National Waterfront Museum in Swansea in March this year, and the fact that we now have a new programme monitoring committee. Higher education have been very engaged in all of the events that we've had to promote and to publicise the new opportunities, and also to recognise that in terms of those opportunities, the Ireland-Wales co-operation programme—€100 million; of course, that's worth €79 million in the ERDF grant—and the opportunities of challenges and shared priorities and common interests on both sides of the Irish sea. And, indeed, I have engaged in discussions, for example, in Ireland with the Irish Government in terms of wave and tidal energy, and also, of course, many projects in terms of the programme that we're coming out of in terms of Ireland-Wales, which relates to the common interests in the sea in terms of fisheries and tidal and wave energy.

I droi at eich ystod eang o gwestiynau ynglŷn ag INTERREG a phwysigrwydd y rhaglenni cydweithredu tiriogaethol Ewropeaidd ac i edrych hefyd yn benodol, fel y dywedasoch, ar y materion sy'n ymwneud â'r economi las a'r cyfleoedd y mae hynny'n eu darparu ar gyfer y rhaglen Cymru-Iwerddon, er enghraifft, a lansiais yn Amgueddfa Genedlaethol y Glannau yn Abertawe ym mis Mawrth eleni, a'r ffaith bod gennym bellach bwyllgor monitro rhaglenni newydd. Mae addysg uwch wedi chwarae rhan bwysig ym mhob un o'r digwyddiadau yr ydym wedi'u cynnal i hyrwyddo'r cyfleoedd newydd a rhoi cyhoeddusrwydd iddynt, a hefyd o ran cydnabod y cyfleoedd hynny, y rhaglen cydweithrediad Cymru-Iwerddon gwerth €100 miliwn; wrth gwrs, mae hynny'n werth €79 miliwn yn y grant ERDF—a chyfleoedd yr heriau a'r blaenoriaethau a rennir a'r buddiannau cyffredin ar y ddwy ochr i Fôr Iwerddon. Ac, yn wir, rwyf wedi cymryd rhan mewn trafodaethau, er enghraifft, yn Iwerddon gyda Llywodraeth Iwerddon ynglŷn ag ynni tonnau a'r llanw, a hefyd, wrth gwrs, llawer o brosiectau yn y rhaglen yr ydym yn ei chyflwyno o ran Cymru-Iwerddon, sy'n ymwneud â buddiannau cyffredin yn y môr o ran pysgodfeydd ac ynni llanw a thonnau.

Your points about Horizon 2020 are important in terms of our new capacity and the fact that we've now got a Horizon 2020 unit, which is making sure that we do have that capability to reach beyond the FP7 gains that we had in recent times. I've already mentioned the ways in which we're backing through COFUND and the strengthening international research capacity in Wales, and the opportunities that that brings.

Mae eich pwyntiau ynglŷn â Horizon 2020 yn bwysig o ran ein gallu newydd a'r ffaith bod gennym nawr uned Horizon 2020, sy'n gwneud yn siŵr bod gennym y gallu hwnnw i gyrraedd y tu hwnt i'r enillion FP7 a gawsom yn ddiweddar. Rwyf eisoes wedi sôn am y ffyrdd yr ydym yn cefnogi drwy COFUND a chryfhau gallu ymchwil rhyngwladol yng Nghymru, a'r cyfleoedd a ddaw yn sgil hynny.

Finally, I just want to mention that in terms of the European Investment Bank and the importance of the European fund for strategic investment, it is important that we look at the opportunities, but they are risk-bearing guarantees in terms of the European fund for strategic investment. It has a value of £22 billion, it's highly competitive and it is mobilising £315 billion of additional principally private sector investment over the next four years. And I think it is important that we look in discussions with the Treasury at the opportunities in terms of likely valuing of co-financing, and what that means for the projects that we already believe that we have in the pipeline that are appropriate, and I shall be discussing that with the EIB shortly. I have responded to questions about Erasmus, which I believe now is moving forward, with a particular focus and input of our EU funding investors.

Yn olaf, hoffwn ddweud, o ran Banc Buddsoddi Ewrop a phwysigrwydd y gronfa Ewropeaidd ar gyfer buddsoddi strategol, ei bod yn bwysig ein bod yn edrych ar y cyfleoedd, ond maent yn warantau sy'n dwyn risg o ran y gronfa Ewropeaidd ar gyfer buddsoddi strategol. Mae'n werth £22 biliwn, mae'n gystadleuol iawn ac mae'n ysgogi £315 biliwn o fuddsoddiad ychwanegol, yn bennaf gan y sector preifat, dros y pedair blynedd nesaf. Ac rwy'n meddwl ei bod yn bwysig bod ein trafodaethau gyda'r Trysorlys yn edrych ar y cyfleoedd o ran gwerth tebygol cydariannu, a'r hyn y mae hynny'n ei olygu i'r prosiectau yr ydym eisoes yn credu eu bod ar y gweill gennym a'u bod yn briodol, a byddaf yn trafod hynny â Banc Buddsoddi Ewrop cyn bo hir. Rwyf wedi ymateb i gwestiynau am Erasmus, ac rwy'n credu ei fod yn awr yn symud ymlaen, gyda phwyslais a mewnbwn arbennig gan ein buddsoddwyr arian yr UE.

*Daeth y Dirprwy Lywydd (David Melding) i'r Gadair am 15:29.*

*The Deputy Presiding Officer (David Melding) took the Chair at 15:29.*

15:29 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Thank you, Minister.

Diolch, Weinidog.

15:29

# 5. Datganiad: Trechu Tlodi trwy Gymorth Cyflogadwyedd

# 5. Statement: Tackling Poverty through Employability Support

Y Senedd.tv [Fideo](#) [Video](#)

## Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Item 5 is a statement by the Minister for Communities and Tackling Poverty on tackling poverty through employability support. I call the Minister, Lesley Griffiths.

Eitem 5 yw datganiad gan y Gweinidog Cymunedau a Threchu Tlodi am drechu tlodi drwy gefnogaeth cyflogadwyedd. Galwaf ar y Gweinidog, Lesley Griffiths.

15:30

## Lesley Griffiths [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv [Fideo](#) [Video](#)

*Y Gweinidog Cymunedau a Threchu Tlodi / The Minister for Communities and Tackling Poverty*

Thank you, Deputy Presiding Officer. I wish to update Members on the progress the Welsh Government is making to tackle poverty through employability support. In these times of austerity, it is essential that we work collaboratively across Welsh Government and the wider public sector, fully involving our relevant third and private sector external partners, to ensure we make the very best of our resources. Whilst the Welsh Government does not have control over many of the levers that affect how and where jobs are created in Wales, there are some things we can, and are doing, to make a difference. Drawing on the evidence of what works, the Welsh Government is promoting a number of employability initiatives that focus on helping people previously distant from the labour market, supporting them to be ready for work and to enter employment.

Diolch, Ddirprwy Lywydd. Hoffwn ddiweddaru'r Aelodau am y cynnydd y mae Llywodraeth Cymru’n ei wneud i drechu tlodi drwy gefnogaeth cyflogadwyedd. Yn y cyfnod hwn o gyni, mae'n hanfodol ein bod yn gweithio ar y cyd ar draws Llywodraeth Cymru a'r sector cyhoeddus ehangach, gan gynnwys ein partneriaid allanol perthnasol yn y trydydd sector a'r sector preifat yn llawn, er mwyn sicrhau ein bod yn gwneud y gorau o'n hadnoddau. Er nad oes gan Lywodraeth Cymru reolaeth dros lawer o'r ysgogiadau sy'n effeithio ar sut a lle mae swyddi’n cael eu creu yng Nghymru, mae rhai pethau y gallwn eu gwneud, ac yr ydym yn eu gwneud, i wneud gwahaniaeth. Gan alw ar dystiolaeth yr hyn sy'n gweithio, mae Llywodraeth Cymru’n hyrwyddo nifer o fentrau cyflogadwyedd sy'n canolbwyntio ar helpu pobl oedd yn arfer bod yn bell oddi wrth y farchnad lafur, gan eu cefnogi i fod yn barod am waith ac am gyflogaeth.

‘Building Resilient Communities’ made clear the Welsh Government’s commitment to supporting people into work. Paid employment provides an income to sustain a family. A job can be the start of a route that leads to greater skills, higher income, better housing, a more fulfilled life and the chance to be part of the growing Welsh economy. We talk about the different levers we can use as a Government to help people out of poverty.

Roedd 'Creu Cymunedau Cryf' yn egluro ymrwymiad Llywodraeth Cymru i gefnogi pobl i mewn i waith. Mae gwaith cyflogedig yn darparu incwm i gynnal teulu. Gall swydd fod yn ddechrau llwybr sy'n arwain at fwy o sgiliau, incwm uwch, gwell tai, bywyd mwy bodlon a'r cyfle i fod yn rhan o economi Cymru sy’n tyfu. Rydym yn sôn am y gwahanol ddulliau y gallwn eu defnyddio fel Llywodraeth i helpu pobl allan o dlodi.

The Communities First programme is a key lever in the action plan, offering support to many people in our poorest communities. Communities First, at both programme and cluster level, has played an important role, supporting people in our most deprived communities to gain the skills, qualifications and experience needed to enter employment. Local Communities First cluster delivery plans include projects specifically focusing on employability and employment. An independent evaluation, published last February, was positive about this work. For example, in the year to 31 March 2015, as a result of Communities First, over 3,000 people entered employment and over 500 young people secured a Jobs Growth Wales employment opportunity. For 2015-16, we want to continue to build on these strengths to help shape a focused and even more delivery-oriented way of improving people’s lives.

Mae'r rhaglen Cymunedau yn Gyntaf yn ysgogiad allweddol yn y cynllun gweithredu; mae’n cynnig cefnogaeth i lawer o bobl yn ein cymunedau tlotaf. Mae Cymunedau yn Gyntaf, ar lefel rhaglen ac ar lefel clwstwr, wedi chwarae rhan bwysig, gan gefnogi pobl yn ein cymunedau mwyaf difreintiedig i ennill y sgiliau, y cymwysterau a'r profiad sydd eu hangen i gael gwaith. Mae cynlluniau cyflenwi clwstwr lleol Cymunedau yn Gyntaf yn cynnwys prosiectau sy'n canolbwyntio'n benodol ar gyflogadwyedd a chyflogaeth. Roedd gwerthusiad annibynnol, a gyhoeddwyd fis Chwefror diwethaf, yn gadarnhaol am y gwaith hwn. Er enghraifft, yn y flwyddyn hyd at 31 Mawrth 2015, o ganlyniad i Cymunedau yn Gyntaf, mae dros 3,000 o bobl wedi cael cyflogaeth a dros 500 o bobl ifanc wedi sicrhau cyfle cyflogaeth drwy Twf Swyddi Cymru. Ar gyfer 2015-16, rydym eisiau parhau i adeiladu ar y cryfderau hyn i helpu i lunio ffordd bwrpasol o wella bywydau pobl sy’n canolbwyntio mwy fyth ar gyflenwi.

In June, I launched the first phase of the Communities for Work programme, which will make a significant contribution to the Welsh Government's key priority of supporting people into work, and developing the skills of our workforce. It will offer a full programme of support to help people, including those who have many complex barriers to employment and need intensive one-to-one mentoring and personal support. Communities for Work will represent a total investment of £41.1 million from Welsh Government and European Union funds. It will help support 8,000 individuals into employment. This is a three-year programme of work specifically supporting economically inactive and long-term unemployed adults and young people who are not in employment, education or training, who have complex barriers to employment, to re-engage with the labour market.

Ym mis Mehefin, lansiais gam cyntaf y rhaglen Cymunedau am Waith, a fydd yn gwneud cyfraniad sylweddol at flaenoriaeth allweddol Llywodraeth Cymru o gefnogi pobl i gael gwaith, a datblygu sgiliau ein gweithlu. Bydd yn cynnig rhaglen lawn o gefnogaeth i helpu pobl, gan gynnwys y rheini sydd â llawer o rwystrau cymhleth i gyflogaeth ac sydd ag angen mentora dwys un i un a chymorth personol. Bydd Cymunedau am Waith yn cynrychioli cyfanswm buddsoddiad o £41.1 miliwn o arian Llywodraeth Cymru a'r Undeb Ewropeaidd. Bydd yn helpu i gefnogi 8,000 o unigolion i gael gwaith. Mae hon yn rhaglen waith tair blynedd sy'n benodol yn cefnogi oedolion economaidd anweithgar a di-waith yn y tymor hir a phobl ifanc nad ydynt mewn cyflogaeth, addysg na hyfforddiant, sydd â rhwystrau cymhleth i gyflogaeth, i ail-ymgysylltu â'r farchnad lafur.

Communities for Work has been operational since May 2015. The advisers have already engaged with over 863 people and have helped 38 people into work at this very early stage. Within Communities for Work, as part of the EU-funded provision, I am developing a proposal for an innovation fund to support and trial new and innovative ideas for supporting people into employment. The fund will offer a range of bespoke training for individuals to supplement existing training where needed. Tomorrow, I will be announcing the second phase of the Communities for Work programme, which will support the Welsh Government's strategic approach to reducing the proportion of young people aged 16 to 24 years, who are not engaged in education, employment or training, as set out in the youth engagement and progression framework.

Mae Cymunedau am Waith wedi bod ar waith ers mis Mai 2015. Mae'r cynghorwyr eisoes wedi ymgysylltu â dros 863 o bobl ac wedi helpu 38 o bobl i gael gwaith yn y cyfnod cynnar iawn hwn. O fewn Cymunedau am Waith, yn rhan o'r ddarpariaeth a ariennir gan yr UE, rwy'n datblygu cynnig am gronfa arloesi i gefnogi a threialu syniadau newydd ac arloesol i gefnogi pobl i mewn i gyflogaeth. Bydd y gronfa'n cynnig ystod o hyfforddiant pwrpasol i unigolion i ategu eu hyfforddiant presennol pan fo angen. Yfory, byddaf yn cyhoeddi ail gam y rhaglen Cymunedau am Waith, a fydd yn cefnogi dull gweithredu strategol Llywodraeth Cymru i leihau cyfran y bobl ifanc rhwng 16 a 24 oed, nad ydynt yn ymgymryd ag addysg, cyflogaeth na hyfforddiant, fel y nodir yn y fframwaith ymgysylltu a dilyniant ieuenctid.

Communities for Work builds on the success of the Lift programme, which was introduced to reflect the very specific commitment in the Welsh Government's tackling poverty action plan to provide 5,000 training and employment opportunities to people from workless households by the end of 2017. The Lift programme has gone from strength to strength since its launch in March of last year and, as of 30 September this year, had provided 2,413 training and employment opportunities, including 441 people from workless households supported into employment. This means the programme should pass the halfway point towards its overall target this autumn.

Mae Cymunedau am Waith yn adeiladu ar lwyddiant y rhaglen Esgyn, a gyflwynwyd i adlewyrchu'r ymrwymiad penodol iawn yng nghynllun gweithredu Llywodraeth Cymru ar drechu tlodi i ddarparu 5,000 o gyfleoedd hyfforddiant a gwaith i bobl o aelwydydd di-waith erbyn diwedd 2017. Mae'r rhaglen Esgyn wedi mynd o nerth i nerth ers ei lansio ym mis Mawrth y llynedd ac, erbyn 30 Medi eleni, roedd wedi darparu 2,413 o gyfleoedd hyfforddiant a chyflogaeth, gan gynnwys cefnogi 441 o bobl o aelwydydd di-waith i gael cyflogaeth. Mae hyn yn golygu y dylai'r rhaglen basio'r pwynt hanner ffordd tuag at ei tharged cyffredinol yn ystod yr hydref hwn.

In addition, this morning I launched the Welsh Government's parents, childcare and employment programme to help economically inactive parents into training or employment where childcare is their main barrier. The Department for Work and Pensions are joint beneficiaries for this programme. A network of 43 community-based parent employment advisers have been appointed across Wales. In consultation with local authorities, the parent employment advisers will be located in or around Flying Start settings and Families First areas, and will complement rather than overlap with Communities for Work, by operating its services outside Communities First clusters. The programme has been operational in three local authorities—Carmarthenshire, Pembrokeshire, and Ceredigion—since 1 July 2015. Already, our eight parent employment advisers have engaged with almost 80 participants, and the first job entry was recently confirmed.

Hefyd, y bore yma lansiais raglen rhieni, gofal plant a chyflogaeth Llywodraeth Cymru i helpu rhieni economaidd anweithgar i gael hyfforddiant neu gyflogaeth pan mai gofal plant yw eu prif rwystr. Mae'r Adran Gwaith a Phensiynau'n fuddiolwyr ar y cyd ar gyfer y rhaglen hon. Mae rhwydwaith o 43 o gynghorwyr cyflogaeth rhieni yn y gymuned wedi'u penodi ledled Cymru. Mewn ymgynghoriad ag awdurdodau lleol, caiff y cynghorwyr cyflogaeth rhieni eu lleoli mewn lleoliadau Dechrau'n Deg ac ardaloedd Teuluoedd yn Gyntaf neu o'u cwmpas, a byddant yn ategu gwaith Cymunedau am Waith yn hytrach na gorgyffwrdd ag ef, drwy weithredu eu gwasanaethau y tu allan i glystyrau Cymunedau yn Gyntaf. Mae'r rhaglen wedi bod ar waith mewn tri awdurdod lleol —Sir Gaerfyrddin, Sir Benfro, a Cheredigion—ers 1 Gorffennaf 2015. Mae ein wyth o ymgynghorwyr cyflogaeth rhieni eisoes wedi ymgysylltu â bron i 80 o gyfranogwyr, ac yn ddiweddar cadarnhawyd y mynediad cyntaf i swydd.

I am committed to continuing to support the most deprived communities in Wales, building on the success of programmes already operating, ensuring we spread the benefits of these as wide as possible, and making best use of European funding to tackle poverty. I want Wales to develop a model of employment support that helps individuals through challenging times, and works with them to help secure their future in the growing Welsh economy.

Rwyf wedi ymrwymo i barhau i gefnogi'r cymunedau mwyaf difreintiedig yng Nghymru, gan adeiladu ar lwyddiant rhaglenni sydd eisoes ar waith, sicrhau ein bod yn lledaenu eu manteision mor eang ag y bo modd, a gwneud y defnydd gorau o gyllid Ewropeaidd i drechu tlodi. Hoffwn i Gymru ddatblygu model o gefnogaeth i gyflogaeth sy'n helpu unigolion drwy gyfnodau heriol, ac sy'n gweithio gyda hwy i helpu i sicrhau eu dyfodol yn economi Cymru sy'n tyfu.

15:35 **Mark Isherwood** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Thanks for your statement. Of course, we support employability support, especially noting that Wales, unfortunately, still has the highest unemployment rate amongst the UK nations.

Diolch am eich datganiad. Wrth gwrs, rydym yn cefnogi cefnogaeth cyflogadwyedd, yn enwedig o nodi bod cyfradd ddiweithdra Cymru, yn anffodus, yn dal i fod yr uchaf ymhlith gwledydd y DU.

You refer to the Communities First programme being a key lever to the action plan, and to Communities First delivery plans. I asked you—I think last week, or the week before—to respond to the Bevan Foundation report statement on place as a basis for support, when they said that programmes such as Communities First are not the most effective bases for policy, because a large proportion of people in poverty don't live in Communities First areas. How, therefore, do you respond to their statement that, at the very least, there needs to be a debate about the circumstances in which place or community are the right approach, or whether other approaches might be more effective, directed at individuals and households via local networks?

Rydych yn dweud bod y rhaglen Cymunedau yn Gyntaf yn ysgogiad allweddol i'r cynllun gweithredu, ac i gynlluniau cyflenwi Cymunedau yn Gyntaf. Rwyf wedi gofyn i chi—yr wythnos diwethaf, rwy'n meddwl, neu'r wythnos cynt—ymateb i ddatganiad adroddiad Sefydliad Bevan am leoliad fel sail ar gyfer cymorth, gan y dywedwyd yn hwnnw nad rhaglenni fel Cymunedau yn Gyntaf yw'r seiliau mwyaf effeithiol ar gyfer polisi, gan nad yw cyfran fawr o bobl mewn tlodi yn byw mewn ardaloedd Cymunedau yn Gyntaf. Sut, felly, yr ydych chi'n ymateb i'w datganiad bod angen, o leiaf, cael dadl am yr amgylchiadau lle mai lleoliad neu gymuned yw'r dull cywir, neu a fyddai dulliau eraill yn fwy effeithiol, wedi'u cyfeirio at unigolion ac aelwydydd drwy rwydweithiau lleol?

You refer, of course, to Jobs Growth Wales. As we know, the Wales Audit Office indicated that some three quarters of people who had gone through the scheme would have found employment anyhow, and you're effectively, therefore, providing a subsidy for job-ready people. I'm glad you didn't refer to, or contrast or compare this with, the Work Programme—a UK Government scheme—but clearly we're very keen to ensure that we avoid replication and duplication, whilst Welsh Government schemes complement. And they are different schemes. You're dealing with people, as I say, ready for work, through the Jobs Growth Wales programme; the Work Programme for young people up to 24 is for the people who are furthest from the workplace. Why is the Welsh Government still refusing access to Jobs Growth Wales for people who, through the Work Programme, young people on the Work Programme, find jobs conditional on their accessing Jobs Growth Wales?

Rydych yn cyfeirio, wrth gwrs, at Twf Swyddi Cymru. Fel y gwyddom, nododd Swyddfa Archwilio Cymru y byddai tua thri chwarter y bobl a aeth drwy'r cynllun wedi cael gwaith beth bynnag, a'ch bod chi i bob diben, felly, yn darparu cymhorthdal i bobl sy'n barod am swyddi. Rwy'n falch na wnaethoch chi gyfeirio at y Rhaglen Waith—un o gynlluniau Llywodraeth y DU—na chyferbynnu na chymharu hyn â hi, ond yn amlwg rydym yn awyddus iawn i sicrhau ein bod yn osgoi dyblygu, a bod cynlluniau Llywodraeth Cymru yn ategu. Ac maent yn gynlluniau gwahanol. Rydych yn ymdrin â phobl, fel y dywedais, sy'n barod am waith, drwy'r rhaglen Twf Swyddi Cymru; mae'r Rhaglen Waith i bobl ifanc hyd at 24 oed ar gyfer y bobl sydd bellaf oddi wrth y gweithle. Pam mae Llywodraeth Cymru'n dal i wrthod mynediad i Twf Swyddi Cymru i bobl sydd, drwy'r Rhaglen Waith, pobl ifanc ar y Rhaglen Waith, sy'n dod o hyd i swyddi sy'n amodol ar iddynt gael mynediad i Twf Swyddi Cymru?

I'd point out that, in Flintshire and Wrexham—given that you represent Wrexham—some 58 per cent of 18 to 24-year-olds on the Work Programme completed their full two years on it, entered employment, and the majority remained in employment for six months or more, which contrasts pretty well with the Welsh Government's Jobs Growth Wales figures, especially when you consider that Jobs Growth Wales has an employer subsidy and job-ready customers, which the alternative scheme does not. In fact, the Work Programme has exceeded its performance targets on the basis of mandatory referrals for both under-25s and over-25s.

Byddwn yn nodi, yn Sir y Fflint a Wrecsam—o ystyried eich bod yn cynrychioli Wrecsam—bod tua 58 y cant o'r bobl 18 i 24 mlwydd oed ar y Rhaglen Waith wedi cwblhau eu dwy flynedd lawn arno, ac wedi cael cyflogaeth, a bod y mwyafrif wedi aros mewn cyflogaeth am chwe mis neu fwy, sy'n cyferbynnu'n eithaf da â ffigurau Twf Swyddi Cymru Llywodraeth Cymru, yn enwedig pan eich bod yn ystyried bod gan Twf Swyddi Cymru gymhorthdal cyflogwyr a chwsmeriaid sy'n barod am swyddi, nad yw'n wir am y cynllun arall. Yn wir, mae'r Rhaglen Waith wedi rhagori ar ei thargedau perfformiad ar sail atgyfeiriadau gorfodol ar gyfer pobl dan 25 oed a thros 25 oed.

Therefore, you refer to the Communities for Work programme support to help people, including those who have many complex barriers to employment and need intensive support. Minister, isn't that exactly what the UK Work Programme does—delivered by two providers in Wales, with which the Welsh Government is intrinsically involved? And why, therefore, are two schemes here appearing to replicate each other, except for the fact that one is only limited to Communities First areas, where we say the majority of people in poverty don't live, actually, in Communities First areas?

Felly, rydych yn cyfeirio at gefnogaeth y rhaglen Cymunedau am Waith i helpu pobl, gan gynnwys y rhai sy'n wynebu llawer o rwystrau cymhleth rhag cyflogaeth ac sydd ag angen cymorth dwys. Weinidog, onid dyna'n union beth y mae Rhaglen Waith y DU yn ei wneud—wedi'i ddarparu gan ddau ddarparwr yng Nghymru, y mae gan Lywodraeth Cymru ran gynhenid ynddynt? A pham, felly, mae'n ymddangos bod dau gynllun yma sy'n dyblygu ei gilydd, heblaw am y ffaith bod un yn gyfyngedig i ardaloedd Cymunedau yn Gyntaf yn unig, a'n bod ninnau'n dweud nad yw mwyafrif y bobl sy'n byw mewn tlodi yn byw, mewn gwirionedd, mewn ardaloedd Cymunedau yn Gyntaf?

Your statement refers to funding from Welsh Government and European Union funds for the programme, and yet your statement in June said the programme was co-sponsored by the Department for Work and Pensions. I wonder whether you could clarify that apparent omission, or was the original statement missing, or in error, on some of its content?

Mae eich datganiad yn cyfeirio at arian gan Lywodraeth Cymru ac arian gan yr Undeb Ewropeaidd ar gyfer y rhaglen, ac eto roedd eich datganiad ym mis Mehefin yn dweud bod y rhaglen wedi'i noddi ar y cyd gan yr Adran Gwaith a Phensiynau. Tybed a allech chi egluro'r hepgoriad amlwg hwnnw, ynteu a oedd rhywfaint o gynnwys y datganiad gwreiddiol ar goll, neu'n wallus?

You refer to the second phase of the Communities for Work programme for young people, 16 to 24. Again, is that not replicating the Work Programme, and why are the two not being seen to operate by complementing each other, filling in gaps, rather than appearing to do the same thing? Is it to appear to do things differently, or perhaps imply the UK Government doesn't have schemes that are working in this area?

Rydych yn cyfeirio at ail gam y rhaglen Cymunedau am Waith i bobl ifanc, 16 i 24. Unwaith eto, onid yw hynny'n dyblygu'r Rhaglen Waith, a pham nad ydym yn gweld y ddwy'n gweithredu drwy ategu ei gilydd, a llenwi bylchau, yn hytrach na'i bod yn ymddangos eu bod yn gwneud yr un peth â'i gilydd? Ai mater o ymddangos i wneud pethau'n wahanol ydyw, neu efallai awgrymu nad oes gan Lywodraeth y DU gynlluniau sy'n gweithio yn y maes hwn?

Finally, you refer to the parents, childcare and employment programme, to help economically inactive parents, and, clearly, it's an objective we would fully share. You say that the Department for Work and Pensions are joint beneficiaries. Well, clearly, they will benefit if the programme—as we would all hope—is successful. But, by 'beneficiaries', do you mean sponsors or supporters? What do you mean by 'beneficiaries'? Again, we welcome the fact that it's outside Communities First clusters. We note it will offer up to 25 hours of childcare for eight weeks, where lack of childcare is the biggest barrier for many to employment. Is this the complementary money that you will get in relation to the UK Government's announcement that it's doubling free childcare to 30 hours a week for three and four-year-olds and the UK Government's commitment to increase average childcare funding rates paid to providers? If not, how will Wales be responding to the improved provision that is going to fall into place across the border? Thank you.

Yn olaf, rydych yn cyfeirio at y rhaglen rhieni, gofal plant a chyflogaeth, i helpu rhieni sy'n economaidd anweithgar, ac, yn amlwg, mae hwnnw'n amcan y byddem yn ei rannu'n llawn. Rydych yn dweud bod yr Adran Gwaith a Phensiynau'n fuddiolwyr ar y cyd. Wel, yn amlwg, bydd yn elwa os yw'r rhaglen—fel yr ydym i gyd yn gobeithio—yn llwyddiannus. Ond, wrth 'buddiolwyr', a ydych chi'n golygu noddwyr ynteu gefnogwyr? Beth ydych chi'n ei olygu wrth 'buddiolwyr'? Unwaith eto, rydym yn croesawu'r ffaith ei fod y tu allan i glystyrau Cymunedau yn Gyntaf. Rydym yn nodi y bydd yn cynnig hyd at 25 awr o ofal plant am wyth wythnos, pan mai diffyg gofal plant yw'r rhwystr mwyaf i lawer i gael cyflogaeth. Ai hwn yw'r arian cyflenwol y byddwch yn ei gael o ganlyniad i gyhoeddiad Llywodraeth y DU ei bod yn dyblu gofal plant am ddim i 30 awr yr wythnos ar gyfer plant tair a phedair blwydd oed ac ymrwymiad Llywodraeth y DU i gynyddu'r cyfraddau ariannu gofal plant cyfartalog a delir i ddarparwyr? Os nad, sut y bydd Cymru'n ymateb i'r ddarpariaeth well a fydd ar gael dros y ffin? Diolch.

15:40 **Lesley Griffiths** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I thank Mark Isherwood for that series of observations and questions. In relation to the first point regarding the Bevan Foundation report, I'm very happy to have a debate. I think we do need to look very closely at Communities First. It's obviously been the flagship tackling poverty programme of the Welsh Government for 16 years, and I think we certainly need to look at how we take that forward. It's been very successful. Our very committed Communities First staff are now very well based in their communities. We have the infrastructure of Communities First, and you mentioned that Communities for Work is obviously working within those Communities First cluster areas, and I think it's really important that not just I with the programmes that I bring forward, but also my ministerial colleagues, use that infrastructure that's there.

Diolch i Mark Isherwood am y gyfres yna o sylwadau a chwestiynau. O ran y pwynt cyntaf ynghylch adroddiad Sefydliad Bevan, rwy'n hapus iawn i gael dadl. Rwy'n meddwl bod angen inni edrych yn ofalus iawn ar Cymunedau yn Gyntaf. Mae'n amlwg wedi bod yn rhaglen trechu tlodi flaenllaw Llywodraeth Cymru ers 16 mlynedd, ac rwy'n meddwl yn sicr bod angen inni edrych ar sut yr ydym yn bwrw ymlaen â hi. Mae wedi bod yn llwyddiannus iawn. Erbyn hyn mae ein staff Cymunedau yn Gyntaf ymroddedig iawn wedi ennill eu plwyf yn eu cymunedau. Mae gennym seilwaith Cymunedau yn Gyntaf, ac roeddech yn sôn bod Cymunedau am Waith yn amlwg yn gweithio o fewn yr ardaloedd clwstwr Cymunedau yn Gyntaf hynny, ac rwy'n meddwl ei bod yn bwysig iawn bod, nid yn unig fi gyda'r rhaglenni yr wyf yn eu cyflwyno, ond hefyd fy nghyd-Weinidogion, yn defnyddio'r seilwaith hwnnw sydd yno.

You seem to be very negative about Jobs Growth Wales. It's one of the most successful programmes in Europe, and that's clearly come forward. Like you, I don't want to duplicate. I think it's very important, particularly when we have such calls on all our public sector funding, that we don't duplicate. I have to say—you mentioned specifically Wrexham, as my constituency—that I met with three people last week, young people who'd gone through Jobs Growth Wales, and all said to me they were very far away from the workplace when they were taken on the programme.

Mae'n ymddangos eich bod yn negyddol iawn am Twf Swyddi Cymru. Mae'n un o'r rhaglenni mwyaf llwyddiannus yn Ewrop, ac mae hynny i'w weld yn amlwg. Fel chithau, nid wyf am ddyblygu. Rwy'n credu ei bod yn bwysig iawn, yn enwedig pan fo gennym alwadau o'r fath ar ein holl arian sector cyhoeddus, nad ydym yn dyblygu. Mae'n rhaid imi ddweud—roeddech yn sôn yn benodol am Wrecsam, fel fy etholaeth i—fy mod wedi cyfarfod â thri o bobl yr wythnos diwethaf, pobl ifanc a oedd wedi mynd drwy Twf Swyddi Cymru, a dywedodd pob un wrthyf eu bod yn bell iawn o'r gweithle pan wnaethant ymuno â'r rhaglen.

In relation to your questions regarding Communities for Work, and I said that the Department for Work and Pensions are a joint beneficiary, the DWP's been responsible for employing 43 parent employment advisers. You also asked, I think: was the programme based in Communities First areas? I think that's what you said. That's going to be actually based—. PaCE is going to be based—. Sorry, Communities—. Sorry, PaCE is going to be based in Families First and Flying Start areas, as opposed to Communities First areas, going back to what I was saying about not wanting to duplicate our resources. PaCE really wants to overcome that barrier, which many people tell us is a major barrier—childcare—in being able to access not just work, but also training opportunities that could then lead to work. So, a lot of these people will already be known to us. It's also really important that we engage with the family information service going forward and really work collaboratively with all our partners.

O ran eich cwestiynau ynghylch Cymunedau am Waith, ac fe wnes i ddweud bod yr Adran Gwaith a Phensiynau'n fuddiolwr ar y cyd, mae'r Adran Gwaith a Phensiynau wedi bod yn gyfrifol am gyflogi 43 o gynghorwyr cyflogaeth rhieni. Gwnaethoch ofyn hefyd, rwy'n meddwl: a oedd y rhaglen wedi'i lleoli mewn ardaloedd Cymunedau yn Gyntaf? Rwy'n credu mai dyna ddywedasoch chi. Bydd hi wedi'i lleoli—. Bydd PaCE wedi'i leoli—. Mae'n ddrwg gennyf, bydd Cymunedau—. Mae'n ddrwg gennyf, bydd PaCE wedi'i lleoli mewn ardaloedd Teuluoedd yn Gyntaf a Dechrau'n Deg, yn hytrach nag ardaloedd Cymunedau yn Gyntaf, i fynd yn ôl at yr hyn yr oeddwn yn ei ddweud am geisio peidio â dyblygu ein hadnoddau. Mae PaCE wirioneddol yn gobeithio goresgyn y rhwystr hwnnw, sy'n rhwystr mawr yn ôl llawer o bobl—gofal plant—o ran gallu cael mynediad nid yn unig at waith, ond hefyd at gyfleoedd hyfforddi a allai wedyn arwain at waith. Felly, byddwn eisoes yn gwybod am lawer o'r bobl hyn. Mae hefyd yn bwysig iawn ein bod yn ymgysylltu â'r gwasanaeth gwybodaeth i deuluoedd yn y dyfodol ac yn wir yn gweithio ar y cyd â'n holl bartneriaid.

The funding for PaCE has come from Welsh Government—I think it's £4.1 million from Welsh Government and £6.8 million from European funds. This is actually nothing to do with what the UK Government are bringing forward regarding the 30 hours. That is a piece of work that officials are currently looking at—what will be our childcare offer going forward.

Mae'r cyllid ar gyfer PACE wedi dod gan Lywodraeth Cymru—rwy'n meddwl ei fod yn £4.1 miliwn gan Lywodraeth Cymru a £6.8 miliwn o gronfeydd Ewropeaidd. Nid oes gan hyn ddim byd i'w wneud â'r hyn y mae Llywodraeth y DU yn ei gyflwyno o ran y 30 awr. Mae hwnnw'n ddarn o waith y mae swyddogion wrthi'n edrych arno—beth fydd ein cynnig gofal plant yn y dyfodol.

15:43 **Mike Hedges** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

Probably the most difficult and the most important task is to increase employment levels, especially for the long-term unemployed living in workless households. For too many people, not working has become a way of life for them and their families. It's become the expected way of life. Can I just say that I'm somebody who is a great fan and supporter of Communities First? Improving the health, improving the education, helping to reduce costs, getting people back into employment in some of the poorest communities in Wales: what's can't you like about it?

Mae'n debyg mai'r dasg anoddaf a phwysicaf yw cynyddu lefelau cyflogaeth, yn enwedig ymysg pobl hirdymor ddi-waith sy'n byw mewn aelwydydd di-waith. I ormod o bobl, mae peidio â gweithio wedi dod yn ffordd o fyw iddynt hwy a'u teuluoedd. Mae wedi dod yn ffordd ddisgwyliedig o fyw. A gaf i ddweud fy mod i'n rhywun sy'n gefnogwr brwd o Cymunedau yn Gyntaf? Gwella iechyd, gwella addysg, helpu i leihau costau, cael pobl yn ôl i waith mewn rhai o'r cymunedau tlotaf yng Nghymru: beth sydd yn hynny na allwch chi ei hoffi?

The Lift programme provides work experience, training and jobs in the Penderry ward of Swansea East. I think perhaps we talk often about things in the abstract. Can I just raise very briefly two examples? Participant 1, age 30, thought, when she left school as a teenager after becoming pregnant, that she had thrown the chance of training away. Now she has earned a place on a photography course at Gower College as a first step to turning her life around. She said:

Mae'r rhaglen Esgyn yn darparu profiad gwaith, hyfforddiant a swyddi yn ward Penderi yn Nwyrain Abertawe. Rwy'n meddwl efallai ein bod yn aml yn siarad yn haniaethol am bethau. A gaf i sôn yn gyflym iawn am ddwy enghraifft? Roedd cyfranogwr 1, 30 oed, yn meddwl, pan adawodd yr ysgol yn ei harddegau ar ôl dod yn feichiog, ei bod wedi colli'r cyfle i gael hyfforddiant. Nawr mae hi wedi ennill lle ar gwrs ffotograffiaeth yng Ngholeg Gŵyr fel cam cyntaf at weddnewid ei bywyd. Meddai:

'I had no confidence at all. I thought, "I am a mum of three and aged 30; what on earth am I qualified to do?" I almost talked myself out of meeting Lift. I thought there was no way I could be helped. Lift came up with a way forward and gave me the confidence and inspiration to want to do more with my life. I want to be a real example to my children.'

'Doedd gen i ddim hyder o gwbl. Roeddwn i'n meddwl, "Rydw i'n fam i dri ac yn 30 oed; beth ar y ddaear ydw i'n gymwys i'w wneud?" Fe wnes i bron fy mherswadio fy hun i beidio â chyfarfod ag Esgyn. Roeddwn i'n meddwl nad oedd unrhyw ffordd o fy helpu. Daeth Esgyn o hyd i ffordd ymlaen a rhoddodd yr hyder a'r ysbrydoliaeth imi i fod yn awyddus i wneud mwy â fy mywyd. Hoffwn i fod yn esiampl wirioneddol i fy mhlant.'

Example 2: dad of two, aged 27, who, thanks to Lift, is waving 18 months of unemployment goodbye and setting up his own driving school business. He said that losing your job—which could happen to an awful lot of people in this room in seven and a half months' time—is hugely damaging to self-confidence and that you don't know what's going to happen, and, if you don't find a job, then you become more and more unable to cope. You struggle money-wise, but it's not only not having the money for your family that gets you down; it's that feeling of being a failure, because you cannot get a new job. There he is working as a driving instructor.

Enghraifft 2: tad i ddau, 27 oed, sydd, diolch i Esgyn, yn dweud ffarwel wrth 18 mis o ddiweithdra ac yn sefydlu ei fusnes ysgol yrru ei hun. Dywedodd fod colli eich swydd—a allai ddigwydd i lawer iawn o bobl yn yr ystafell hon ymhen saith mis a hanner—yn hynod niweidiol i hunan-hyder ac nad ydych chi'n gwybod beth sy'n mynd i ddigwydd, ac, os na ddewch chi o hyd i swydd, mae'n mynd yn fwy a mwy anodd i ymdopi. Rydych yn ei chael hi'n anodd o ran arian, ond nid dim ond y diffyg arian i'ch teulu sy'n eich digalonni; y teimlad o fod yn fethiant, oherwydd na allwch gael swydd newydd. Nawr, mae'n gweithio fel hyfforddwr gyrru.

So, these are real examples of real people benefitting from the Lift programme. I've got two questions for the Minister: will the Minister confirm that these opportunities, which two of my constituents have benefitted from, will continue? And, two, how many of the parent employment advisers will be located in Swansea?

Felly, mae'r rhain yn enghreifftiau gwir o bobl wir sydd wedi elwa ar y rhaglen Esgyn. Mae gen i ddau gwestiwn i'r Gweinidog: a wnaiff y Gweinidog gadarnhau y bydd y cyfleoedd hyn, y mae dau o fy etholwyr wedi elwa arnynt, yn parhau? Ac, yn ail, faint o'r cynghorwyr cyflogaeth rhieni fydd wedi'u lleoli yn Abertawe?

15:45 **Lesley Griffiths** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

In relation to the last question, I can't give the Member the exact figure of how many advisers will be there, but I can certainly write to him. You have heard me mention in my answer to Mark Isherwood that they will be based in Flying Start and Families First areas, so, clearly, there will be some in Swansea, but I'll be very happy to write to the Member in relation to that.

O ran y cwestiwn olaf, ni allaf roi'r union ffigur i'r Aelod o faint o gynghorwyr fydd yno, ond gallaf yn sicr ysgrifennu ato. Rydych wedi fy nghlywed yn sôn wrth ateb Mark Isherwood y byddant wedi'u lleoli mewn ardaloedd Dechrau'n Deg a Theuluoedd yn Gyntaf, felly, yn amlwg, bydd rhai yn Abertawe, ond byddaf yn hapus iawn i ysgrifennu at yr Aelod ynglŷn â hynny.

Around the Lift programme, I've met people just as you described. When I launched the Lift programme, one of the gentlemen I met was very similar to the second person you referred to, and certainly we know that sustainable employment is a way out of poverty, but it's also a way of avoiding poverty. I think what the Lift programme has done is give hope to people. Some of the opportunities that people have had, they've really grasped them and taken them forward, and you'll be aware that the target was 5,000 training opportunities by the end of 2017. It's very likely we'll reach the halfway stage, if not this month, certainly next month, which is way ahead of where we expected the programme to be at this stage. And, yes, I'm absolutely committed to the Lift programme and I recently approved funding for the continuation of the programme up until 31 March 2018.

O ran y rhaglen Esgyn, rwyf wedi cwrdd â phobl yn union fel y rhai yr ydych chi wedi'u disgrifio. Pan lansiais y rhaglen Esgyn, roedd un o'r boneddigion y gwnes i gyfarfod ag ef yn debyg iawn i'r ail unigolyn y cyfeiriasoch ato, ac yn sicr rydym yn gwybod bod cyflogaeth gynaliadwy yn ffordd allan o dlodi, ond mae hefyd yn ffordd o osgoi tlodi. Rwy'n meddwl mai'r hyn y mae'r rhaglen Esgyn wedi ei wneud yw rhoi gobaith i bobl. Mae rhai o'r cyfleoedd y mae pobl wedi'u cael, maen nhw wedi cydio ynddynt yn o ddifrif ac wedi bwrw ymlaen â nhw, a byddwch yn ymwybodol mai'r targed oedd 5,000 o gyfleoedd hyfforddi erbyn diwedd 2017. Mae'n debygol iawn y byddwn yn cyrraedd y cam hanner ffordd, os nad y mis hwn, yn sicr y mis nesaf, sy'n bell ar y blaen i lle'r oeddem yn disgwyl i'r rhaglen fod ar yr adeg hon. Ac, ydw, rwy'n gwbl ymroddedig i'r rhaglen Esgyn ac yn ddiweddar cymeradwyais gyllid i barhau â'r rhaglen hyd at 31 Mawrth 2018.

15:47 **Simon Thomas** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Plaid Cymru does welcome, certainly, the successful application and resources that have been drawn down from Europe towards this end and wishes the work well in that regard. But there has to be a little context to this. At a time that the budget for part-time adult education is being slashed by 50 per cent, as we've already heard today, when adults over the age of 25 and women in particular, making up 63 per cent of the part-time learner population, are being affected by these cuts, we are really discussing a sticking plaster solution here, when there are more fundamental issues around our skills agenda here in Wales. I recognise that this Minister is not responsible for that aspect, but she's responsible, I think, for patching up some of the consequences of those decisions.

Mae Plaid Cymru'n croesawu, yn sicr, y cais llwyddiannus a'r adnoddau sydd wedi eu cael o Ewrop at y perwyl hwn, ac yn dymuno'n dda i'r gwaith yn hynny o beth. Ond mae'n rhaid cael ychydig o gyd-destun i hyn. Ar adeg pan fo'r gyllideb ar gyfer addysg oedolion rhan-amser yn cael ei thorri gan 50 y cant, fel yr ydym eisoes wedi'i glywed heddiw, pan fo oedolion dros 25 oed a menywod yn arbennig, sy'n 63 y cant o'r boblogaeth dysgwyr rhan amser, yn teimlo effaith y toriadau hyn, rydym yn wir yn trafod ateb plastr glynu yn y fan yma, pan fo ein hagenda sgiliau yma yng Nghymru yn wynebu problemau mwy sylfaenol. Rwy'n cydnabod nad y Gweinidog hwn sy'n gyfrifol am yr agwedd honno, ond mae hi'n gyfrifol, rwy'n meddwl, am dacluso rhai o ganlyniadau'r penderfyniadau hynny.

One of my concerns is how we are learning from previous experiences around Communities First and around anti-poverty schemes, and whether we're applying them in the right way with these new schemes to really build on that. We will be debating tomorrow the report from the Communities Equality and Local Government Committee, of course, on poverty and inequality, and one of the things that that committee has identified is a tendency of Government to tackle the symptoms rather than the root causes. I'm very much concerned that we may be repeating some of those mistakes, despite the goodwill that I'm sure the Government is showing toward this.

Un o fy mhryderon yw sut yr ydym yn dysgu o brofiadau blaenorol â Cymunedau yn Gyntaf ac â chynlluniau gwrthdlodi, ac a ydym ni'n defnyddio'r gwersi hynny yn y ffordd iawn gyda'r cynlluniau newydd hyn i wirioneddol adeiladu ar hynny. Byddwn yn trafod yfory yr adroddiad gan y Pwyllgor Cymunedau, Cydraddoldeb a Llywodraeth Leol, wrth gwrs, ar dlodi ac anghydraddoldeb, ac un o'r pethau y mae'r pwyllgor hwnnw wedi'u nodi yw tuedd y Llywodraeth i ymdrin â'r symptomau yn hytrach na'r achosion sylfaenol. Rwy'n pryderu'n fawr iawn y gallem ailadrodd rhai o'r camgymeriadau hynny, er gwaethaf yr ewyllys da yr wyf yn siŵr bod y Llywodraeth yn ei ddangos tuag at hyn.

I am concerned, although I don't agree with some of the comments of the Conservative spokesperson, that there may not be the full alignment with the Work Programme in what has been suggested here today. So, I would like a little more from the Minister, as my first question, about what discussions are taking place with the Department for Work and Pensions and the Work Programme and how that is being properly constructed, because you did mention that the Work Programme, in effect, would benefit from the PaCE programme and I think we need to understand a little more about how that might happen, because we do see this lack of alignment within Welsh Government policy over the last 16 years and I want to try and avoid that for the future.

Rwy'n pryderu, er nad wyf yn cytuno â rhai o sylwadau llefarydd y Ceidwadwyr, nad yw'r hyn sydd wedi ei awgrymu yma heddiw efallai'n cyd-fynd yn llawn â'r Rhaglen Waith. Felly, hoffwn gael ychydig mwy gan y Gweinidog, fel fy nghwestiwn cyntaf, am y trafodaethau sy'n cael eu cynnal gyda'r Adran Gwaith a Phensiynau a'r Rhaglen Waith a sut y mae hynny'n cael ei ddatblygu'n iawn, oherwydd fe wnaethoch sôn y byddai'r Rhaglen Waith, i bob pwrpas, yn elwa ar y rhaglen PaCE ac rwy'n meddwl bod angen inni ddeall ychydig mwy am sut y gallai hynny ddigwydd, oherwydd rydym wedi gweld y diffyg cyd-ochri hwn o fewn polisi Llywodraeth Cymru dros yr 16 mlynedd diwethaf, a hoffwn geisio osgoi hynny yn y dyfodol.

My second question turns around what exactly we are dealing with here now. You’ve already mentioned the Lift programme and its own targets of some 5,000 and you’ve just said that you want to extend the Lift programme as well—you’ve confirmed that. How does the Lift programme and its 5,000 target relate to the Communities for Work programme and its 8,000 target? Is this a 13,000 target? Is there a read-across between the two? How do you structure these and how, importantly, will you evaluate, therefore, the work that has been done? Although you mentioned the evaluation of Communities First—and you mentioned it in a positive way and that’s your prerogative—it was also the case that this evaluation did find that there was a lack of data and robust monitoring, which made an assessment of outcomes very difficult to do. I’m sure you agree with me, Minister, that, if we’re going to spend these sorts of sums of money on some of the most difficult to support people in our society so they get into employability and get into employment, then we need to be clear that we are dealing with the right kind of approaches. In that regard, can you confirm that you have yet to publish the literature review that is meant to underpin the Communities for Work programme? Although the programme started back in May/June, I understand that the literature review is pencilled in for publication on 21 October. So, on what basis are you making your decisions today, when some of your information has not yet been published?

I note that you say that 38 people so far have been helped directly into work. That’s a small number. It’s early days, I understand, but it’s still quite a small number. So, what confidence do you have that you will be on target as the programme increases?

My final question to you—to be frank, this question could be asked of you or of the Deputy Minister on the next statement, but it’s about how we might involve alternative approaches, particularly amongst young people. I’ve been in discussion with a gentleman called Andy Bevan, who has written a paper for the Institute for Welsh Affairs on a citizen service concept, such as happens in France and Germany. This is paid employment in things like environmental concerns or social care, but also has training aligned with that. Has the Government got any view on that concept, particularly for young people, and how it might integrate with both the Communities for Work programme and Communities First itself? I would say, Minister, that I have visited, fairly recently, the Communities First area in Pembroke Dock myself and discussed the Communities for Work programme with them. I know the potential is there for some success; my concern is that the targets are rigorous, that we have the evaluation, and that we are basing our decisions on a proper analysis of the evidence and the literature.

Mae fy ail gwestiwn yn troi o gwmpas beth yn union yr ydym yn ymdrin ag ef yma nawr. Rydych eisoes wedi sôn am y rhaglen Esgyn a'i thargedau ei hun o ryw 5,000 ac rydych newydd ddweud yr hoffech ymestyn y rhaglen Esgyn hefyd—rydych wedi cadarnhau hynny. Sut y mae'r rhaglen Esgyn a'i tharged o 5,000 yn ymwneud â'r rhaglen Cymunedau Gwaith a’i tharged o 8,000? A yw hyn yn darged o 13,000? A oes cydweithio rhwng y ddwy? Sut yr ydych yn strwythuro'r rhain a sut, yn bwysig, y byddwch yn gwerthuso, felly, y gwaith sydd wedi ei wneud? Er eich bod wedi sôn am werthuso Cymunedau yn Gyntaf—ac roeddech yn sôn am hynny mewn ffordd gadarnhaol a dyna eich rhagorfraint—roedd hefyd yn wir bod y gwerthusiad hwn wedi canfod diffyg data a monitro cadarn, a oedd yn ei gwneud yn anodd iawn asesu ei chanlyniadau. Rwy'n siŵr eich bod yn cytuno â mi, Weinidog, os ydym yn mynd i wario’r mathau hyn o symiau o arian ar rai o'r bobl anoddaf eu cefnogi yn ein cymdeithas er mwyn iddynt gael cyflogadwyedd a mynd i mewn i gyflogaeth, mae angen inni fod yn glir ein bod yn ymdrin â’r math cywir o ddulliau. Yn hynny o beth, a allwch chi gadarnhau nad ydych eto wedi cyhoeddi’r adolygiad o’r llenyddiaeth sydd i fod yn sail i'r rhaglen Cymunedau am Waith? Er bod y rhaglen wedi dechrau yn ôl ym mis Mai/Mehefin, deallaf mai’r bwriad yw cyhoeddi’r adolygiad o lenyddiaeth ar 21 Hydref. Felly, ar ba sail ydych chi’n gwneud eich penderfyniadau heddiw, pan nad yw eich holl wybodaeth wedi ei chyhoeddi eto?

Sylwaf eich bod yn dweud bod 38 o bobl hyd yn hyn wedi cael cymorth uniongyrchol i mewn i waith. Nifer bach yw hwnnw. Dyddiau cynnar yw hi, rwy’n deall hynny, ond mae'n dal i fod yn nifer eithaf bach. Felly, pa hyder sydd gennych y byddwch yn cyrraedd y targed wrth i'r rhaglen fynd yn ei blaen?

Fy nghwestiwn olaf ichi—i fod yn onest, gellid gofyn y cwestiwn hwn i chi neu i’r Dirprwy Weinidog ar y datganiad nesaf, ond mae'n ymwneud â sut y gallem gynnwys dulliau amgen, yn enwedig ymhlith pobl ifanc. Rwyf wedi bod yn trafod â gŵr bonheddig o'r enw Andy Bevan, sydd wedi ysgrifennu papur i’r Sefydliad Materion Cymreig am gysyniad gwasanaeth dinasyddion, fel sy'n digwydd yn Ffrainc a'r Almaen. Mae hyn yn golygu cyflogaeth am dâl mewn meysydd fel pryderon amgylcheddol neu ofal cymdeithasol, ond mae hyfforddiant i gyd-fynd â hynny hefyd. A oes gan y Llywodraeth unrhyw farn am y cysyniad hwnnw, yn enwedig i bobl ifanc, a sut y gallai integreiddio â’r rhaglen Cymunedau am Waith ac â Cymunedau yn Gyntaf ei hun? Hoffwn ddweud, Weinidog, fy mod wedi ymweld, yn gymharol ddiweddar, â’r ardal Cymunedau yn Gyntaf yn Noc Penfro fy hun ac wedi trafod y rhaglen Cymunedau am Waith gyda nhw. Rwy'n gwybod bod y potensial yno am rywfaint o lwyddiant; fy mhryder yw bod y targedau yn llym, ein bod yn gwneud y gwerthuso, a’n bod yn seilio ein penderfyniadau ar ddadansoddiad priodol o'r dystiolaeth a'r llenyddiaeth.

15:52 **Lesley Griffiths** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I thank Simon Thomas for his questions. I think it's really important that we see these three programmes separately but together, so you are right. The target for Lift is 5,000; the target for Communities First is 8,000, i.e. 13,000. So, you're absolutely right on that. The Lift programme, as I say, is well ahead of schedule, but I have committed the funding to 2018. I would think that we would go way past the 5,000. The fact that we're probably going to be at 2,500, as I say, this month—certainly next month—would show that. That's the Lift programme.

Diolch i Simon Thomas am ei gwestiynau. Rwy'n credu ei bod yn bwysig iawn ein bod yn gweld y tair rhaglen ar wahân ond gyda'i gilydd, felly rydych yn gywir. Y targed ar gyfer Esgyn yw 5,000; y targed ar gyfer Cymunedau yn Gyntaf yw 8,000, h.y. 13,000. Felly, rydych yn hollol gywir ar hynny. Mae'r rhaglen Esgyn, fel y dywedais, ymhell o flaen yr amserlen, ond rwyf wedi ymrwymo'r cyllid hyd at 2018. Byddwn yn meddwl y byddem yn mynd ymhell heibio i'r 5,000. Mae'r ffaith y byddwn yn ôl pob tebyg wedi cyrraedd 2,500, fel y dywedais, y mis hwn—yn sicr y mis nesaf—yn dangos hynny. Dyna'r rhaglen Esgyn.

In relation to the PaCE programme, it is early days, and I thought 38 was very good, actually. That's permanent employment, so I think 38 people helped—we've only had it in a pilot area in three local authorities, and probably some of our most rural local authorities. So, I think it's very good that we have helped them, particularly because it's childcare that's been identified as the major barrier to helping people gain employment. So, I anticipate it will be single parents, and it will sometimes be second earners who feel that that childcare is so expensive that they couldn't possibly then be benefiting from work.

O ran y rhaglen PaCE, dyddiau cynnar yw hi, ac roeddwn yn meddwl bod 38 yn dda iawn, mewn gwirionedd. Cyflogaeth barhaol yw hynny, felly rwy'n meddwl bod helpu 38 o bobl—dim ond mewn ardal arbrawf mewn tri awdurdod lleol yw hyn, ac mae'n debyg bod y rhain ymysg ein hawdurdodau lleol mwyaf gwledig. Felly, rwy'n meddwl ei bod yn dda iawn ein bod wedi eu helpu, yn enwedig gan fod gofal plant wedi'i nodi fel y prif rwystr i helpu pobl i gael gwaith. Felly, rwy'n rhagweld mai rhieni sengl fydd y rhain, ac weithiau ail enillwyr sy'n teimlo bod gofal plant mor ddrud fel na allent felly gael unrhyw fudd o weithio.

I am, as you say, publishing the review papers on 21 October, but I'm very happy that the basis on which we've planned this programme is robust. You mentioned monitoring and, again, you know, WEFO funding has to be very robustly monitored and assessed and evaluated. So, again, I'm very pleased that that will be done.

Rwyf, fel y dywedwch, yn cyhoeddi'r papurau adolygu ar 21 Hydref, ond rwy'n hapus iawn ein bod wedi cynllunio'r rhaglen hon ar sail gadarn. Soniasoch am fonitro ac, unwaith eto, wyddoch chi, mae'n rhaid monitro ac asesu a gwerthuso arian WEFO yn drwyadl iawn. Felly, unwaith eto, rwy'n falch iawn y bydd hynny'n cael ei wneud.

I think we also do have to learn from previous lessons, and I think that it's very important that we've done that. I think PaCE is specifically aimed, as I say, at parents where childcare is the main barrier to training or work, unlike other ESF projects, which often have a much broader remit.

Rwy'n meddwl bod yn rhaid inni hefyd ddysgu o wersi blaenorol, ac rwy'n meddwl ei bod yn bwysig iawn ein bod wedi gwneud hynny. Rwy'n meddwl bod PaCE yn benodol, fel y dywedais, ar gyfer rhieni sy'n teimlo mai gofal plant yw'r prif rwystr i hyfforddiant neu waith, yn wahanol i brosiectau ESF eraill, sy'n aml â chylch gwaith ehangach o lawer.

I've not read—you mentioned a paper from Andy Bevan, but I'd be very interested to do that. I think it's really important that we do integrate all our programmes across Government, and I have had discussions with my colleague Julie James, the Deputy Minister for Skills and Technology. I've also visited Communities First in Pembroke Dock, just a couple of weeks ago, and had a similar discussion, but I think it is really important that we don't duplicate what we're providing and what we're offering, but, again, that all our schemes do come together, that they're not confusing, that they're not duplicating and that we benefit as many people as we can.

Nid wyf wedi darllen—fe wnaethoch sôn am bapur gan Andy Bevan, ond byddwn yn awyddus iawn i wneud hynny. Rwy'n credu ei bod yn bwysig iawn ein bod yn integreiddio ein holl raglenni ar draws y Llywodraeth, ac rwyf wedi cael trafodaethau gyda fy nghydweithiwr Julie James, y Dirprwy Weinidog Sgiliau a Thechnoleg. Rwyf hefyd wedi ymweld â Cymunedau yn Gyntaf yn Noc Penfro, dim ond wythnos neu ddwy yn ôl, ac wedi cael trafodaeth debyg, ond rwy'n credu ei bod yn wirioneddol bwysig nad ydym yn dyblygu'r hyn yr ydym yn ei ddarparu a'r hyn yr ydym yn ei gynnig, ond, unwaith eto, bod ein holl gynlluniau'n dod at ei gilydd, nad ydynt yn ddryslyd, nad ydynt yn dyblygu a'n bod yn creu budd i gynifer o bobl ag y gallwn.

15:55 **Peter Black** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Can I welcome this statement, Minister? Of course, the help that you've identified for individuals in the Communities First areas in getting back into work is very welcome. I think that, if you are able to achieve 13,000 individuals back into employment, that again will be very welcome and certainly a major step forward in terms of helping some of our most deprived areas and raising the living standards in those areas.

A gaf i groesawu'r datganiad hwn, Weinidog? Wrth gwrs, mae croeso mawr i'r cymorth yr ydych wedi'i nodi ar gyfer unigolion mewn ardaloedd Cymunedau yn Gyntaf i fynd yn ôl i weithio. Rwy'n credu, os gallwch gyflawni 13,000 o unigolion yn mynd yn ôl i gyflogaeth, bydd croeso mawr i hynny hefyd a bydd yn sicr yn gam mawr ymlaen o ran helpu rhai o'n hardaloedd mwyaf difreintiedig a chodi safonau byw yn yr ardaloedd hynny.

On the committee report on poverty, which Simon Thomas just referred to, there were two major criticisms in that report. One was that Welsh Government policies were not so much tackling poverty as alleviating it. The second criticism was that Welsh Government policies weren't completely joined up in terms of how they dealt with poverty. I think that the committee was particularly concerned that, in terms of the economic development policies of the Welsh Government, they weren't entirely aligned with what you're trying to achieve through this programme and other programmes in terms of trying to tackle poverty as opposed to alleviating it. It does seem to me that there is some evidence of that in terms of what you've said today. We're talking about giving people the skills and the support to go back into work in those areas, yet at the same time we are cutting further education. Apprenticeships for over-25s have also been cut and, of course, if you look at other concerns around further education, the Prince's Initiative for Mature Enterprise in Wales, PRIME Cymru, shows that the number of adults participating in part-time courses have dropped by 47 per cent, from 90,000 to 48,000.

So, I think that the question I'm asking is: how do these programmes fit into the Government's general programme across the whole of Wales—not just in deprived areas, across the whole of Wales—in terms of upskilling adults and upskilling particularly the over-50s, giving them opportunities to get back into work, and getting people into apprenticeships at all ages, not just the younger people.

Then the second question: you mentioned in your reply to Simon Thomas—I think you said you had committed the funding for Lift to 2018. It may have been 2017—it is 2018. That's very welcome that you're able to commit funding past the next budget when the finance Minister is talking about a one-year budget and we haven't yet seen what the UK Government is going to do. But, of course, you know as well as I do that, in getting people back into work, childcare is a very important aspect of that, and yet when you were approached in terms of Flying Start in the Afan valley, you said that you couldn't commit budget funding past April this year because you still hadn't seen the budget. So, on the one hand you're committing the Lift funding past this April, and on the other hand you're saying that you can't commit the childcare support that is helping people in Glyncorrwg and other communities in the Afan valley to get back into employment. So, I'd be grateful if you could be clear as to which budgets you are able to commit past April of this year and which you are not, and how you are joining up in terms of making sure that, for the planning past this next budget round, the Welsh Government is going to be able to provide that support for people to get back into work.

O ran adroddiad y pwyllgor ar dlodi, y mae Simon Thomas newydd gyfeirio ato, roedd dwy brif feirniadaeth yn yr adroddiad hwnnw. Un oedd bod polisïau Llywodraeth Cymru yn ceisio lleihau tlodi yn hytrach na'i drechu. Yr ail feirniadaeth oedd nad oedd polisïau Llywodraeth Cymru yn gwbl gydgysylltiedig o ran sut yr oeddent yn ymdrin â thlodi. Credaf fod y pwyllgor yn arbennig o bryderus, o ran polisïau datblygu economaidd Llywodraeth Cymru, nad oeddent yn cyd-fynd yn llwyr â'r hyn yr ydych yn ceisio ei gyflawni drwy'r rhaglen hon a rhaglenni eraill o ran ceisio trechu tlodi, yn hytrach na'i leihau. Mae'n ymddangos i mi bod rhywfaint o dystiolaeth o hynny o ran yr hyn yr ydych wedi'i ddweud heddiw. Rydym yn sôn am roi'r sgiliau a'r gefnogaeth i bobl i fynd yn ôl i weithio yn yr ardaloedd hynny, ac eto ar yr un pryd, rydym yn torri addysg bellach. Mae prentisiaethau i bobl dros 25 oed hefyd wedi eu torri ac, wrth gwrs, os edrychwch ar bryderon eraill ynglŷn ag addysg bellach, mae Ymgyrch y Tywysog ar gyfer Menter Aeddfed yng Nghymru, PRIME Cymru, yn dangos bod nifer yr oedolion sy'n cymryd rhan mewn cyrsiau rhan-amser wedi gostwng 47 y cant, o 90,000 i 48,000.

Felly, rwy'n meddwl mai'r cwestiwn yr wyf yn ei ofyn yw: sut y mae'r rhaglenni hyn yn cyd-fynd â rhaglen gyffredinol y Llywodraeth ledled Cymru gyfan—nid dim ond mewn ardaloedd difreintiedig, ond ledled Cymru gyfan—o ran gwella sgiliau oedolion a gwella sgiliau pobl dros 50 oed yn arbennig, gan roi cyfleoedd iddynt i fynd yn ôl i weithio, a chael pobl o bob oed i mewn i brentisiaethau, nid dim ond y bobl iau.

Yna'r ail gwestiwn: soniasoch yn eich ateb i Simon Thomas—rwy'n meddwl eich bod wedi dweud eich bod wedi ymrwymo cyllid ar gyfer Esgyn hyd at 2018. Efallai mai 2017—2018 a ddywedasoch. Mae hynny'n dderbyniol iawn eich bod yn gallu ymrwymo cyllid heibio i'r gyllideb nesaf pan fo'r Gweinidog cyllid yn sôn am gyllideb un flwyddyn ac nad ydym wedi gweld hyd yma beth mae Llywodraeth y DU yn mynd i'w wneud. Ond, wrth gwrs, rydych chi'n gwybod cystal â minnau, o ran cael pobl yn ôl i waith, bod gofal plant yn agwedd bwysig iawn ar hynny, ac eto pan gysylltwyd â chi ynglŷn â Dechrau'n Deg yng nghwm Afan, dywedasoch na allech ymrwymo arian y gyllideb y tu hwnt i fis Ebrill eleni gan eich bod yn dal i fod heb weld y gyllideb. Felly, ar y naill law rydych yn ymrwymo cyllid Esgyn heibio i fis Ebrill, ac ar y llaw arall rydych yn dweud na allwch ymrwymo i'r cymorth gofal plant sy'n helpu pobl yng Nglyncorrwg a chymunedau eraill yng nghwm Afan i fynd yn ôl i gyflogaeth. Felly, byddwn yn ddiolchgar pe gallech fod yn glir ynglŷn â pha gyllidebau yr ydych yn gallu eu hymrwymo heibio i fis Ebrill eleni a pha rai nad ydych, a sut yr ydych yn uno pethau o ran gwneud yn siŵr, ar gyfer cynllunio y tu hwnt i'r cylch cyllideb nesaf hwn, y bydd Llywodraeth Cymru yn gallu darparu'r gefnogaeth honno i bobl i fynd yn ôl i'r gwaith.

15:58 **Lesley Griffiths** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Thank you. You referred to the committee's report, which we will be debating in the Chamber tomorrow, regarding poverty. I actually don't agree that we just alleviate it; I do think that we do what we can to tackle the poverty. It's very difficult; we don't have all the levers, but I think it's very important that we do all that we can. We're not helped at the moment by our budget cuts, and you referred to the cuts that my colleague, the Minister for Education and Skills, has had to make. He didn't want to make them, but you'll appreciate that we're under huge pressure with our budgets. I just think it's very important that we do join up across Government, and I've mentioned in previous answers how we're doing that with our schemes.

Diolch. Cyfeiriasoch at adroddiad y pwyllgor, y byddwn yn ei drafod yn y Siambr yfory, ynghylch tlodi. A dweud y gwir, nid wyf yn cytuno mai dim ond ei leihau yr ydym; rwy'n credu ein bod yn gwneud yr hyn a allwn i drechu tlodi. Mae'n anodd iawn; nid yw'r ysgogiadau i gyd gennym, ond rwy'n credu ei bod yn bwysig iawn ein bod yn gwneud popeth o fewn ein gallu. Nid yw'r toriadau i'n cyllideb yn ein helpu ar hyn o bryd, ac fe wnaethoch sôn am y toriadau y mae fy nghydweithiwr, y Gweinidog Addysg a Sgiliau, wedi gorfod eu gwneud. Nid oedd eisiau eu gwneud, ond byddwch yn gwerthfawrogi ein bod o dan bwysau mawr gyda'n cyllidebau. Rwy'n meddwl ei bod yn bwysig iawn ein bod yn cydgysylltu ar draws y Llywodraeth, ac rwyf wedi sôn mewn atebion blaenorol am sut yr ydym yn gwneud hynny gyda'n cynlluniau.

In relation to how many budgets I can commit to before the comprehensive spending review, 'not many' is the answer. Clearly, Flying Start, like Communities First, has been a significant programme of the Welsh Government, and we need to look at them going forward. Lift was for three years—it was to the end of 2017—so we've taken it to the end of the financial year. I do hope, as I've mentioned previously, that we will well surpass the target of 5,000. The fact that we're nearly half way there by this month or next month I think shows that we will do so.

O ran faint o gyllidebau y gallaf ymrwymo iddynt cyn yr adolygiad cynhwysfawr o wariant, 'dim llawer' yw'r ateb. Yn amlwg, mae Dechrau'n Deg, fel Cymunedau yn Gyntaf, wedi bod yn un o raglenni pwysicaf Llywodraeth Cymru, ac mae angen inni edrych arnynt wrth symud ymlaen. Am dair blynedd oedd Esgyn—sef hyd at ddiwedd 2017—felly rydym wedi mynd â hi at ddiwedd y flwyddyn ariannol. Rwy'n gobeithio, fel yr wyf wedi sôn eisoes, y byddwn yn mynd ymhell dros y targed o 5,000. Mae'r ffaith ein bod bron hanner ffordd yno erbyn y mis yma neu'r mis nesaf, rwy'n meddwl, yn dangos y byddwn yn gwneud hynny.

PaCE obviously goes up; it is over-25 and over. You mentioned over-50s, but, clearly, childcare is more of an issue for younger people, and we know that we need to help those young people. Certainly, with Communities First, since I've been in portfolio, I think it's really vital that they help people with employability, support and training. Mike Hedges mentioned that Communities First has helped people with health and wellbeing, for instance. But, what I would like to see now is Communities First really working with those people on a one-to-one basis who are far away from the marketplace—helping them hone their skills, so that they can apply for jobs. I absolutely believe that sustainable employment is the best route out of poverty.

Mae PaCE yn amlwg yn mynd i fyny; mae ar gyfer pobl dros 25 a hŷn. Soniasoch am bobl dros 50 oed, ond, yn amlwg, mae gofal plant yn fwy o broblem i bobl iau, a gwyddom fod angen inni helpu'r bobl ifanc hynny. Yn sicr, gyda Chymunedau yn Gyntaf, ers imi fod yn y portffolio, rwy'n meddwl ei bod yn wir yn hanfodol eu bod yn helpu pobl â chyflogadwyedd, cefnogaeth a hyfforddiant. Soniodd Mike Hedges fod Cymunedau yn Gyntaf wedi helpu pobl â'u hiechyd a'u lles, er enghraifft. Ond, yr hyn yr hoffwn ei weld yn awr yw Cymunedau yn Gyntaf wir yn gweithio gyda'r bobl hynny ar sail un i un sy'n bell oddi wrth y farchnad—yn eu helpu i ddatblygu eu sgiliau, er mwyn iddynt allu ymgeisio am swyddi. Rwy'n credu'n gryf mai cyflogaeth gynaliadwy yw'r llwybr gorau allan o dlodi.

16:00 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Finally, Jeff Cuthbert.

Yn olaf, Jeff Cuthbert.

16:00 **Jeff Cuthbert** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Diolch, Deputy LIywydd. I thank the Minister for her statement.

Diolch, Ddirprwy Lywydd. Diolch i'r Gweinidog am ei datganiad.

I agree with you, of course, in the firm belief that the best and most sustainable way out of poverty is through being in work. However, we do have to note that the phenomenon of in-work poverty has become more common in recent years, particularly among low to middle earners in many parts of my constituency—a trend, unfortunately, that looks to worsen with the Tory UK Government's planned cuts to tax credits. This means that we need secure employment at decent wages—something, surely, that we all support. Can I say that I am very pleased to hear about the progress of the Lift programme? Minister, in light of your statement to the Chamber today, would you be able to provide Members with a little more information about how this links in with the work of Lift other Communities for Work programmes, and how their implementation will be co-ordinated with the work of the existing Communities First clusters, so that best practice is spread and we can make real and tangible gains for the benefit of our most vulnerable and hard-to-reach communities?

Rwy'n cytuno â chi, wrth gwrs; rwy'n credu'n gryf mai'r ffordd orau a mwyaf cynaliadwy allan o dlodi yw drwy fod mewn gwaith. Fodd bynnag, mae'n rhaid inni nodi bod ffenomen tlodi mewn gwaith wedi dod yn fwy cyffredin yn y blynyddoedd diwethaf, yn enwedig ymhlith enillwyr isel i ganolig mewn sawl rhan o fy etholaeth i—tuedd, yn anffodus, sy'n edrych fel ei bod am waethygu gyda'r toriadau credydau treth y mae Llywodraeth Doriaidd y DU yn eu cynllunio. Mae hyn yn golygu bod angen cyflogaeth gadarn am gyflog rhesymol—rhywbeth, siawns, y mae pob un ohonom yn ei gefnogi. A gaf i ddweud fy mod yn falch iawn o glywed am gynnydd y rhaglen Esgyn? Weinidog, yng ngoleuni eich datganiad i'r Siambr heddiw, a allech chi roi ychydig mwy o wybodaeth i'r Aelodau am sut y mae hyn yn cysylltu â gwaith Esgyn a rhaglenni eraill Cymunedau am Waith, a sut y bydd eu gweithredu yn cael ei gydlynu â gwaith y clystyrau Cymunedau yn Gyntaf sy'n bodoli, fel bod arfer gorau yn cael ei ledaenu ac y gallwn wneud cynnydd gwirioneddol a phendant er budd ein cymunedau mwyaf agored i niwed ac anodd eu cyrraedd?

16:01 **Lesley Griffiths** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I thank Jeff Cuthbert for his questions.

Diolch i Jeff Cuthbert am ei gwestiynau.

You are absolutely right. Sustainable employment remains the best way of escaping poverty and also of avoiding poverty in the first place. So, I think we need to make sure that everyone has the skills so that they can maximise their chances of doing that. The point you make around tax credits: I think it's really important that we challenge the mistaken view that's coming from the UK Government. They talk about a national living wage, for instance. You know, that will not help a lot of the people who are having their working families tax credits cut. We know that it is children who will suffer the most, and it's certainly people who are in poverty now who will be most at risk of being most affected.

Rydych yn llygad eich lle. Cyflogaeth gynaliadwy yw'r ffordd orau o ddianc rhag tlodi o hyd, a hefyd o osgoi tlodi yn y lle cyntaf. Felly, rwy'n meddwl bod angen inni wneud yn siŵr bod gan bawb y sgiliau i allu gwneud y mwyaf o'u cyfleoedd i wneud hynny. Y pwynt yr ydych yn ei wneud ynglŷn â chredydau treth: credaf ei bod yn bwysig iawn ein bod yn herio'r farn anghywir sy'n dod o Lywodraeth y DU. Maen nhw'n sôn am gyflog byw cenedlaethol, er enghraifft. Wyddoch chi, ni fydd hynny'n helpu llawer o'r bobl sy'n wynebu toriad i'w credydau treth i deuluoedd sy'n gweithio. Rydym yn gwybod mai plant fydd yn dioddef fwyaf, ac yn sicr y bobl sydd mewn tlodi nawr fydd yn wynebu'r perygl mwyaf o gael eu heffeithio fwyaf.

Lift is based in Communities First areas. It is built on the infrastructure of Communities First, as is Communities for Work. Alongside that now we have had Parents, Childcare and Employment—a scheme announced today. That will be based in Families First and Flying Start areas because those are the areas where I think people will be known and where we are hearing that childcare is the main barrier for them—not just looking for work but also having the opportunities. So, for instance, we will help with childcare if somebody wants to have work experience, if that's how they feel they can then go on to gain permanent employment. We will also help with work experience, as well as training opportunities and training to upskill. So, these programmes will complement each other. I don't want to see duplication, as I said. What I think it will do is really build up people's resilience as they look for work.

Mae Esgyn wedi ei leoli yn ardaloedd Cymunedau yn Gyntaf. Mae'n seiliedig ar seilwaith Cymunedau yn Gyntaf, fel Cymunedau am Waith. Ochr yn ochr â hynny rydym nawr wedi cael Rhieni, Gofal Plant a Chyflogaeth—cynllun a gyhoeddwyd heddiw. Bydd hwnnw wedi'i leoli mewn ardaloedd Teuluoedd yn Gyntaf a Dechrau'n Deg oherwydd dyna'r ardaloedd lle'r wyf yn meddwl y byddwn yn gwybod am bobl a lle'r ydym yn clywed mai gofal plant yw'r prif rwystr iddynt—nid dim ond wrth chwilio am waith ond hefyd o ran cael y cyfleoedd. Felly, er enghraifft, byddwn yn helpu gyda gofal plant os oes rhywun yn awyddus i gael profiad gwaith, os mai dyna sut y mae'n teimlo y gall wedyn fynd ymlaen i gael gwaith parhaol. Byddwn hefyd yn helpu gyda phrofiad gwaith, yn ogystal â chyfleoedd hyfforddiant a hyfforddiant i wella sgiliau. Felly, bydd y rhaglenni hyn yn ategu ei gilydd. Dydw i ddim eisiau gweld dyblygu, fel y dywedais. Yr hyn yr wyf yn meddwl y gwnaiff hyn mewn gwirionedd yw cynyddu cydnerthedd pobl wrth iddynt chwilio am waith.

16:03 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Thank you, Minister.

Diolch, Weinidog.

16:03

# 6. Datganiad: Gweithredu'r Strategaeth Gwaith Ieuenctid Cenedlaethol

# 6. Statement: Implementing the National Youth Work Strategy

Y Senedd.tv [Fideo](#) [Video](#)

## Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Item 6 is a statement by the Deputy Minister for Skills and Technology on implementing the national youth work strategy. I call the Deputy Minister, Julie James.

Eitem 6 yw datganiad gan y Dirprwy Weinidog Sgiliau a Thechnoleg ar weithredu'r strategaeth genedlaethol ar waith ieuenctid. Galwaf ar y Dirprwy Weinidog, Julie James.

16:03

## Julie James [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv [Fideo](#) [Video](#)

*Y Dirprwy Weinidog Sgiliau a Thechnoleg / The Deputy Minister for Skills and Technology*

Thank you, Deputy Presiding Officer.

Diolch, Ddirprwy Lywydd.

Quality youth work makes a real difference to young people’s lives, whether it is through the experiences it opens up for them or the support it offers. A key strength of a youth worker lies in their ability to build and sustain voluntary relationships with young people. When young people engage with youth workers, they find space for reflection about the direction of their lives and can be supported to build their own capacity to make wise choices and enhance their futures. Eighteen months ago we launched and published our national youth work strategy for Wales. In it, we set out our aspirations to raise the profile and status of youth work and gave focus to the role youth work plays within the youth engagement and progression framework. Substantive progress has been made in delivering on the commitments within our strategy.

Mae gwneud gwaith o ansawdd gyda ieuenctid yn gwneud gwahaniaeth gwirioneddol i fywydau pobl ifanc, boed hynny drwy'r profiadau neu’r gefnogaeth sy’n cael eu cynnig iddynt. Un o gryfderau allweddol y gweithiwr ieuenctid yw ei allu i feithrin a chynnal perthynas wirfoddol â phobl ifanc. Pan fydd pobl ifanc yn ymgysylltu â gweithwyr ieuenctid, maent yn cael ennyd i fyfyrio ar gyfeiriad eu bywydau a chânt gefnogaeth i feithrin eu gallu eu hunain i wneud dewisiadau doeth a gwella eu dyfodol. Ddeunaw mis yn ôl, lansiwyd a chyhoeddwyd ein strategaeth genedlaethol ar waith ieuenctid ar gyfer Cymru. Ynddi, rydym yn nodi ein dyheadau i godi proffil a statws gwaith ieuenctid a rhoddwyd ffocws i’r rôl y mae gwaith ieuenctid yn ei chwarae o fewn y fframwaith ymgysylltu a datblygu pobl ifanc. Mae cynnydd sylweddol wedi'i wneud o ran cyflawni'r ymrwymiadau o fewn ein strategaeth.

We have published a new quality mark for youth work in Wales to underpin quality delivery. We have made significant progress in developing a national outcomes framework. We have undertaken research into youth work in schools—work that has helped us understand the value youth work is adding alongside formal education and the different approaches that are being taken to delivering youth work in school settings. We have established a youth work reference group to bring together expertise and provide advice to Ministers on key challenges and issues.

Rydym wedi cyhoeddi marc ansawdd newydd ar gyfer gwaith ieuenctid yng Nghymru i ategu darpariaeth o ansawdd. Rydym wedi gwneud cynnydd sylweddol wrth ddatblygu fframwaith canlyniadau cenedlaethol. Rydym wedi cynnal ymchwil i waith ieuenctid mewn ysgolion—gwaith sydd wedi ein helpu i ddeall y gwerth y mae gwaith ieuenctid yn ei ychwanegu ochr yn ochr ag addysg ffurfiol a'r gwahanol ddulliau sy'n cael eu cymryd o gyflwyno gwaith ieuenctid mewn ysgolion. Rydym wedi sefydlu grŵp cyfeirio gwaith ieuenctid i sy’n cynnwys arbenigwyr ac yn rhoi cyngor i Weinidogion ar heriau a materion allweddol.

However, despite these positive achievements, austerity-driven cuts to public services are threatening to reveal a bleak picture in respect of future youth work provision. Some local authority youth services are already managing major cuts, with further reductions in funding expected to come. Moreover, in many areas, core funding is increasingly being replaced by short-term project funding, making provision vulnerable and undermining attempts to build a stable service platform. As a consequence, across Wales, a patchwork of youth work provision is set to emerge with the prospect that young people increasingly face a postcode lottery. Yet, we know that with strong leadership at local and national levels, coupled with effective partnership working, investment in youth work can make a real difference to national priorities. Looking to the future, I want to see youth work continuing to play its part in reducing youngsters not in education, employment or training, promoting young people's health and wellbeing, promoting participation in community and civic life, and in reducing anti-social activity. I also want to see the capacity to deliver youth work in Wales sustained so that youth work can embrace exciting new opportunities such as those arising from the implementation of Professor Donaldson's recommendations in 'Successful Futures'.

Fodd bynnag, er gwaethaf y llwyddiannau cadarnhaol hyn, mae toriadau sy'n cael eu gyrru gan gyni i wasanaethau cyhoeddus yn bygwth datgelu darlun llwm o ran darpariaeth gwaith ieuenctid yn y dyfodol. Mae rhai gwasanaethau ieuenctid awdurdodau lleol eisoes yn rheoli toriadau mawr, gyda gostyngiadau pellach mewn cyllid i ddod. Ar ben hynny, mewn llawer o ardaloedd, mae cyllid craidd yn cael ei ddisodli'n gynyddol gan gyllid prosiect tymor byr, gan fygwth darpariaeth a thanseilio ymdrechion i adeiladu llwyfan gwasanaeth sefydlog. O ganlyniad, ar draws Cymru, mae clytwaith o ddarpariaeth gwaith ieuenctid ar fin dod i'r amlwg gyda'r posibilrwydd bod pobl ifanc yn gynyddol yn wynebu loteri cod post. Eto i gyd, rydym yn gwybod, gydag arweinyddiaeth gref ar lefel leol a chenedlaethol, ynghyd â gwaith partneriaeth effeithiol, gall buddsoddi mewn gwaith ieuenctid wneud gwahaniaeth go iawn i flaenoriaethau cenedlaethol. Gan edrych i'r dyfodol, rwyf am weld gwaith ieuenctid yn parhau i chwarae ei ran i leihau'r nifer o bobl ifanc nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant, hybu iechyd a lles pobl ifanc, hyrwyddo cyfranogiad yn y gymuned a bywyd dinesig, a lleihau gweithgarwch gwrthgymdeithasol. Rwyf hefyd am weld y gallu i gyflawni gwaith ieuenctid yng Nghymru yn cael ei gynnal fel y gall gwaith ieuenctid gofleidio'r cyfleoedd newydd cyffrous megis y rhai sy'n deillio o weithredu argymhellion yr Athro Donaldson yn 'Dyfodol Llwyddiannus'.

In response to the drive to provide better joined-up and better co-ordinated support for young people, as orchestrated and driven forward through our youth engagement and progression framework, youth workers have been providing lead-worker support to many hundreds of young people. Keeping in touch, providing direct support and, where necessary, signposting and connecting young people with other specialist services is making a difference, and this work is enabled by better information-sharing protocols, which allow interventions to be aligned and resources to be effectively targeted.

Mewn ymateb i'r ymgyrch i roi cymorth mwy cydgysylltiedig sydd wedi'i gydlynu'n well i bobl ifanc, fel y cafodd ei drefnu a'i yrru ymlaen drwy ein fframwaith ymgysylltu a datblygu ieuenctid, mae gweithwyr ieuenctid wedi bod yn darparu cefnogaeth gweithwyr arweiniol i rai cannoedd o bobl ifanc. Mae cadw mewn cysylltiad, a darparu cymorth uniongyrchol a, lle bo angen, gyfeirio a chysylltu pobl ifanc â gwasanaethau arbenigol eraill yn gwneud gwahaniaeth, ac mae'r gwaith hwn yn cael ei alluogi gan brotocolau rhannu gwybodaeth gwell, sy'n caniatáu cysondeb o ran ymyriadau a thargedu adnoddau'n effeithiol.

Youth workers can have a privileged and trust-based relationship with young people, and it is these relationships that have helped them to be so successful. Youth workers are out in the community, on the streets, talking and engaging with young people. It is their methods and interactions that are helping to minimise the numbers of young people in Wales whose status is unknown and who are not engaged in employment, education and training. Indeed, in order to implement the youth engagement and progression framework many local authorities have been realigning funding streams to ensure youth-work-led services to young people are retained and that these benefits are sustained. I do not want to see accessible safe spaces for young people written off without thought to the wider knock-on cost and effects, simply because it can be hard to put a financial value on the returns made when we build young people's resilience and engage them in constructive activities. When it comes to youth work, relatively small investments can make a real difference. The unintended consequences of seeing the capacity for youth work delivery in Wales eroded, skills lost and supportive relationships with young people broken, may be that pressures rise on other services across the wider public sector.

Gall gweithwyr ieuenctid gael perthynas freintiedig sy'n seiliedig ar ymddiriedaeth gyda phobl ifanc, a'r perthnasoedd hyn sydd wedi eu helpu i fod mor llwyddiannus. Mae gweithwyr ieuenctid allan yn y gymuned, ar y strydoedd, yn siarad ac yn ymgysylltu â phobl ifanc. Eu dulliau a'u rhyngweithio nhw sy'n helpu i leihau nifer y bobl ifanc yng Nghymru nad yw eu statws yn hysbys ac nad ydynt yn cymryd rhan mewn cyflogaeth, addysg a hyfforddiant. Yn wir, er mwyn gweithredu'r fframwaith ymgysylltu a datblygu ieuenctid mae llawer o awdurdodau lleol wedi bod yn ailalinio ffrydiau ariannu i sicrhau bod gwasanaethau a arweinir gan waith ieuenctid i bobl ifanc yn cael eu cadw a bod y buddion hyn yn cael eu cynnal. Nid wyf am weld mannau diogel hygyrch i bobl ifanc yn cael eu dileu heb ystyried y gost a'r effeithiau ehangach, yn syml oherwydd gall fod yn anodd rhoi gwerth ariannol ar y canlyniadau sy'n digwydd pan fyddwn yn adeiladu gwytnwch pobl ifanc a'u cynnwys mewn gweithgareddau adeiladol. O ran gwaith ieuenctid, gall buddsoddiadau cymharol fach wneud gwahaniaeth gwirioneddol. Mae'n bosibl mai canlyniadau anfwriadol gweld y gallu i gyflenwi gwaith ieuenctid yng Nghymru yn edwino, sgiliau yn cael eu colli a pherthnasoedd cefnogol gyda phobl ifanc yn cael eu chwalu, yw bod mwy o bwysau ar wasanaethau eraill ar draws y sector cyhoeddus ehangach.

I am committed to the strategic ambitions set out in our national youth work strategy. To secure these ambitions, we need to build on the progress made over the last 18 months. Those delivering youth work need to be clear what they are working towards, and young people need to know what support they can rely on. For this reason, I believe a strengthened national approach is required—an approach that is capable of securing the contribution of youth work across all parts of Wales. I am not referring necessarily to a centrally-driven, one-size-fits-all approach, because we know delivery must fit local need and circumstance. However, I believe we must also establish the parameters of a core offer to all young people, an offer that recognises the contribution that both statutory and voluntary sectors bring. We must not allow immediate funding pressures to drive a strategic or operational wedge between the statutory and voluntary youth work sectors. Quite the opposite, we must look to create new synergies and look at what needs to change to enable providers to work together even more effectively. Critically, we need to agree a national outcomes framework that will support a set of national standards and help underpin lines of accountability. Through this, I believe we should move to benchmark and baseline service expectations, with our new quality mark playing an important role to ensure quality provision is provided and meets young people's needs.

Rwyf wedi ymrwymo i'r uchelgeisiau strategol a nodwyd yn ein strategaeth genedlaethol ar waith ieuenctid. Er mwyn sicrhau'r uchelgeisiau hyn, mae angen i ni adeiladu ar y cynnydd a wnaed dros y 18 mis diwethaf. Mae angen i'r rheini sy'n darparu gwaith ieuenctid fod yn glir o ran yr hyn y maent yn gweithio tuag ato, ac mae angen i bobl ifanc wybod pa gymorth y gallant ddibynnu arno. Am y rheswm hwn, rwy'n credu bod angen dull cenedlaethol cryfach—dull sy'n gallu sicrhau cyfraniad gwaith ieuenctid ar draws pob rhan o Gymru. Nid wyf yn cyfeirio o reidrwydd at ddull un maint i bawb, a yrrir yn ganolog, oherwydd rydym yn gwybod bod yn rhaid i'r ddarpariaeth fod yn addas i'r angen a'r amgylchiadau lleol. Fodd bynnag, credaf fod yn rhaid i ni hefyd sefydlu paramedrau'r cynnig craidd i bob person ifanc, cynnig sy'n cydnabod y cyfraniad y mae sectorau statudol a gwirfoddol yn ei wneud. Rhaid i ni beidio â chaniatáu i bwysau ariannu uniongyrchol yrru hollt strategol neu weithredol rhwng y sectorau gwaith ieuenctid statudol a gwirfoddol. I'r gwrthwyneb, rhaid inni geisio creu synergeddau newydd ac edrych ar yr hyn sydd angen ei newid er mwyn galluogi darparwyr i weithio gyda'i gilydd yn fwy effeithiol. Yn dyngedfennol, mae angen i ni gytuno ar fframwaith canlyniadau cenedlaethol a fydd yn cefnogi set o safonau cenedlaethol ac yn helpu i ategu llinellau atebolrwydd. Drwy hyn, rwy'n credu y dylem symud i feincnodi a gosod llinell sylfaen i ddisgwyliadau gwasanaeth, gyda'n marc ansawdd newydd yn chwarae rhan bwysig i sicrhau bod darpariaeth o ansawdd yn cael ei darparu a'i bod yn diwallu anghenion pobl ifanc.

Earlier this year, with the support of the youth work reference group, we commissioned scoping work to consider potential new delivery and funding models for youth work provision across Wales. This work has stimulated the debate on the future of youth work and the relative merits of a national, regional or local approach. Last month, I accepted a recommendation from the youth work reference group that an independently-chaired sub-group be established to take this work forward and advise on solutions that will work for Wales and in the different contexts and communities throughout Wales. As discussions progress, I am committed to ensuring that young people's views are heard and I will look to the group to provide evidence that this is the case. I will be pleased to update Members on the progress of this group in the new year.

Yn gynharach eleni, gyda chefnogaeth y grŵp cyfeirio gwaith ieuenctid, comisiynwyd gwaith cwmpasu i ystyried modelau cyflenwi ac ariannu newydd posibl ar gyfer darparu gwaith ieuenctid ar draws Cymru. Mae'r gwaith hwn wedi ysgogi'r ddadl ar ddyfodol gwaith ieuenctid a rhinweddau cymharol dull cenedlaethol, rhanbarthol neu leol o weithredu. Y mis diwethaf, derbyniais argymhelliad gan y grŵp cyfeirio gwaith ieuenctid bod is-grŵp wedi'i gadeirio'n annibynnol yn cael ei sefydlu i ddatblygu'r gwaith hwn a chynghori ar atebion a fydd yn gweithio i Gymru ac yn y gwahanol gyd-destunau a chymunedau ledled Cymru. Wrth i drafodaethau symud ymlaen, rwyf wedi ymrwymo i sicrhau bod barn pobl ifanc yn cael ei chlywed a byddaf yn disgwyl i'r grŵp ddarparu tystiolaeth mai fel hyn y bydd hi. Byddaf yn falch o roi'r wybodaeth ddiweddaraf i Aelodau ar gynnydd y grŵp hwn yn y flwyddyn newydd.

I do not want individual local responses to austerity to result in Wales losing a precious asset, which, if safeguarded, can underpin and support our collective ambitions for young people long into the future. This is not a blame game, but a call to work together and show young people in Wales we are serious about the services that are important to them. A failure to act now risks parts of Wales losing capacity and capability that could take us decades to rebuild. I believe that youth work has a key role in underpinning delivery on our priorities in areas such as education, health and community regeneration. I take the position that we simply cannot afford to lose the contribution made by good quality youth work in Wales and that, if necessary, we must now look for new solutions that show young people we are listening to them. If putting young people at the centre means grappling with difficult changes, then I believe that is the road we must now travel.

Nid wyf am i ymatebion lleol unigol i gyni arwain at weld Cymru yn colli ased gwerthfawr, a all, os caiff ei ddiogelu, ategu a chefnogi ein huchelgais gyfunol ar gyfer pobl ifanc ymhell i'r dyfodol. Nid gêm o weld bai yw hyn, ond galwad i weithio gyda'n gilydd a dangos i bobl ifanc yng Nghymru ein bod o ddifrif am y gwasanaethau sy'n bwysig iddyn nhw. Bydd methiant i weithredu nawr yn rhoi rhannau o Gymru mewn perygl o golli gallu ac adnoddau a allai gymryd degawdau i ni eu hail-adeiladu. Credaf fod gan waith ieuenctid rôl allweddol wrth ategu'r gwaith o gyflawni ar ein blaenoriaethau mewn meysydd megis addysg, iechyd ac adfywio cymunedol. Rwy'n cymryd y safbwynt na allwn fforddio colli'r cyfraniad a wneir gan waith ieuenctid o ansawdd da yng Nghymru ac, os oes angen, bydd yn rhaid i ni yn awr chwilio am atebion newydd sy'n dangos i bobl ifanc ein bod yn gwrando arnynt. Os yw rhoi pobl ifanc yn y canol yn golygu mynd i'r afael â newidiadau anodd, yna rwy'n credu mai dyna'r llwybr sy'n rhaid i ni fynd arno nawr.

16:10 **William Graham** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

Thank you, Deputy Presiding Officer. We share the commitment expressed by the Deputy Minister today. In thanking her for her statement, any commitment to reducing the number of people not in employment, training or education must be worthwhile. This promotes young people's health and wellbeing, participation in community and civic life, and hopefully will engender respect for other people's property and their equality of rights. We acknowledge that youth work recognises that young people have rights and works with them in a way that recognises young people's responsibilities and the requirements placed upon them. Effectively-implemented youth work practice helps young people to understand their responsibilities. It supports their development to become more independent during that transition into adulthood.

Diolch, Ddirprwy Lywydd. Rydym yn rhannu ymrwymiad a fynegwyd gan y Dirprwy Weinidog heddiw. Wrth ddiolch iddi am ei datganiad, rhaid i unrhyw ymrwymiad i leihau nifer y bobl nad ydynt mewn cyflogaeth, hyfforddiant neu addysg fod yn werth chweil. Mae hyn yn hyrwyddo iechyd a lles pobl ifanc, eu cyfraniad i fywyd cymunedol a dinesig, a gobeithio y bydd yn ennyn parch at eiddo pobl eraill a'u cydraddoldeb o ran hawliau. Rydym yn sylweddoli bod gwaith ieuenctid yn cydnabod bod gan bobl ifanc hawliau ac mae'n gweithio gyda nhw mewn ffordd sy'n cydnabod cyfrifoldebau pobl ifanc a'r gofynion a osodir arnynt. Mae arfer a weithredir yn effeithiol mewn gwaith ieuenctid yn helpu pobl ifanc i ddeall eu cyfrifoldebau. Mae'n cefnogi eu datblygiad i fod yn fwy annibynnol yn ystod y cyfnod pontio i fod yn oedolion.

We note particularly that this strategy has close synergies with the EU youth strategy, and welcome those synergies. We appreciate the value of recognising achievement, and that youth work provides an opportunity to illustrate development through accreditation, especially those types of accreditation that are well-respected and understood by employers—for example, the Duke of Edinburgh's Award, which gives evidence of skills in team working, decision making and communication. We note the Welsh Government's commitment to identify and promote good youth work practice, drawing on evidence from across the United Kingdom and beyond. Achieving this aim needs to be clearly demonstrated and we look forward to receiving further statements on this important issue.

Nodwn yn arbennig bod gan y strategaeth hon synergeddau agos â strategaeth ieuenctid yr UE, ac rydym yn croesawu'r synergeddau hynny. Rydym yn gwerthfawrogi gwerth cydnabod cyflawniad, a bod gwaith ieuenctid yn rhoi cyfle i ddangos datblygiad drwy achredu, yn enwedig y mathau hynny o achredu sy'n cael eu parchu a'u deall yn dda gan gyflogwyr—er enghraifft, Gwobr Dug Caeredin, sy'n rhoi tystiolaeth o sgiliau gweithio mewn tîm, gwneud penderfyniadau a chyfathrebu. Nodwn ymrwymiad Llywodraeth Cymru i nodi a hyrwyddo arfer da mewn gwaith ieuenctid, gan dynnu ar dystiolaeth o bob rhan o'r Deyrnas Unedig a thu hwnt. Mae angen dangos yn glir ein bod yn cyflawni'r nod hwn ac rydym yn edrych ymlaen at dderbyn datganiadau pellach ar y mater pwysig hwn.

16:12 **Julie James** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

Well, I entirely agree with William Graham when he talks about the real underpinning importance of youth work. One of the reasons we've set up the youth work reference group is to protect provision right across Wales, to understand the contribution of both the statutory and the voluntary youth sectors, and to ensure that we work towards quality marks, which everybody understands. We understand what the offer is, we understand what the service is, and that's why I accepted the group's recommendation that a small sub-group takes it forward, and makes recommendations to me about the way forward. But it's clear that we do need to have standards that are applied across the piece, as well as resolution for local needs. So, I entirely understand the point he makes, and that's the purpose of what we're doing.

Wel, rwy'n cytuno'n llwyr â William Graham pan mae'n sôn am wir bwysigrwydd sylfaenol gwaith ieuenctid. Un o'r rhesymau yr ydym wedi sefydlu grŵp cyfeirio gwaith ieuenctid yw er mwyn diogelu'r ddarpariaeth ledled Cymru, i ddeall cyfraniad y sector ieuenctid gwirfoddol a statudol, ac i sicrhau ein bod yn gweithio tuag at farciau ansawdd y mae pawb yn eu deall. Rydym yn deall beth yw'r cynnig, rydym yn deall beth yw'r gwasanaeth, a dyna pam y derbyniais argymhelliad y grŵp bod is-grŵp bach yn cael ei ddatblygu, ac yn gwneud argymhellion i mi ar y ffordd ymlaen. Ond mae'n amlwg bod angen i ni gael safonau sy'n cael eu cymhwyso ar draws y darn, yn ogystal â datrys anghydfodau ar gyfer anghenion lleol. Felly, rwy'n deall yn llwyr y pwynt y mae'n ei wneud, a dyna bwrpas yr hyn yr ydym yn ei wneud.

16:12 **Julie Morgan** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

I thank the Minister for her statement, for re-emphasising the importance of youth work, and for the commitment to looking at solutions to ensure that there is a good, viable youth service here in Wales. I just wanted to really stress as a first point how important it is that there is access to youth provision for everybody—for all young people.

Diolch i'r Gweinidog am ei datganiad, am dynnu sylw unwaith eto at bwysigrwydd gwaith ieuenctid, ac am yr ymrwymiad i edrych ar atebion er mwyn sicrhau bod gwasanaeth ieuenctid da, hyfyw yma yng Nghymru. Roeddwn am bwysleisio fel pwynt cyntaf pa mor bwysig yw hi bod darpariaeth ieuenctid ar gael i bawb—i bob person ifanc.

I'm sure the Minister would agree that there are significant gender differences when it comes to youth work. For example, we know that at age 16 to 18, young men are much more likely to be not in employment, training or education; but with young women, that happens at a later stage. Also, I think that the important issue is that many young women who have children in the age range are able to access the youth service. I'm sure she is aware of the Chwarae Teg report in 2013, which emphasised the fact that youth services have got a key role to play in raising the aspirations of girls and young women, and that youth workers could help redress the balance when it comes to gender stereotyping. So, I think it's really important that the strategy emphasises the evidence base about the impact of youth work, but I wondered whether the collection of gender-based evidence happens now, or whether there is any plan that this should happen, in particular in relation to raising the aspirations of girls and young women.

Rwy'n siŵr y byddai'r Gweinidog yn cytuno bod gwahaniaethau sylweddol rhwng y rhywiau pan ddaw at waith ieuenctid. Er enghraifft, gwyddom fod dynion ifanc 16 i 18 oed, yn llawer mwy tebygol o beidio â bod mewn cyflogaeth, hyfforddiant neu addysg; ond gyda menywod ifanc, mae hynny'n digwydd ar gam diweddarach. Hefyd, rwy'n meddwl mai'r mater pwysig yw bod llawer o fenywod ifanc sy'n cael plant yn yr ystod oedran honno yn gallu cael mynediad at y gwasanaeth ieuenctid. Rwy'n siŵr ei bod yn ymwybodol o adroddiad Chwarae Teg yn 2013, a oedd yn pwysleisio'r ffaith bod gwasanaethau ieuenctid wedi cael rôl allweddol i'w chwarae o ran codi dyheadau merched a menywod ifanc, ac y gallai gweithwyr ieuenctid helpu i unioni'r fantol pan ddaw at stereoteipio ar sail rhyw. Felly, rwy'n credu ei bod yn bwysig iawn bod y strategaeth yn pwysleisio'r sail dystiolaeth am effaith gwaith ieuenctid, ond roeddwn yn meddwl tybed a yw casglu tystiolaeth ar sail rhyw yn digwydd yn awr, neu a oes unrhyw fwriad y dylai hyn ddigwydd, yn arbennig mewn perthynas â chodi dyheadau merched a menywod ifanc.

16:14

## Julie James Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I thank Julie Morgan for that very important contribution. I think she actually hits the nail on the head, because what we're talking about really is a differentiated youth service for different cohorts of young people. It's not possible to make a one-size-fits-all strategy, and that's what I was emphasising in terms of what we're looking at here. But I think it is essential to have a quality mark for the services that we do fund, and that quality mark has been based on a large amount of work by a large number of youth organisations themselves coming up with it. There's an enormous pile of supporting evidence underneath that, which we're using to develop the central service. So, as part of the report back to me and then, eventually, to the Senedd when I bring it back to you, I'll make sure that those differences in evidence bases are emphasised in the report, and indeed our response to them, because I do think that the different problems that arise—gender-based issues and also those for children, for young adults who are also parents, for young adults who are parentless, and so on—all need to be addressed.

Rwy'n diolch i Julie Morgan am y cyfraniad pwysig iawn hwnnw. Rwy'n credu ei bod yn taro'r hoelen ar ei phen yn wirioneddol, oherwydd yr hyn yr ydym yn sôn amdano mewn gwirionedd yw gwasanaeth ieuenctid gwahaniaethol ar gyfer gwahanol garfanau o bobl ifanc. Nid yw'n bosibl gwneud strategaeth un maint i bawb, a dyna beth oeddwn i'n ei bwysleisio o ran yr hyn yr ydym yn edrych arno yma. Ond rwy'n credu ei bod yn hanfodol cael marc ansawdd ar gyfer y gwasanaethau yr ydym yn eu hariannu, a bod y marc ansawdd yn seiliedig ar waith mawr gan nifer fawr o sefydliadau ieuenctid eu hunain. Mae pentwr enfawr o dystiolaeth yn ategu hynny, yr ydym yn ei defnyddio i ddatblygu'r gwasanaeth canolog. Felly, fel rhan o'r adroddiad yn ôl i mi ac yna, yn y pen draw, i'r Senedd pan fyddaf yn ei gyflwyno i chi, byddaf yn gwneud yn siŵr bod y gwahaniaethau hynny mewn cronfeydd tystiolaeth yn cael eu pwysleisio yn yr adroddiad, ac yn wir yn ein hymateb iddynt. Rwyf yn credu bod angen rhoi sylw i'r holl wahanol broblemau sy'n codi—problemau ar sail rhyw a hefyd y rhai ar gyfer plant, ar gyfer oedolion ifanc sydd hefyd yn rhieni, ar gyfer oedolion ifanc sydd heb rieni, ac yn y blaen.

16:15

## Simon Thomas Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Weinidog, fe wnes i ddilyn gyda diddordeb y dadleuon a oedd gennych yn y datganiad, ond rhaid imi ddweud, fel datganiad, yr unig beth y gallaf weld eich bod wedi datgan yw sefydlu is-grŵp. Rwy'n meddwl bod llawer mwy ynglŷn â gwaith ieuenctid y dylem gael penderfyniadau yn eu cylch gan y Llywodraeth na hynny. Rydych yn rhoi rhybudd yn y datganiad yn erbyn toriadau yn symud ymaith gwasanaethau a fydd yn bwysig yn y pen draw, ac yn arbed arian yn y pen draw, a hefyd yn sôn am bwysigrwydd y llefydd diogel, rhywbeth rwyf wedi'i weld yn glir iawn wrth ymweld â llefydd yn fy etholaeth i, megis Dr M'z yng Nghaerfyrddin. Ar yr un pryd, chi yw'r Llywodraeth wnaeth dorri ymaith yr arian ar gyfer clybiau ffermwyr ifanc dros nos, heb ystyried pa mor bwysig oedd adeiladu rhwydwaith o'r fath. Felly, a fedrwch chi gadarnhau na fydd y Llywodraeth yn cymryd camau pellach ei hunain fel yna, wrth chwilio am y cytundeb newydd yma gyda'r rhan fwyaf o lywodraethau lleol i beidio â mynd ymlaen â thoriadau i lefydd a gwasanaethau sydd mor bwysig i bobl ifanc?

Minister, I followed with interest the arguments that you put forward in your statement, but I have to say, as a statement, all I can see that you have stated is the establishment of a sub-group. I think there's a lot more on youth work that we should have decisions on from Government than that. You give a warning in the statement against cuts removing services that will prove ultimately important and will save money ultimately, and also the importance of those safe places, something that I have seen very clearly in visiting areas in my own constituency, such as Dr Mz's in Carmarthen. Simultaneously, you are the Government that cut the funding for the young farmers' clubs overnight, without taking into account the importance of building a network of that kind. So, can you confirm that the Government will take no further steps of that kind, while seeking this new agreement with the majority of local governments not to proceed with cuts in those services that are so important to our young people?

Yr ail gwestiwn sy'n codi'n sgil y datganiad yw: rydych yn sôn am y marc ansawdd ar gyfer gweithwyr ieuenctid, ond a ydy'n fwriad gennych chi a'r Llywodraeth i symud gweithwyr ieuenctid bellach i gofrestru gyda'r Cyngor Gweithlu Addysg newydd? Roedd hynny wedi cael ei drafod wrth sefydlu'r cyngor, ond nid oes sôn yn y datganiad heddiw a fydd hynny'n digwydd ac ym mha ffordd y bydd hynny'n digwydd chwaith. Rwy'n credu bod pob un yn y lle hwn yn cytuno y dylid gwneud popeth a allwn i atal pobl ifanc rhag syrthio i mewn i sefyllfa NEET ac i roi cefnogaeth iddyn nhw yn yr ysgol a thu hwnt i'r ysgol i ennill cymwysterau sylfaenol ac o'r newydd. Beth nad wyf yn siŵr amdano yw a oes tystiolaeth bod gweithwyr ieuenctid a'r gyfundrefn cymorth gwasanaethau ieuenctid ar hyn o bryd yn llwyddo i wneud hynny. Felly, a oes gennych dystiolaeth o gwbl bod modd gostwng y nifer o bobl ifanc sy'n NEET drwy waith ieuenctid? Rwy'n credu, os oes tystiolaeth o'r fath, byddai'n braf ei chyhoeddi, fel bod modd gwneud y ddadl yn gryfach ar lawr gwlad dros gadw'r gwasanaethau hyn. Rwy'n credu eich bod yn sôn am gyhoeddi rhyw fath o werthusiad annibynnol o waith ieuenctid mewn ysgolion ym mis Rhagfyr, er enghraifft. Byddwn yn licio clywed mwy am hynny.

The second question that arises from the statement is: you mention the quality mark for youth workers, but is it your intention and the intention of your Government to now move youth workers to register with the newly established Education Workforce Council? That was discussed as the council was established, but there is no mention in the statement as to whether that will happen or not and how it would happen either. I think everyone in this place agrees that we should do everything we can to prevent young people from falling into that NEET category and to support them in school and outwith school to gain basic qualifications and further qualifications. But what I'm not sure of is whether there is evidence that youth workers and the youth service is succeeding in doing that. So, do you have that evidence that we can reduce the number of people who are NEET through youth work? I think, if there is such evidence, then it should be made public, so that the argument can be strengthened for retaining this services at grass-roots level. I think you mentioned the publication of some independent evaluation of youth work in school in December, for example. I'd like to hear more about that.

Yn Lloegr, wrth gwrs, mae tystiolaeth bod y nifer o bobl ifanc sy'n syrthio i mewn i fod yn NEET yn gostwng wrth i'r nifer sy'n aros mewn ysgol gynyddu, wrth i'r oedran gadael ysgol godi tuag at 18. Felly, beth yw'r weledigaeth sydd gyda chi a'r Llywodraeth o'r berthynas rhwng rhoi cyfle i bobl aros mewn ysgol, hyfforddiant neu goleg, neu beth bynnag, tan 18 a'r gwaith cynorthwyol y gall gwaith ieuenctid ei wneud? Yn y cyd-destun hwnnw, rwy'n gofyn yr un cwestiwn a ofynnais i Lesley Griffiths gynnau fach: a oes rôl o gwbl fan hyn ar gyfer gwasanaeth dinasyddion, yr hyn roeddwn yn drafod fel 'citizen service', fel y ceir yn yr Almaen ac yng ngwlad Ffrainc, i gynyddu'r cyfleoedd ar gyfer pobl ifanc sydd wedi datgysylltu gydag addysg ffurfiol fel y cyfryw ac i roi cefnogaeth iddyn nhw?

In England, of course, there is evidence that the number of young people who become NEET is reducing as the numbers remaining in school increases, as the leaving-school age increases to 18. Therefore, what vision do you and your Government have in terms of the relationship between giving people the opportunity to remain in school, training or college, or whatever, until the age of 18 and the support work that youth work can provide? In that context, I would ask the same question as I asked of Lesley Griffiths earlier: is there a role at all here for a citizen service, as is available in Germany and in France, in order to increase the opportunities for young people who are disengaged from formal education and to provide them with the support that they need?

My very last question must be around what you are clearly hinting at but haven't made clear in your statement, which is this idea that there should be a core offer and that that should possibly be a national core offer. What steps and what assurances can you give me and the Assembly that the core offer will not in fact become a worthless guarantee of very little support, because the work of youth services is and can be so enriching? It depends a lot on individuals and depends a lot on volunteers supporting those individuals. If we are to move to a concept of a core offer, in what way can we ensure that that doesn't become a mechanistic response and that we lose and throw out some of the value around youth work, which you have, indeed, hinted at in your statement?

Mae'n rhaid i fy nghwestiwn olaf un fod ynghylch yr hyn yr ydych yn amlwg yn lledgyfeirio ato, ond nad ydych wedi'i wneud yn glir yn eich datganiad, sef y syniad hwn y dylai fod cynnig craidd ac y dylai hwnnw o bosib fod yn gynnig craidd cenedlaethol. Pa gamau a pa sicrwydd allwch chi ei roi i mi a'r Cynulliad na fydd y cynnig craidd mewn gwirionedd yn dod yn warant ddi-werth o ychydig iawn o gymorth, oherwydd mae, a gall, gwaith y gwasanaethau ieuenctid fod mor werth chweil? Mae'n dibynnu llawer ar unigolion ac yn dibynnu llawer ar wirfoddolwyr sy'n cefnogi'r unigolion hynny. Os ydym i symud tuag at syniad o gynnig craidd, ym mha ffordd y gallwn sicrhau na fydd hynny'n dod yn ymateb mecanistig a'n bod yn colli ac yn taflu allan rhywfaint o'r gwerth sy'n perthyn i waith ieuenctid, yr ydych chi, yn wir, wedi lledgyfeirio ato yn eich datganiad?

16:20

## Julie James Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

I thank Simon Thomas for that series of questions. Some of them have short answers, and some of them are much more complex, so I'll do my best. One of the shortest is about the registration of youth workers; the answer is that, yes, we are looking at that. We are about to consult, and that process will be taken forward as part of that consultation. So, that's pretty straightforward.

Rwy'n diolch i Simon Thomas am y gyfres honno o gwestiynau. Mae atebion byr i rai ohonynt, ac mae rhai ohonynt yn llawer mwy cymhleth, felly byddaf yn gwneud fy ngorau. Mae un o'r rhai byrraf yn ymwneud â chofrestru gweithwyr ieuenctid; yr ateb yw, ydym, rydym yn edrych ar hynny. Rydym ar fin ymgynghori, a bydd y broses honno'n cael ei datblygu fel rhan o'r ymgynghoriad hwnnw. Felly, mae hynny'n eithaf syml.

In terms of the core offer, I take his point entirely; there's always a danger with a core offer that it becomes a ceiling and not a floor and so on, but actually it's very much one of the things that the youth work reference group themselves threw up—they want it to be a floor, obviously. Part of the work of the sub-group is to take forward exactly how we would do that. Indeed, there are a number of options for doing that, and we've looked at options across various European countries and so on. But it's very much the exact opposite of what we want to do. What we're seeing is, because of the way that youth work is distributed through the rate support grant at the moment and not hypothecated or protected—it's not a statutory service in many places—that actually it's just disappearing in many bits of Wales, and the point of the core offer is we want to prevent that from happening. At the moment, we fund directly the youth progression framework people in the local authorities, and that's obviously stopped the disappearance of those people. We do have the evidence, and I'm more than happy to write to him about the reduction in NEETs associated with the youth framework. So, I'll write to him with the specifics, which I don't have about my person at the moment.

O ran y cynnig craidd, rwy'n derbyn ei bwynt yn llwyr; mae perygl bob amser gyda chynnig craidd ei fod yn mynd yn gynnig terfyn uchaf nid isaf ac yn y blaen, ond mewn gwirionedd mae'n un o'r pethau y gwnaeth y grŵp cyfeirio gwaith ieuenctid ei hunan ei awgrymu—maent am iddo fod yn derfyn isaf, yn amlwg. Rhan o waith yr is-grŵp yw datblygu yn union sut y byddem yn gwneud hynny. Yn wir, mae nifer o opsiynau ar gyfer gwneud hynny, ac rydym wedi edrych ar yr opsiynau ar draws gwahanol wledydd yn Ewrop ac yn y blaen. Ond mae'n hollol groes i'r hyn yr ydym am ei wneud. Yr hyn yr ydym yn ei weld, oherwydd y ffordd y mae gwaith ieuenctid yn cael ei ddosbarthu drwy'r grant cynnal ardrethi ar hyn o bryd ac nid yw wedi'i neilltuo neu ei warchod—nid yw yn wasanaeth statudol mewn llawer man— yw ei fod mewn gwirionedd yn diflannu mewn sawl rhan o Gymru, a phwynt y cynnig craidd yw ein bod am atal hynny rhag digwydd. Ar hyn o bryd, rydym yn rhoi cyllid yn uniongyrchol i bobl y fframwaith dilyniant ieuenctid yn yr awdurdodau lleol, ac yn amlwg mae hynny'n atal y bobl hynny rhag diflannu. Mae'r dystiolaeth gennym, ac rwy'n fwy na hapus i ysgrifennu ato am y gostyngiad yn nifer y bobl NEET sy'n gysylltiedig â'r fframwaith ieuenctid. Felly, byddaf yn ysgrifennu ato gyda'r manylion penodol, nad ydynt gennyf ar hyn o bryd.

It's worth saying this, though: we also still collect all of the data necessary to actually compile those statistics. You said that the number of NEETs, as they're called, was reducing in England, but we also know there's a massive hidden problem in England, which is they've stopped collecting a lot of the data, so that, very shortly, they're not going to have the data to be able to back that up one way or the other, and assumptions are going to have to be made, which we don't think are helpful in targeting where the need is and where the services need to be, particularly with our declining resource issues. So, we're determined we'll both continue to collect the statistics necessary and to target the resource necessary to make sure that that doesn't happen.

Mae'n werth dweud hyn, fodd bynnag: rydym hefyd yn dal i gasglu'r holl ddata angenrheidiol i lunio'r ystadegau hynny. Dywedasoch fod nifer y bobl NEET, fel y'u gelwir, yn lleihau yn Lloegr. Ond rydym hefyd yn gwybod bod problem gudd enfawr yn Lloegr, sef eu bod wedi rhoi'r gorau i gasglu llawer o'r data, ac yn fuan iawn ni fydd ganddynt y data i allu cefnogi hynny y naill ffordd neu'r llall, a bydd rhaid gwneud y tybiaethau, nad ydym yn credu eu bod yn ddefnyddiol wrth dargedu lle mae'r angen a lle mae angen i'r gwasanaethau fod, yn enwedig gyda'r problemau sydd gennym o ran adnoddau sy'n dirywio. Felly, rydym yn benderfynol y byddwn yn parhau i gasglu'r ystadegau angenrheidiol ac i dargedu'r adnoddau angenrheidiol i wneud yn siŵr nad yw hynny'n digwydd.

In terms of the quality mark, again, that was developed via the youth work reference group and the Council for Wales of Voluntary Youth Services and a number of other voluntary and statutory agencies, and we're very happy that it's uniformly accepted. The reference group was vehement in their commitment to it, and actually, to be fair, the reference group has worked very hard indeed to make sure that there aren't sectors left behind or voices unheard in that. I wish I could commit to no further cuts, but until I see what the spending review looks like, of course, no member of a responsible Government could do that. Nevertheless, one of the points of my statement today, as well as to tell you about some of the progress, is to demonstrate the Government's commitment to maintaining youth work provision in Wales. I think it's essential that we say that upfront, and it's essential that we find a way to do that. We both know, indeed, all of us know—and William Graham said it in his remarks—how absolutely fundamental some of this work can be to some of the most vulnerable young people in our society, and I'm very determined to make sure that they continue to get that service.

O ran y marc ansawdd, unwaith eto, datblygwyd hwnnw drwy gyfrwng y grŵp cyfeirio gwaith ieuenctid a Chyngor Cymreig y Gwasanaethau Ieuenctid Gwirfoddol a nifer o asiantaethau gwirfoddol a statudol eraill, ac rydym yn hapus iawn ei fod yn cael ei dderbyn yn gyffredinol. Roedd y grŵp cyfeirio yn chwyrn yn ei ymrwymiad iddo, ac mewn gwirionedd, i fod yn deg, mae'r grŵp cyfeirio wedi gweithio'n galed iawn yn wir i wneud yn siŵr nad oes sectorau yn cael eu gadael ar ôl neu leisiau nad ydynt yn cael eu clywed yn hynny o beth. Byddwn yn hoffi gallu ymrwymo i ddim toriadau pellach, ond nes i mi weld sut y mae'r adolygiad o wariant yn edrych, wrth gwrs, ni allai unrhyw aelod o Lywodraeth gyfrifol wneud hynny. Serch hynny, un o bwyntiau fy natganiad heddiw, yn ogystal â sôn wrthych am rywfaint o'r cynnydd, yw dangos ymrwymiad y Llywodraeth i gynnal darpariaeth gwaith ieuenctid yng Nghymru. Rwy'n credu ei fod yn hanfodol ein bod yn dweud hynny ymlaen llaw, ac mae'n hanfodol ein bod yn dod o hyd i ffordd o wneud hynny. Mae'r ddau ohonom yn gwybod, yn wir, mae pob un ohonom yn gwybod—a dywedodd William Graham hynny yn ei sylwadau—pa mor sylfaenol y gall rhywfaint o'r gwaith hwn fod i rai o'r bobl ifanc mwyaf agored i niwed yn ein cymdeithas, ac rwy'n benderfynol iawn o wneud yn siŵr eu bod yn parhau i gael y gwasanaeth hwnnw.

16:23 **Aled Roberts** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv [Fideo](#) [Video](#)

Rwy'n cytuno â llawer iawn o'r hyn a ddywedodd Simon Thomas, Ddirprwy Weinidog. Rwy'n meddwl fy mod i braidd yn siomedig mai sefydlu is-grŵp arall rydym ni'n ei wneud ar hyn o bryd. Rwy'n meddwl bod yna berygl—. Rwyf wedi bod yma ers pedair blynedd a hanner rŵan, ac rwy'n cofio pan oeddwn i'n arweinydd cyngor sir, mi oedd gwasanaethau ieuenctid hyd yn oed y pryd hynny o dan fygythiad, ac mi oedd yna drafodaethau. Felly, rydym yn sôn am gyfnod, erbyn hyn, o ryw chwech neu saith mlynedd ers i'r gwasanaethau ieuenctid yma fod o dan bwysau.

I agree with very much of what Simon Thomas said, Deputy Minister. I think that I am quite disappointed that establishing a sub-group is what we're doing at the moment. I think there's a danger—. I've been here for four and a half years now, and I remember when I was the leader of a county council that youth services, even at that time, were under threat and there were discussions taking place. So, we're by now talking about a period of six or seven years when these youth services have been under pressure.

A gaf i ofyn rywbeth i chi'n benodol? Dywedoch eich bod chi'n dal i ystyried ac yn ymgynghori ar hyn o bryd ynglŷn â chyflwyno gweithwyr ieuenctid i'r Cyngor Gweithlu Addysg. A fydd hynny erbyn mis Ebrill 2017, ac a ydy'r ymgynghoriad felly yn mynd i gynnwys unrhyw fath o gynnig ynglŷn â chost cofrestru i'r gwasanaethau ieuenctid? Un o'r problemau ar hyn o bryd efo'r undebau addysg ydy'r ffaith nad oes neb yn gwybod yn union beth yw cost y cyfrifoldeb newydd yna i'r cyngor gweithlu. A gaf i hefyd ofyn i chi a ydych chi mewn sefyllfa y prynhawn yma i ddweud wrthym ni pwy fydd yn aelodau o'r is-grŵp yma sydd yn dod atoch chi erbyn y flwyddyn newydd? Ac rwyf hefyd yn pryderu achos fe ddywedwyd pan lansiwyd y strategaeth, ac fe ddywedwyd eto o fewn datganiad sydd o fy mlaen i, bod y gwerthusiad o waith gweithwyr ieuenctid o fewn ysgolion yn mynd i gael ei gwblhau erbyn mis Rhagfyr eleni, a hefyd erbyn hynny y byddech chi mewn sefyllfa i gyhoeddi arfer da o fewn cynghorau lleol. A ydych chi'n meddwl eich bod mewn sefyllfa i gyhoeddi'r arfer da yna? Ond, yn y pen draw, rwy'n meddwl mai beth sydd yn fy mhoeni i ydy ein bod ni yn trafod tra bod Rhufain yn llosgi, i ryw raddau, ac rwy'n pryderu bod gennym ni gyfnod yma, hwyrach, o ddwy flynedd ychwanegol o doriadau i'r gwasanaethau ieuenctid. Yn y sir lle rwy'n byw, erbyn hyn, nid oes ond pedwar canolfan ieuenctid yn y sir, ac mae niferoedd yr ieuenctid sy'n mynd i'r canolfannau hynny, o achos eu bod nhw'n cael eu canoli, yn gostwng yn sylweddol. Ac rwy'n meddwl, mewn dwy flynedd, byddwn mewn sefyllfa lle bydd y cyngor sir yn dweud, 'Wel, nid oes galw am y gwasanaethau yna, felly fe wnawn ni roi'r gorau iddyn nhw.' A beth sydd yn fy mhoeni i, er fy mod yn meddwl ei fod yn fwriad da gennych chi fel Llywodraeth, yw, o achos yr holl oedi—rhyw dair blynedd ers i'r strategaeth gael ei chyflwyno neu ei hymgynghori arni—ein bod mewn sefyllfa lawer iawn gwaeth erbyn hyn nag oeddem ni ynddi pan oedd y strategaeth yn cael ei thrafod yn y lle cyntaf.

May I ask you a specific question? It was said that you are still considering consulting at the moment on introducing youth workers to the Education Workforce Council. Will that be by April 2017, and is the consultation therefore going to include any proposal regarding the cost of registration for youth services? One of the problems at the moment with the education unions is the fact that nobody knows exactly what the cost will be of that new responsibility to the workforce council. May I also ask you if you're in a position this afternoon to tell us who will be members of this sub-group that will be coming to you in the new year? And I'm also concerned as it was said when this strategy was launched, and it was said once again in a statement that's in front of me, that the evaluation of youth workers' work in schools was going to be completed by December this year, and also that, by then, you would be in a situation to publish good practice within local councils. Do you think that you'll be in a situation to publish that good practice? But I think, ultimately, what concerns me is that we are discussing while Rome burns, to an extent, and I'm concerned that we may have a period here, perhaps, of two additional years of cuts to these youth services. In the county where I live now there are only four youth centres in the county, and the number of young people going to those centres, because they're being centralised, is going down substantially. And I think that, within two years, we'll be in a situation where the county council will say, 'Well, there's no demand for that service, so we'll bring it to an end.' What concerns me, although I think it's a good intention on your behalf as a Government, is that, because of all the delays—some three years since the strategy was introduced or consulted upon—we're in a situation that is very much worse than the one we were in when the strategy was first discussed.

16:25 **Julie James** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv [Fideo](#) [Video](#)

Thank you for those remarks, and I don't agree that we're in a worse place. I do take your point about some of the ways that centralisation works, though, and that's one of the issues that we want to address. And I said in my statement that although we were talking about a core function—probably a central core function—it was very important to ensure that we weren't looking at a one-size-fits-all solution. Many of the solutions that work for youth work are very local indeed, because they have to be where the young people are themselves. And so I entirely agree with the Member's point on that, and that is one of the things that we'll be looking to address.

Diolch am y sylwadau hynny, ac nid wyf yn cytuno ein bod mewn lle gwaeth. Rwy'n derbyn eich pwynt am rai o'r ffyrdd y mae canoli yn gweithio, fodd bynnag, a dyna un o'r materion yr ydym am fynd i'r afael â nhw. A dywedais yn fy natganiad, er ein bod yn sôn am swyddogaeth graidd—yn ôl pob tebyg swyddogaeth graidd ganolog—ei bod yn bwysig iawn i sicrhau nad oeddem yn edrych ar ateb un maint i bawb. Mae llawer o'r atebion sy'n gweithio ar gyfer gwaith ieuenctid yn lleol iawn yn wir, gan fod yn rhaid iddynt fod ble mae'r bobl ifanc eu hunain. Ac felly rwy'n cytuno'n llwyr â phwynt yr Aelod ar hynny, a dyna un o'r pethau y byddwn yn edrych i fynd i'r afael ag ef.

I can't agree that we haven't taken this forward. We've had a really successful implementation of the youth progression implementation framework. It's been successful; I'm happy to share, as I say, the stats that I don't have about my person with Members across the Chamber. And local authorities' youth workers, statutory and voluntary—. We've had a very successful conference on it, and they were universal in their acclaim for the strategy and how it works. I also think that you can see that reflected in the work of Professor Donaldson and some of the suggestions made by the Minister for Education and Skills about the way we'll take some of the Donaldson proposals forward around the citizenship function that Simon Thomas mentioned earlier, but also around the way that we integrate some of the signposting and some of the guidance and some of the other very important work in schools around a specific function in the school that takes this forward. And that will be a mixture probably of youth workers, specialist qualified teachers, careers advisers, and so on, so that we don't have the situation that the Minister has referred to several times, where a subject teacher overburdened with work is also trying to explain how relationships work, how life works and so on. We need to have a very specific offer as part of the Donaldson review of the curriculum that addresses much of those issues. And I think the Minister's idea of having that addressed in that way is an excellent one, which we should all get behind.

Ni allaf gytuno nad ydym wedi datblygu hyn ymhellach. Rydym wedi gweithredu'r fframwaith gweithredu dilyniant ieuenctid yn llwyddiannus iawn. Mae wedi bod yn llwyddiannus; rwy'n hapus i rannu, fel y dywedais, yr ystadegau nad ydynt gennyf gyda mi gydag Aelodau ar draws y Siambr. A gweithwyr ieuenctid awdurdodau lleol, statudol a gwirfoddol—. Rydym wedi cael cynhadledd lwyddiannus iawn arno, ac roeddent yn llawn clod am y strategaeth a sut y mae'n gweithio. Rwyf hefyd yn meddwl y gallwch weld hynny wedi ei adlewyrchu yng ngwaith yr Athro Donaldson a rhai o'r awgrymiadau a wnaed gan y Gweinidog Addysg a Sgiliau am y ffordd y byddwn yn datblygu rhai o gynigion Donaldson ynghylch y swyddogaeth dinasyddiaeth a grybwyllodd Simon Thomas yn gynharach, ond hefyd ynghylch y ffordd yr ydym yn integreiddio rhai o'r arwyddion a rhai o'r canllawiau a pheth o'r gwaith pwysig iawn arall mewn ysgolion ynghylch swyddogaeth benodol yn yr ysgol sy'n mynd â hyn yn ei flaen. A bydd hynny'n gymysgedd yn ôl pob tebyg o weithwyr ieuenctid, athrawon cymwysedig arbenigol, cynghorwyr gyrfaoedd, ac yn y blaen, fel nad ydym yn cael y sefyllfa y mae'r Gweinidog wedi cyfeirio ati sawl gwaith, lle mae athro pwnc yn cael ei orlwytho gyda gwaith hefyd yn ceisio esbonio sut mae perthnasoedd yn gweithio, sut mae bywyd yn gweithio ac yn y blaen. Mae angen i ni gael cynnig penodol iawn fel rhan o adolygiad Donaldson o'r cwricwlwm sy'n mynd i'r afael â llawer o'r materion hynny. Ac rwy'n meddwl bod syniad y Gweinidog o roi sylw i hynny yn y ffordd honno yn un rhagorol, a dylem i gyd ei gefnogi.

What we're also saying with the sub-group is that the sub-group is about the implementation phase; we aren't having a review to see what we think about youth work. We've arrived at where we want to be with youth work. The sub-group is to make sure that we do a swift piece of work encompassing all of the people who are represented in the youth work sector—and they are many and varied as I'm sure the Member knows—to make sure that the implementation that we come up with doesn't have unintended consequences and does meet the bill that we're after. We will also have to have complicated discussions with local authorities around how it's funded, whether we do something with the revenue support grant, whether we hypothecate, whether we centrally fund some parts of it, and so on. Those are complex discussions that will need to be taken forward and we'll want to have a firm evidence base before we start those complex discussions, and that's one of the purposes of the sub-group.

Yr hyn yr ydym ni hefyd yn ei ddweud gyda'r is-grŵp yw bod yr is-grŵp yn ymwneud â'r cyfnod gweithredu; nid ydym yn cael adolygiad i weld beth yr ydym yn ei feddwl am waith ieuenctid. Rydym wedi cyrraedd ble rydym eisiau bod gyda gwaith ieuenctid. Mae'r is-grŵp i wneud yn siŵr ein bod yn gwneud darn cyflym o waith yn cwmpasu pob un o'r bobl sy'n cael eu cynrychioli yn y sector gwaith ieuenctid—ac maent yn niferus ac yn amrywiol fel y mae'r Aelod yn gwybod rwy'n siŵr—i wneud yn siŵr nad oes canlyniadau anfwriadol i'r gweithredu y byddwn yn taro arno a'i fod yn bodloni'r bil yr ydym ar ei drywydd. Bydd yn rhaid i ni hefyd gael trafodaethau cymhleth gydag awdurdodau lleol ynghylch sut y mae'n cael ei ariannu, p'un a ydym yn gwneud rhywbeth gyda'r grant cynnal refeniw, p'un a ydym yn neilltuo, p'un a ydym yn ariannu'n ganolog rai rhannau ohono, ac yn y blaen. Mae'r rheini'n drafodaethau cymhleth y bydd angen eu datblygu a byddwn yn awyddus i gael sail dystiolaeth gadarn cyn i ni ddechrau'r trafodaethau cymhleth hynny, a dyna un o ddibenion yr is-grŵp.

16:29

## Jeff Cuthbert [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv [Fideo](#) [Video](#)

Can I thank the Deputy Minister for her statement today? A commitment, of course, to updating the youth national service strategy was included in our 2011 programme for government, so I am pleased that progress is being made, and you're absolutely right to remind us that, of course, both the statutory and third sector provide youth work facilities within Wales. As a former part-time youth worker, I can say that youth work is fun and enables young people to participate in a range of challenging, non-formal and informal learning and development opportunities. This is all the more important given the many challenges that young people face in the world today, especially in terms of competing in the global labour market in due course.

A gaf i ddiolch i'r Dirprwy Weinidog am ei datganiad heddiw? Roedd ymrwymiad, wrth gwrs, i ddiweddaru'r strategaeth gwasanaeth cenedlaethol ieuenctid wedi ei gynnwys yn y rhaglen lywodraethu ar gyfer 2011, felly rwy'n falch bod cynnydd yn cael ei wneud, ac rydych yn hollol iawn i'n hatgoffa, wrth gwrs, bod y sector statudol a'r trydydd sector yn darparu cyfleusterau gwaith ieuenctid yng Nghymru. Fel cyn weithiwr ieuenctid rhan-amser, gallaf ddweud bod gwaith ieuenctid yn hwyl ac yn galluogi pobl ifanc i gymryd rhan mewn amrywiaeth o gyfleoedd dysgu a datblygu heriol, heb fod yn ffurfiol ac anffurfiol. Mae hyn yn bwysicach fyth hyd yn oed o gofio'r heriau niferus y mae pobl ifanc yn eu hwynebu yn y byd heddiw, yn enwedig o ran cystadlu yn y farchnad lafur fyd-eang ymhen amser.

Now, on this point, I note the involvement of youth work, mentioned in your statement, to reduce NEETs, and I acknowledge the points—the fair points—that Simon Thomas has made in this regard, but can I ask you to provide Members with details about the role of youth work in assisting with essential skills for young people, encouraging greater learning all round and helping to ensure that young people in Wales have the necessary skills, both hard and soft, to get ahead and prosper in life in whatever form of education, employment or training they choose?

Yn awr, ar y pwynt hwn, nodaf gyfranogiad gwaith ieuenctid, a grybwyllwyd yn eich datganiad, er mwyn lleihau pobl NEET, ac rwy'n cydnabod y pwyntiau—y pwyntiau teg—y mae Simon Thomas wedi'u gwneud yn hyn o beth. Ond a gaf i ofyn i chi roi manylion i'r Aelodau am rôl gwaith ieuenctid mewn cynorthwyo gyda sgiliau hanfodol ar gyfer pobl ifanc, gan annog mwy o ddysgu yn gyffredinol a helpu i sicrhau bod pobl ifanc yng Nghymru yn cael y sgiliau angenrheidiol, caled a meddal, i lwyddo a ffynnu mewn bywyd ym mha bynnag fath o addysg, cyflogaeth neu hyfforddiant y maent yn ei ddewis?

16:31 **Julie James** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Thank you for those important remarks, Jeff Cuthbert. We know about, and I absolutely acknowledge, the work that youth work contributes in a wide variety of settings. It's important, as I say, to emphasise that youth workers engage with young people in public spaces where they are on the streets, sometimes in gangs. We need specialist projects, as I said to Julie Morgan, for people who are homeless, unemployed, young parents, parentless young people, some in hospital, some with health and wellbeing needs and so on. One of the great strengths of youth work is the breadth of support and the in-depth and personalised support that it can produce and share with young people. We know that youth workers stick by troubled young people through thick and thin. We know that they can assist with the needs assessments that are necessary to get them onto the right pathways for them in their lives.

Diolch am y sylwadau pwysig hynny, Jeff Cuthbert. Rydym yn gwybod am, ac rwy'n cydnabod yn llwyr, gyfraniad gwaith ieuenctid mewn amrywiaeth eang o leoliadau. Mae'n bwysig, fel y dywedais, pwysleisio bod gweithwyr ieuenctid yn ymgysylltu â phobl ifanc mewn mannau cyhoeddus lle maent ar y strydoedd, weithiau mewn gangiau. Mae angen prosiectau arbenigol arnom, fel y dywedais wrth Julie Morgan, ar gyfer pobl sy'n ddigartref, yn ddi-waith, rhieni ifanc, pobl ifanc heb rieni, rhai yn yr ysbyty, rhai sydd ag anghenion iechyd a lles ac yn y blaen. Un o gryfderau mawr gwaith ieuenctid yw ehangder y gefnogaeth a'r gefnogaeth fanwl a phersonol y gall ei chynhyrchu a'i rhannu â phobl ifanc. Gwyddom fod gweithwyr ieuenctid yn driw i bobl ifanc gythryblus doed a ddelo. Rydym yn gwybod eu bod yn gallu helpu gydag asesiadau anghenion sy'n angenrheidiol i'w cael ar y llwybrau iawn ar gyfer yn eu bywydau.

So, youth workers took on many of the lead worker roles in the youth engagement progression framework, for example, making a real difference to how young people, who are perhaps out of school for short periods or even longer periods of time, actually get their essential skills training and get their needs assessment. So, I agree with him that that is one of the purposes of this piece of work going forward. It's one of the things that the sub-group is looking at. It's one of the things I'd just reference in terms of the Minister's work with Donaldson, and it's one of the ways that the Government is looking to integrate youth services into the education offer for young people overall.

Felly, ymgymerodd gweithwyr ieuenctid â llawer o swyddogaethau gweithwyr arweiniol yn y fframwaith dilyniant ymgysylltu â phobl ifanc, er enghraifft, gan wneud gwahaniaeth go iawn i sut mae pobl ifanc, sydd o bosibl allan o'r ysgol am gyfnodau byr neu gyfnodau hirach hyd yn oed, mewn gwirionedd yn cael eu hyfforddiant sgiliau hanfodol ac yn cael eu hasesiad o anghenion. Felly, rwy'n cytuno ag ef fod hynny'n un o ddibenion y darn hwn o waith yn y dyfodol. Mae'n un o'r pethau y mae'r is-grŵp yn edrych arnynt. Mae'n un o'r pethau y byddwn i'n cyfeirio atynt yn nhermau gwaith y Gweinidog gyda Donaldson, ac mae'n un o'r ffyrdd y mae'r Llywodraeth yn bwriadu integreiddio gwasanaethau ieuenctid â'r cynnig addysg i bobl ifanc yn gyffredinol.

16:32 **Kirsty Williams** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Could I thank the Minister for her statement? You said, in outlining your approach, that you wanted to ensure that local need and local circumstances were reflected in what may become a national offer. What steps will you take to ensure access to service in rural areas? You will be aware that, following an initial decision to cut funding for the national Young Farmers' Clubs movement, the Minister Carl Sargeant did actually then provide funding for this financial year for that organisation. There are over 5,000 young people who are members of the YFC movement across Wales. It's Wales's largest rural youth engagement organisation, run by its members for its members, with many, many hours of volunteer support, and I'm just wondering how you see an organisation such as the YFC fitting in. I declare an interest that two of my daughters are members of Pontfaen YFC.

A gaf i ddiolch i'r Gweinidog am ei datganiad? Dywedasoch, wrth amlinellu eich dull o weithredu, eich bod eisiau sicrhau bod anghenion lleol ac amgylchiadau lleol yn cael eu hadlewyrchu yn yr hyn a allai ddod yn gynnig cenedlaethol. Pa gamau a gymerwch i sicrhau mynediad at wasanaeth mewn ardaloedd gwledig? Byddwch yn ymwybodol, yn dilyn penderfyniad cychwynnol i dorri cyllid y mudiad Clybiau Ffermwyr Ifanc cenedlaethol, bod y Gweinidog Carl Sargeant wedi darparu cyllid mewn gwirionedd ar gyfer y flwyddyn ariannol hon ar gyfer y sefydliad hwnnw. Mae dros 5,000 o bobl ifanc sy'n aelodau o'r mudiad CFfI ar draws Gymru. Dyma fudiad ymgysylltu ieuenctid gwledig mwyaf Cymru, a redir gan ei aelodau ar gyfer ei aelodau, gydag oriau lawer o gymorth gwirfoddolwyr, ac rwy'n meddwl tybed sut yr ydych yn gweld sefydliad fel y Clybiau Ffermwyr Ifanc yn ffitio i mewn. Rwy'n datgan diddordeb fod dwy o fy merched yn aelodau o CFfI Pontfaen.

Also, could you tell us about provision through the medium of Welsh? We spend a lot of time in this Chamber talking about how we can support and develop the language. One of the key principles of that is that children have opportunities to use the Welsh language outside of school. That is particularly important in areas where, perhaps, Welsh isn't the community language. I know, for instance, in my own area, that there are major concerns about the sustainability, given the budget cuts that Powys County Council are proposing, to ensure that there are youth services available through English but also, for those people wishing to access Welsh-language services, that they are also available, especially in areas where, as I said, Welsh isn't the community language.

Hefyd, a allech chi ddweud wrthym am y ddarpariaeth drwy gyfrwng y Gymraeg? Rydym yn treulio llawer o amser yn y Siambr hon yn sôn am sut y gallwn gefnogi a datblygu'r iaith. Un o egwyddorion allweddol hynny yw bod plant yn cael cyfleoedd i ddefnyddio'r iaith Gymraeg y tu allan i'r ysgol. Mae hynny'n arbennig o bwysig mewn ardaloedd lle, efallai, nad yw'r Gymraeg yn iaith gymunedol. Rwy'n gwybod, er enghraifft, yn fy ardal fy hun, fod pryderon mawr ynghylch cynaliadwyedd, o ystyried y toriadau yn y gyllideb y mae Cyngor Sir Powys yn eu cynnig, er mwyn sicrhau bod gwasanaethau ieuenctid ar gael trwy gyfrwng y Saesneg, ond hefyd, i'r bobl hynny sy'n dymuno cael gwasanaethau Cymraeg, eu bod ar gael hefyd, yn enwedig mewn ardaloedd lle, fel y dywedais, nad yw'r Gymraeg yn iaith gymunedol.

16:34 **Julie James** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Thank you for those remarks, Kirsty Williams. I think you make a very important point there on the last point especially. One of the reasons that we've had the youth work reference group was to make sure that we encompassed the vast variety that there is in youth work, including through the medium of Welsh and, indeed, actually, some other minority languages in some cities. We have a very active presence by youth workers who speak Welsh as their first language, and indeed in their communities, on that reference group. One of the things we want to do in establishing this core offer is to make sure that the core offer includes such things as Welsh-medium provision where that's appropriate and, indeed, in communities where Welsh is spoken but, as you say, it isn't the community language. We know that it's very important for the Welsh language to continue on into adult life that young people are able to use it outside of the formal school setting and, indeed, in social events and so on. That's very much alive inside the reference group.

Diolch am y sylwadau hynny, Kirsty Williams. Rwy'n meddwl eich bod yn gwneud pwynt pwysig iawn yno ar y pwynt olaf yn arbennig. Un o'r rhesymau pam yr ydym wedi cael y grŵp cyfeirio gwaith ieuenctid oedd i wneud yn siŵr ein bod yn cwmpasu'r amrywiaeth eang a geir mewn gwaith ieuenctid, gan gynnwys trwy gyfrwng y Gymraeg ac, yn wir, mewn gwirionedd, rai ieithoedd lleiafrifol eraill mewn rhai dinasoedd. Mae gennym lawr o weithwyr ieuenctid sy'n siarad Cymraeg fel eu hiaith gyntaf, ac yn wir yn eu cymunedau, yn aelodau o'r grŵp cyfeirio hwnnw. Un o'r pethau yr ydym am ei wneud wrth sefydlu'r cynnig craidd yw gwneud yn siŵr bod y cynnig craidd yn cynnwys pethau fel darpariaeth cyfrwng Cymraeg lle bo hynny'n briodol ac, yn wir, yn y cymunedau lle mae'r Gymraeg yn cael ei siarad, ond, fel y dywedwch, lle nad yw'r Gymraeg yn iaith gymunedol. Rydym yn gwybod ei bod yn bwysig iawn, er mwyn i'r iaith Gymraeg barhau i fywyd oedolion, bod pobl ifanc yn gallu ei defnyddio y tu allan i sefyllfa ffurfiol yr ysgol ac, yn wir, mewn digwyddiadau cymdeithasol ac yn y blaen. Mae hynny'n fyw iawn y tu mewn i'r grŵp cyfeirio.

In terms of the young farmers, I’m not sure if it is an interest any more, but I certainly was a member myself in a dim and distant past, and I certainly do appreciate the support that a wide-ranging group of that sort can provide in rural areas. One of the reasons, again, for this core provision, plus the outreach across the piece, is to make sure that a wide variety of youth work organisations, support groups, voluntary sector groups and statutory sector groups survive without the inexorable funding rounds that come. I spoke specifically in my statement about the dissolution of youth service into short-term projects with little or no longevity for either the workers or the young people. We know that that doesn’t work, so, one of the things we’ll be looking at very seriously, as I said, is the way that we fund this. Part of the work of the sub-group is to do the initial piece of work about coming up with a concrete proposal for how to cover off all of those heads, so that we can take that forward with partners in a discussion about how we take it into the future.

O ran y ffermwyr ifanc, nid wyf yn siwr a yw o ddiddordeb mwyach, ond yn sicr roeddwn yn aelod fy hun yn y gorffennol pell, ac rwy’n sicr yn gwerthfawrogi'r gefnogaeth y gall grŵp eang o'r math hwnnw ei darparu mewn ardaloedd gwledig. Un o'r rhesymau, unwaith eto, ar gyfer y ddarpariaeth graidd hon, yn ogystal â'r allgymorth ar draws y darn, yw sicrhau bod amrywiaeth eang o sefydliadau gwaith ieuenctid, grwpiau cymorth, grwpiau sector gwirfoddol a grwpiau sector statudol yn goroesi heb y rowndiau ariannu didostur sydd i ddod. Siaradais yn benodol yn fy natganiad ynghylch diddymu’r gwasanaeth ieuenctid i brosiectau tymor byr gyda dim ond ychydig neu ddim hirhoedledd o gwbl ar gyfer naill ai'r gweithwyr neu'r bobl ifanc. Rydym yn gwybod nad yw hynny'n gweithio, felly, un o'r pethau y byddwn yn edrych arno yn ddifrifol iawn, fel y dywedais, yw'r ffordd yr ydym yn ariannu hyn. Rhan o waith yr is-grŵp yw gwneud y gwaith cychwynnol o daro ar gynnig pendant ar gyfer sut i ymdrin â’r holl benaethiaid hynny, fel y gallwn fwrw ymlaen â hynny gyda phartneriaid mewn trafodaeth am y ffordd yr ydym yn mynd ati yn y dyfodol.

16:36

## Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv [Fideo](#) [Video](#)

Finally, Keith Davies.

Yn olaf, Keith Davies.

16:36

## Keith Davies [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv [Fideo](#) [Video](#)

Diolch, Ddirprwy Lywydd. I should declare an interest, being vice-president of the Council for Wales of Voluntary Youth Services and an ambassador for the Duke of Edinburgh scheme.

Diolch, Ddirprwy Lywydd. Dylwn ddatgan diddordeb, drwy fod yn is-lywydd Cyngor Cymreig y Gwasanaethau Ieuenctid Gwirfoddol ac yn llysgennad ar gyfer cynllun Dug Caeredin.

We all appreciate, Minister, your statement this afternoon, and appreciate the benefits that youth work brings to Wales: the holistic gaining of confidence in informal as well as formal settings, and personal and social education, creating young leaders of the future. We were all given a copy last July of the Duke of Edinburgh scheme on taking the lead—the young leaders impact project.

Rydym i gyd yn gwerthfawrogi, Weinidog, eich datganiad y prynhawn yma, ac yn gwerthfawrogi'r manteision y mae gwaith ieuenctid yn eu rhoi i Gymru: ennill hyder cyffredinol mewn lleoliadau anffurfiol yn ogystal â rhai ffurfiol, ac addysg bersonol a chymdeithasol, gan greu arweinwyr ifanc y dyfodol. Cawsom i gyd gopi fis Gorffennaf diwethaf o gynllun Dug Caeredin ynghylch arwain—y prosiect effaith arweinwyr ifanc.

Also, you’ve talked about skills building, teamwork, communication and self-motivation, which are part of Donaldson and of the Welsh baccalaureate, so it’s important that we see integration within our education structure. Not only does youth work fulfil strategies and ends in itself, but it also contributes heavily to our education agenda, breaking the link between poverty and educational attainment, and, as I said, creating leaders of the future. Without effective and strategic youth work, we lose one pillar of meeting our tackling poverty action plan and lowering the number of NEETs. This is why I’m pleased that the opening paragraphs of this strategy grasped what I consider the key point: youth work needs to be seen as a strategic service; it is not an aspect of leisure, and that must be reflected in all aspects of our strategy and supported by a mechanism structure.

Hefyd, rydych wedi siarad am feithrin sgiliau, gwaith tîm, cyfathrebu a hunan-gymhelliant, sy'n rhan o Donaldson a bagloriaeth Cymru, felly mae'n bwysig ein bod yn gweld integreiddio o fewn ein strwythur addysg. Nid yn unig y mae gwaith ieuenctid yn cyflawni strategaethau a dibenion ynddo’i hun, ond mae hefyd yn cyfrannu’n gryf at ein hagenda addysg, gan dorri'r cysylltiad rhwng tlodi a chyrhaeddiad addysgol, ac, fel y dywedais, gan greu arweinwyr y dyfodol. Heb waith ieuenctid effeithiol a strategol, rydym yn colli un golofn o gyflawni ein cynllun gweithredu trechu tlodi a gostwng nifer y bobl NEET. Dyna pam rwy'n falch bod paragraffau agoriadol y strategaeth hon wedi deall yr hyn yr wyf yn ystyried yw’r pwynt allweddol: mae angen i waith ieuenctid gael ei weld fel gwasanaeth strategol; nid yw'n agwedd ar hamdden, a rhaid i hynny gael ei adlewyrchu ym mhob agwedd ar ein strategaeth a chael ei gefnogi gan strwythur mecanwaith.

You’ve talked about—or, I think somebody else has mentioned—the CWVYS manifesto and the national model and the coherent offer that’s in it, rolling out youth workers and votes at 16 and 17. I was pleased to hear Kirsty Williams talk about Welsh-medium provision, because the Duke of Edinburgh scheme is offered across Wales bilingually. So, in whatever area of Wales you are, the Duke of Edinburgh scheme will meet that.

Rydych wedi siarad am—neu, rwy’n meddwl bod rhywun arall wedi crybwyll—y maniffesto CWVYS a'r model cenedlaethol a'r cynnig cydlynol sydd ynddo, cyflwyno gweithwyr ieuenctid a phleidleisiau yn 16 ac 17 oed. Roeddwn yn falch o glywed Kirsty Williams yn siarad am ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg, gan fod cynllun Dug Caeredin yn cael ei gynnig ar draws Cymru yn ddwyieithog. Felly, ym mha bynnag ran o Gymru yr ydych, bydd cynllun Dug Caeredin yn diwallu hynny.

Welsh programmes are delivered through both statutory and voluntary sectors, and schools are an important part of engaging young people in the sector. I’m pleased that stronger mapping of existing provision within local authorities is included in the youth engagement and progression framework. How will this complement the Welsh Government-announced impact review of youth work practice in schools by 2017? What are the terms of reference of the latter and what best lever options do you have to act as vehicles for improvements pending the results of the mapping exercise?

Mae rhaglenni Cymraeg yn cael eu darparu trwy’r sectorau statudol a gwirfoddol, ac mae ysgolion yn rhan bwysig o ymgysylltu pobl ifanc yn y sector. Rwy'n falch bod mapio cryfach ar ddarpariaeth bresennol o fewn awdurdodau lleol yn cael ei gynnwys yn y fframwaith ymgysylltu a datblygu ieuenctid. Sut fydd hyn yn ategu'r adolygiad o effaith a gyhoeddodd Llywodraeth Cymru o arfer gwaith ieuenctid mewn ysgolion erbyn 2017? Beth yw cylch gorchwyl yr olaf a beth yw’r opsiynau ysgogi gorau sydd gennych i weithredu fel cyfryngau ar gyfer gwelliannau wrth aros am ganlyniadau'r ymarfer mapio?

16:39

## Julie James Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

On that last one, I haven’t got the terms of reference with me, so I’ll write to the Member outlining what the terms of reference are. But, overall, what we’re looking at is improving and maintaining our evidence base. As I said earlier to other Members, we know that, in England, many local authorities just stopped collecting the statistics and, indeed, stopped delivering the service. We think it’s essential to have the evidence base necessary to target some of the work that Keith Davies talked about. It’s one of the reasons that we think that youth work in schools is so important, because it’s about getting an association with young people at an early enough stage and then maintaining that contact as they move out into their adult lives.

O ran yr un olaf, nid yw’r cylch gorchwyl gennyf yma, felly byddaf yn ysgrifennu at yr Aelod yn amlinellu beth yw’r cylch gorchwyl. Ond, ar y cyfan, yr hyn yr ydym yn edrych arno yw gwella a chynnal ein sylfaen dystiolaeth. Fel y dywedais yn gynharach wrth Aelodau eraill, rydym yn gwybod, yn Lloegr, bod llawer o awdurdodau lleol wedi rhoi’r gorau i gasglu'r ystadegau ac, yn wir, wedi rhoi'r gorau i gyflwyno'r gwasanaeth. Rydym yn credu ei bod yn hanfodol cael y sylfaen angenrheidiol o dystiolaeth i dargedu rhywfaint o'r gwaith y soniodd Keith Davies amdano. Mae'n un o'r rhesymau pam yr ydym yn credu bod gwaith ieuenctid yn yr ysgolion mor bwysig, am ei fod yn ymwneud â chael cysylltiad â phobl ifanc ar gam digon cynnar ac yna cynnal y cysylltiad wrth iddynt symud allan i'w bywydau fel oedolion.

So, it’s important to us that we maintain all of those links; that we integrate it into the curriculum, especially with the Donaldson review, as we take that forward; and, that we acknowledge and identify the myriad of good practice there is in youth work right across Wales. I know the Member is familiar with it, but the quality mark for youth work in Wales, as he knows, comes in three different stages and is both a quality mark for self-assessment and something that can be awarded to an organisation for excellence. We think that there are better routes to ensuring excellence, funding streams and continuity than the routes that we’re currently using, and the sub-group will be looking at a large number of ways that we can improve on those outcomes.

Felly, mae'n bwysig i ni ein bod yn cynnal pob un o'r cysylltiadau hynny; ein bod yn ei integreiddio i mewn i'r cwricwlwm, yn enwedig gydag adolygiad Donaldson, wrth i ni ddatblygu hynny; ac, ein bod yn cydnabod ac yn adnabod yr arfer da dirifedi sydd mewn gwaith ieuenctid ledled Cymru. Rwy’n gwybod bod yr Aelod yn gyfarwydd ag ef, ond mae’r marc ansawdd ar gyfer gwaith ieuenctid yng Nghymru, fel y mae’n gwybod, yn dod mewn tri cham gwahanol ac mae’n farc ansawdd ar gyfer hunanasesu ac yn rhywbeth y gellir ei ddyfarnu i sefydliad am ragoriaeth. Rydym yn credu bod llwybrau gwell i sicrhau rhagoriaeth, ffrydiau ariannu a pharhad na'r llwybrau yr ydym yn eu defnyddio ar hyn o bryd, a bydd yr is-grŵp yn edrych ar nifer fawr o ffyrdd y gallwn wella ar y canlyniadau hynny.

16:40

## Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Thank you, Minister.

Diolch yn fawr, Weinidog.

16:40

## 7. Datganiad: Achub Bywydau Rhag Sepsis—Y Wybodaeth Ddiweddaraf am Gynnydd

## 7. Statement: Saving Lives from Sepsis—An Update on Progress

Y

Senedd.tv
Fideo Video

### Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer Bywgraffiad Biography

Item 7 is a statement by the Deputy Minister for Health: saving lives from sepsis—an update on progress. I call the Deputy Minister, Vaughan Gething.

Eitem 7 yw datganiad gan y Dirprwy Weinidog Iechyd: achub bywydau rhag sepsis—diweddariad ar gynnydd. Galwaf ar y Dirprwy Weinidog, Vaughan Gething.

16:40

### Vaughan Gething Bywgraffiad Biography

*Y Dirprwy Weinidog Iechyd / The Deputy Minister for Health*

Senedd.tv
Fideo Video

Thank you, Deputy Presiding Officer. Sepsis is a time-critical, potentially deadly medical emergency. It is caused by the body's overwhelming inflammatory response to infection. If it is not treated, sepsis will cause multi-organ failure and death. Septic shock has a 50 per cent death rate. Recognising the signs and symptoms of sepsis is key to making sure people get access to the timely, basic and cost-effective interventions that save lives. In the UK, it is estimated that there are 100,000 cases of sepsis, causing over 37,000 deaths a year. In Wales, that equates to 5,000 cases of sepsis and around 1,850 deaths. It's a condition that kills more people than breast cancer, bowel cancer and prostate cancer combined. The sepsis death rate is on a par with road accidents and yet we hear so little about it or the groundbreaking work that is taking place in Wales to both improve the recognition of sepsis and, of course, the treatment and outcomes.

Diolch, Ddirprwy Lywydd. Mae sepsis yn argyfwng meddygol tyngedfennol o ran amser a allai fod yn angheuol. Mae'n cael ei achosi gan ymateb llidiol llethol y corff i haint. Os na chaiff ei drin, bydd sepsis yn achosi methiant organau lluosog a marwolaeth. Mae gan sioc septig gyfradd marwolaethau o 50 y cant. Mae adnabod arwyddion a symptomau sepsis yn allweddol i sicrhau bod pobl yn cael mynediad at yr ymyriadau amserol, sylfaenol a chost-effeithiol sy'n achub bywydau. Yn y DU, amcangyfrifir bod 100,000 o achosion o sepsis, sy'n achosi dros 37,000 o farwolaethau bob blwyddyn. Yng Nghymru, mae hynny'n cyfateb i 5,000 o achosion o sepsis ac o gwmpas 1,850 o farwolaethau. Mae'n gyflwr sy'n lladd mwy o bobl na chanser y fron, canser y coluddyn a chanser y prostad wedi'u cyfuno. Mae cyfradd marwolaethau sepsis yn gyfartal â damweiniau ar y ffyrdd, ac eto rydym yn clywed cyn lleied am y peth neu'r gwaith arloesol sy'n digwydd yng Nghymru i wella adnabod sepsis ac, wrth gwrs, y driniaeth a'r canlyniadau.

Early recognition is crucial to life-saving treatment and making sure the patient has basic care, including antibiotics and fluids, within the first hour. That's why the Sepsis Six has been developed; it consists of three diagnostic tests and three therapeutic steps, all to be delivered within that first hour of the initial diagnosis. Developing tools to help healthcare staff recognise, react and respond to sepsis has been a key priority in Wales. This is a major programme of work, which has been supported by the 1000 Lives Improvement campaign. In 2012, Wales was the first healthcare system in the world to implement the national early-warning score as standard in all acute hospitals, a system that helps healthcare professionals to identify and assess very sick patients.

Mae adnabod yr haint yn gynnar yn hanfodol i driniaeth achub bywydau a sicrhau bod y claf yn cael gofal sylfaenol, gan gynnwys gwrthfiotigau a hylifau, o fewn yr awr gyntaf. Dyna pam y mae'r Sepsis Six wedi cael ei ddatblygu; mae'n cynnwys tri phrawf diagnostig a thri cham therapiwtig, i gyd i gael eu cyflwyno o fewn awr gyntaf y diagnosis cychwynnol. Mae datblygu offer i helpu staff gofal iechyd i adnabod, adweithio ac ymateb i sepsis wedi bod yn flaenoriaeth allweddol yng Nghymru. Mae hon yn rhaglen fawr o waith, sydd wedi cael ei chefnogi gan yr ymgyrch Gwella 1000 o Fywydau. Yn 2012, Cymru oedd y system gofal iechyd gyntaf yn y byd i weithredu'r sgôr rhybudd cynnar cenedlaethol yn safonol ym mhob ysbyty acíwt, system sy'n helpu gweithwyr gofal iechyd proffesiynol i nodi ac asesu cleifion sâl iawn.

We've introduced case-note mortality reviews in all of our acute hospitals—the medical notes of all patients who die in hospital are systematically reviewed to check whether there were any quality issues associated with their care. This not only provides a level of reassurance about care quality, but it also identifies themes and areas for improvements. Sepsis care has emerged as a theme from these reviews in each of our health boards. This has enabled NHS Wales to target improvements in the rapid identification of and response to sepsis. We are now seeing the results of this significant work. I'm pleased to be able to announce that a recent analysis of Welsh patient episode statistics, and the two particular classifications used to identify sepsis, has shown a significant reduction in the percentage of deaths from sepsis from 29 per cent to 24 per cent. Now, that 5 per cent reduction equates to as many as 500 fewer people a year dying from sepsis in Wales, and there appears to be a link between this huge improvement, the implementation of the national early-warning score in all Welsh hospitals and the participation of all health boards and NHS trusts in the 1000 Lives rapid response to acute illness programme.

Rydym wedi cyflwyno adolygiadau o farwolaethau nodiadau achos ym mhob un o'n hysbytai acíwt—nodiadau meddygol pob claf sy'n marw yn yr ysbyty a adolygwyd yn systematig i wirio a oedd unrhyw faterion ansawdd yn gysylltiedig â'u gofal. Mae hyn nid yn unig yn darparu lefel o sicrwydd am ansawdd gofal, ond mae hefyd yn nodi themâu a meysydd ar gyfer gwella. Mae gofal Sepsis wedi dod i'r amlwg fel thema o'r adolygiadau hyn ym mhob un o'n byrddau iechyd. Mae hyn wedi galluogi GIG Cymru i dargedu gwelliannau mewn adnabod ac ymateb cyflym i sepsis. Rydym yn awr yn gweld canlyniadau'r gwaith sylweddol hwn. Rwy'n falch o allu cyhoeddi bod dadansoddiad diweddar o ystadegau cyfnodau gofal cleifion yng Nghymru, a'r ddau ddosbarth penodol a ddefnyddir i nodi sepsis, wedi dangos gostyngiad sylweddol yn y ganran o farwolaethau o sepsis o 29 y cant i 24 y cant. Yn awr, mae'r gostyngiad o 5 y cant yn cyfateb i gymaint â 500 yn llai o bobl y flwyddyn yn marw o sepsis yng Nghymru, ac mae'n ymddangos bod cysylltiad rhwng y gwelliant mawr hwn, gweithredu'r sgôr rhybudd cynnar cenedlaethol ym mhob ysbyty yng Nghymru a chyfranogiad yr holl fyrddau iechyd ac ymddiriedolaethau'r GIG yn y rhaglen ymateb cyflym 1000 o Fywydau i salwch llym.

The quality of care is also key to improving the treatment of sepsis. Critical care outreach teams—which are made up of expert clinicians who educate other hospital staff about early sepsis recognition and treatment, and provide a rapid response to patients with sepsis—have played an important role in preventing sepsis in patients. We now expect this to be a focus in all health boards' critical care improvement plans.

Mae ansawdd y gofal hefyd yn allweddol i wella trin sepsis. Mae timau allgymorth gofal critigol—sy'n cynnwys clinigwyr arbenigol sy'n addysgu staff eraill yr ysbyty am adnabod a thriniaeth sepsis gynnar, ac sy'n darparu ymateb cyflym i gleifion sydd â sepsis—wedi chwarae rhan bwysig wrth atal sepsis mewn cleifion. Rydym bellach yn disgwyl i hyn fod yn ffocws mewn cynlluniau gwella gofal critigol pob bwrdd iechyd.

Our delivery plan for critical care has been developed with clinicians to improve services and outcomes for the most seriously ill patients. The second annual report, which was published in August, shows that survival rates are improving: 83 per cent of patients were discharged to another ward in the last year, up from 79 per cent in 2011-12. Readmission rates to critical care within 48 hours are very low, at less than 1 per cent. This highlights the effectiveness of the care provided by our NHS, through discharge and beyond, into community-based NHS care.

Mae ein cynllun cyflawni ar gyfer gofal critigol wedi cael ei ddatblygu gyda chlinigwyr i wella gwasanaethau a chanlyniadau ar gyfer y cleifion mwyaf difrifol wael. Mae'r ail adroddiad blynyddol, a gyhoeddwyd ym mis Awst, yn dangos bod cyfraddau goroesi yn gwella: cafodd 83 y cant o gleifion eu rhyddhau i ward arall yn y flwyddyn ddiwethaf, i fyny o 79 y cant yn 2011-12. Mae cyfraddau aildderbyn i ofal critigol o fewn 48 awr yn isel iawn, yn llai nag un y cant. Mae hyn yn amlygu effeithiolrwydd y gofal a ddarperir gan ein GIG, trwy ryddhau a thu hwnt, i mewn i ofal y GIG yn y gymuned.

If we are to reduce avoidable deaths from sepsis we cannot just look at what happens in one part of our health service in isolation; we have to look at what happens right across the NHS. That requires healthcare professionals from primary care and different parts of the hospital network to work together. We've achieved much in a short space of time in Wales, but we know that there's still a lot more that we can do to build on this success. This is a process of continual learning and improvement.

Os ydym am leihau marwolaethau y gellir eu hosgoi o sepsis ni allwn ddim ond edrych ar yr hyn sy'n digwydd mewn un rhan o'n gwasanaeth iechyd ar ei ben ei hun; mae'n rhaid i ni edrych ar yr hyn sy'n digwydd ar draws y GIG. Mae hynny'n gofyn am weithwyr gofal iechyd proffesiynol o ofal sylfaenol a gwahanol rannau o'r rhwydwaith ysbytai i weithio gyda'i gilydd. Rydym wedi cyflawni llawer mewn cyfnod byr o amser yng Nghymru, ond rydym yn gwybod bod llawer mwy yn dal i fod y gallwn ei wneud i adeiladu ar y llwyddiant hwn. Mae hon yn broses barhaus o ddysgu a gwelliant.

The introduction of sepsis bags and boxes, which makes the basic equipment and medicines for rapid treatment available in one place, in some hospital wards has been pioneering, but that needs to be available in every hospital, together with the knowledge about how to recognise the Sepsis Six. Providing the right care at the right time and in the right place isn't limited to one episode of care.

Mae cyflwyno bagiau a blychau sepsis, sy'n sicrhau bod cyfarpar a meddyginiaethau sylfaenol ar gyfer triniaeth gyflym ar gael mewn un lle, mewn rhai wardiau ysbyty wedi bod yn arloesol. Ond mae angen i hynny fod ar gael ym mhob ysbyty, ynghyd â'r wybodaeth ynglŷn â sut i adnabod y Sepsis Six. Nid yw darparu'r gofal cywir ar yr adeg iawn ac yn y lle iawn yn gyfyngedig i un cyfnod gofal.

We know that many patients are admitted through emergency departments and medical admissions units with sepsis, having experienced delays in recognising the symptoms in the community and consequential delays to treatment. It's essential that work to recognise sepsis early in our hospitals is shared with our community services, including the Welsh ambulance service. We need to follow up patients with sepsis and assess their longer-term outcomes. The integrated healthcare system we have in Wales provides us with the platform to do just that.

Rydym yn gwybod bod llawer o gleifion yn cael eu derbyn trwy adrannau achosion brys ac unedau derbyniadau meddygol gyda sepsis, wedi profi oedi mewn adnabod symptomau yn y gymuned ac oedi canlyniadol cyn triniaeth. Mae'n hanfodol bod y gwaith o adnabod sepsis yn gynnar yn ein hysbytai yn cael ei rannu gyda'n gwasanaethau cymunedol, gan gynnwys gwasanaeth ambiwlans Cymru. Mae angen mynd ar ôl cleifion â sepsis ac asesu eu canlyniadau tymor hwy. Mae'r system gofal iechyd integredig sydd gennym yng Nghymru yn rhoi llwyfan i wneud hynny.

I had the pleasure of hosting the first Wales sepsis reception here in the Senedd last week. The UK Sepsis Trust, with clinicians from across Wales and sepsis survivors, set out the scale of the challenge. They also recognised the commitment of our clinicians to continue making a difference and to continue to seek further improvement. The hard work of everyone in developing and implementing sepsis screening tools and care bundles is making a difference to the care we provide to people across Wales and is saving lives. This must be now our consistent response to every acutely-ill patient. I'd like to congratulate our NHS on this tremendous and world-class achievement. We should be proud of what our NHS has achieved and celebrate the fact that Wales is a country that is leading the way across the world with sepsis care and treatment. I'm determined that we maintain this progress and continue to lead the way in tackling this major cause of harm and mortality.

Cefais y pleser o gynnal derbyniad sepsis cyntaf Cymru yma yn y Senedd yr wythnos diwethaf. Disgrifiodd Ymddiriedolaeth Sepsis y DU, gyda chlinigwyr o bob cwr o Gymru a goroeswyr sepsis, faint yr her. Roeddent hefyd yn cydnabod ymrwymiad ein clinigwyr i barhau i wneud gwahaniaeth ac i barhau i geisio gwelliant pellach. Mae gwaith caled pawb wrth ddatblygu a gweithredu offer sgrinio sepsis a bwndeli gofal yn gwneud gwahaniaeth i'r gofal a ddarparwn i bobl ar draws Cymru ac mae'n achub bywydau. Dylai hyn bellach fod yn ymateb cyson gennym i bob claf sy'n ddifrifol wael. Hoffwn i longyfarch ein GIG ar y llwyddiant aruthrol hwn o safon fyd-eang. Dylem fod yn falch o'r hyn y mae ein GIG wedi ei gyflawni a dathlu'r ffaith bod Cymru yn wlad sy'n arwain y ffordd ar draws y byd gyda gofal a thriniaeth sepsis. Rwy'n benderfynol ein bod yn cynnal y cynnydd hwn ac yn parhau i arwain y ffordd wrth fynd i'r afael â'r achos pwysig hwn o niwed a marwolaeth.

16:47

## Darren Millar Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

Thank you, Deputy Minister, for your statement. Like you, I want to start my contribution by paying tribute to the hard work of national health service staff, and indeed the UK Sepsis Trust, for their efforts in highlighting the danger that sepsis presents to patients, and the work that they have done to reduce the incidence of mortality from sepsis here in Wales, and indeed, in respect of the UK Sepsis Trust, elsewhere as well across the UK.

Diolch, Ddirprwy Weinidog, am eich datganiad. Fel chi, rwyf am ddechrau fy nghyfraniad drwy dalu teyrnged i waith caled staff y gwasanaeth iechyd gwladol, ac yn wir Ymddiriedolaeth Sepsis y DU, am eu hymdrechion i dynnu sylw at y perygl y mae sepsis yn ei gyflwyno i gleifion, a'r gwaith y maent wedi'i wneud i leihau nifer yr achosion o farwolaethau o sepsis yma yng Nghymru, ac yn wir, o ran Ymddiriedolaeth Sepsis y DU, mewn mannau eraill hefyd ar draws y DU.

I first became aware of the efforts through the 1000 Lives Campaign as a result of a visit to Glan Clwyd Hospital, where I saw at first hand the use of the new scorecards, which were being used at that hospital as part of the pilot scheme that was then rolled out across the country. I know how effective it was at preventing a number of deaths in that hospital from sepsis. So, I'm very pleased to see that that is now embedded, particularly into our emergency departments where, very often, the first signs of sepsis are picked up.

Deuthum yn ymwybodol o'r ymdrechion am y tro cyntaf drwy'r Ymgyrch 1000 o Fywydau yn sgil ymweliad ag Ysbyty Glan Clwyd, lle y gwelais â'm llygaid fy hun y defnydd o'r cardiau sgorio newydd, a oedd yn cael eu defnyddio yn yr ysbyty hwnnw fel rhan o'r cynllun peilot a gafodd ei gyflwyno wedyn ar draws y wlad. Rwy'n gwybod pa mor effeithiol yr oedd mewn atal nifer o farwolaethau o sepsis yn yr ysbyty hwnnw. Felly, rwy'n falch iawn o weld bod hynny bellach wedi'i ymsefydlu, yn enwedig yn ein hadrannau achosion brys lle, yn aml iawn, mae'r arwyddion cyntaf o sepsis yn cael eu codi.

I've got a few questions, though, Minister, as you might imagine. I am concerned. You make reference to critical care in your statement. Of course, we do know that there are concerns—and there have been for some time—about the capacity that we have in Wales in terms of critical care beds, and, notwithstanding the fact that there have been some new investments into critical care over the past few years, I know that those concerns about capacity still exist, particularly amongst the critical care consultants around Wales. I wonder whether you could provide us with an update on whether you feel now, as a Government, that the capacity within our critical care system meets the demands that are being placed upon it, because I don't see any evidence that that balance—the correct balance—has been struck to date.

Mae gen i ychydig o gwestiynau, fodd bynnag, Weinidog, fel y gallech ddychmygu. Rwy'n poeni. Rydych yn cyfeirio at ofal critigol yn eich datganiad. Wrth gwrs, rydym yn gwybod bod pryderon—a bu pryderon am beth amser—ynghylch y capasiti sydd gennym yng Nghymru o ran gwelyau gofal critigol, ac, er gwaethaf y ffaith y cafwyd rhai buddsoddiadau newydd mewn gofal critigol yn ystod yr ychydig flynyddoedd diwethaf, gwn fod y pryderon hynny am gapasiti yn dal i fodoli, yn enwedig ymhlith yr ymgynghorwyr gofal critigol o amgylch Cymru. Tybed a allech chi roi'r wybodaeth ddiweddaraf i ni ar p'un a ydych yn teimlo erbyn hyn, fel Llywodraeth, bod y capasiti o fewn ein system gofal critigol yn bodloni'r gofynion sy'n cael eu gosod arni, oherwydd nid wyf yn gweld unrhyw dystiolaeth bod y cydbwysedd hwnnw—y cydbwysedd cywir—wedi cael ei daro hyd yn hyn.

You also make reference to the sepsis bags and boxes. Again, you have suggested that it's up to the NHS to get these things rolled out across the board so that they feature everywhere because it is good practice, but why aren't you issuing ministerial guidance requiring that these things are on every single ward so that there is speedy access to the resources within those bags and boxes in the event of sepsis being identified as a result of the new scores when they are worked out?

Rydych hefyd yn cyfeirio at y bagiau a'r blychau sepsis. Unwaith eto, rydych wedi awgrymu mai mater i'r GIG yw cael y pethau hyn wedi'u cyflwyno yn gyffredinol fel eu bod yn nodwedd ym mhob man oherwydd ei fod yn arfer da. Ond pam nad ydych yn cyhoeddi canllawiau gweinidogol sy'n ei gwneud yn ofynnol bod y pethau hyn ar bob ward, fel bod mynediad cyflym at yr adnoddau o fewn y bagiau a'r blychau hynny mewn achos o sepsis yn cael ei nodi o ganlyniad i'r sgoriau newydd pan gânt eu cyfrifo?

Can you also tell us—. You mentioned the mortality reviews and the fact that those mortality reviews had identified some changes in practice that might be necessary as a result of sepsis. Can you tell us how many of those mortality reviews identified sepsis as an issue for which improvements could have been made and, in particular, whether any of those cases involve hospital-acquired infections? You, as Deputy Minister, will be aware that, whilst the national health service has been reporting reductions in MRSA, E. coli infections and other hospital-acquired infections, which is obviously very welcome—and clostridium difficile infections, which is obviously very welcome—unfortunately, the veracity, the quality, of information that some health boards have provided we know has been questionable, particularly given the governance work that was done by the Wales Audit Office and Healthcare Inspectorate Wales in north Wales, which suggested that the information that was flowing back to the Welsh Government from that health board was clearly inaccurate and wasn't properly recording the number of incidents of hospital-acquired infection, which, unfortunately, led to some deaths in that region.

A allwch chi hefyd ddweud wrthym—.  Soniasoch am yr adolygiadau marwolaethau a'r ffaith bod yr adolygiadau marwolaethau hynny wedi nodi rhai newidiadau mewn arferion a allai fod yn angenrheidiol o ganlyniad i sepsis. A allwch chi ddweud wrthym faint o'r adolygiadau marwolaethau hynny a nododd sepsis fel mater y gellid bod wedi gwneud gwelliannau ar ei gyfer ac, yn benodol, p'un a yw unrhyw un o'r achosion hynny yn cynnwys heintiau a gafwyd yn yr ysbyty? Byddwch chi, fel Dirprwy Weinidog, yn ymwybodol, tra bod y gwasanaeth iechyd gwladol wedi bod yn adrodd am ostyngiadau mewn MRSA, heintiau E. coli a heintiau eraill a geir mewn ysbytai, sydd yn amlwg i'w groesawu'n fawr—a heintiau clostridium difficile sydd yn amlwg i'w groesawu'n fawr—yn anffodus, gwyddom fod cywirdeb, fod ansawdd, y wybodaeth y mae rhai byrddau iechyd wedi'i darparu wedi bod yn amheus, yn enwedig o ystyried y gwaith llywodraethu a wnaethpwyd gan Swyddfa Archwilio Cymru ac Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru yn y gogledd, a oedd yn awgrymu bod y wybodaeth sydd yn llifo yn ôl i Lywodraeth Cymru o'r bwrdd iechyd yn amlwg yn anghywir ac nid oedd yn cofnodi yn iawn y nifer o achosion o heintiau a geir mewn ysbytai, sydd, yn anffodus, wedi arwain at rai marwolaethau yn y rhanbarth hwnnw.

So, perhaps you can answer those specific questions. But I do welcome the progress that has been made. It's wonderful to see that hundreds of deaths have been prevented so far as a result of this important work. I want to commend those staff once again for the efforts that they have made, and I want to see what we can do to further improve these results so that we can see fewer sepsis deaths in future.

Felly, efallai y gallwch ateb y cwestiynau penodol hynny. Ond rwy'n croesawu'r cynnydd sydd wedi cael ei wneud. Mae'n wych gweld bod cannoedd o farwolaethau wedi cael eu hatal hyd yn hyn o ganlyniad i'r gwaith pwysig hwn. Rwyf am ganmol y staff hynny unwaith eto am yr ymdrechion y maent wedi'u gwneud, ac rwyf am weld beth y gallwn ei wneud i wella'r canlyniadau hyn ymhellach fel y gallwn weld llai o farwolaethau sepsis yn y dyfodol.

16:51 **Vaughan Gething** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

Thank you for the questions and the recognition of the issue. When I met with clinicians and sepsis survivors last week, one of the points that came up quite frequently in the conversation was awareness of the condition—not just public awareness but, in particular, awareness among the wider clinical community in both secondary care and also within the community as well. Unfortunately, a large part of the reason why significant harm or mortality occurs is that people aren't aware, potentially, of the nature of the condition. There was one particularly affecting patient story of a teenager who died and wasn't aware until far too late that it was potentially an issue. So, there is still a way to go in having a much greater level of awareness among the public and our clinical community of the condition itself.

Diolch am y cwestiynau a'r gydnabyddiaeth o'r mater. Pan gyfarfûm â chlinigwyr a goroeswyr sepsis yr wythnos diwethaf, un o'r pwyntiau a gododd yn eithaf aml yn y sgwrs oedd ymwybyddiaeth o'r cyflwr—nid dim ond ymwybyddiaeth gyhoeddus, ond, yn arbennig, ymwybyddiaeth ymhlith y gymuned glinigol ehangach mewn gofal eilaidd a hefyd o fewn y gymuned yn ogystal. Yn anffodus, rhan fawr o'r rheswm pam mae niwed neu farwolaethau sylweddol yn digwydd yw nad yw pobl yn ymwybodol, o bosibl, o natur y cyflwr. Roedd un stori gafodd effaith arbennig am glaf yn ei arddegau a fu farw ac nad oedd yn ymwybodol tan yn llawer rhy hwyr ei bod o bosibl yn broblem. Felly, mae llawer i'w wneud eto i godi mwy o ymwybyddiaeth ymysg y cyhoedd a'n cymuned glinigol o'r cyflwr ei hun.

Turning to the questions, in terms of the specific concerns that you ended on, and case note mortality reviews, this is a process that puts us at the forefront of understanding the quality of care that's provided and properly reviewing and learning where we can make improvements. In my statement, I indicated that, from patient episode statistics, we have seen a fall in the number of sepsis deaths. Now, if you've got particular concerns about the way in which case note mortality reviews are being undertaken, I'll happily deal with those and take those up in writing, and I'll happily talk to you outside this meeting. The point is that the reviews have to be accurate and have to lead to a level of shared learning and understanding. It's not about trying to hold people accountable in the sense of going after people. It's really, 'What's happened? How can we understand how we got to that point? And how do we then improve the quality of care that's being delivered right through the NHS system?' That's why we've invested in understanding the way in which IT talks to each other and the way we can have a much more joined-up and integrated system between primary community care and secondary care as well, because, sadly, there are particular barriers that still exist in having the right information provided to the clinician providing care at that time.

Gan droi at y cwestiynau, o ran y pryderon penodol y gwnaethoch orffen arnynt, ac adolygiadau o farwolaethau nodiadau achos, mae hon yn broses sy'n ein rhoi ar flaen y gad o ran deall ansawdd y gofal sy'n cael ei ddarparu ac adolygu a dysgu'n briodol lle y gallwn wneud gwelliannau. Yn fy natganiad, nodais, o ystadegau cyfnod gofal cleifion, ein bod wedi gweld gostyngiad yn nifer y marwolaethau o sepsis. Yn awr, os oes gennych bryderon arbennig am y ffordd y mae adolygiadau o farwolaethau nodiadau achos yn cael eu cynnal, byddaf yn hapus yn delio â hynny ac ymdrin â'r rheini yn ysgrifenedig, a byddaf yn hapus yn siarad â chi y tu allan i'r cyfarfod hwn. Y pwynt yw bod yn rhaid i adolygiadau fod yn gywir a rhaid iddynt arwain at lefel o ddysgu a dealltwriaeth a rennir. Nid yw'n ymwneud â cheisio dal pobl yn atebol yn yr ystyr o fynd ar ôl pobl. Mae'n wir yn fater o, 'Beth sydd wedi digwydd? Sut y gallwn ni ddeall sut y cyrhaeddwyd y pwynt hwnnw? A sut yr ydym wedyn yn gwella ansawdd y gofal sy'n cael ei ddarparu drwy system y GIG yn gyfan gwbl?' Dyna pam ein bod wedi buddsoddi mewn deall y ffordd y mae TG yn cyfathrebu a'r ffordd y gallwn gael system llawer mwy cydgysylltiedig ac integredig rhwng gofal cymunedol sylfaenol a gofal eilaidd hefyd, oherwydd, yn anffodus, mae rhwystrau penodol sy'n dal i fodoli o ran darparu'r wybodaeth gywir i'r clinigydd sy'n darparu gofal ar y pryd.

On your broader point about critical care and intensive care, the biggest part of our challenge, as we recognise from expert reviews done within this Assembly term, was making the best use of the capacity that we have. I also recognise the issues that have been highlighted, from the time that I was on the Health and Social Care Committee through to now, about whether we have capacity and demand properly matched. So, I won't try and pretend to anyone here or otherwise that we understand the perfect mix we have now and it's where we want it to be. The challenge is: how do we, within the financial envelope and the resource envelope, in terms of the human resources that we have, with the staff that we have in the system, and the ability to invest in different parts of the service, ensure that we have the right capacity in the right place? Because that's part of our challenge, in terms of, 'Where is that?' Interestingly, when I had my late-night odyssey, going through the different out-of-hours services in north Wales—I visited all three major sites in the one evening, which was a challenge, but really quite inspirational, seeing the commitment of staff and also the improvement that they are making to out-of-hours services in north Wales—I had an opportunity to see some of the investment that's been made in Glan Clwyd with the new intensive care and to see the step change in improvement. It really is a significant improvement for patients and for staff.

O ran eich pwynt ehangach ynglŷn â gofal critigol a gofal dwys, y rhan fwyaf o'n her, fel yr ydym yn cydnabod o adolygiadau arbenigol a wnaed o fewn tymor y Cynulliad hwn, oedd gwneud y defnydd gorau o'r adnoddau sydd gennym. Rwyf hefyd yn cydnabod y materion y tynnwyd sylw atynt, o'r amser pan oeddwn ar y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol hyd at nawr, ynghylch a oes gennym gapasiti a galw sy'n cyfateb yn briodol. Felly, ni fyddaf yn ceisio esgus i unrhyw un yma neu fel arall ein bod yn deall y cymysgedd perffaith sydd gennym yn awr a dyma lle rydym am iddo fod. Yr her yw: sut yr ydym, o fewn yr amlen ariannol a'r amlen adnoddau, o ran yr adnoddau dynol sydd gennym, gyda'r staff sydd gennym yn y system, a'r gallu i fuddsoddi mewn gwahanol rannau o'r gwasanaeth, yn sicrhau bod gennym y capasiti iawn yn y lle iawn? Oherwydd dyna ran o'n her, o ran, 'Ble mae hynny?' Yn ddiddorol, pan gefais fy nhaith hwyr y nos, yn mynd drwy'r gwahanol wasanaethau y tu allan i oriau arferol yn y gogledd—ymwelais â phob un o'r tri safle mawr ar yr un noson, a oedd yn her, ond mewn gwirionedd yn eithaf ysbrydoledig, gan weld ymrwymiad staff a hefyd y gwelliant y maent yn ei wneud i wasanaethau y tu allan i oriau yn y gogledd—cefais gyfle i weld rhywfaint o'r buddsoddiad sydd wedi cael ei wneud yng Nglan Clwyd gyda'r gofal dwys newydd a gweld y newid sylweddol mewn gwelliant. Mae wir yn welliant sylweddol i gleifion ac i staff.

So, there is ongoing investment; this isn't a case of refusing to recognise a challenge that exists and not investing in the service. The challenge always is: how do we understand what works, how do we understand what we need to do better, and where can we and should we invest to improve the service and, of course, the working environment for staff? And that goes into this broader point about reviewing progress. A key to the improvement we've seen has been the work of 1000 Lives, the buy-in of clinicians in understanding the evidence of what works, and then progressively spreading that out, and that's what I'm particularly keen to see. I want to see a more demanding approach taken in each of our centres, and a greater level of understanding and the use of evidence right across the clinical community to continue improving care in this area and to continue saving lives.

Felly, mae'r buddsoddiad yn barhaus; nid yw hyn yn fater o wrthod cydnabod her sy'n bodoli a pheidio â buddsoddi yn y gwasanaeth. Yr her bob amser yw: sut allwn ni ddeall beth sy'n gweithio, sut yr ydym yn deall yr hyn y mae angen i ni ei wneud yn well, a lle y gallwn ac y dylem fuddsoddi i wella'r gwasanaeth ac, wrth gwrs, yr amgylchedd gwaith ar gyfer staff? Ac mae hynny'n mynd i mewn i'r pwynt ehangach hwn am adolygu cynnydd. Yn allweddol i'r gwelliant yr ydym wedi'i weld fu gwaith 1000 o Fywydau, ymrwymo clinigwyr o ran deall y dystiolaeth o'r hyn sy'n gweithio, ac yna cyflwyno hynny yn raddol, a dyna beth rwy'n awyddus iawn i'w weld. Rwyf am weld dull mwy heriol o weithredu ym mhob un o'n canolfannau, a lefel uwch o ddealltwriaeth a'r defnydd o dystiolaeth ar draws y gymuned glinigol i barhau i wella gofal yn y maes hwn ac i barhau i achub bywydau.

16:55 **Elin Jones** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Diolch i'r Dirprwy Weinidog am ei ddatganiad. Wnaf i ddim ailadrodd pwysigrwydd y pwnc yma, gan fod hynny wedi cael ei amlinellu yn y datganiad eisoes ac mae'n bwysig ein bod ni'n ymwybodol iawn o berygl sepsis a'r ffaith bod sepsis ei hunan yn mynd â chymaint yn fwy o fywydau pobl na'r rhai sy'n wynebu rhai o'r clefydau yr ydym ni'n fwy cyfarwydd â'u trafod yn y Cynulliad yma, ac felly rwy'n croesawu'r camau sydd wedi eu cymryd i leihau sepsis yn ein poblogaeth ni ac yn ein hysbytai ni. Mae'n ymddangos fel bod y camau sydd wedi eu cymryd yn dwyn ffrwyth.

I thank the Deputy Minister for his statement. I won't rehearse the importance of this issue, as that has been outlined already in the statement and it is important that we should be very aware of the risk posed by sepsis and the fact that sepsis itself does take the lives of so many more people than some of those diseases that we may be more familiar with discussing in this Assembly, and therefore I welcome the steps that have been taken to reduce instances of sepsis among our population and within our hospitals. It appears that the steps taken are coming to fruition.

Cwpwl o gwestiynau, felly: yn gyntaf, rŷch chi'n amlinellu cynlluniau cenedlaethol fan hyn, gydag 'outcomes' cenedlaethol yn gysylltiedig â nhw. Wrth gwrs, pan ydym ni'n edrych ar y gwaith o gwmpas 'mortality reviews', rŷm ni'n ymwybodol bod yna wahaniaethau wedi amlygu ar hynny rhwng gwahanol ysbytai yng Nghymru ar hyd y blynyddoedd diwethaf yma. Felly, roeddwn i'n meddwl: a ydy'n bosibl ichi roi rhyw fath o amlinelliad i ni'r prynhawn yma o ran lle ŷch chi'n meddwl y mae arfer da a lle mae'r gwaith yma'n gweithio'n well nag unrhyw ardaloedd eraill yng Nghymru lle nad yw'r 'progress' wedi bod cystal? Achos y patrwm rŷm ni'n gyfarwydd ag e, ac rŷch chi yn bendant yn gyfarwydd ag e fel Dirprwy Weinidog, yw nad ŷm ni wastad yn gweld pictiwr cyson ar hyd Cymru yng nghyd-destun maes fel hyn, ac felly efallai yr hoffech chi wneud rhai sylwadau am gysondeb y gwelliannau yma yr ŷch chi wedi eu hamlinellu drwy Gymru.

I do have a few questions, therefore: first of all, you have outlined national plans here, with national outcomes related to them. Of course, when we look at work around mortality reviews, we are aware that there are differences that have emerged there between different hospitals in Wales over the past few years. Therefore, I was wondering whether it would be possible for you to give us some idea this afternoon of where you think there is good practice and where this work is more effective than in other areas of Wales where progress perhaps hasn't been as swift. Because the pattern that we're familiar with, and you're certainly familiar with as Deputy Minister, is that we don't always see consistency across Wales in the context of an area such as this one, and so perhaps you may have some comments to make on the consistency of the improvements that you have highlighted throughout Wales.

Wedyn, dim ond yn gyflym iawn ar y pwysigrwydd rŷch chi wedi ei nodi yn y datganiad ynglŷn ag ymwybyddiaeth mewn gwasanaethau yn y gymuned, meddygfeydd teulu, a'r gwasanaeth ambiwlans hefyd, beth yw'r camau, gan fod y meysydd yna a'r gweithlu yna mor wasgaredig? Beth yw'r camau ymarferol rŷch chi'n eu cymryd fel Llywodraeth, fel NHS, i sicrhau bod ymwybyddiaeth o'r haint yma, y clefyd yma, yna yn gynnar wrth asesu unrhyw unigolyn, a sut ŷm ni'n gallu taclo hyn yn y gymuned cyn i bobl hyd yn oed gyrraedd ysbytai?

Very briefly then on the importance that is noted in the statement of awareness within community services, GP surgeries, and the ambulance service too, what are the steps, given that those areas and that workforce is so dispersed? What practical steps are you taking as a Government, as the NHS, to ensure that awareness of sepsis is there at an early stage as individuals are assessed, and how can we tackle this in the community before people even get to hospital?

16:58 **Vaughan Gething** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Thank you for the series of questions. I'll start with the point where you started in the commentary. I don't think anyone should take for granted that there will be a rising level of awareness of this condition. Many of us who are here now only learnt properly of the condition during our term in this particular term of the Assembly, so there is still a significant job of work to do in raising awareness, and that's why this statement's been made today, to recognise the need to raise awareness and to recognise the progress that NHS Wales is making.

Diolch i chi am y gyfres o gwestiynau. Byddaf yn dechrau gyda'r pwynt lle'r oeddech yn dechrau yn y sylwebaeth. Nid wyf yn credu y dylai unrhyw un gymryd yn ganiataol y bydd lefel gynyddol o ymwybyddiaeth o'r cyflwr hwn. Mae llawer ohonom sydd yma yn awr ond wedi dysgu'n iawn am y cyflwr yn ystod ein tymor yn y tymor penodol hwn o'r Cynulliad, felly mae gwaith sylweddol i'w wneud o hyd o ran codi ymwybyddiaeth, a dyna pam y mae'r datganiad hwn wedi cael ei wneud heddiw, i gydnabod yr angen i godi ymwybyddiaeth a chydnabod y cynnydd y mae GIG Cymru yn ei wneud.

In terms of your point about mortality reviews and broader improvement, we're seeing improvement on a range of different fronts, and one of the things that I was particularly taken by—. I was in the Rhondda yesterday, visiting an ambulance station, and what was particularly interesting there was that, almost every part of the station you looked, there was a notice about sepsis, and it was very, very visible in a way that, when I started in this Assembly, you didn't see. And so there has been a real raising of the profile from amongst the service. Also, in talking to staff, there is much a greater awareness from the staff themselves about the issues. That gives us cause for being optimistic about the fact that the profile we want it to have is actually starting to go through. If, in that part of the sector, we're seeing more staff being more generally aware of the risk, and of the Sepsis Six and the things to look out for, I think that should give us some comfort, that there is a message getting through—but it's no cause for taking our foot off, in a sense, and thinking that therefore means the job is done. There's a constant need to reinforce the message about the sort of treatment we want to see, including in the community—and I want to recognise it was another point you made, about where do we want to see improvement made. But as I said in my statement, one of the things that we've done is recognise the way that the Sepsis Six has been provided and the way that clinicians are now given a more consistent basis on which to look at and treat patients, but also, nationally, the early warning score as well. The consistent demand to see that delivered across each of our acute hospital sites has been really important in the improvement that's taken place.

O ran eich pwynt am adolygiadau o farwolaethau a gwella ehangach, rydym yn gweld gwelliant ar ystod o wahanol feysydd, ac un o'r pethau wnaeth fy nharo yn arbennig —. Roeddwn i yn y Rhondda ddoe, yn ymweld â gorsaf ambiwlans, a beth oedd yn arbennig o ddiddorol yno oedd, ym mhob rhan o'r orsaf bron lle'r oeddech yn edrych, roedd hysbysiad am sepsis, ac yr oedd yn amlwg iawn, iawn mewn ffordd, pan ddechreuais yn y Cynulliad hwn, nad oeddech yn ei weld. Ac felly bu codi proffil gwirioneddol ymhlith y gwasanaeth. Hefyd, wrth siarad â staff, mae llawer mwy o ymwybyddiaeth gan y staff eu hunain am y materion. Mae hynny'n rhoi achos i ni i fod yn optimistaidd am y ffaith bod y proffil yr ydym am iddo ei gael mewn gwirionedd yn dechrau treiddio drwodd. Os ydym, yn y rhan honno o'r sector, yn gweld mwy o staff yn gyffredinol yn fwy ymwybodol o'r risg, ac o'r Sepsis Six a'r pethau i chwilio amdanynt, rwy'n meddwl y dylai fod yn rhoi rhywfaint o gysur i ni, fod neges yn cael ei chyflwyno—ond does dim achos i dynnu ein troed oddi ar y sbardun, ar un ystyr, a meddwl bod hynny felly yn golygu bod y gwaith wedi ei wneud. Mae angen parhaus i atgyfnerthu'r neges am y math o driniaeth yr ydym am ei gweld, gan gynnwys yn y gymuned—ac rwyf am gydnabod ei fod yn bwynt arall a wnaethoch, ynglŷn â lle yr ydym am weld gwelliant wedi'i wneud. Ond fel y dywedais yn fy natganiad, un o'r pethau yr ydym wedi ei wneud yw cydnabod y ffordd y mae'r Sepsis Six wedi cael eu darparu a'r ffordd y mae clinigwyr yn awr yn cael sail fwy cyson o ran edrych ar gleifion a'u trin, ond hefyd, yn genedlaethol, y rhybudd sgôr cynnar hefyd. Mae'r galw cyson i weld hynny'n cael ei ddarparu ar draws pob un o'n hysbytai acíwt wedi bod yn wirioneddol bwysig yn y gwelliant sy'n digwydd.

At the reception, Chris Hancock from 1000 Lives was able to set out a range of work that's being undertaken, and the fact that clinicians across Wales are recognising the need to do this. Intensive care clinicians recognise this because they see it in the patients who come through for them and they're dealing with the very endgame of it. So, there's a real recognition right across the clinical community about the need to improve. If you're looking for somewhere to look at for impressive practice, the presentation made by Paul Morgan from Cardiff and Vale was very impressive, too. In this sense there's a whole range of clinicians who are very happy to tell you at length what they're doing and what they see, and the improvement they've seen in the last two or three years. Apart from highlighting the reality of the number of people who pass away each year—it would effectively fill the main theatre of the millennium centre, at present—it's also about the recognition that different parts of the system now see their responsibility and the need to do something about it.

Yn y derbyniad, roedd Chris Hancock o 1000 o Fywydau yn gallu nodi ystod o waith sy'n cael ei wneud, a'r ffaith bod clinigwyr ledled Cymru yn cydnabod yr angen i wneud hyn. Mae clinigwyr gofal dwys yn cydnabod hyn oherwydd eu bod yn ei weld yn y cleifion sy'n dod drwyddo ar eu cyfer ac maent yn delio â therfyn chwarae hynny. Felly, mae cydnabyddiaeth go iawn ar draws y gymuned glinigol am yr angen i wella. Os ydych yn chwilio am arfer trawiadol, roedd y cyflwyniad a wnaed gan Paul Morgan o Gaerdydd a'r Fro yn drawiadol iawn hefyd. Yn yr ystyr hwn, mae amrywiaeth eang o glinigwyr sy'n hapus iawn i ddweud wrthych yn fanwl yr hyn maen nhw'n ei wneud a'r hyn y maent yn ei weld, a'r gwelliant y maent wedi ei weld yn y ddwy neu dair blynedd diwethaf. Ar wahân i dynnu sylw at realiti y nifer o bobl sy'n marw bob blwyddyn—byddai'n llenwi prif theatr y ganolfan mileniwm, ar hyn o bryd—mae hefyd yn ymwneud â'r gydnabyddiaeth fod gwahanol rannau o'r system yn awr yn gweld eu cyfrifoldeb a'r angen i wneud rhywbeth am y peth.

So, I wouldn't highlight any particular health board as being a leader. I would highlight individual practice that exists and the fact that 1000 Lives, as a programme, is supposed to be there to deliver that much more consistent approach, and to understand where variation exists. I'm really pleased to see this is being led by the clinical community themselves. This isn't about me deciding, in a ministerial office, 'You will do something about it'. Clinicians are taking ownership of the service themselves, and they're working with the engaged patient groups from the third sector to ensure there is a real drive for further commitment and improvement.

Felly, ni fyddwn yn tynnu sylw at unrhyw fwrdd iechyd penodol fel arweinydd. Byddwn yn tynnu sylw at arfer unigol sy'n bodoli a'r ffaith fod 1000 o Fywydau, fel rhaglen, yno i ddarparu'r dull llawer mwy cyson o weithredu, ac i ddeall lle mae amrywiad yn bodoli. Rwy'n falch iawn o weld hyn yn cael ei arwain gan y gymuned glinigol ei hunain. Nid yw hyn yn ymwneud â fi yn penderfynu, mewn swydd weinidogol, 'Byddwch yn gwneud rhywbeth am y peth'. Mae clinigwyr yn cymryd perchnogaeth o'r gwasanaeth eu hunain, ac maent yn gweithio gyda'r grwpiau cleifion sy'n ymgysylltu o'r trydydd sector i sicrhau bod ymgyrch go iawn i ymrwymiad a gwelliant pellach.

17:02 **Julie Morgan** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

Thank you, Deputy Presiding Officer. I welcome the statement made by the Deputy Minister. It's very encouraging, and there is definite progress. Most of the questions I wanted to ask have been asked, but I want to use the opportunity to draw the Minister's attention to the work of my constituent, Terence Canning, and his family from Llandaff North, who are campaigning to stop people dying from sepsis after the death of his brother, Mark. Mark was a fit and health 41-year-old when he died, leaving behind a wife and a four-year-old daughter. His brother feels that if he'd known about the illness, he could have got treatment in time to save his life. So, his brother now works for the UK Sepsis Trust, and the family campaign to raise awareness. Does the Deputy Minister agree that there is a role for families that have been touched in this way to spread awareness and to use the knowledge that they have and their experiences to raise the profile of this illness, so that what happened o them doesn't happen to so many other people?

Diolch, Ddirprwy Lywydd. Rwy'n croesawu'r datganiad a wnaethpwyd gan y Dirprwy Weinidog. Mae'n galonogol iawn, ac mae cynnydd pendant. Mae'r rhan fwyaf o'r cwestiynau yr oeddwn am eu gofyn wedi cael eu gofyn, ond rwyf am achub ar y cyfle i dynnu sylw'r Gweinidog at waith fy etholwr, Terence Canning, a'i deulu o Ystum Taf, sy'n ymgyrchu i atal pobl rhag marw o sepsis ar ôl marwolaeth ei frawd, Mark. Roedd Mark yn ŵr heini ac iach 41 mlwydd oed pan fu farw, gan adael gwraig a merch pedair blwydd oed ar ei ôl. Mae ei frawd yn teimlo pe bai wedi gwybod am y salwch, gallai fod wedi cael triniaeth mewn pryd i achub ei fywyd. Felly, mae ei frawd yn awr yn gweithio i Ymddiriedolaeth Sepsis y DU, ac mae'r teulu yn ymgyrchu i godi ymwybyddiaeth. A yw'r Dirprwy Weinidog yn cytuno bod rôl i deuluoedd sydd wedi cael eu cyffwrdd yn y modd hwn i ledaenu ymwybyddiaeth ac i ddefnyddio'r wybodaeth sydd ganddynt a'u profiadau i godi proffil y salwch hwn, fel na fydd yr hyn a ddigwyddodd iddyn nhw yn digwydd i gymaint o bobl eraill?

17:03 **Vaughan Gething** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

Yes, and I thank the Member for pointing out that particular individual and the example. He represents many other families in the same position. I met Terence Canning and his mother last week. She was a very impressive woman as well. It was particularly striking that his brother Mark died when he was 41, as you say; I'm 41, and it did reinforce some of the points about how different people are taken at different points in their life, and how quickly that happened as well, because of the lack of recognition of his condition. It really does reinforce the point, not just about the fact that there are a number of people who are aware of the condition because it affected them, but the broader public and the need to raise awareness too. Terence Canning is a really inspiring example of someone who's prepared to do something, and his work here in Wales and across the UK is not just inspiring for other patient groups and other individuals; clinicians respond to the passion and the engagement that he's provided. I hope that in the future there'll be a further opportunity for Terence Canning to come here to explain the work that he has done, again with clinicians, over this next year, and to explain the further levels of improvement that they want to see, because whilst those stories are inspirational about the things that people give, it also reminds us why we want to see further improvement, so that more people aren't put in his position of losing a brother and seeing a family bereaved at that point in their lives. A truly inspirational man. I didn't realise at the time that he was one of your constituents, but I certainly do now.

Ydw, ac rwy'n diolch i'r Aelod am dynnu sylw at yr unigolyn penodol a'r esiampl. Mae'n cynrychioli llawer o deuluoedd eraill yn yr un sefyllfa. Cyfarfûm â Terence Canning a'i fam yr wythnos diwethaf. Roedd hithau'n wraig drawiadol iawn hefyd. Roedd yn arbennig o drawiadol bod ei frawd Mark wedi marw pan oedd yn 41, fel y dywedwch; rwy'n 41, ac yr oedd yn atgyfnerthu rhai o'r pwyntiau ynghylch sut y mae gwahanol bobl yn cael eu cymryd ar wahanol adegau yn eu bywyd, a pha mor gyflym y digwyddodd hefyd, oherwydd y diffyg cydnabyddiaeth am ei gyflwr. Mae'n wir yn atgyfnerthu'r pwynt, nid dim ond am y ffaith bod nifer o bobl sy'n ymwybodol o'r cyflwr oherwydd ei fod wedi effeithio arnynt, ond y cyhoedd ehangach a'r angen i godi ymwybyddiaeth hefyd. Mae Terence Canning yn enghraifft wirioneddol ysbrydoledig o rywun sy'n barod i wneud rhywbeth, ac mae ei waith yma yng Nghymru ac ar draws y DU nid yn unig yn ysbrydoledig ar gyfer grwpiau cleifion eraill ac unigolion eraill; mae clinigwyr yn ymateb i'r angerdd a'r ymrwymiad y mae wedi'u darparu. Rwy'n gobeithio yn y dyfodol y bydd cyfle pellach i Terence Canning ddod yma i esbonio'r gwaith y mae wedi'i wneud, eto gyda chlinigwyr, yn ystod y flwyddyn nesaf, ac i egluro'r lefelau pellach o welliant y maent am ei weld, oherwydd er bod y straeon hynny yn ysbrydoledig am y pethau y mae pobl yn ei roi, mae hefyd yn ein hatgoffa pam ein bod am weld gwelliant pellach, fel na fydd mwy o bobl yn cael eu rhoi yn ei sefyllfa ef o golli brawd a gweld teulu mewn profedigaeth ar y pwynt hwnnw yn eu bywydau. Dyn gwirioneddol ysbrydoledig. Nid oeddwn yn sylweddoli ar y pryd ei fod yn un o'ch etholwyr, ond rwyf yn sicr yn sylweddoli hynny yn awr.

17:05 **Kirsty Williams** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

Can I thank the Deputy Minister for his statement this afternoon? Deputy Minister, you will be aware that, if the symptoms of sepsis are spotted early enough, a patient can in many cases avoid a stay in hospital altogether. Your statement this afternoon has recognised the need for a better understanding in primary care of the symptoms and treatment of sepsis. Yet, it seems that the statistics that you've quoted—they are very welcome statistics—demonstrate progress we're making in a secondary care setting. Are you, as a Welsh Government, measuring how many cases of sepsis that end up in secondary care, often in intensive care or high dependency units, were missed at an earlier opportunity, potentially in primary care, so that we have an idea about whether the aims of your campaign and the aims of the work that's being carried out to try and develop better early diagnosis is actually making a difference?

A gaf i ddiolch i'r Dirprwy Weinidog am ei ddatganiad y prynhawn yma? Ddirprwy Weinidog, byddwch yn ymwybodol, os bydd y symptomau sepsis yn cael eu gweld yn ddigon cynnar, y gall y claf mewn llawer o achosion osgoi aros yn yr ysbyty yn gyfan gwbl. Mae eich datganiad y prynhawn yma wedi cydnabod yr angen am well dealltwriaeth ym maes gofal sylfaenol o symptomau a thriniaeth sepsis. Eto i gyd, mae'n ymddangos bod yr ystadegau yr ydych wedi'u dyfynnu—maent yn ystadegau sydd i'w croesawu'n fawr—yn dangos y cynnydd yr ydym yn ei wneud mewn lleoliad gofal eilaidd. A ydych chi, fel Llywodraeth Cymru, yn mesur faint o achosion o sepsis sydd yn diweddu mewn gofal eilaidd, yn aml mewn unedau gofal dwys neu ddibyniaeth uchel, gafodd eu colli ar gyfle cynharach, o bosibl mewn gofal sylfaenol, fel bod gennym syniad p'un a yw nodau eich ymgyrch a nodau'r gwaith sy'n cael ei wneud i geisio datblygu gwell diagnosis cynnar mewn gwirionedd yn gwneud gwahaniaeth?

Deputy Minister, you will also be aware that the Sepsis Six requires doctors to start broad-spectrum antibiotic use within an hour. We spend a great deal of time in this Chamber talking about access to A&E departments, and we often think about conditions such as heart attacks, stroke, trauma as being the reasons why we need A&E departments as widespread as we do. But actually, in terms of patient outcome, it's respiratory distress and sepsis where that time is absolutely critical. I wonder how, when planning to look at potential further reconfiguration of emergency services across Wales, access to a quick diagnosis and treatment of sepsis will take part in your thinking.

Ddirprwy Weinidog, byddwch hefyd yn ymwybodol bod y Sepsis Six yn ei gwneud yn ofynnol i feddygon ddechrau defnyddio gwrthfiotigau sbectrwm-eang o fewn awr. Rydym yn treulio llawer o amser yn y Siambr hon yn sôn am fynediad i adrannau damweiniau ac achosion brys, ac rydym yn aml yn meddwl am gyflyrau fel trawiad ar y galon, strôc, trawma fel y rhesymau pam yr ydym angen adrannau damweiniau ac achosion brys mor eang ag yr ydym. Ond mewn gwirionedd, o ran canlyniadau cleifion, trafferthion anadlu difrifol a sepsis yw'r cyflyrau lle y mae'r amser hwnnw'n gwbl hanfodol. Tybed, wrth gynllunio i edrych ar ad-drefnu pellach posibl ar y gwasanaethau brys ar draws Cymru, sut y bydd mynediad at ddiagnosis a thriniaeth gyflym o sepsis yn rhan o'ch ffordd chi o feddwl.

On the issue of broad-spectrum antibiotics, which is, as you will know, part of the Sepsis Six, a speedy move to a narrow-spectrum antibiotic, following culture and sensitivity results, will actually have a huge range of benefits. Is actually reduces costs. It decreases incidents of superinfection and actually helps us in our battle to minimise the development of antibiotic-resistant bugs. Therefore, there's an opportunity to look at whether we have enough pathology and lab services operating across Wales to make sure that we can provide clinicians with as quick an opportunity as possible to be able to identify specific strains of infection and allow them to move their patients from broad-spectrum onto narrow-spectrum antibiotics as quickly as possible, as the most effective way of intervening. Are you confident that we have those facilities? Again, as politicians, we very rarely give a lot of consideration to them, but they are absolutely vital to the smooth working of a hospital system.

Ar fater gwrthfiotigau sbectrwm-eang, sydd, fel y gwyddoch, yn rhan o'r Sepsis Six, bydd symudiad cyflym at wrthfiotigau sbectrwm-cul, yn dilyn canlyniadau diwylliant a sensitifrwydd, mewn gwirionedd yn cael amrywiaeth eang o fuddion. Mewn gwirionedd mae'n lleihau costau. Mae'n lleihau achosion o uwch haint ac mewn gwirionedd yn ein helpu yn ein brwydr i leihau datblygiad bygiau sy'n gwrthsefyll gwrthfiotigau. Felly, mae cyfle i edrych i weld a oes gennym ddigon o wasanaethau patholeg a labordy sy'n gweithredu ar draws Cymru i wneud yn siŵr y gallwn roi cyfle cyn gynted â phosibl i glinigwyr allu nodi mathau penodol o haint ac i'w galluogi i symud eu cleifion o wrthfiotigau sbectrwm-eang i rai sbectrwm-cul cyn gynted ag y bo modd, fel y ffordd fwyaf effeithiol o ymyrryd. A ydych yn hyderus bod gennym y cyfleusterau hynny? Unwaith eto, fel gwleidyddion, anaml iawn yr ydym yn rhoi llawer o ystyriaeth iddynt, ond maent yn gwbl hanfodol i weithrediad esmwyth y system mewn ysbytai.

17:08 **Vaughan Gething** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Thank you for the comments and the questions. I'll deal with your final point about lab capacity and the ability to move from broader-range to narrow-range antibiotics. It's part of the point about treating the particular condition that's in front of you and the particular impact on that individual. Certainly, in the work of 1000 Lives and in the work that's been presented to me, no-one has come to me and said that there was a problem or a challenge in capacity. But, of course, as we seek to improve what happens, we'll always need to think about whether we've got capacity in the right place, whether it is joined up, what exists in what particular site and, regardless of where the individual is, whether the right care is there for them as well.

Diolch am y sylwadau a'r cwestiynau. Fe wnaf ymdrin â'ch pwynt olaf am gapasiti labordai a'r gallu i symud oddi wrth gwrthfiotigau ystod ehangach i rai ystod gul. Mae'n rhan o'r pwynt ynghylch trin y cyflwr penodol sydd o'ch blaen a'r effaith benodol ar yr unigolyn hwnnw. Yn sicr, yng ngwaith 1000 o Fywydau ac yn y gwaith sydd wedi cael ei gyflwyno i mi, nid oes neb wedi dod ataf a dweud bod problem neu her o ran capasiti. Ond, wrth gwrs, wrth i ni geisio gwella'r hyn sy'n digwydd, bydd bob amser angen i ni feddwl a yw'r capasiti gennym yn y lle cywir, a yw'n gydgysylltiedig, beth sy'n bodoli ym mha safle penodol ac, waeth ble y mae'r unigolyn, p'un a yw'r gofal cywir yno iddynt hefyd.

In terms of your invitation to comment on a future reconfiguration of emergency care, I will politely decline, because I think when we look at this I'm rather more interested in thinking about how we look at improvement in its broader sense. How do we look at the work that you started off on in terms of early recognition being crucial, to actually seeing improved outcomes, and the need to see that happen in the community-based care that takes place? Then, if there is to be the emergency service being called on—the Welsh ambulance service—that they recognise their part in it and their part in actually continuing that treatment. That's the whole point, because the treatment journey isn't simply about getting someone into an ambulance, scooping them up and giving them treatment somewhere else. It's actually about the treatment that takes place there and the assessment that's made. That's why, for example, the digipen technology going in will help to ensure that that information is available almost in real time. So, people don't need to hand over individual paper sheets that can get lost.

O ran eich gwahoddiad i roi sylwadau ar ad-drefnu gofal brys yn y dyfodol, byddaf yn gwrthod yn gwrtais, gan fy mod yn meddwl pan fyddwn yn edrych ar hyn fod gennyf ychydig yn fwy o ddiddordeb mewn meddwl am sut yr ydym yn edrych ar welliant yn ei ystyr ehangach. Sut ydym ni'n edrych ar y gwaith a ddechreuwyd gennych o ran bod cydnabyddiaeth gynnar yn hanfodol, i weld canlyniadau gwell mewn gwirionedd, a'r angen i weld hynny'n digwydd yn y gofal yn y gymuned? Yna, os bydd gwasanaeth brys yn cael ei alw-—gwasanaeth ambiwlans Cymru—eu bod yn cydnabod eu rhan ynddo a'u rhan mewn parhau â'r driniaeth honno. Dyna'r holl bwynt, gan nad yw'r daith driniaeth yn syml yn ymwneud â rhoi rhywun mewn ambiwlans, eu cipio nhw a rhoi triniaeth iddynt yn rhywle arall. Mewn gwirionedd mae'n ymwneud â'r driniaeth sy'n digwydd yno a'r asesiad sy'n cael ei wneud. Dyna pam, er enghraifft, y bydd y dechnoleg digipen yn helpu i sicrhau bod y wybodaeth ar gael bron mewn amser real. Felly, nid oes angen i bobl gyflwyno taflenni papur unigol a all fynd ar goll.

As you then review the effectiveness of what's happened—points have been made by a range of people—the effectiveness of treatment, that understanding if something's been missed, or whether something can be improved upon, that will really help with that audit trail, as well as the here and now treatment decisions that are being made by clinicians at every point in that journey. That's why I particularly raised the point about mortality reviews, and that's why the 1000 Lives improvement is so important, because that's where we'll see the real evidence of what's happening in practice, and that will inform the decisions that any responsible Government should make about how the services are configured, whether the capacity is in the right place to deliver the right care, at the right time and in the right place, as I will continue to say. Now, I think that consistent approach will really help us to do what we can and should do. As I said, this isn't about the Government saying, 'We will take credit for what's happening', this is about recognition of the condition and recognition of the excellence that exists already and the commitment from amongst our staff to continue to deliver outcomes that really will save lives. I just want to end by thanking again the staff of the NHS for all the work that they've done and the committed third sector patient groups, and to recognise we are making real progress in this area in NHS Wales. The challenge, of course, is how to make further progress in the future.

Wrth i chi wedyn adolygu effeithiolrwydd yr hyn sydd wedi digwydd—mae pwyntiau wedi cael eu gwneud gan amrywiaeth o bobl—effeithiolrwydd y driniaeth, y ddealltwriaeth honno os bydd rhywbeth wedi cael ei fethu, neu a oes modd gwella rhywbeth, a fydd wir yn helpu gyda'r trywydd archwilio hwnnw, yn ogystal â'r penderfyniadau triniaeth sy'n cael eu gwneud yn y fan a'r lle gan glinigwyr ar bob pwynt yn ystod y daith honno. Dyna pam yr oeddwn yn codi'r pwynt am adolygiadau marwolaethau yn benodol, a dyna pam mae'r gwelliant 1000 o Fywydau mor bwysig, oherwydd dyna lle y byddwn yn gweld y dystiolaeth go iawn o'r hyn sy'n digwydd yn ymarferol, a fydd yn llywio'r penderfyniadau y dylai unrhyw Lywodraeth gyfrifol eu gwneud am y ffordd y mae'r gwasanaethau yn cael eu trefnu, a yw'r gallu yn y lle iawn i ddarparu'r gofal iawn, ar yr adeg iawn ac yn y lle cywir, fel y byddaf yn parhau i ddweud. Yn awr, rwy'n meddwl y bydd y dull cyson hwnnw o weithredu wir yn ein helpu ni i wneud yr hyn y gallwn ac y dylem ei wneud. Fel y dywedais, nid yw hyn yn ymwneud â'r Llywodraeth yn dweud, 'Byddwn yn cymryd y clod am yr hyn sy'n digwydd', mae hyn yn ymwneud â chydnabod y cyflwr a chydnabod rhagoriaeth sydd eisoes yn bodoli a'r ymrwymiad o blith ein staff i barhau i sicrhau canlyniadau fydd wir yn achub bywydau. Hoffwn gloi drwy ddiolch unwaith eto i staff y GIG am yr holl waith y maent wedi'i wneud a'r grwpiau cleifion trydydd sector ymroddedig, a chydnabod ein bod yn gwneud cynnydd gwirioneddol yn y maes hwn yn GIG Cymru. Yr her, wrth gwrs, yw sut i wneud cynnydd pellach yn y dyfodol.

17:11 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Thank you, Deputy Minister.

Diolch, Ddirprwy Weinidog.

17:11

## 8. Gorchymyn Cynllunio Gwlad a Thref (Pŵer i Drechu Hawddfreintiau a Cheisiadau gan Ymgymerwyr Statudol) (Cymru) 2015

## 8. The Town and Country Planning (Power to Override Easements and Applications by Statutory Undertakers) (Wales) Order 2015

Senedd.tv Fideo Video

**Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Item 8 is the Town and Country Planning (Power to Override Easements and Applications by Statutory Undertakers) (Wales) Order 2015. I call on the Minister for Natural Resources to move the motion. Carl Sargeant.

Eitem 8 yw Gorchymyn Cynllunio Gwlad a Thref (Cymru) 2015 (Y pŵer i Ddiystyru Hawddfreintiau a Cheisiadau gan Ymgymerwyr Statudol). Galwaf ar y Gweinidog Adnoddau Naturiol i gynnig y cynnig. Carl Sargeant.

Cynnig NDM5841 Jane Hutt

Motion NDM5841 Jane Hutt

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru, yn unol â Rheol Sefydlog 27.5:

To propose that the National Assembly for Wales, in accordance with Standing Order 27.5:

Yn cymeradwyo bod y fersiwn ddrafft o Orchymyn Cynllunio Gwlad a Thref (Pŵer i Drechu Hawddfreintiau a Cheisiadau gan Ymgymerwyr Statudol) (Cymru) 2015 yn cael ei llunio yn unol â'r fersiwn ddrafft a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 22 Medi 2015.

Approves that the draft The Town and Country Planning (Power to Override Easements and Applications by Statutory Undertakers) (Wales) Order 2015 is made in accordance with the draft laid in the Table Office on 22 September 2015.

*Cynigiwyd y cynnig.*

*Motion moved.*

17:11 **Carl Sargeant** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

*Y Gweinidog Cyfoeth Naturiol / The Minister for Natural Resources*

I formally move.

Cynigiaf yn ffurfiol.

17:11 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

There is no debate. Therefore, the proposal is to agree the motion. Does any Member object? The motion is therefore agreed in accordance with Standing Order 12.36.

Nid oes unrhyw ddadl. Felly, y cynnig yw derbyn y cynnig. A oes unrhyw Aelod yn gwrthwynebu? Felly, caiff y cynnig ei dderbyn yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.

*Derbyniwyd y cynnig yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.*

*Motion agreed in accordance with Standing Order 12.36.*

17:12 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

That concludes today's business.

Dyna ddiwedd busnes heddiw.

*Daeth y cyfarfod i ben am 17:12.*

*The meeting ended at 17:12.*